Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH (CYLLIDEB)** | | **THE EXECUTIVE (BUDGET)** |
| **DYDD LLUN 6 TACHWEDD 2017 10.00 o'r gloch** | | **MONDAY 6 NOVEMBER 2017 10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

John Griffith, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **CYNLLUN YMGYNGHORI CYLLIDEB 2018/19** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol.

3 **CYNLLUN RHEOLI A CHYNLLUN GWEITHREDU SAFLE TREFTADAETH Y BYD CESTYLL A MURIAU TREFI BRENIN EDWARD YNG NGWYNEDD 2018/2028** (Tudalennau 9 - 234)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

4 **CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2018/19** (Tudalennau 235 - 252)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgrwtini Corfforaethol / Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 31.10.17 / 6.11.17 |
| **Pwnc:** | Cynllun Ymgynghori Cyllideb 2018/19 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | I ennyn cytundeb i'r cynllun atodol |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Aled M. Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Dafydd Rh. Thomas |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Scott Rowley |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Gethin Morgan<br>752111<br>gethinmorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Dd/B |

**1 – Argymhelliad/ion**

1.1. Mae'r atodol yn cynnig disgrifiad lefel uchel o'r cynllun ymgynghori arfaethedig ar gyfer y gyllideb i'w wireddu yn ystod y cyfnod – wythnos yn cychwyn Tachwedd 6ed hyd at Rhagfyr 29ain.

1.2. Mae'n cyfleu dull weithredu traws sector gyda'r bwriad o gyflwyno sylwadau'r dinesydd drwy –

a. Y Wasg
b. Cynghorau Tref a Chymuned
c. Gweithdai Rhanddeiliaid
d. Y We
e. Cyfryngau Cymdeithasol
f. Panel Dinasyddion
g. Gweithdai Plant a Phobl Ifanc

1.3. Gofynnir i'r Pwyllgor archwilio'r cynllun arfaethedig fel y gellid gwella'r cynlluniau ymgynghori cyllidebol i'r dyfodol ac hefyd uchafu ymwybyddiaeth corfforaethol o'r gwaith disgwyliedig dros y cyfnod a nodir drwy gytuno I'r cynllun a nodir.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

2.1 Mae'r cynllun hwn yn cael ei gynnig fel cynllun ymgynghori ar faterion cyllidol sydd yn cyd-fynd a datblygaid y Cyngor dros y blynyddoedd I ddod ac sy'n cael ei amlygu yng nghynllun newydd y Cyngor a fabwysiadwyd ddiwedd mis Medi eleni.

2.2 Mae'r ymgynghoriad yma yn cyd-fynd a'r nod o '*gynnwys a pharhau i ymgysylltu gyda thrigolion Ynys Mon ynghylch y ffordd y gwneir penderfyniadau*'

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**4.1** Oes ym marn y Pwyllgor unrhyw randdeiliad sydd angen eu cynnwys sydd ddim ar y rhestr presennol?
**4.2** Pa ddatblygiad o'r broses eleni sydd yn welliant ar y broses llynedd?
**4.3** Oes ym marn y Pwyllgor ychwanegiadau penodol sydd ei angen I'r cynllun yn ei gyfanrwydd?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Mae'r cynllun atodol wedi ei drafod yng nghyfarfod diweddar y Bwrdd Ymgysylltu & Ymgynghori (12.9.17) a roddodd yr arweiniad fod angen gwell presenoldeb a thrafodaeth gyda partneriaid fel rhan o'r cynllun ymgynghori eleni.

Yn ogystal, cyflwynwyd y cynllun i sesiwn briffio ar gyfer holl aelodau'r Cyngor Sir ar y 5ed o Hydref.

| |
|---|
| |

| 6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| Mae’r cynllun wedi ei lunio i sicrhau mewnbwn ac ymateb cynifer o drigolion a phosib o wahanol ardaloedd a chefndiroedd. Bydd asesiadau effaith parthed y cynigion penodol yn cael ei gysidro fel rhan o drafodaeth ehangach y broses. |

| 7 – Oblygiadau Ariannol |
|---|
| Bydd oblygiadau ariannol gwireddu’r cynllun hwn yn fychan iawn. Adnodd ac amser staff fydd ei angen i’w wireddu gydag ychydig o wariant refeniw yn cael ei ragweld ar gynnal paneli a trafodaethau gyda trigolion penodol. |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| Atodiad A – Cynllun Ymgynghori / Cyfathrebu Cynnigion Cyllidol Cyngor Sir Ynys Mon 2018/19 (Rhan 2) |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| Cynllun y Cyngor 2017-2022 |

DRAFT

DRAFT

**CYNLLUN YMGYNGHORI / CYFATHREBU –**

**CYNNIGION CYLLIDEBOL CYNGOR SIR YNYS MÔN 2018/19 – RHAN 2**

Pwrpas y cynllun yma yw cydnabod y meysydd o waith fydd ei angen ar y Cyngor i wireddu'r dyhead o ymgynghori'n eang a thrylwyr, fel bod cynnig terfynol y Pwyllgor Gwaith o gyllideb 2018/19 i'r Cyngor ym mis Chwefror 2018 yn cael ei wneud gyda'r dealltwriaeth o safbwyntiau gwahanol a cydnabyddiaeth o'r effaith, y cyfleoedd a'r risgiau sydd yn bodoli.

Mae'r cynllun yma yn dilyn gwireddiad Rhan 1 oedd yn cychwyn y stori (ar ddiwedd yr haf) ac yn rhoi'r brasamcan i'n dinasyddion / partneriaid o'r heriadau sydd yn ein gwynebu fel corff cyhoeddus.

Mae'r amserlen canlynol yn cwmpasu'r dyddiadau Tachwedd y 7fed - Rhagfyr 29ain.

**CYNLLUN YMGYNGHORI / CYFATHREBU –**

## CYNNIGION CYLLIDEBOL CYNGOR SIR YNYS MÔN 2018/19 – RHAN 2

Pwrpas y cynllun yma yw cydnabod y meysydd o waith fydd ei angen ar y Cyngor i wireddu'r dyhead o ymgynghori'n eang a thrylwyr, fel bod cynnig terfynol y Pwyllgor Gwaith o gyllideb 2018/19 i'r Cyngor ym mis Chwefror 2018 yn cael ei wneud gyda'r dealltwriaeth o safbwyntiau gwahanol a cydnabyddiaeth o'r effaith, y cyfleoedd a'r risgiau sydd yn bodoli.

Mae'r cynllun yma yn dilyn gwireddiad Rhan 1 oedd yn cychwyn y stori (ar ddiwedd yr haf) ac yn rhoi'r brasamcan i'n dinasyddion / partneriaid o'r heriadau sydd yn ein gwynebu fel corff cyhoeddus.

Mae'r amserlen canlynol yn cwmpasu'r dyddiadau Tachwedd y 7fed - Rhagfyr 29ain.

| Cyfeirnod | Dyddiad / Cyfnod | Digwyddiadau / Ymgyrchoedd a Phwrpas | Arwain | Cymorth | Er Gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Medi | | Cyllid | | |

Tudalen 5

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfarfod Pwyllgor Gwaith i dderbyn y MTFP a rhoi sel bendith i'r ffordd ymlaen am y 3 blynedd nesa' | | Cyllid / Tim Rheoli Perfformiad a Busnes | UDA / Penaethiaid |
| B | 31.10.17 | Cyfarfod Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol fydd yn craffu ar effaith / meysydd o bryder sydd wedi'i cydnabod felly yn y gweithdai mis Medi / Hydref ac hefyd cysidro'r cynllun ymgynghori. | Rheolwr Sgrwtini Corfforaethol | Penaethiaid | Cyllid / Deilyddion Portffolio |
| C | 6.11.17 | Cyfarfod Pwyllgor Gwaith i gynnig arbedion arfaethedig 2018/19 i bwrpas ymgynghori (gan ddeall effeithiau'r newidiadau). | Cyllid | Tim Rheoli Perfformiad a Busnes | UDA a Phenaethaid |
| Ch | Diwedd Tach' | Cyfarfod Grwp Rhanddeiliaid Cynghorau Tref a Chymuned i drafod cyfleoedd ac oblygiadau y cynnigion posib. | Arweinydd | Cyllid / Tim Rheoli Perfformiad a Busnes | J Huw Jones Penaethiaid |
| D | I'w bennu | *****Gweithdy Rhanddeiliaid yn y Siambr / YB1 i ennyn deallusrwydd a thrafodaeth o'r cyfleoedd a risgiau cynnigion arfaethedig 2018/19***** | Rheolwr Cynllunio Busnes a Pherfformiad | Tim y Wasg Uwch Gyfrifydd Cyllid Arweinydd a Phrif Weithredwr | Penaethiaid |
| **Ymgyrch hyrwyddo'r arbedion yn yr 'arena' cyhoeddus drwy amryw o sianeli gwahanol…….** | | | | | |
| DD | 31.10.17 | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Sesiwn briffio i'r Wasg ynglyn a chynnigion cychwynol cyllideb 2018/19. Codi ymwybyddiaeth y darllenwyr a cadw'n dynn i linellau corfforaethol o gyfathrebu. *Allbwn fydd erthyglau yn y wasg traddodiadol / ar y we ac o bosib ar y teledu (eitem newyddion)* | Swyddog y Wasg | Cyllid / Tim Rheoli Perfformiad a Busnes | Penaethiaid a Staff |
| E | 07.11.17 – 29.12.17 | Ymgyrch hyrwyddo'r arbedion arfaethedig ar y we gydag holiadur pwrpasol wedi ei lunio i dderbyn sylwadau trigolion yr Ynys. Y defnydd ehangach o FB a Twitter yn hanfodol bwysig yma bellach yn ogsytal a cyfweliad radio i'r Arweinydd ar MonFM. | Tim Rheoli Perfformiad a Busnes | Cyllid / Lleisiau'n Lleol | Staff |
| F | 07.11.17 – 31.12.17 | Defnydd o banel dinasyddion a'r grwpiau cymunedol sydd wedi'i ffurfio a fforymau priodol megis Cyngor Ieuenctid ac Ysgolion i roi adborth ar feysydd sydd ag effaith uniongyrchol ar unigolion y fforymau hynny. ***(i'w gadarnhau)*** | Rheolwr Cynllunio Busnes a Pherfformiad | Medrwn Mon<br>Tim y Wasg | PW Cynorthwyol |



Bydd y cynllun uchod yn ein galluogi fel Swyddogion i goladu a chasglu'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn ffurfio adroddiad pwrpasol i gynyddu'r ymwybyddiaeth o safbwyntiau gwahanol unigolion a mudiadau i'r cynigion arfaethedig i bwrpas adrodd ar y rhain (i) mewn sesiwn briffio cyn ddiwedd Ionawr a (ii) yng nghyfarfod Sgrwtini Corfforaethol ddechrau mis Chwefror 2018.

DRAFT

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **Tachwedd 6ed 2017** |
| **Pwnc:** | **Cynllun Rheoli a Chynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi Brenin Edward yng Ngwynedd 2018-2028** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng. Carwyn Jones (Portffolio) & Cyng. Richard Dew** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Llio Prydderch Ifan**<br><br>**LlioIfan@ynysmon.gov.uk**<br>**(01248) 752477** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i Aelodau Etholedig Ward Seiriol** |
| | |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Argymhelliad:**

**Cytuno i fod yn gyd lofnodwyr Cynllun Rheoli a Chynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi Brenin Edward 2018 – 2028 o safbwynt Castell Biwmares.**

1. **Cefndir**

1.1 Arysgifiwyd Cestyll a Muriau Trefi Brenin Edward yng Ngwynedd fel safle unigol gan UNESCO ar restr Safleoedd Treftadaeth y Byd yn 1986 fel safle diwylliannol o Werth Byd Eang Eithriadol (Outstanding Universal Value). Mae'r safle yn cynnwys Castell Biwmares, Castell a Muriau Tref Caernarfon, Castell a Muriau Tref Conwy a Chastell Harlech. Roedd ymysg y saith safle cyntaf yn y Deyrnas Unedig i gael ei arysgrifio i'r lefel yma o bwysigrwydd rhyngwladol.

1.2 Hyrwydda UNESCO gynhyrchiad o gynlluniau rheoli i bob Safle Treftadaeth y Byd i gasglu ynghyd yr holl bartïon cyfrifol a galluogi ymdriniaeth cyd-gysylltiedig i reolaeth y safle. Mae'n hanfodol i ddiogelu'r safle pwysig hon fod cynllun rheoli a gytunwyd arno gan Cadw, partneriaid a chymunedau lleol yn cael ei chynhyrchu, mabwysiadu, a'i adolygu'n rheolaidd. Mae Cyngor Sir Ynys Môn, fel awdurdod cynllunio lleol Biwmares yn un o brif barneriaid y cynllun rheoli.

1.3 Bu'r cynllun rheoli blaenorol yn weithredol ers 2004, ac fe gafodd ei fabwysiadau gan y Cyngor Sir ar y 5ed o Dachwedd 2004. Mae'r Cynllun hwnnw i'w weld ar wefan y Cyngor

Sir - http://www.ynysmon.gov.uk/cynllunio-a-gwastraff/amgylchedd-adeiledig-arfordirol-a-naturiol-/cynllun-rheoli-safle-treftadaeth-y-byd

1.4 Mae Llywodraeth Cymru, yn dilyn ymgynghoriad, wedi paratoi fersiwn drafft newydd o Gynllun Rheoli a Chynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi Brenin Edward yng Ngwynedd ar gyfer y cyfnod hyd at 2028.

1.5 Cyn derbyn gohebiaeth ffurfiol gan Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Awdurdod fel un o'r prif bartneriaid fod yn gyd-lofnodydd o'r Cynllun Rheoli a'r Cynllun Gweithredu gofynnodd Cadw am gadarnhad fod yr Awdurdod yn cytuno i hyn.

## 2. Argymhellion

2.1 I'r Awdurdod, fel un o'r prif bartneriaid, gytuno mewn egwyddor i fod yn gyd lofnodydd o'r Cynllun

2.2 Prif swyddogaeth y cynllun rheoli yw cyflwyno polisïau a gweithredoedd i sicrhau fod Gwerth Byd-eang Eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd yn cael ei gadw a'i gynnal a'i gyfathrebu. Gall hefyd:

- weithredu fel arf i gynorthwyo datblygu hunanaieth y Safle Treftadaeth y Byd – beth mae'n olygu i gymunedau a rhanddeiliaid heddiw, yn ogystal â hybu dealldwriaeth o'r gorffennol
- sicrhau dull rhesymegol i reolaeth y Safle Treftadaeth y Byd ar draws y pedwar lleoliad (yn cynnwys y pedwar awdurdod cynllunio lleol, Cyngor Sir Ynys Môn, Awdurdod Parc Cenedlaethol, Eryri, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Gwynedd)
- ffurfio ffocws i randdeiliaid ac annog datblygiad gwaith partneriaeth effeithiol
- ystyried twristiaeth gynaliadwy a sut gall hyn gael ei reoli, annog effeithiau economaidd ac atgynhyrchiol gall y Safle Treftadaeth y Byd ei gael a chwarae rhan arbennig o bwysig mewn diwylliant ac addysg.

2.3 Un o flaenoriaethau allweddol UNESCO ac ICOMOS yw hybu lles cymdeithasol Safleoedd Treftadaeth y Byd drwy gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd, cyfranogiad cymunedol a chydweithrediad rhyngwladol. Mae'n bwysig hefyd i drosglwyddo arwyddocâd y Safle Treftadaeth y Byd drwy ddathlu gwahanolrwydd diwylliannol. Mae datblygu balchder dinesig yn y cymunedau unigryw sy'n byw a gweithio o fewn y Safle Treftadaeth y Byd yn fan cychwyn allweddol i drawsnewid eu hamgylchiadau cymdeithasol ac economaidd, ac i weithredu fel gyrrwr i adfywiad economaidd, twristiaeth gynaliadwy a

chynhwysiad cymdeithasol.

2.4 Nod y Cynllun Rheoli yw disgrifio'n syml ac effeithiol:

- priodoleddau'r Safle Treftadaeth y Byd sy'n cyfrannu i'w Gwerth Byd Eang Eithriadol ac sydd rhaid eu diogelu i alluogi cadw ei arwyddocâd;
- pwysleisio'r materion a'r cyfleoedd sy'n wynebu rheolaeth o'r Safle Treftadaeth y Byd i'r dyfodol;
- nodi'r polisïau a'r gweithredoedd fydd yn arwain y broses yma

## 3. <u>Crynodeb Gweithredol</u>

3.1 Allan o 12 amcan yn y cynllun gweithredu gwreiddiol, mae 10 amcan sydd yn berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn. Gweler yr amcanion isod;

Amcan 1: Cynnal y cestyll a muriau tref i'r safonau cadwraeth wladol a rhyngwladol uchaf.

Amcan 2: Cadw, hyrwyddo, a dehongli'r dreftadaeth archeolegol er budd y cenedlaethau presennol a dyfodol.

Amcan 3: Gwarchod lleoliad y Safle Treftadaeth y Byd er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Amcan 4: Cefnogi a hyrwyddo gwahanolrwydd lleol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd, gan adnabod nodweddion ac amrywiaeth pob un o'r pedair tref.

Amcan 5: Defnyddio statws Safle Treftadaeth y Byd I gefnogi amrywiaeth economaidd a thyfiant yn yr economi lleol a rhanbarthol.

Amcan 6: Darparu profiad ymwelydd sy'n unigryw ac o'r safon uchaf.

Amcan 7: Marchrnata a hyrwyddo'r pedwar lleoliad o Biwmares, Caernarfon, Conwy a Harlech fel un Safle Treftadaeth y Byd i sicrhau dull cydlynol a integredig.

Amcan 8: Annog mwy o ddefnydd o dulliau teithio cynaladwy fel modd o ymweld a phob cyrchfan o fewn y Safle Treftadaeth y Byd heb niwed i'r rhinweddau sy'n arddangos unigrywiaeth y Safle Treftadaeth y Byd ar lefel rhyngwladol.

Amcan 9: Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo dealltwriaeth o Dreftadaeth y Byd ymysg amrywiaeth o gynulleidfaoedd, peri balchder ymysg cymunedau lleol yn eu diwylliant a threftadaeth unigryw.

Amcan 10: Adnabod, diddymu a/neu liniaru risgiau i Werth Byd Eang Eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd.

3.2 I gyd-fynd â’r amcanion hyn, mae rolau a chyfrifoldebau Cyngor Sir Ynys Môn a rhagwelir yn cynnwys yr isod;

Amcan 1:
- Lle bo'n briodol, CDLl i osod amodau cynllunio ar gyfer Biwmares. Yn unol â Chynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn, rhaid i bob cyfleuster newydd fod yn seiliedig ar ansawdd.

Amcan 2:
- Darparu arbenigedd mewnol mewn adeiladau treftadaeth a darparu arbenigedd archeolegol trwy Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd ar gyfer Biwmares.
- Lle bo'n briodol CDLl i osod amodau cynllunio ar gyfer Biwmares.

Amcan 3:
- Adran Gynllunio CSYM gyda Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) presennol ar gyfer Tref Biwmares. CSYM i fonitro ac yn adolygu'r Cyfarwyddyd hwn o dro i dro ac yn ystyried Cyfarwyddiadau pellach lle bo hynny'n briodol.
- Adran Gynllunio CSYM i annog adranau cysylltiedig i hyrwyddo arferau gorau ymrwymiadau statudol yn gweithio gydag Safleoedd Treftadaeth y Byd.
- Adran Gynllunio CSYM drwy'r system gynllunio statudol i barhau i gofnodi a monitro datblygiadau ym Miwmares yn ogystal ag asesu eu heffaith ar Safleoedd Treftadaeth y Byd.

Amcan 4:
- Cynllunio CSYM lle y bo'n briodol ym Miwmares, i ddefnyddio Gwerthfawrogiad Cymeriad Ardaloedd Cadwriaeth a Chanllaw Cynllunio Atodol wedi ei ddiweddaru i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth.

Amcan 5:
- Yn unol â Chynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn, Amcan Strategol 5: “Sicrhau fod Cyngor Ynys Môn gydag ymateb integredig a chyson sy'n galluogi buddsoddi ar yr Ynys”.
- Cefnogaeth gan Fforwm Partneriaeth Cyrchfan Flynyddol Ynys Môn.

Amcan 6:

- Lle bo'n briodol CDLl i osod amodau cynllunio ar gyfer Biwmares yn unol â Chynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn, Amcan Strategol 5: 'Gweithio gyda Priffyrdd DU / CSYM i annog a sicrhau arwyddion twristiaeth priodol'.

Amcan 7:

- Yn unol â Chynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn, Amcan Strategol 5: 'Gweithio gyda Priffyrdd DU / CSYM i annog a sicrhau arwyddion twristiaeth priodol'.

Amcan 8:

- Fel yr uchod, yn unol â Chynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn, Amcan Strategol 5: 'Gweithio gyda Priffyrdd DU / CSYM i annog a sicrhau arwyddion twristiaeth priodol'.

Amcan 9:

- Gwasanaeth Addysg CSYM i gefnogi'r polisi hwn ar gyfer Biwmares.

Amcan 10:

- Gwasanaeth Cynllunio CSYM i gefnogi'r polisi hwn ar gyfer Biwmares.

**4. <u>Oblygiadau Adnoddau</u>**

4.1 Nid oes ymrwymiadau cyllid penodol i'r Awdurdod yn codi o'r prîf Gynllun Rheoli. Mae oblygiadau adnoddau ac amser staff i weithredu nifer o bolisiau Amcanion y Cynllun Gweithredu. Mae'r mwyafrif llethol o'r gwaithgareddau hyn yn rhan o ddyletswyddau statudol yr Awdurdod fel awdurdod cynllunio lleol sy'n bodoli eisioes. Mae y rhan fwyaf o'r dyletswyddau eraill yn berthnasol â rôl hyrwyddo twristiaeth y Cyngor. Mae asesiad wedi ei baratoi o'r oblygiadau yma ac mae swyddogion perthnasol wedi cymryd rhan yn yr asesiad yma ac heb godi pryderon gan ei fod yn barhad o oblygiadau presennol.

**4.2 Diweddariad yw hwn o'r Cynllun a fabwysiadwyd yn 2004. Nid oes disgwyliadau newydd / gwahanol ar y Cyngor.**

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
| --- |
| Peidio cytuno i lofnodi'r cynllun – gwrthodwyd gan y byddai yn gallu arwain at wrthod statws Treftadaeth y Byd gan UNESCO. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'n hollbwysig bod y pedwar awdurdod cynllunio lleol perthnasol sef, Cyngor Sir Ynys Môn, Awdurdod Parc Cenedlaethol, Eryri, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Gwynedd yn cefnogi'r Cynllun hwn. |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | • Nid oes ymrwymiadau cyllid i'r Awdurdod yn codi o'r prif Gynllun Rheoli. Mae oblygiadau adnoddau ac amser staff i weithredu nifer o bolisïau Amcanion y Cynllun Gweithredu. Mae'r mwyafrif llethol o'r gweithgareddau hyn yn rhan o ddyletswyddau statudol yr Awdurdod fel awdurdod cynllunio lleol sy'n bodoli eisoes. Nid yw hwn yn glir - mae'n amwys o safbwynt yr ymrwymiad cyllidol. Byddwn yn awyddus i gael mwy o eglurder ynghylch hyn.<br><br>*Wedi ymateb i'r sylwad hwn ymhellach ym mhwynt 4.1*<br><br>• Mae wedi nodi bod y rhan fwyaf o'r oblygiadau adnoddau/cyllidol yn rhan o gyfrifoldeb statudol CSYM. Pa agwedddau oherwydd pwysau ariannol fydd yn anodd iawn eu cyflawni yn fuan?<br><br>*Wedi ymateb i'r sylwad hwn ymhellach ym mhwynt 4.1*<br><br>• Am ba hyd rydym yn llofnodi'r cynllun hwn? Unwaith ac am byth?<br><br>*Mae'r Cynllun rheoli yn fframwaith strategol 10 mlynedd ac bydd disgwyl ymrwymo i'r strategaeth unwaith ac am byth - bydd adolygiad ar ôl tair mlynedd ac fe fydd cyfle gan y prif bartneriaid gyfrannu a chwarae rhan allweddol mewn unrhyw newidiadau / gwelliannau sydd angen.* |

| | | |
|---|---|---|
| 2 | **Cyllid / Adran 151**<br>(mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro**<br>(mandadol) | • Yn berthnasol i Aelodau Etholedig Ward Seiriol yn unig<br><br>*Wedi ymateb i'r sylwad yn yr adroddiad hon.*<br><br>• Dim rheswm i'r ddogfen beidio a'i chyhoeddi i'r cyhoedd.<br><br>*Wedi ymateb i'r sylwad yn yr adroddiad hon.* |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| A - Cynllun Rheoli STB Cestyll a Muriau Trefi Brenin Edward yn Ngwynedd 2018 – 2028 |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| • Cynllun Gweithredu STB Cestyll a Muriau Trefi Brenin Edward yn Ngwynedd 2018 – 2028 – Rolau a Chyfrifoldebau CSYM<br>• 'Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru' – Cadw Mai 2017 |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd

## Cynllun Rheoli 2018–28: Cynllun Gweithredu



Treftadaeth y Byd • World Heritage • Patrimoine Mondial

Cadw

# Rhestr o Dalfyriadau

| | |
|---|---|
| **ASC** | **Ardoll Seilwaith Cymunedol** |
| **CAH** | **Cofnod amgylchedd hanesyddol** |
| **ALl** | **Awdurdod lleol** |
| **CDLl** | **Cynllun datblygu lleol** |
| **ACLl** | **Awdurdod cynllunio lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)** |
| **CHCC** | **Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru** |
| **GCE** | **Gwerth Cyffredinol Eithriadol** |
| **GSSAY** | **Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr** |
| **APCE** | **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri** |
| **CCA** | **Canllawiau cynllunio atodol** |
| **Safle/oedd** | **Safle/oedd Treftadaeth y Byd** |

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.

Llywodraeth Cymru
Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 03000 256000

Ebost: cadw@cymru.gsi.gov.uk
www.gov.wales/cadw

Digidol ISBN 978-1-78859-488-2

OGL © Hawlfraint y Goron 2017, Llywodraeth Cymru, Cadw, ac eithrio lle y'i nodir. WG31143

# Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd 2018–28: Cynllun Gweithredu

Dylid darllen y cynllun gweithredu hwn ar y cyd â Chynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd 2018–28.

**Amcan 1:** Cynnal y cestyll a muriau trefi i'r safonau cadwraeth cenedlaethol a rhyngwladol uchaf.

**Amcan 2:** Gwarchod, hyrwyddo a dehongli'r dreftadaeth archaeolegol er budd cenedlaethau heddiw ac yfory.

**Amcan 3:** Diogelu lleoliad y Safle Treftadaeth y Byd er budd cenedlaethau'r dyfodol.

**Amcan 4**: Cefnogi a hyrwyddo natur nodedig leol o fewn y Safle, gan gydnabod nodweddion ac amrywiaeth y pedair tref.

**Amcan 5:** Defnyddio statws Safle Treftadaeth y Byd i gefnogi amrywiaeth a thwf economaidd cynaliadwy yn yr economi leol a rhanbarthol.

**Amcan 6:** Cynnig profiad i ymwelwyr sy'n unigryw ac o'r ansawdd uchaf.

**Amcan 7:** Marchnata a hyrwyddo'r pedwar lleoliad, sef Biwmares, Caernarfon, Conwy a Harlech fel un Safle Treftadaeth y Byd er mwyn sicrhau dull gweithredu cydlynol ac integredig.

**Amcan 8:** Annog mwy o bobl i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy wrth ymweld â phob un o'r cyrchfannau yn y Safle heb effeithio'n andwyol ar y nodweddion sy'n dangos natur unigryw y Safle ar lefel ryngwladol.

**Amcan 9:** Codi ymwybyddiaeth a hybu dealltwriaeth o Dreftadaeth y Byd ymysg amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gan gynnwys cymunedau lleol, gan ennyn balchder yn eu diwylliant a'u treftadaeth unigryw.

**Amcan 10:** Meithrin gwell dealltwriaeth o'r Safle a helpu i lywio'r trefniadau rheoli yn y dyfodol yn well.

**Amcan 11:** Nodi, dileu a/neu liniaru risgiau i Werth Cyffredinol Eithriadol y Safle.

**Amcan 12:** Cydnabod pwysigrwydd meithrin partneriaethau sy'n bodoli eisoes a datblygu partneriaethau newydd, fel sy'n briodol er mwyn cefnogi'r broses barhaus o reoli'r Safle.

| Camau Gweithredu | Amserlen<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | Cyfrifoldeb<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | Allbynnau Mesuradwy | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1** | | **Cynnal y cestyll a muriau trefi i'r safonau cadwraeth cenedlaethol a rhyngwladol uchaf. ¬** | | |
| **Polisi 1A** | | Caiff yr holl waith atgyweirio i'r cestyll a muriau trefi ei gynnal yn unol â'r canllawiau arfer gorau, yn cynnwys cadw at *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (*Egwyddorion Cadwraeth*) Cadw.[1] | | |
| Bydd pob aelod o staff sy'n rheoli gwaith yn cael hyfforddiant priodol wrth gymhwyso *Egwyddorion Cadwraeth Cadw*. | Parhaus | Cadw | Prosiectau effeithiol, wedi'u rheoli'n dda. | Caiff y Safle ei reoli i'r safonau uchaf.<br>Cymerir camau gweithredol i warchod adeiledd hanesyddol y Safle. |
| **Polisi 1B** | | Caiff gwaith atgyweirio a nodwyd yn yr adolygiad arolygu bob pum mlynedd ei flaenoriaethu, ei gyllido a'i weithredu o fewn yr amser angenrheidiol a nodwyd. | | |
| Paratoi cynllun gweithredu wedi'i gostio a'i flaenoriaethu yn seiliedig ar ganlyniad adolygiad arolygu bob pum mlynedd a rhoi safonau arfer gorau ar waith. | Byrdymor | Cadw | Cynllun gweithredu wedi'i gostio a'i flaenoriaethu. | Caiff camau gweithredu â blaenoriaeth er mwyn gwarchod adeiledd hanesyddol y Safle eu nodi a'u rhoi ar waith. |
| Bydd y grŵp llywio yn adolygu'r cynllun gweithredu yn rheolaidd, yn unol â blaenoriaethau cyllido, ac yn craffu ar y broses o'i roi ar waith. | Parhaus | Grŵp llywio'r Safle | Fel uchod. | Fel uchod. |

[1] *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011. www.cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Conservation_Principles_CY.pdf

| **Camau Gweithredu** | **Amserlen**<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | **Cyfrifoldeb**<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | **Allbynnau Mesuradwy** | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi 1C** | | Caiff cyfleusterau i ymwelwyr eu cynllunio er mwyn gwella'r Safle a'i leoliad er mwyn osgoi unrhyw effaith andwyol ar y Gwerth Cyffredinol Eithriadol nac ar leoliad unrhyw ased hanesyddol arall gerllaw. | | |
| Caiff pob cyfleuster newydd i ymwelwyr ei gynllunio yn unol ag arfer gorau a chan gymhwyso trefniadau gwerthuso priodol, gan gynnwys llunio asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth ac ymgynghori â rhanddeiliaid. | Parhaus | Cadw | Nifer yr asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth a chanlyniadau'r asesiadau hynny. | Cynigir cyfleusterau o'r radd flaenaf i ymwelwyr sy'n parchu GCE y Safle. |

| Camau Gweithredu | Amserlen<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | Cyfrifoldeb<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | Allbynnau Mesuradwy | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan 2** | | **Gwarchod, hyrwyddo a dehongli'r dreftadaeth archaeolegol er budd cenedlaethau heddiw ac yfory. ¬** | | |
| **Polisi 2A** | | Cynhelir gwerthusiad archaeolegol o bob prosiect a allai effeithio ar dreftadaeth archaeolegol claddedig o fewn y Safle Treftadaeth y Byd, neu ei leoliad hanfodol, er mwyn llywio unrhyw benderfyniadau a wneir. | | |
| **Polisi 2B** | | Cymerir yn ganiataol y caiff unrhyw ddatblygiadau a fyddai'n arwain at golli gweddillion archaeolegol arwyddocaol eu gwrthod. Bydd opsiynau lliniaru yn gymesur ag arwyddocâd a lle y bo'n briodol, byddant yn cynnwys cadw dyddodion a gweddillion arwyddocaol *in situ*. | | |
| Nodi a mapio ardaloedd sy'n sensitif yn archaeolegol yn y pedair tref. | Byrdymor | ACLlau a'u cynghorwyr archaeolegol | Creu map sensitifrwydd ar gyfer y pedair tref. | Ceir gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o dreftadaeth archaeolegol ym mhob un o'r pedair tref. |
| Sicrhau bod trafodaethau cyn gwneud cais â datblygwyr yn cynnwys ystyried potensial archaeolegol. | Parhaus | ACLlau a'u cynghorwyr archaeolegol | Nifer y trafodaethau cyn gwneud cais a chanlyniadau. | Rhoddir sylw i ystyriaethau archaeolegol yn ystod cam cynnar yng nghynlluniau datblygwyr. |
| **Polisi 2C** | | Caiff asedau hanesyddol morol eu hasesu, eu cofnodi a'u diogelu yn ôl eu harwyddocâd; cymerir yn ganiataol y caiff cynigion a fyddai'n amharu ar asedau hanesyddol arwyddocaol eu gwrthod. | | |
| Dylai trwyddedau morol o fewn y lleoliad hanfodol ystyried y Safle a'i werthoedd. | Parhaus | Cyfoeth Naturiol Cymru/Cadw | Nifer y ceisiadau, ymgynghoriadau a chanlyniadau. | Caiff lleoliad hanfodol y Safle ei ddiogelu. |

| Camau Gweithredu | Amserlen<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | Cyfrifoldeb<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | Allbynnau Mesuradwy | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi 2D** | | **Caiff canlyniadau'r holl waith archaeolegol a gynhelir o fewn y Safle Treftadaeth y Byd a'i leoliad eu dosbarthu'n weithredol.** | | |
| Caiff adroddiadau ar waith archaeolegol a gynhelir ar y Safle eu cadw gan y CAH rhanbarthol a CHCC. | Parhaus | Cadw/partneriaid | Nifer y cofnodion, erthyglau, adnoddau ar y we, llyfrau newydd. | Ceir gwell ymwybyddiaeth o'r ddealltwriaeth sy'n dod i'r amlwg o'r Safle. |
| Caiff cyrff sy'n cynnal gwaith archaeolegol eu hannog i drefnu diwrnodau agored i'r cyhoedd, mynediad i'r cyhoedd a pharatoi cyhoeddiadau poblogaidd. | Parhaus | Cadw/ACLlau | Nifer y diwrnodau agored, digwyddiadau, cyhoeddiadau ac ati. | Fel uchod. |

| Camau Gweithredu | Amserlen<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | Cyfrifoldeb<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | Allbynnau Mesuradwy | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan 3** | | **Diogelu lleoliad y Safle Treftadaeth y Byd er budd cenedlaethau'r dyfodol. ¬** | | |
| **Polisi 3A** | | Bydd partneriaid Safle Treftadaeth y Byd yn cydweithio er mwyn manteisio'n llawn ar yr adnoddau cynllunio sydd ar gael i ddiogelu a gwella lleoliad y Safle. | | |
| Aelodau o grŵp llywio'r Safle i fabwysiadu'r cynllun rheoli terfynol drwy eu gweithdrefnau eu hunain. | Byrdymor | Partneriaid y Safle | Mabwysiadu cynllun rheoli. | Caiff y Safle ei ddiogelu drwy gynllun rheoli cyfredol a fabwysiedir gan ACLlau ac a ategir gan CCA. |
| ACLlau i ddatblygu a mabwysiadu CCA cyffredin. | Tymor canolig | ACLlau | Awdurdodau cynllunio lleol yn llunio canllawiau cynllunio ategol a rennir. | Fel uchod. |
| ACLlau yn adolygu'r ffordd y caiff Cyfarwyddiadau o dan Erthygl 4 eu cymhwyso er mwyn cynorthwyo'r broses o ddiogelu'r Safle a'i leoliad o fewn y pedair tref sef Biwmares, Caernarfon, Conwy a Harlech. | Tymor canolig | ACLlau | Cyfarwyddiadau o dan Erthygl 4 yn cwmpasu'r Safle a'r lleoliad hanfodol yn y pedair tref. | Ceir dull gweithredu cyson wrth ddefnyddio Cyfarwyddiadau o dan Erthygl 4 ym mhob un o'r pedair tref dan sylw. |
| Annog ymgymerwyr statudol i ddefnyddio eu hawliau datblygu a ganiateir mewn ffordd sensitif. | Tymor canolig | ACLlau/Cadw | Ymgymerwyr statudol yn ystyried y Safle. | Caiff y Safle a'i leoliad eu diogelu. |
| Lle y bo'n briodol, defnyddio trefniadau Adran 106/ASC er mwyn helpu i wella'r Safle. | Parhaus | ACLlau | Nifer y cytundebau Adran 106/ cyfraniadau ASC a wnaed. | Gwneir ymdrech weithredol i chwilio am gyfleoedd i wella'r Safle ac i'w gweithredu. |

| Camau Gweithredu | Amserlen<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | Cyfrifoldeb<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | Allbynnau Mesuradwy | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi 3B** | | Caiff perfformiad y dull presennol o ddefnyddio lleoliad hanfodol a golygfeydd pwysig fel modd o ddiogelu'r Gwerth Cyffredinol Eithriadol, cyfanrwydd a dilysrwydd y Safle ei fonitro dros oes y cynllun rheoli. | | |
| Nodi'r datblygiadau sy'n mynd rhagddynt yn y lleoliad hanfodol ac asesu eu heffaith ar y GCE. | Parhaus | ACLlau/Cadw | Nifer y ceisiadau cynllunio (yn cynnwys penderfyniadau i apelio) a chanlyniadau. | Caiff effaith datblygiad newydd ar leoliad y Safle ei hystyried, ei hasesu a'i monitro'n briodol. |
| **Polisi 3C** | | Dylai unrhyw ddatblygiad newydd gynnwys dyluniad, graddfa a threfniadau ymgasglu priodol er mwyn sicrhau ei fod yn gwarchod ac yn gwella lleoliad y Safle, yn parchu golygfeydd pwysig ac yn atgyfnerthu ymdeimlad o gyrraedd. | | |
| Caiff briffiau datblygu eu paratoi ar gyfer safleoedd sensitif. | Parhaus | Datblygwyr/ACLlau (gyda chymorth gan Cadw) | Llunio rhestr o ddarpar safleoedd ar gyfer pob tref dan sylw. Paratoi briffiau datblygu. | Caiff y Safle a'i leoliad eu diogelu ac mae'r datblygiad newydd yn sensitif ac yn briodol. |
| Annog cyfarfodydd cyn gwneud cais pan fydd cynnig o fewn y lleoliad hanfodol neu o fewn llinellau golygfeydd pwysig, neu lle y gallai gael effaith ar yr ymdeimlad o gyrraedd. | Parhaus | ACLlau | Nifer y cyfarfodydd cyn gwneud cais a gynhelir rhwng ACLlau ac ymgeiswyr, a'u canlyniadau. | Fel uchod. |
| Dilyn canllawiau ICOMOS ar gyfer asesu effaith cynigion datblygu sylweddol ar dreftadaeth. | Parhaus | ACLlau | Nifer y datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth a dderbynnir gan ACLlau. | Fel uchod. |
| Sicrhau bod datganiadau dylunio a mynediad yn cynnwys arfarniad llawn o'r cyd-destun. | Parhaus | ACLlau | Nifer y datganiadau dylunio a mynediad sy'n cynnwys arfarniad llawn o'r cyd-destun. | Fel uchod. |

| Camau Gweithredu | Amserlen<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | Cyfrifoldeb<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | Allbynnau Mesuradwy | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| Ymgynghori ag ICOMOS-UK dros ddatblygiadau mawr gyda'r posibilrwydd o effeithio ar Werth Cyffredinol Eithriadol y Safle. | Parhaus | ACLlau/Cadw | Ymgynghoriadau wedi'u dogfennu ag ICOMOS-UK. | Fel uchod. |
| Darparu rhaglenni hyfforddiant rheolaidd ar gyfer aelodau etholedig ar Bwyllgorau Cynllunio er mwyn eu helpu wrth iddynt ystyried ceisiadau cynllunio. | Parhaus | ACLlau | Nifer y sesiynau hyfforddiant a gynhaliwyd ar gyfer aelodau etholedig. | Fel uchod. |
| **Polisi 3D** | | **Cymerir camau i wella cyflwr adeiladau rhestredig a henebion sy'n wynebu risg o fewn ffin y Safle a'i leoliad hanfodol.** | | |
| Nodi adeiladau a henebion sy'n wynebu risg ym mhob tref, eu cyflwr presennol a pherchenogaeth, a chymryd camau fel y bo'n briodol. | Parhaus | ACLlau/Cadw | Gostyngiad yn nifer yr adeiladau a'r henebion sy'n wynebu risg o fewn lleoliad hanfodol y Safle. | Caiff lleoliad y Safle ei wella o ganlyniad i'r gostyngiad yn y safleoedd treftadaeth sy'n wynebu risg. |
| **Polisi 3E** | | **Bydd Cadw, awdurdodau lleol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a rhanddeiliaid eraill yn cydweithio er mwyn diogelu lleoliad y Safle Treftadaeth y Byd.** | | |
| Bydd partneriaid yn sicrhau bod eu cynigion datblygu eu hunain yn cydymffurfio â gofynion arfer da a byddant yn eu cyflwyno i grŵp llywio'r Safle er mwyn i'r grŵp ymgynghori arnynt. | Parhaus | Cadw/ALlau/APCE | Cyflwynir cynigion i'r grŵp llywio. | Caiff lleoliad y Safle ei ddiogelu a'i wella. |

| Camau Gweithredu | Amserlen<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | Cyfrifoldeb<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | Allbynnau Mesuradwy | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| Bydd ALlau, APCE a Cadw yn gweithio gyda chymdeithasau dinesig a grwpiau diddordeb lleol eraill er mwyn atgyfnerthu eu rôl wrth ddiogelu lleoliad y Safle. | Parhaus | Cadw/ALlau/APCE | Gweithgareddau sy'n ymwneud â diogelu a hyrwyddo'r Safle a'i leoliad; er enghraifft, ymateb i geisiadau cynllunio, cymryd rhan mewn gwaith nodweddu a chymryd rhan yn y gwaith o nodi a gwarchod adeiladau sy'n wynebu risg. | Gwell gwaith ymgysylltu er mwyn diogelu a hyrwyddo'r Safle. |
| Bydd cymdeithasau dinesig a grwpiau diddordeb lleol eraill yn chwarae rhan weithredol wrth ddiogelu a hyrwyddo'r Safle a'i leoliad. | Parhaus | Cymdeithasau dinesig, grwpiau diddordeb lleol erail | Fel uchod. | Fel uchod. |

| Camau Gweithredu | Amserlen<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | Cyfrifoldeb<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | Allbynnau Mesuradwy | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan 4** | | **Cefnogi a hyrwyddo natur nodedig leol o fewn y Safle, gan gydnabod nodweddion ac amrywiaeth y pedair tref. ¬** | | |
| **Polisi 4A** | | Caiff eglurdeb y patrwm lleiniau yn y pedair tref ei ddiogelu. | | |
| Codi ymwybyddiaeth ymysg rhanddeiliaid a darpar ddatblygwyr ynghylch pwysigrwydd patrwm a dyluniad lleiniau. | Byrdymor | ACLlau | Nifer y sefydliadau/datblygwyr yr ymgysylltwyd â hwy yn ystod y cam cyn gwneud cais. | Ni chaiff unrhyw eglurdeb ei golli o ran patrwm lleiniau yr un o'r pedair tref. |
| Sicrhau bod cyfarfodydd cyn gwneud cais â datblygwyr yn nodi pwysigrwydd patrymau lleiniau o fewn pob anheddiad. | Byrdymor | ACLlau | Fel uchod. | Fel uchod. |
| **Polisi 4B** | | Defnyddir nodweddion hanesyddol i ddeall y pedair tref yn well ac i lywio datblygiadau yn y dyfodol, gan helpu i wella eu natur nodedig a diogelu'r Safle. | | |
| Cwblhau astudiaethau nodweddion hanesyddol ar gyfer pob tref a'u hintegreiddio i'r cynllun rheoli. | Tymor canolig | ACLlau/cymdeithasau dinesig | Cwblheir astudiaeth o nodweddion y pedair tref. | Datblygir ffynhonnell wybodaeth ar gyfer pob tref, y gall amrywiaeth o randdeiliaid ei defnyddio at amrywiaeth o ddibenion. |
| **Polisi 4C** | | Caiff nodweddion a golwg unigol y pedwar canol tref eu diogelu a'u gwella. Caiff cynigion i wneud newidiadau i olwg adeiladau yn y canol trefi, er enghraifft, i flaenau siopau, eu hasesu yn erbyn canllawiau sydd ar gael, megis safonau ardaloedd cadwraeth neu ganllawiau dylunio lleol. | | |
| Cyrff cyhoeddus a busnesau lleol yn cydweithio er mwyn nodi gwelliannau posibl i'r treflun. | Tymor canolig | ACLlau/Cadw/busnesau lleol | Nifer y cynlluniau gwella a roddwyd ar waith yn ystod oes y cynllun rheoli. | Ceir mwy o gydweithredu rhwng sefydliadau o'r sector cyhoeddus a sefydliadau o'r sector preifat. |

| Camau Gweithredu | Amserlen<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | Cyfrifoldeb<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | Allbynnau Mesuradwy | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi 4D** | | **Caiff mentrau sy'n cael budd cymdeithasol neu economaidd o'r Safle ac sy'n gwella natur nodedig leol eu meithrin.** | | |
| Creu fforwm ar gyfer menter leol ym mhob tref castell (gall hyn fod yn is-grŵp o fforwm presennol lle mae un yn bodoli eisoes. Gweler Polisi 6E). | Byrdymor i dymor canolig | Cadw, cynghorau tref a chymuned, fforymau busnes sefydledig — HWB Caernarfon | Caiff camau gweithredu a chyfleoedd eu rhoi ar waith o ganlyniad i'r fforymau. | Ceir gwell ymwybyddiaeth ymysg rhanddeiliaid lleol ynghylch rôl y Safle wrth hyrwyddo natur nodedig leol. |

| Camau Gweithredu | Amserlen<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | Cyfrifoldeb<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | Allbynnau Mesuradwy | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan 5** | | **Defnyddio statws Safle Treftadaeth y Byd i gefnogi amrywiaeth a thwf economaidd cynaliadwy yn yr economi leol a rhanbarthol. ¬** | | |
| **Polisi 5A** | | Caiff cyfleoedd adfywio sy'n ategu neu'n gwella'r Safle eu cefnogi. | | |
| Parhau i gyflwyno rhaglen adfywio a arweinir gan dreftadaeth yng Nghaernarfon, yn cynnwys prosiectau treftadaeth strategol allweddol Porth Mawr, Porth yr Aur a gwelliannau i'r castell. | Byrdymor | Prif bartneriaid Cadw: ACLlau | Nifer y swyddi a grëwyd ac y darparwyd ar eu cyfer (uniongyrchol/anuniongyrchol). | Nodir cyfleoedd adfywio newydd a chyflwynir prosiectau treftadaeth allweddol ym mhob un o'r pedair tref lle y lleolir y Safleoedd ar y cyd â rhanddeiliaid. |
| Parhau i gynorthwyo staff ar gyfer datblygu cynigion adfywio yn Harlech. | Parhaus | Prif bartneriaid Cadw: ACLlau | Nifer y prosiectau adfywio sy'n mynd rhagddynt/a gwblhawyd. | Fel uchod. |
| Hwyluso neu gefnogi gweithdai blynyddol i randdeiliaid er mwyn nodi cyfleoedd adfywio a datblygu economaidd. | Parhaus | Cadw, cynghorau tref a chymuned, fforymau busnes sefydledig — HWB Caernarfon | Nifer y cyfleoedd adfywio a nodwyd. | Fel uchod. |
| Datblygu cyfleoedd adfywio unigol drwy ddull partneriaeth gan weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol er mwyn sicrhau y caiff gweledigaeth ac amcanion y cynllun rheoli eu cynnwys. | Parhaus | Prif bartneriaid Cadw: ACLlau | Cyfanswm y buddsoddiad a wnaed. | Fel uchod. |

| Camau Gweithredu | Amserlen<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | Cyfrifoldeb<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | Allbynnau Mesuradwy | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi 5B** | | **Caiff y rhaglen o waith cadwraeth ei defnyddio fel catalydd er mwyn annog y broses o ddatblygu a chynnal sgiliau traddodiadol a gwaith cadwraeth arbenigol.** | | |
| Nodi a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwaith a phrentisiaethau er mwyn datblygu sgiliau adeiladu traddodiadol. | Byrdymor | Cadw<br>Partneriaid: ALlau/ APCE/busnesau lleol/ cymdeithasau dinesig | Caiff prentisiaethau, cyfleoedd hyfforddi neu leoliadau gwaith eu creu. | Defnyddir y Safle fel catalydd er mwyn hyrwyddo a meithrin sgiliau adeiladu traddodiadol. |
| Codi ymwybyddiaeth o waith cadwraeth sy'n deillio o'r cynllun gweithredu ymysg busnesau a grwpiau lleol. | Tymor canolig | Cadw/arweinwyr prosiectau | Defnyddir cyflogeion lleol mewn gwaith cadwraeth. | Fel uchod. |
| **Polisi 5C** | | **Bydd gwell dealltwriaeth o'r Safle yn hwyluso gwaith partneriaeth a chyfleoedd buddsoddi.** | | |
| Cynnal cynllun peilot ar ffurf 'Datrys ein problemau ein hunain' yn un o'r pedwar anheddiad. | Byrdymor | Cadw | Asesiad o anghenion yn seiliedig ar y gymuned a chynllun gweithredu. | Ceir gwell ymwybyddiaeth ymysg rhanddeiliaid lleol ynghylch rôl y Safle wrth bwysleisio natur nodedig leol. |
| Ystyried ac archwilio cyfleoedd i ddefnyddio fforymau lleol i weithredu ar faterion rheoli cyrchfan ac adfywio allweddol. | Byrdymor i dymor canolig | Cadw, cynghorau tref a chymuned, fforymau busnes sefydledig — HWB Caernarfon | Mae fforwm busnes lleol i hyrwyddo'r Safle eisoes yn bodoli.<br><br>Nifer y prosiectau buddsoddi sy'n gysylltiedig â'r Safle a'u canlyniadau. | Fel uchod. |

| **Camau Gweithredu** | **Amserlen**<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | **Cyfrifoldeb**<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | **Allbynnau Mesuradwy** | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi 5D** | | **Bydd trefniadau cydweithredu ar waith gyda mentrau perthnasol eraill er mwyn datblygu a gwella amodau economaidd (enwebu Diwydiant Llechi Gogledd Cymru ar gyfer statws Safle Treftadaeth y Byd, datblygu cynllun rheoli Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a geobarc Geomon).** | | |
| Cydweithredu â'r grŵp llywio sy'n gysylltiedig ag enwebu Diwydiant Llechi Gogledd Cymru ar gyfer statws Safle Treftadaeth y Byd, APCE a geobarc Geomon i ystyried cyfleoedd economaidd a chyfleoedd adfywio perthnasol. | Parhaus | Cadw/Cyngor Gwynedd/APCE | Nifer y prosiectau ar y cyd. | Buddiannau cymdeithasol-economaidd amlwg. |

| Camau Gweithredu | Amserlen<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | Cyfrifoldeb<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | Allbynnau Mesuradwy | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan 6** | | **Cynnig profiad i ymwelwyr sy'n unigryw ac o'r ansawdd uchaf. ¬** | | |
| **Polisi 6A** | | Bydd arwyddion ar y llwybrau sy'n dynesu at y Safle, o fewn y cestyll ac mewn mannau cyhoeddus o'u hamgylch, yn cynnwys dyluniad cyson o ansawdd uchel a byddant yn cyfrannu at ymdeimlad o gyrraedd a phrofiad o ansawdd uchel i ymwelwyr. | | |
| Archwilio'r arwyddion cyfeiriadol rhanbarthol a lleol presennol (arwyddion i'r Safle ac o fewn y Safle). | Byrdymor i dymor canolig | ALlau/APCE/ Croeso Cymru | Cynhelir archwiliad o arwyddion yn nhref pob Safle. | Ceir gostyngiad yn nifer yr arwyddion mewn lleoliadau sensitif a chyflawnir arwyddion cyson ac integredig ym mhob rhan o'r Safle. |
| Annog y defnydd o arddull gyson ar gyfer pob arwydd newydd a chwilio am gyfleoedd i integreiddio arwyddion. | Byrdymor i dymor canolig | ALlau/APCE/ Croeso Cymru | Darperir canllaw arddull. | Fel uchod. |
| Adolygu arwyddion Cadw er mwyn sicrhau eu bod yn angenrheidiol ac wedi'u lleoli mewn modd sensitif. | Byrdymor i dymor canolig | Cadw | Cwblheir archwiliad o arwyddion Cadw ar gyfer pob safle. | Fel uchod. |
| Gwella strydluniau drwy gael gwared ar yr holl arwyddion a dodrefn stryd diangen/segur/o ansawdd gwael, gan osod rhai newydd yn eu lle pan fo'n briodol. | Byrdymor i dymor canolig | ALlau/APCE/busnesau lleol | Nifer y prosiectau i wella strydluniau a'u canlyniadau. | Fel uchod. |

| Camau Gweithredu | Amserlen<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | Cyfrifoldeb<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | Allbynnau Mesuradwy | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi 6B** | | Sicrheir mynediad cyhoeddus ffisegol a rhithwir cystal â phosibl i furiau tref yng Nghonwy a Chaernarfon. | | |
| Chwilio am gyfleoedd i wella mynediad cyhoeddus drwy agor adrannau newydd lle y gellir cerdded ar hyd y muriau. | Tymor canolig i'r hirdymor | Cadw/rhanddeiliaid | Nifer y cyfleoedd a nodwyd ar gyfer gwella mynediad.<br>Pellter cyffredinol muriau trefi sy'n hygyrch i'r cyhoedd. | Caiff amrywiaeth o gyfleoedd eu cynnig i ymwelwyr, gan gynyddu nifer yr ymwelwyr ar draws y pedwar lleoliad a chyfrannu at bwynt gwerth unigryw'r Safle fel cyrchfan. |
| Datblygu adnoddau dehongli er mwyn cynnig mynediad rhithwir i'r cestyll a muriau trefi. | Byrdymor i dymor canolig | Cadw | Pellter cyffredinol muriau trefi â mynediad rhithwir. | Fel uchod. |
| **Polisi 6C** | | Bydd y cyfleusterau i ymwelwyr yn y pedair tref o safon uchel o ran dyluniad ac ansawdd, gan adlewyrchu'r ffaith bod y Safle o'r radd flaenaf. | | |
| Annog trefniadau i ddatblygu ymarferion archwilio trefluniau gyda phartneriaid perthnasol ym mhob un o'r pedair tref. | Tymor canolig i'r hirdymor | ALlau/APCE/busnesau lleol | Caiff cydberthnasau gwaith agos eu meithrin rhwng partneriaid a rhanddeiliaid. | Mae'r Safle yn gyrchfan o ansawdd uchel, gyda chyfleusterau da i dwristiaid. |

| **Camau Gweithredu** | **Amserlen**<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | **Cyfrifoldeb**<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | **Allbynnau Mesuradwy** | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi 6D** | | Darperir deunydd dehongli cyson o ansawdd uchel ac o'r radd flaenaf ym mhob rhan o'r Safle a'r pedair tref dan arweiniad y cynllun dehongli cyffredinol. | | |
| Archwilio cyflwr ac ansawdd y deunydd dehongli ym mhob rhan o'r Safle a'i leoliad yn rheolaidd. | Parhaus | Cadw/ALlau/grŵp llywio'r Safle | Gwiriad ansawdd blynyddol o'r deunydd dehongli ym mhob lleoliad. | Ceir deunydd dehongli o ansawdd sicr ym mhob lleoliad gyda chroesgyfeiriadau priodol rhwng safleoedd a thu hwnt.<br>Mae gan gynulleidfaoedd ddealltwriaeth well o hanes a chyd-destun y Safle.<br>Caiff ymweliadau newydd ac ail ymweliadau eu hannog drwy ddealltwriaeth gadarn o lefelau boddhad a gofynion cynulleidfaoedd. |
| Sefydlu, adolygu a gweithredu cynllun dehongli cyffredinol. | Byrdymor i dymor canolig | Cadw | Caiff cynllun dehongli cyffredinol ei greu. | |
| Adolygu boddhad cynulleidfaoedd â'r deunydd dehongli yn rheolaidd. | Parhaus | Cadw | Cofnodir lefelau boddhad ymwelwyr GSSAY fel uchel/ardderchog. | |
| Adolygu dealltwriaeth cynulleidfaoedd o'r deunydd dehongli yn rheolaidd. | Parhaus | Cadw | Cofnodir lefelau boddhad ymwelwyr fel uchel/ardderchog drwy arolygon o ymwelwyr. | |
| Sefydlu rhwydweithiau er mwyn rhannu gwybodaeth rhwng safleoedd am y Safle, digwyddiadau a gweithgareddau. | Parhaus | Cadw | Mae'r staff yn deall y Safle, ei Werth Cyffredinol Eithriadol a gallant gael gafael ar wybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau ym mhob rhan o'r Safle. | |
| **Polisi 6E** | | Defnyddir dull o weithio mewn partneriaeth â darparwyr cyfleusterau i ymwelwyr eraill ym mhob tref er mwyn creu profiad diwylliannol unigryw ym mhob lleoliad. | | |
| Cynnal fforwm busnes blynyddol (gweler Polisi 4D) lle gellir datblygu profiadau diwylliannol cydgysylltiedig. | Byrdymor | Cadw, cynghorau tref a chymuned, fforymau busnes sefydledig — HWB Caernarfon | Nifer y digwyddiadau cydweithredol. | Mae'r profiad i ymwelwyr ym mhob un o'r pedwar castell yn amrywiol ac yn cynnig profiadau diwylliannol cydgysylltiedig. |

| Camau Gweithredu | Amserlen<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | Cyfrifoldeb<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | Allbynnau Mesuradwy | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan 7** | | **Marchnata a hyrwyddo'r pedwar lleoliad, sef Biwmares, Caernarfon, Conwy a Harlech fel un Safle Treftadaeth y Byd er mwyn sicrhau dull gweithredu cydlynol ac integredig. ¬** | | |
| **Polisi 7A** | | Bydd dulliau gweithredu ar y cyd er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r pedwar lleoliad ac er mwyn hyrwyddo'r Safle. | | |
| Paratoi strategaeth farchnata ar gyfer y Safle cyfan a fydd yn cynnwys ystyried cyfleoedd gwerthu tocynnau a chyfleoedd manwerthu. | Byrdymor i dymor canolig | Cadw/Croeso Cymru/ partneriaid | Strategaeth wedi'i pharatoi a'i mabwysiadu gan bob partner.<br><br>Ymgyrch farchnata ddigidol. | Ceir cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn y pedwar lleoliad. |
| **Polisi 7B** | | Bydd partneriaid yn chwilio am gyfleoedd gweithredol i wella hunaniaeth a chydnabyddiaeth brand y Safle. | | |
| Paratoi strategaeth farchnata ar gyfer y Safle cyfan a fydd yn cynnwys ystyried cyfleoedd gwerthu tocynnau a chyfleoedd manwerthu. | Byrdymor | Cadw/Croeso Cymru/partneriaid | Strategaeth wedi'i pharatoi a'i mabwysiadu gan bob partner.<br><br>Ymgyrch farchnata ddigidol. | Ceir cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn y pedwar lleoliad. |

| **Camau Gweithredu** | **Amserlen**<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | **Cyfrifoldeb**<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | **Allbynnau Mesuradwy** | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi 7C** | | **Bydd Cadw, awdurdodau lleol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a phartneriaid allweddol o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn cydweithio er mwyn cyflwyno rhaglen flynyddol gydlynol o ddigwyddiadau.** | | |
| Cynnal gwaith cynllunio ar y cyd er mwyn datblygu rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau, gan gynnwys gweithgareddau penodol i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg. | Parhaus | Cadw/partneriaid | Cyfarfod blynyddol am ddigwyddiadau. | Ymwybyddiaeth well ymysg trigolion ac ymwelwyr bod y pedwar lleoliad yn rhan o un Safle. |
| Annog pob partner i fod yn ymwybodol o'r rhaglen digwyddiadau a'i hyrwyddo ar bob llwyfan marchnata. | Parhaus | Grŵp llywio'r Safle/ Croeso Cymru/busnesau lleol | Nifer yr ymwelwyr sy'n dod i ddigwyddiadau. | Ceir cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn y pedwar lleoliad. |
| **Polisi 7D** | | **Bydd Cadw a phartneriaid yn gweithio gyda Croeso Cymru i ystyried cyfleoedd marchnata perthnasol.** | | |
| Cynnal trafodaethau a gwaith cynllunio perthnasol gyda Croeso Cymru er mwyn nodi a hyrwyddo'r Safle fel rhan allweddol o'r dull 'llwybrau' sy'n dod i'r amlwg. | Byrdymor i dymor canolig | Cadw/Croeso Cymru | Caiff y Safle ei hyrwyddo gan Croeso Cymru yn ei ddull gweithredu ar sail 'llwybrau'. | Mwy o ymwybyddiaeth o'r Safle. |

| Camau Gweithredu | Amserlen<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | Cyfrifoldeb<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | Allbynnau Mesuradwy | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan 8** | | **Annog mwy o bobl i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy wrth ymweld â phob un o'r cyrchfannau yn y Safle heb effeithio'n andwyol ar y nodweddion sy'n dangos natur unigryw y Safle ar lefel ryngwladol. ¬** | | |
| **Polisi 8A** | | Caiff pobl eu hannog i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy i ymweld â chestyll a threfi'r Safle. | | |
| Datblygu sylfaen trafnidiaeth ar gyfer y Safle cyfan sy'n nodi sut mae pobl yn cyrraedd ac yn teithio rhwng lleoliadau, ac wedyn cynnal arolygon rheolaidd. | Byrdymor i dymor canolig | ALlau/APCE | Dogfen sylfaen i lywio datblygiad strategol yn y dyfodol. | Ceir cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r Safle sy'n defnyddio dulliau teithio cynaliadwy, gan arwain at ostyngiad mewn tagfeydd traffig. |
| Dwyn ynghyd weithredwyr bysiau a rheilffordd er mwyn trafod dull cydgysylltiedig o weithredu system drafnidiaeth gynaliadwy yng ngogledd Cymru a chyfleoedd ar gyfer atyniadau unigol. | Byrdymor i dymor canolig | Cadw/adran drafnidiaeth Llywodraeth Cymru/ ALlau/APCE/ gweithredwyr trafnidiaeth | Nodi cyfleoedd i hyrwyddo teithio cynaliadwy. | Fel uchod. |
| Adolygu cyfleoedd ar gyfer cynnig tocynnau ar y cyd gyda phartneriaid/darparwyr trafnidiaeth. | Byrdymor | Cadw/gweithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus | Menter tocynnau ar y cyd. | Fel uchod. |
| Ystyried cyfleoedd trafnidiaeth dŵr, a chyfleoedd i wella cysylltiadau â llwybrau cerdded a seiclo presennol. | Byrdymor i dymor canolig | Pob partner | Nifer y llwybrau trafnidiaeth cynaliadwy newydd neu a gaiff eu gwella. | Fel uchod. |

| Camau Gweithredu | Amserlen<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | Cyfrifoldeb<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | Allbynnau Mesuradwy | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi 8B** | | Caiff ffyrdd arloesol o reoli trefniadau parcio ceir yn ystod y tymor ymwelwyr brig er mwyn lliniaru tagfeydd eu hystyried, gan gynnwys parcio a theithio, cyfleusterau gollwng i fysiau a threfniadau parcio a rennir. | | |
| Paratoi strategaeth parcio ddrafft ar gyfer un o'r pedair tref a rhoi cynllun gweithredu peilot ar waith. | Tymor canolig | ALlau/APCE | Strategaeth wedi'i mabwysiadu a'i rhoi ar waith. | Caiff problemau parcio presennol eu lliniaru. |
| Datblygu seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus/parcio/trefniadau gollwg teithwyr. | Tymor canolig | ALlau/APCE | Nifer y cyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus, parcio a gollwng teithwyr a gaiff eu gwella. | Fel uchod. |
| Nodi cyfleoedd ym mhob tref lle gellir rhannu llefydd parcio i ymwelwyr â llefydd parcio at ddefnyddiau eraill ac archwilio dichonoldeb â thirfeddianwyr. | Tymor canolig | Cadw/ALlau/APCE | Nodi nifer o gyfleoedd i rannu llefydd parcio a darparu nifer o lefydd. | Fel uchod. |

| **Camau Gweithredu** | **Amserlen**<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | **Cyfrifoldeb**<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | **Allbynnau Mesuradwy** | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan 9** | | **Codi ymwybyddiaeth a hybu dealltwriaeth o Dreftadaeth y Byd ymysg amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gan gynnwys cymunedau lleol, gan ennyn balchder yn eu diwylliant a'u treftadaeth unigryw. ¬** | | |
| **Polisi 9A** | | Caiff rhaglenni ymgysylltu gweithredol eu rhoi ar waith er mwyn codi ymwybyddiaeth a chynnig cyfleoedd dysgu. | | |
| Creu cynllun gweithredu blynyddol sy'n gysylltiedig â strategaeth ymgysylltu â'r gymuned. | Byrdymor | Cadw | Caiff cynllun gweithredu ei greu.<br>Nifer y cyfleoedd ymgysylltu bob blwyddyn.<br>Sefydliadau newydd yr ymgysylltwyd â nhw. | Ceir mwy o waith ymgysylltu dros oes y cynllun rheoli gyda sefydliadau newydd a sefydliadau sydd eisoes yn rhan o'r gwaith. |
| **Polisi 9B** | | Anogir cyfleoedd dysgu a chyfleoedd i feithrin sgiliau drwy wirfoddoli. | | |
| Nodi amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli. | Tymor canolig | Cadw | Cynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr. | Caiff mwy o gyfleoedd gwirfoddoli eu creu a chaiff diwylliant o wirfoddoli ei greu o fewn y Safle. |
| Hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli drwy gyfrwng y Gymraeg. | Tymor canolig | Cadw | Fel uchod. | Fel uchod. |

| Camau Gweithredu | Amserlen<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | Cyfrifoldeb<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | Allbynnau Mesuradwy | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi 9C** | | **Mabwysiedir dull gweithredu dysgu gydol oes clir er mwyn gwella dealltwriaeth a mwynhad o'r Safle.** | | |
| Datblygu Cynllun Cenhadon Ifanc â phartneriaid lleol allweddol. | Byrdymor i dymor canolig | Cadw/ALlau ac APCE | Cynllun datblygu cynulleidfa wedi'i baratoi ar gyfer y Safle. | Ceir mwy o waith ymgysylltu dros oes y cynllun rheoli gyda phlant a phobl ifanc. |
| Gwella a datblygu cysylltiadau uniongyrchol ag ysgolion lleol er mwyn helpu i gyflwyno cwricwlwm allweddol neu weithgareddau datblygu ysgol (fel cymryd rhan mewn ardaloedd Arloesi). | Tymor canolig | Prif bartneriaid Cadw: ysgolion lleol | Rhaglen addysg wedi'i theilwra wedi'i sefydlu. | Fel uchod. |
| Parhau i gyflwyno rhaglen hwyluso Treftadaeth y Byd. | Parhaus | Cadw | Cynnydd yn nifer y digwyddiadau addysgol a gynhelir ar gyfer grwpiau rhanddeiliaid unigol. | Fel uchod. |
| **Polisi 9D** | | **Caiff cyfleoedd dysgu cydweithredol eu sefydlu drwy gysylltiadau â Safleoedd Treftadaeth y Byd eraill (yn enwedig yng Nghymru) a World Heritage UK.** | | |
| Cynnal cysylltiadau â Safleoedd Treftadaeth y Byd eraill a World Heritage UK, yn cynnwys presenoldeb mewn cynadleddau, digwyddiadau hyfforddi. | Parhaus | Cadw | Cymryd rhan mewn digwyddiadau eraill sy'n gysylltiedig â Safleoedd Treftadaeth y Byd a World Heritage UK a chyfrannu at ganllawiau arfer gorau. | Rhannu arfer gorau a'i roi ar waith. |

| **Camau Gweithredu** | **Amserlen**<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | **Cyfrifoldeb**<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | **Allbynnau Mesuradwy** | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan 10** | | **Meithrin gwell dealltwriaeth o'r Safle a helpu i lywio'r trefniadau rheoli yn y dyfodol yn well. ¬** | | |
| **Polisi 10A** | | Caiff rhaglen o waith ymchwil eang ei pharatoi ar gyfer y Safle. | | |
| Paratoi cynllun ymchwil ar gyfer y Safle. | Byrdymor i dymor canolig | Cadw | Datblygu cynllun ymchwil. | Gwell dealltwriaeth o'r Safle a'i arwyddocâd. |
| **Polisi 10B** | | Bydd Cadw yn cydweithio'n agos â sefydliadau perthnasol (er enghraifft Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, prifysgolion a chymdeithasau dinesig) er mwyn rhannu gwybodaeth ac ymchwilio i ganfyddiadau. | | |
| Gweithio gyda sefydliadau priodol a datblygu cysylltiadau ymchwil. | Byrdymor | Cadw a phartneriaid ymchwil | Nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd i ledaenu canfyddiadau ymchwil. | Caiff cysylltiadau eu datblygu â sefydliadau academaidd a cheir gwell ymwybyddiaeth o ganfyddiadau ymchwil. |
| Lledaenu gwaith ymchwil i gynulleidfaoedd ehangach. | Parhaus | Cadw a phartneriaid ymchwil | Nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd i ledaenu canfyddiadau ymchwil.<br>Nifer y papurau, erthyglau, llyfrau a chyhoeddiadau eraill. | Fel uchod. |

| Camau Gweithredu | Amserlen<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | Cyfrifoldeb<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | Allbynnau Mesuradwy | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan 11** | | **Nodi, dileu a/neu liniaru risgiau i Werth Cyffredinol Eithriadol y Safle. ¬** | | |
| **Polisi 11A** | | Caiff trefniadau rheoli risg cynhwysfawr eu hintegreiddio'n llawn i drefniadau rheoli. | | |
| Paratoi strategaeth rheoli risg yn unol â chanllawiau arfer gorau. | Byrdymor | Cadw | Strategaeth rheoli risg ar waith. | Caiff dyfodol y Safle ei ddiogelu drwy drefniadau rheoli risg priodol. |
| Paratoi cofrestr risg yn nodi risgiau, camau lliniaru, camau gweithredu posibl a rheolaeth. | Byrdymor | Cadw | Cofrestr risg wedi'i sefydlu. | Fel uchod. |
| Adolygu a diweddaru'r gofrestr risg yn rheolaidd. | Parhaus | Cadw/grŵp llywio'r Safle | Adolygiad blynyddol o'r gofrestr risg a rhoi'r camau gweithredu ar waith. | Fel uchod. |
| **Polisi 11B** | | Caiff effaith debygol newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol ar y Safle ei hadolygu a'i hasesu'n rheolaidd. | | |
| Ystyried canfyddiadau'r adroddiad diweddaraf ar newid yn yr hinsawdd gan Grŵp Amgylchedd Hanesyddol Cymru (yn seiliedig ar y dull gweithredu strategol ar gyfer asesu ac ymdrin ag effaith bosibl newi yn yr hinsawdd ar yr amgylchedd hanesyddol[2]) a'u cynnwys yn y dull y cytunnir arno ar gyfer rheoli risgiau. | Parhaus | Cadw/asiantaethau cenedlaethol | Cynnwys camau gweithredu a mesurau lliniaru yn y gofrestr risg. | Caiff dyfodol y Safle ei ddiogelu drwy drefniadau rheoli risg priodol. |

[2] A Strategic Approach for Assessing and Addressing the Potential Impact of Climate Change on the Historic Environment, Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymunedol, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed a'r Ganolfan ar gyfer Newid Amgylcheddol ac Ymchwil Gwaternaidd, Prifysgol Swydd Gaerloyw ar ran Is-grŵp Newid yn yr Hinsawdd y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol, 2012. www.cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Climate_Change_on_the_Historic_Environment_of_Wales_EN_CY.pdf

| Camau Gweithredu | Amserlen<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | Cyfrifoldeb<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | Allbynnau Mesuradwy | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| Gweithio gyda phartneriaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu opsiynau a mesurau lliniaru sensitif fel y bo'r angen. | Parhaus | Cadw/ACLlau/Cyfoeth Naturiol Cymru | Rhyngweithio'n rheolaidd ag asiantaethau cenedlaethol a gwella cydberthnasau gwaith. | Fel uchod. |

| Camau Gweithredu | Amserlen<br>*Byrdymor: 1 i 2 flynedd*<br>*Tymor canolig: 3 i 5 mlynedd*<br>*Hirdymor: mwy na 5 mlynedd* | Cyfrifoldeb<br>*(Mae'r adnoddau o fewn cyllidebau presennol sefydliadau unigol oni nodir yn wahanol.)* | Allbynnau Mesuradwy | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan 12** | | **Cydnabod pwysigrwydd meithrin partneriaethau sy'n bodoli eisoes a datblygu partneriaethau newydd, fel sy'n briodol er mwyn cefnogi'r broses barhaus o reoli'r Safle.** ¬ | | |
| **Polisi 12A** | | Caiff effeithiolrwydd strwythur rheoli a chynrychiolaeth aelodaeth y Safle eu hadolygu'n rheolaidd. | | |
| Ystyried gofynion strwythur rheoli allweddol bob blwyddyn, gan gynnwys adolygu aelodaeth. | Parhaus/blynyddol | Cadw | Adborth gan aelodau ac adroddiad dilynol. | Strwythur rheoli'r Safle yn parhau'n effeithiol ac yn cynrychioli sectorau, sefydliadau, cymunedau a buddiannau gwahanol. |
| **Polisi 12B** | | Caiff y cynllun rheoli ei fonitro a'i adolygu'n briodol ac yn effeithiol er mwyn ategu rhaglen adolygu reolaidd UNESCO. | | |
| Paratoi rhaglen wedi'i chynllunio o adroddiadau monitro ac adolygiadau blynyddol. | Byrdymor | Cadw | Adroddiadau monitro. | Caiff dyfodol y Safle ei ddiogelu drwy drefniadau rheoli effeithiol a phriodol. |
| Cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r cynllun rheoli o fewn 3–5 mlynedd o'i gyhoeddi. | Tymor canolig i'r hirdymor | Cadw | Cwblhau cynllun rheoli diwygiedig. Gwybodaeth berthnasol er mwyn cymryd rhan yn adolygiad cyfnodol UNESCO. | Fel uchod. |

# DYMA BROFLEN O'CH GWAITH

COFIWCH EI DARLLEN YN OFALUS CYN EI HARWYDDO

# HERE IS A PROOF OF YOUR WORK

PLEASE CHECK CAREFULLY BEFORE SIGNING OFF

Nodwch unrhyw newidiadau gan ddefnyddio'r nodwedd sylw yn Adobe Acrobat. Gadewch i ni wybod pan fyddwch yn hollol hapus gyda'r gwaith ac fe anfonwn y copi terfynol/ffeil y we atoch.

**Mae'r delweddau stoc yn y broflen hon yn enghreifftiau yn unig, ac efallai nad ydynt wedi eu prynu. Felly, peidiwch â defnyddio nac anfon y broflen hon ymlaen heb ganiatâd y Tîm Dylunio Canolog.**

Please use the comments feature in Adobe Acrobat to mark up any amends. If you are happy with the file and have no further amends let us know and we will send you the final print / web file.

**Stock images used in this proof are for illustration purposes only and may not have been purchased. Do not use, extract or forward images contained in this proof without permission from the Central Design Team.**

Llenwch y blychau isod / Please complete the fields below:

Enw / Name:

Est / Ext:

☐ Angen gwneud newidiadau
Amends required

☐ Dim angen gwneud rhagor o newidiadau
No further amends required

ARGRAFFWR: NID PDF AR GYFER ARGRAFFU YW HWN.
CYSYLLTWCH Â: DESIGN@WALES.GSI.GOV.UK

PRINTER: THIS IS NOT A PRINT PDF.
PLEASE CONTACT: DESIGN@WALES.GSI.GOV.UK



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd

Cynllun Rheoli 2018–28

Tachwedd 2017



Proof

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.

Llywodraeth Cymru
Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ

Ffôn: 03000 256000
E-bost: cadw@gov.wales
www.gov.wales/cadw

Cover: O'r brig i'r gwaelod, cafodd y lluniau hyn o Gastell Biwmares, Castell Caernarfon, Castell Conwy a Chastell Harlech eu tynnu gan yr artist nodedig, Kyffin Williams (1918–2006). Gwnaethant ymddangos ar gloriau rhifynnau arbennig o'r teithlyfrau ar gyfer y cestyll a ysgrifennwyd gan Alan Phillips ac a luniwyd gan Gangen Wybodaeth y Weinyddiaeth Adeiladau a Gwaith Cyhoeddus. Cafodd y teithlyfrau hyn eu cyhoeddi gyntaf yn 1961 gan Lyfrfa EM.

Issued 10
ISBN digidol 978-1-7-78859-485-1
OGL © Hawlfraint y Goron 2017, Llywodraeth Cymru, Cadw, ac eithrio lle y'i nodir. WG31143
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg. / This document is also available in English.

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle y nodwyd deunydd trydydd parti, rhaid gofyn i ddeiliad yr hawlfraint briodol am ganiatâd, gan gynnwys Archaeology Wales, y Llyfrgell Brydeinig, Amgueddfa Prydain, Bridgeman Images, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Gwledd Conwy, Crown Lodge, Harlech, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, Gwasanaethau Archifau Gwynedd, Huntington Art Collections, San Marino, California, Oriel Gelf Leeds, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, National Railway Museum, Science and Society Picture Library, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Skyscan Balloon Photography, yr Archifau Cenedlaethol, Victoria and Albert Museum, Croeso Cymru a Chris Mahon, World Heritage UK.

# Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd

## Cynllun Rheoli 2018–28

# Rhagair

Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd yn asedau diwylliannol yr ydym yn ymfalchïo ynddynt, a hynny'n briodol. Mae Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd o arwyddocâd rhyngwladol — mae delweddau o'r llefydd eiconig hyn yn adnabyddus ym mhob cwr o'r byd.

Mae'r henebion wedi chwarae rhan bwysig yn ein hanes ers bron i fileniwm, ac yn haeddu eu lle yn ein hunaniaeth genedlaethol. Maent yn fwy na champweithiau pensaernïol: maent yn cynrychioli ymateb i rym a chryfder tywysogion Cymru a gwnaethant ffurfio un o brosiectau adeiladu mwyaf yr Oesoedd Canol. Drwy gydol eu hanes cyfoethog a'u cyfnodau o wrthdaro yn aml maent wedi llunio'r cymunedau o'u hamgylch ac wedi chwarae rhan ar lwyfan ehangach hanes Prydain ac Ewrop.

Yn fwy diweddar, maent wedi ymgymryd â rôl economaidd a chymdeithasol o bwys ar gyfer eu cymunedau lleol a'r ardal ehangach. Bob blwyddyn, mae mwy na hanner miliwn o bobl yn ymweld â'r safle hwn, gan gyfrannu mwy na £30m at economi Cymru. Mae buddsoddiad sylweddol dros y degawd diwethaf, fel y cyfleusterau o'r radd flaenaf i ymwelwyr yng Nghastell Harlech, yn helpu i wella'r buddiannau economaidd hyn.

Ond, yn anad dim, mae a wnelo'r safle â phobl. Mae'n bwysig cofio, y tu ôl i'r ffigurau, fod llawer o bobl yn mwynhau ac yn dod i ddeall ein treftadaeth. Mae gwaith da yn cael ei wneud drwy sawl rhaglen treftadaeth ddiwylliannol a dysgu gydol oes i ymgysylltu â chymunedau lleol a chynnig profiadau sy'n newid bywyd i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae hefyd yn darparu llefydd dynamig ar gyfer digwyddiadau, yn amrywio o fentrau bach dan arweiniad y gymuned i achlysuron coffaol mawr, fel yr arddangosfa deimladwy o babïau yng Nghastell Caernarfon o'r enw 'Weeping Window' yn anrhydeddu'r rhai a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae digwyddiadau a gweithgareddau fel y rhain yn helpu i herio ein canfyddiad o'r lleoliadau eiconig hyn a hyrwyddo hunaniaeth fodern Cymru drwy ein hiaith a'n diwylliant Cymraeg nodweddiadol. Mae hyn i gyd yn rhoi'r safle hwn, un o Safleoedd Treftadaeth y Byd, ynghanol ei gymunedau.

Felly, mae'r broses o reoli'r safle mewn modd cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn hanfodol. Bu'r cynllun rheoli blaenorol yn effeithiol i'r safle; mae wedi cael ei ddiogelu a'i warchod yn dda, a chyflawnwyd rhai datblygiadau pwysig, fel agor teithiau cerdded ar hyd rhodfeydd muriau tref Conwy dros y 10 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae bellach yn amser cyflwyno cynllun newydd sy'n ymateb i heriau a chyfleoedd newydd er mwyn sicrhau bod yr ased treftadaeth o bwys hwn yn fyd-eang yn gallu parhau i wireddu ei botensial llawn yn economaidd ac yn gymdeithasol.

Seilir y cynllun rheoli hwn yn gadarn ar ddull partneriaeth cydweithredol, gan adlewyrchu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'n strategaeth Ffyniant i Bawb. Mae'r cynllun rheoli hefyd yn nodi ffordd uchelgeisiol ymlaen i warchod a gwella'r trefi a'r cymunedau sydd yng nghyffiniau'r henebion ac sydd â chydberthynas bwysig â nhw.

Hoffwn ddiolch i'r sawl a fu'n gyfrifol am lunio a datblygu'r cynllun rheoli, yn cynnwys yr amrywiaeth o randdeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd a gymerodd ran yn y digwyddiadau amrywiol a gynhaliwyd dros yr ychydig fisoedd diwethaf, a holl aelodau'r Grŵp Llywio.

Rwy'n hyderus y gall y bartneriaeth gadarn a sefydlwyd wrth baratoi'r cynllun hwn wneud gwahaniaeth go iawn i gyflawni canlyniadau cadarnhaol dros y pum i'r deng mlynedd nesaf.

**Ken Skates**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyflwyniad** | **8** |
| 1.1 | Beth yw Safle Treftadaeth y Byd? | 9 |
| 1.2 | Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd | 11 |
| 1.3 | Rôl y Cynllun Rheoli | 13 |
| 1.4 | Datblygu'r Cynllun Rheoli | 15 |
| 1.5 | Cyfranogiad Rhanddeiliaid a'r Gymuned | 16 |
| 1.6 | Cyflawniadau'r Cynllun Rheoli Blaenorol | 18 |
| 1.7 | Strwythur y Cynllun Rheoli | 22 |
| **2** | **Datganiad o Arwyddocâd** | **24** |
| 2.1 | Cyflwyniad | 25 |
| 2.2 | Datganiad o Werth Cyffredinol Eithriadol | 26 |
| | 2.2.1 Cyfosodiad Cryno | 26 |
| | 2.2.2 Meini Prawf ar gyfer Arysgrifo | 27 |
| | 2.2.3 Cyfanrwydd | 28 |
| | 2.2.4 Dilysrwydd | 29 |
| | 2.2.5 Gofynion Diogelu a Rheoli | 30 |
| 2.3 | Nodweddion Allweddol | 31 |
| 2.4 | Lleoliad Safle Treftadaeth y Byd | 32 |
| | 2.4.1 Lleoliad Hanfodol | 33 |
| | 2.4.2 Golygfeydd Pwysig | 33 |
| | 2.4.3 Ymdeimlad o Gyrraedd | 52 |
| | 2.4.4 Crynodeb o'r Lleoliad | 52 |
| **3** | **Safle Treftadaeth y Byd yn ei Gyd-destun** | **54** |
| 3.1 | Un Safle, Pedwar Lleoliad | 55 |
| 3.2 | Trosolwg Hanesyddol o'r Pedwar Safle | 59 |
| | 3.2.1 Biwmares | 59 |
| | 3.2.2 Caernarfon | 61 |
| | 3.2.3 Conwy | 64 |
| | 3.2.4 Harlech | 67 |
| | 3.2.5 Ymchwil a Dealltwriaeth | 69 |
| 3.3 | Lleoliad y Cestyll | 73 |
| | 3.3.1 Y Gydberthynas rhwng y Cestyll a'u Trefi | 73 |
| | 3.3.2 Y Gydberthynas â'r Arfordir | 75 |
| | 3.3.3 Y Gydberthynas â'r Amgylchedd Naturiol | 77 |

| | | |
|---|---|---|
| 3.4 | Cyd-destun Cymdeithasol a Diwylliannol | 79 |
| | 3.4.1 The Conservation Movement | 79 |
| | 3.4.2 Rôl Goffaol | 81 |
| | 3.4.3 Cenedlaetholdeb a Hunaniaeth Ddiwylliannol Gymreig | 82 |
| | 3.4.4 Twf Twristiaeth | 83 |
| | 3.4.5 Y Cestyll mewn Celf, Cerddoriaeth a Llenyddiaeth | 84 |
| 3.5 | Cymunedau Safle Treftadaeth y Byd Heddiw | 88 |
| **4** | **Cymunedau Safle Treftadaeth y Byd Heddiw** | **90** |
| 4.1 | Cyflwyniad | 91 |
| 4.2 | Gweledigaeth ac Egwyddorion Cyfffredinol ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd | 91 |
| 4.3 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 92 |
| 4.4 | Prif Egwyddorion | 93 |
| | 4.4.1 Diogelu Gwerth Cyffredinol Eithriadol | 93 |
| | 4.4.2 Cyfrifoldeb cyffredin | 94 |
| | 4.4.3 Ymgysylltu â'r Gymuned | 95 |
| | 4.4.4 Y Gymraeg a Diwylliant | 96 |
| 4.5 | Fframwaith Polisi | 97 |
| 4.6 | Amcanion | 98 |
| | 4.6.1 Diogelu Safle Treftadaeth y Byd: Cadw'r Adeiledd Hanesyddol | 99 |
| | 4.6.2 Diogelu Safle Treftadaeth y Byd: Treftadaeth Archaeolegol | 101 |
| | 4.6.3 Diogelu Lleoliad Safle Treftadaeth y Byd | 103 |
| | 4.6.4 Ymdeimlad o Le | 115 |
| | 4.6.5 Yr Economi Leol ac Adfywio | 118 |
| | 4.6.6 Profiad Ymwelwyr | 121 |
| | 4.6.7 Marchnata a Hyrwyddo | 126 |
| | 4.6.8 Teithio Cynaliadwy | 128 |
| | 4.6.9 Addysg a Dysgu Gydol Oes | 130 |
| | 4.6.10 Ymchwil a Dealltwriaeth | 133 |
| | 4.6.11 Rheoli Risg | 135 |
| | 4.6.12 Proses Reoli | 136 |
| 4.7 | Cynllun Gweithredu | 137 |
| **5** | **Monitro** | **138** |

**Atodiadau** **141**

**1 Dulliau ar gyfer Diogelu a Gwarchod y Safle** **142**
A1.1 Deddfwriaeth Genedlaethol 142
A1.2 System Gynllunio Lleol 143

**2 Datganiadau Amlinellol o Nodweddion** **145**
A2.1 Biwmares 146
A2.1.1 Cefndir Hanesyddol 146
A2.1.2 Tirwedd Hanesyddol 148
A2.1.3 Nodweddion Adeiladu 150
A2.1.4 Datganiad o Arwyddocâd 151
A2.2 Caernarfon 152
A2.2.1 Cefndir Hanesyddol 152
A2.2.2 Tirwedd Hanesyddol 154
A2.2.3 Nodweddion Adeiladu 156
A2.2.4 Datganiad o Arwyddocâd 157
A2.3 Conwy 158
A2.3.1 Cefndir Hanesyddol 158
A2.3.2 Tirwedd Hanesyddol 159
A2.3.3 Nodweddion Adeiladu 163
A2.3.4 Datganiad o Arwyddocâd 164
A2.4 Harlech 165
A2.4.1 Cefndir Hanesyddol 165
A2.4.2 Tirwedd Hanesyddol 168
A2.4.3 Nodweddion Adeiladu 170
A2.4.4 Datganiad o Arwyddocâd 172

**3 Mapiau a Chynlluniau o'r Castell a Muriau'r Dref** **173**
A3.1 Beaumaris Castle 174
A3.2 Caernarfon Castle 175
A3.3 Caernarfon Town Walls 176
A3.4 Conwy Castle 177
A3.5 Conwy Town Walls 178
A3.6 Harlech Castle 179

**4 Cyfeiriadau, Gwybodaeth Bellach a Chysylltiadau** **180**
A4.1 Cyfeiriadau 181
A4.2 Rhagor o Wybodaeth 185
A4.3 Cysylltiadau 188



*Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd yn 'lleoedd o Werth Cyffredinol Eithriadol i'r ddynolryw gyfan'. Mae Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd yn cynnwys Castell Conwy (© Hawlfraint y Goron (2017) Croeso Cymru).*

# 1 Cyflwyniad ¬

## 1.1 Beth yw Safle Treftadaeth y Byd? ¬

Mae Pwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO yn diffinio Safleoedd Treftadaeth y Byd fel a ganlyn: 'places of Outstanding Universal Value to the whole of humanity.[2] This means that their cultural and/or natural significance is so exceptional as to transcend national boundaries and to be of common importance for present and future generations of all humanity.' Nid oes unrhyw gydnabyddiaeth uwch o ran gwerth treftadaeth. Mae'r tri Safle Treftadaeth y Byd a arysgrifwyd yng Nghymru (Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd, Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon a Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte) yn cynrychioli pwysigrwydd byd-eang Cymru yn hanes pensaernïaeth filwrol ganoloesol a gwreiddiau diwydiant. Mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn pwysleisio bod gwarchod a chadw Safleoedd Treftadaeth y Byd yn hanfodol er mwyn meithrin dealltwriaeth well o'u hanes a'r hyn sy'n eu gwneud yn rhyngwladol bwysig.[3]

*Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte (© Hawlfraint y Goron (2017) Croeso Cymru).*



Yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) sy'n gyfrifol am sicrhau bod y DU yn cydymffurfio'n gyffredinol â Chonfensiwn Treftadaeth y Byd UNESCO ar gyfer y portffolio o 31 o Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y DU. Mae DCMS yn cydweithio â Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag enwebu, cadw a gwarchod Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r broses o reoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru yn fater datganoledig a Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r confensiwn. Cyflawnir y swyddogaethau hyn drwy Wasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw).

Mae dull gweithredu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â diogelu a rheoli Safleoedd Treftadaeth y Bydd mewn ffordd gynaliadwy yn seiliedig ar dair egwyddor:

- dynodi asedau hanesyddol penodol ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yn statudol a systemau cysylltiedig ar gyfer rheoli gwaith
- llunio a gweithredu cynlluniau rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd ar y cyd â chyrff eraill er mwyn sicrhau cyfranogiad effeithiol a gweithredol pob rhanddeiliad allweddol
- defnyddio'r system gynllunio i arwain gwaith datblygu priodol.[4]

*Gwaith Haearn Blaenafon, sy'n rhan o Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon (© Hawlfraint y Goron (2017) Croeso Cymru).*



## 1.2 Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd ¬

Arysgrifwyd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd yn safle unigol gan UNESCO ar y rhestr o Safleoedd Treftadaeth y Byd yn 1986 fel safle diwylliannol o Werth Cyffredinol Eithriadol. Mae'r safle'n cynnwys Castell Biwmares, Castell a Muriau Tref Caernarfon, Castell a Muriau Tref Conwy, a Chastell Harlech. Roedd ymysg y saith safle cyntaf o'r DU i gael ei briodoli â'r lefel hon o bwysigrwydd rhyngwladol. Dangosir y pedwar lleoliad drosodd.

Un o ganlyniadau penderfyniad Brenin Edward I o Loegr (1272–1307), a gyhoeddwyd ar 17 Tachwedd 1276, i fynd yn erbyn Llywelyn ap Gruffudd, tywysog Cymru (m. 1282), fel rebel ac aflonyddwr ar yr heddwch[5], oedd dechrau rhaglen o adeiladu cestyll yng Nghymru ar raddfa nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen. Dros yr 20 mlynedd nesaf, dechreuodd y brenin adeiladu wyth castell newydd, yr oedd gan rai ohonynt drefi caerog sylweddol. Yn yr un cyfnod, gwelwyd gwaith adeiladu brenhinol o bwys mawr hefyd ym mhedwar o'r cestyll Cymreig brodorol a oedd wedi cael eu cipio gan y Goron, yn ogystal â sawl castell a oedd yn bodoli eisoes ar y gororau a ddefnyddiwyd i lansio gweithrediadau'r Saeson.

*Mae Castell Harlech yn un o'r pedwar castell sy'n rhan o Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd.*



Y gwychaf o'r wyth castell newydd oedd Biwmares, Caernarfon, Conwy a Harlech. Roedd pob un ar safleoedd arfordirol yng ngogledd-orllewin Cymru. Roedd gan Gaernarfon a Chonwy drefi newydd, pob un wedi'i hamgáu o fewn muriau anferth a adeiladwyd ar yr un amser â'r cestyll. Roedd gan Fiwmares dref newydd hefyd, ond ni chafodd ei hamgáu o fewn muriau cerrig tan fwy na 100 mlynedd ar ôl i'r castell gael ei adeiladu. Roedd gan Harlech dref newydd fechan hefyd, ond ni fu ganddi furiau erioed. Cafodd y pedwar castell eu dechrau a'u cwblhau i raddau helaeth o fewn y cyfnod 1282 i 1330.

Heddiw, mae Safle Treftadaeth y Byd yn denu ymhell dros hanner miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn ac mae'n cyfrannu tua £8 miliwn i'r economi leol (cyfateb i fwy na 450 o swyddi). Mae'r cestyll yn enwog yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan gyfrannu'n helaeth at apêl a diddordeb yr ardal i ymwelwyr o bob cwr o'r byd.

Mae Atodiad 1 yn crynhoi'r dulliau presennol ar gyfer diogelu a gwarchod y Safle, yn cynnwys deddfwriaeth genedlaethol a threfniadau cynllunio lleol.

*Ffigur 1.1: Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd.*




Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri Hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Llywodraeth Cymru. Rhif Trwydded: 100017916 (2016).



Proof

## 1.3 Rôl y Cynllun Rheoli ¬

Mae UNESCO yn argymell y dylid llunio cynlluniau rheoli ar gyfer pob Safle Treftadaeth y Byd er mwyn dod â'r holl bartïon cyfrifol at ei gilydd a'i gwneud yn bosibl i'r safle gael ei reoli mewn ffordd gysylltiedig.[6] Mae'r gwaith o lunio, mabwysiadu ac adolygu'n rheolaidd gynlluniau rheoli y cytunwyd arnynt ar gyfer pob Safle Treftadaeth y Byd yn hanfodol i ddull gweithredu Cadw, partneriaid a chymunedau lleol o ddiogelu'r safleoedd pwysig hyn yng Nghymru.[7]

Caiff cynnwys cynllun rheoli ei reoli gan nodweddion unigryw'r Safle unigol.[8] Fodd bynnag, er mwyn bodloni gofynion UNESCO, dylai'r cynllun rheoli gynnwys disgrifiad cywir, cynhwysfawr a diwygiedig o'r safle a'i leoliad, ac egluro sut y caiff ei ddiogelu. Rhaid i'r cynllun gyflwyno Gwerth Cyffredinol Eithriadol a nodweddion allweddol y safle. O hyn, gellir sefydlu prif anghenion rheoli'r safle.

Mae statws Safle Treftadaeth y Byd yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.[9] Felly, mae'r cynllun rheoli yn gyswllt pwysig rhwng gofynion rhyngwladol UNESCO ar y naill law, a dyheadau a gofynion awdurdodau cynllunio lleol a chymunedau ar y llaw arall.

Prif rôl y cynllun rheoli yw cyflwyno polisïau a chamau gweithredu a gynlluniwyd i sicrhau y caiff.

*Y cei yng Nghonwy, a gaiff ei ailddatblygu yn unol â chynllun rheoli Safle Treftadaeth y Byd.*



Gwerth Cyffredinol Eithriadol y Safle ei gynnal a'i rannu. Gall hefyd:

- weithredu fel dull o helpu i ddatblygu hunaniaeth y Safle — beth mae'n ei olygu i gymunedau a rhanddeiliaid heddiw, yn ogystal ag annog dealltwriaeth o'r gorffennol
- sicrhau dull cydlynol o reoli pedwar lleoliad Safle Treftadaeth y Byd (a chan gynnwys y pedwar awdurdod cynllunio lleol sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)
- llunio ffocws ar gyfer rhanddeiliaid ac annog y broses o ddatblygu gwaith partneriaeth effeithiol
- ystyried twristiaeth gynaliadwy a sut y dylid ei rheoli, annog yr effeithiau economaidd ac adfywiol y gall Safle Treftadaeth y Byd eu cael a chwarae rôl arbennig o bwysig mewn diwylliant ac addysg.

Mae angen i'r cynllun rheoli newydd ystyried newidiadau mewn polisi cenedlaethol a lleol, a strategaeth yng Nghymru, yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, paratoi Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol ar gyfer Cymru a gweithio ar gynlluniau datblygu lleol.[10]

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd sylfaenol ar gyrff cyhoeddus (yn cynnwys Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau Parc Cenedlaethol) i weithio er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd cyflawni saith nod llesiant sy'n uniongyrchol berthnasol i'r Safle yn allweddol i'w lwyddiant, yn cynnwys Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a Chymru gydnerth o gymunedau cydlynus. Caiff yr amcanion hyn eu cydnabod o fewn y targedau a nodir ar gyfer y cynllun rheoli (gweler adran 4.4).

*Mae Castell a Muriau Tref Caernarfon yng nghanol tref brysur, fodern y mae angen iddi gael ei rheoli'n gynaliadwy nawr ac yn y dyfodol.*



## 1.4 Datblygu'r Cynllun Rheoli ¬


Grŵp llywio amlsefydliadol sy'n gyfrifol am weithredu'r cynllun rheoli. Mae'r grŵp llywio yn cynnwys swyddogion o Cadw ac o'r pedwar awdurdod cynllunio lleol. Ymysg y buddiannau ehangach mae cynrychiolaeth o blith Croeso Cymru, cynghorau cymuned, a'r sector busnes a'r sector preifat. Mae cynrychiolydd o ICOMOS-UK (Cyngor Henebion a Safleoedd Rhyngwladol y DU) hefyd yn aelod o'r grŵp llywio. Cynrychiolir cymunedau yn bennaf drwy swyddogion etholedig a thrwy gyflawni'r strategaeth ymgysylltu â'r gymuned yn effeithiol.

Cyfrifoldeb y grŵp llywio yw pennu a chynnal cyfres o egwyddorion gweithredol. Dylai'r rhain gynnwys trefniadau gweithio agored a thryloyw a chydnabyddiaeth o werth ymgysylltu a chyfranogi effeithiol er mwyn helpu i sicrhau canlyniadau da. Yn ogystal â bod yn bennaf cyfrifol am weithredu'r cynllun rheoli, mae'r grŵp llywio yn gyfrifol am fonitro hynt y camau gweithredu a nodir yn y cynllun, ac am gyflwyno adroddiadau rheolaidd i UNESCO.

Mae Bwrdd Safle Treftadaeth y Byd, sy'n cynnwys uwch aelodau o staff o Cadw a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chynrychiolwyr llywodraeth leol, yn rhoi cyfeiriad strategol i'r grŵp llywio. Cyfarfu'r bwrdd bob blwyddyn. Bydd y grŵp llywio yn sefydlu cyfres o is-grwpiau thematig i gymryd camau a chyflawni tasgau penodol a nodir yn y cynllun rheoli. Ymhlith yr is-grwpiau bydd cynllunio a chadwraeth, a'r economi ac adfywio. Bydd yr is-grwpiau yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau rhanddeiliaid.

Ategir gwaith y grŵp llywio ymhellach gan gydgysylltydd Safle Treftadaeth y Byd. Mae hon yn rôl allweddol, sy'n sicrhau cydweithredu agos â rhanddeiliaid, hyrwyddo Safle Treftadaeth y Byd fel ardal â hunaniaeth unigrwydd a hwyluso'r gwaith o gyflawni'r cynllun rheoli. Dangosir y strwythur rheoli a llywodraethu yn Ffigur 1.2.

*Ffigur 1.2: Rheoli a Llywodraethu Safle Treftadaeth y Byd.*



## 1.5 Cyfranogiad Rhanddeiliaid a'r Gymuned ¬

Mae llwyddiant Safle Treftadaeth y Byd — o ran gwarchod, cadw a chyflwyno — yn dibynnu ar ymrwymiad partneriaid i weledigaeth a rennir a gaiff ei chefnogi gan gamau gweithredu sy'n gyflawnadwy ac yn ymarferol.

Un o brif flaenoriaethau UNESCO ac ICOMOS yw annog budd cymdeithasol Safleoedd Treftadaeth y Byd, drwy gynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus, cyfranogiad cymunedol a chydweithrediad rhyngwladol. Mae hefyd yn bwysig trosglwyddo arwyddocâd y Safle drwy ddathlu natur unigryw ddiwylliannol. Mae datblygu balchder dinesig yn y cymunedau unigryw sy'n byw ac yn gweithio o fewn y Safle yn fan cychwyn hanfodol ar gyfer trawsnewid eu hamgylchiadau cymdeithasol ac economaidd, a gweithredu fel ysgogwr ar gyfer adfywio economaidd, twristiaeth gynaliadwy a chynhwysiant cymdeithasol.

Mae ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid yn hanfodol yng nghyd-destun gwarchod, datblygu cynaliadwy a rheoli Safle Treftadaeth y Byd yn barhaus. Caiff Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a'r Gymuned ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd ei chyhoeddi'n swyddogol a bydd yn datblygu dros gyfnod y cynllun rheoli er mwyn sicrhau bod yr ymdrechion i wella ymgysylltiad â chymunedau lleol a dealltwriaeth ohonynt yn parhau.

*Digwyddiad Fusion a gynhaliwyd i hyrwyddo ymwneud y gymuned â Chastell Caernarfon (gweler adran 4.6.9).*



Datblygwyd y cynllun rheoli hwn mewn ffordd gyfranogol gyda chymunedau lleol a rhanddeiliaid. Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Safle, ac er mwyn hysbysu pobl am broses y cynllun rheoli a'u cynnwys ynddi. Yn ogystal ag archwilio materion o bwys sylfaenol sy'n effeithio ar strwythurau adeiledig y cestyll a muriau trefi, archwiliodd fforymau i randdeiliaid a digwyddiadau arddangos cyhoeddus hefyd yr hyn a grëwyd rhwng yr henebion a chymunedau er mwyn ysgogi perchenogaeth a chyfle. Ymysg y themâu cyffredinol a gododd o'r broses ymgynghori ac ymgysylltu roedd yr angen am fwy o ddeialog gyda chymunedau, pwysigrwydd dull gweithredu cydlynol rhwng sefydliadau partner, meithrin partneriaethau newydd (er enghraifft, gyda thirfeddianwyr neu'r sector preifat) yn ogystal â chysylltu â chyfleoedd eraill sy'n bodoli yn y pedair tref a'r ardal ehangach.

Yn hollbwysig, mae angen pwysleisio'r syniad o warchod y Safle a'r hyn y mae'n ei olygu i bobl y trefi a'r cymunedau ehangach, drwy'r broses o baratoi'r cynllun rheoli ei hun ac wrth gyflwyno'r prosiectau a'r camau gweithredu yn ehangach.

*Un o'r digwyddiadau cymunedol a gynhaliwyd yng Nghastell Caernarfon fel rhan o Olympiad Diwylliannol 2012.*



## 1.6 Cyflawniadau'r Cynllun Rheoli Blaenorol ¬

Nid yw llawer o gamau gweithredu a dyheadau'r cynllun rheoli blaenorol, sydd wedi bod ar waith ers 2004, wedi eu cyflawni. Cwblhawyd arolygiad bob pum mlynedd o Gastell Biwmares, Castell a Muriau Tref Conwy, Castell a Muriau Tref Caernarfon a Chastell Harlech ym mis Mawrth 2016. Defnyddiodd ddulliau archwilio gweledol a dronau awyrol i gael delweddau eglur iawn o ardaloedd na ellir eu cyrraedd. Canfu'r archwiliad bod cyflwr cyffredinol y cestyll a muriau trefi yn dda, sy'n adlewyrchiad cadarnhaol o'r rhaglenni treigl o waith atgyweirio a chadwraeth a gynhaliwyd. Yn ystod cyfnod y cynllun, gwnaed gwaith cadwraeth sylweddol o amgylch muriau trefi Caernarfon a Chonwy, rhagfur Castell Conwy a nodweddion mewnol o fewn tyrrau Castell Harlech. Mae rheiliau a mynedfeydd newydd wedi'u gosod yng Nghastell Conwy ac ar hyd muriau'r dref.

Dechreuodd y broses o ddeall nodweddion y pedair tref yn fanylach gyda'r astudiaeth o nodweddion trefol ar gyfer ardal Glannau Caernarfon yn 2010.[11] Mae hyn wedi parhau gyda'r gwaith o baratoi datganiadau amlinellol o nodweddion ar gyfer y pedair tref fel sail ar gyfer astudiaethau manylach yn y dyfodol (gweler Atodiad 2).

*Mae'r cyfleusterau i ymwelwyr yn Harlech wedi cael eu gwella, gan gynnwys mynediad gwell dros bont newydd (ochr chwith) ac adnewyddu Gwesty'r Castell er mwyn darparu canolfan ymwelwyr a fflatiau gwyliau (ochr dde).*





Cynhaliwyd cynhadledd yn 2007 i nodi saith can mlwyddiant marwolaeth Brenin Edward I a gasglodd waith ymchwil diweddar am gestyll a threfi Edwardaidd yng Nghymru. Cyhoeddwyd trafodion y gynhadledd ar ôl hynny yn 2010 fel *The Impact of the Edwardian Castles in Wales.*[12] Nododd hyn y cam ymlaen mwyaf a welwyd o ran gwaith ymchwil ac ystyried yr effaith a gafodd adeiladu'r cestyll ar Gymru yn y gorffennol, yn y presennol ac yn y dyfodol. Mae'r papurau yn dangos dealltwriaeth fwy cyfannol o'r cestyll Edwardaidd a'u cyd-destun, yn cynnwys eu symbolaeth a'u heffaith ar gymdeithas a thywysogion Cymru.

Ymysg y cyfleusterau newydd i ymwelwyr mae'r gwaith i adnewyddu ac ailagor y ganolfan ymwelwyr yng Nghonwy yn 2012, datblygu hen Westy'r Castell yn Harlech yn ganolfan newydd i ymwelwyr gyda chaffi a fflatiau gwyliau yn 2016, adeilad swyddfa docynnau newydd yng Nghastell Caernarfon yn 2015 ac agor y rhan fwyaf o furiau tref Conwy i'r cyhoedd. Crëwyd porthbontydd hygyrch â chynlluniau creadigol hefyd yng nghestyll Caernarfon a Harlech.

Gwnaeth y broses o gwblhau cynllun dehongli ar gyfer y Safle yn 2010[13] liwio deunydd dehongli newydd addysgol sy'n ysgogol yn weledol. Mae hwn bellach wedi'i osod yn y pedwar castell, yn cynnwys ym Miwmares (2016) sy'n defnyddio delweddau cyfrifiadurol i ddangos sut y gallai'r castell fod wedi edrych pe byddai wedi cael ei gwblhau. Mae'r gwaith ymchwil a wnaed yn ystod cyfnod y cynllun rheoli blaenorol hefyd wedi llywio'r gwaith o baratoi tywyslyfrau newydd ar gyfer cestyll Conwy, Biwmares a Harlech.[14]

*Mae'r fynedfa newydd i ymwelwyr yng Nghastell Caernarfon wedi'i chynllunio i groesawu ymwelwyr ond nid yw'r adeilad ei hun yn amharu fawr ddim ar yr adeiladwaith canoloesol (ochr chwith a de).*



Mae cysylltiadau â chymunedau lleol wedi parhau i gael eu datblygu drwy amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a phrosiectau. Ymysg y llwyddiannau nodedig mae'r rhaglenni gweithgareddau a ddatblygwyd ac a weithredwyd yn llwyddiannus fel rhan o brosiect Olympiad Diwylliannol Cymru yn ystod y pedair blynedd cyn Gemau Olympaidd Llundain yn 2012. Roedd hyn yn cynnwys opera roc 'Men of Harlech', a oedd yn seiliedig ar fywyd Owain Glyndŵr yn Harlech, a 'Cipio'r Castell, a oedd yn cynnwys gwaith celf, cerddoriaeth a theatr yng Nghastell Caernarfon.

Llwyddwyd i warchod lleoliad yr henebion yn llwyddiannus drwy gynllunio gwaith rheoli datblygu a pholisïau priodol, er gwaethaf y pwysau ar gyfer datblygu a newid yn y pedwar lleoliad i wahanol raddau. Fodd bynnag, mae datblygiad sylweddol y glannau yn Noc Fictoria wedi cael effaith ar leoliad Castell a Muriau Tref Caernarfon, a arferai fod yn brif nodwedd y golygfeydd ar draws afon Menai o gornel fwyaf deheuol Ynys Môn. Er bod y cynigion gwreiddiol ar gyfer y datblygiad wedi'u lleihau'n sylweddol o ran uchder a maint mewn ymgais i leihau'r effaith ar leoliad Castell Caernarfon, yn enwedig yr olygfa o'r castell ei hun, mae hwn yn ddatblygiad dadleuol o hyd. Er y gall economi Caernarfon fod wedi cael hwb o ganlyniad i Ddoc Fictoria — drwy ddefnyddiau diwylliannol, manwerthu a phreswyl (ac felly cyflogaeth a gwariant yn yr economi leol) — mae llawer o'r farn bod yr adeiladau yn domineiddio'r forlin a'r nenlinell wrth edrych o Ynys Môn.

*Mae'r adnoddau dehongli newydd i helpu ymwelwyr i ddeall Castell Biwmares yn well yn cynnwys tafluniad digidol a chwarae meddal sy'n defnyddio cerrig adeiladu canoloesol eu harddull (ochr chwith a de).*





Mae Pwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO wedi sefydlu cylch o adroddiadau cyfnodol bob chwe blynedd at ddiben asesu cyflwr cadwraeth Safleoedd Treftadaeth y Byd. Dyma'r hyn sy'n pennu p'un a yw Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd wedi'i gynnal dros amser, yn ogystal â rhannu profiadau ac arfer da. Paratowyd yr adolygiad cyfnodol ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd ar gyfer UNESCO yn 2013[15] a nodwyd nifer o faterion, yn cynnwys:

- mae statws Treftadaeth y Byd wedi bod o fudd i weithgareddau addysg, gwybodaeth a chreu ymwybyddiaeth, ond mae lle i wella ymhellach
- mae'n bwysig cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gymunedol o'r Safle yn y pedwar lleoliad
- dylid gwella ymwybyddiaeth trigolion/cymunedau lleol a thirfeddianwyr o ffiniau Safle Treftadaeth y Byd
- mae Gwerth Cyffredinol Eithriadol y Safle wedi'i gyflwyno a'i ddehongli'n ddigonol, ond gellid gwneud gwelliannau.

*Mae gwarchodfilwr pren enfawr, yn y fynedfa i ward fewnol Castell Conwy yn helpu ymwelwyr i ddeall sut y cafodd yr adeiladau adfeiliedig eu defnyddio gynt.*



*Dod ag Owain Glyndŵr yn fyw fel seren roc o fri yn un o brosiectau Olympiad Diwylliannol Cymru 2012.*



## 1.7 Strwythur y Cynllun Rheoli ¬

Mae cyfoeth o wybodaeth eisoes yn bodoli am gestyll a muriau trefi Caernarfon a Chonwy a chestyll Biwmares a Harlech mewn cyfrifon hanesyddol, ymchwil a chyhoeddiadau. Nid oes angen ailadrodd gwybodaeth gefndir fanwl yma (er enghraifft, hanes y safle neu adroddiadau technegol am ei gyflwr). Yn hytrach, mae'r cynllun rheoli yn ceisio disgrifio'n syml ac effeithiol::

- nodweddion y Safle sy'n cyfrannu at ei Werth Cyffredinol Eithriadol ac y mae'n rhaid eu gwarchod er mwyn cynnal ei arwyddocâd
- pwysleisio materion a chyfleoedd sy'n wynebu'r broses o reoli'r Safle yn y dyfodol
- nodi'r polisïau a'r camau gweithredu a fydd yn arwain y broses hon.

Yn seiliedig ar hyn, mae'r cynllun rheoli wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

**Pennod 2** nodi arwyddocâd y Safle, yn cynnwys y Datganiad o Werth Cyffredinol Eithriadol, crynodeb o nodweddion allweddol y Safle, yr amodau dilysrwydd a chyfanrwydd y mae angen eu cynnal, a'r arwyddocâd a briodolir i leoliad a golygfeydd y Safle.

**Pennod 3** rhoi dadansoddiad o nodweddion allweddol y Safle, yn cynnwys hanes amlinellol pob castell ers iddo gael ei adeiladu, canlyniadau gwaith ymchwil diweddar sy'n coethi ac yn cyfrannu at y ddealltwriaeth o'r Safle, disgrifiad o'i hanes diweddar (trosglwyddo i ofal Cadw ar ran Gweinidogion Cymru, y mudiad cadwraeth, y twf mewn twristiaeth), rôl y cestyll mewn celf, cerddoriaeth a llenyddiaeth, a chrynodeb o'r cyd-destun cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

**Pennod 4** cynnwys y cynllun rheoli a'r fframwaith polisi ar gyfer y Safle, yn cynnwys y weledigaeth a'r egwyddorion cyffredinol, materion sy'n wynebu'r Safle ac amcanion a pholisïau cyfatebol. Mae'r cynllun gweithredu sy'n deillio o hyn yn nodi'r camau gweithredu a fydd yn arwain y gwaith o reoli'r Safle dros y pum mlynedd diwethaf, yn cynnwys sefydliadau arweiniol a sefydliadau partner, a therfynau amser (tymor byr, tymor canolig a thymor hir).

**Pennod 5** disgrifio'r trefniadau monitro.



*Castell Caernarfon o lannau Afon Seiont.*



*Dangosir y Brenin Edward I, a orchmynnodd i'r cestyll a'r muriau tref sy'n rhan o Safle Treftadaeth y Byd gael eu hadeiladu, yn y llawysgrif hon o ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg gyda'i uwch eglwyswyr (Y Llyfrgell Brydeinig, Llundain, y DU © Bwrdd y Llyfrgell Brydeinig. Cedwir Pob Hawl/Bridgeman Images, Cotton Vitellius, Ms. AXIII, f. 6v).*

# 2 Datganiad o Arwyddocâd ¬

## 2.1 Cyflwyniad ¬

Mae'r bennod hon yn crynhoi gwerth ac arwyddocâd y pedwar castell, dau fur tref a'u lleoliadau unigryw. Mae'n cynnwys y Datganiad o Werth Cyffredinol Eithriadol ar gyfer y Safle, y meini prawf ar gyfer ei arysgrifio a dadansoddiad o'r modd y mae'r safle yn bodloni gofynion UNESCO ar gyfer cyfanrwydd a dilysrwydd.[16]

Lleolir cestyll Biwmares a Harlech, a chyfadeiladau caerog Caernarfon a Chonwy yn hen dywysogaeth Gwynedd, yng ngogledd Cymru. Mae'r henebion hyn sydd mewn cyflwr eithriadol o dda yn enghreifftiau o'r adeiladweithiau gwladychu ac amddiffyn a godwyd drwy gydol teyrnasiad Brenin Edward I ac o bensaernïaeth filwrol yr oes.

Yn ogystal â bod yn warchodleoedd, roedd y cestyll hefyd yn ganolfannau llywodraethol. Roeddent yn symbolau o bŵer ac ynghyd â'u trefi muriog, roeddent yn gwasanaethu fel canolfannau a oedd yn lledaenu dylanwad Seisnig ledled Cymru. Y brenin a arweiniodd yr ymgyrch i adeiladu cestyll ond cnewyllyn o arbenigwyr oedd yn gyfrifol am gyflawni'r gwaith dan arweiniad James o St George (tua 1230–1309), Meistr Gwaith y Brenin, o Safwy. Ar adeg yr arysgrifiad, cafodd Meistr James ei ddisgrifio fel pensaer milwrol gorau'r cyfnod gan lawer o haneswyr. Mae cyfrifon adeiladu manwl Edward wedi arwain at gasgliad o archifau sydd wedi goroesi sy'n datgelu mewn manylder nas gwelwyd o'r blaen y dasg weinyddol anferth o adeiladu'r cestyll hyn. Maent hefyd yn ychwanegu dimensiwn dynol i ddod â'r stori a welir yn y meini yn fyw — gwyddom pwy fu'n gweithio ar y cestyll, o ble y daethant a faint y cawsant eu talu.

*Mae Safle Treftadaeth y Byd yn gampwaith o athrylith greadigol ddynol, o dan gyfarwyddyd y Meistr James o St George — meistr gweithiau'r brenin yng Nghymru. Mae'r llun yn y llawysgrif hon yn dangos brenin yn trafod â'i ben-saer maen tra bod gwaith adeiladu yn mynd rhagddo yn y cefndir (Y Llyfrgell Brydeinig, Llundain, y DU © Bwrdd y Llyfrgell Brydeinig. Cedwir Pob Hawl/Bridgeman Images, Cotton Nero Ms. DI, f. 23v).*



Mae'r cestyll a muriau trefi yn cynrychioli'r casgliad gorau sydd wedi goroesi o bensaernïaeth filwrol o ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg yn Ewrop. Erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roeddent yn cael eu gwerthfawrogi fel adfeilion pictiwrésg ac yn y ddeuddegfed ganrif, cawsant eu rhoi dan ofal y Wladwriaeth a'u gwarchod fel henebion o bwys cenedlaethol. Bellach, maent dan ofal Cadw ar ran Gweinidogion Cymru.

## 2.2 Datganiad o Werth Cyffredinol Eithriadol ¬

*Ar adeg yr arysgrifiad, lluniwyd datganiad o arwyddocâd ar gyfer y Safle. Ar ôl hynny, yn unol ag Erthygl 1 o Gonfensiwn UNESCO ar,*[17] gofynnwyd i bob Safle Treftadaeth y Byd presennol lunio Datganiad o Werth Cyffredinol Eithriadol. Mabwysiadwyd y Datganiad ôl-weithredol o Werth Cyffredinol Eithriadol ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd gan Bwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO yn 2013.

### 2.2.1 Cyfosodiad Cryno ¬


Pedwar castell Biwmares, Caernarfon, Conwy, Harlech a'r trefi caerog cysylltiedig yng Nghaernarfon a Chonwy yw'r enghreifftiau gorau o bensaernïaeth filwrol yn dyddio o ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg a dechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn Ewrop, fel y gwelir gan y ffaith eu bod wedi goroesi'n gyfan yn eu cyflwr gwreiddiol ac yn cynnwys tystiolaeth o le domestig trefnus a hefyd yr amrywiaeth eithriadol o ffurfiau canoloesol sy'n eu nodweddu.

Mae'r cestyll fel grŵp cydlynol o ran arddull yn enghraifft eithriadol o bensaernïaeth filwrol ganoloesol a gynlluniwyd ac a gyfarwyddwyd gan James o St George, prif bensaer y Brenin Edward I o Loegr, a phensaer milwrol gorau yr oes.

Mae'r ddogfennaeth dechnegol, gymdeithasol ac economaidd gyfoes helaeth a manwl am y cestyll, a'r ffaith bod y trefi caerog cyfagos yng Nghaernarfon a Chonwy wedi goroesi, yn sicrhau mai hwy yw un o brif gyfeiriadau hanes y canoloesoedd.

Mae cestyll Biwmares a Harlech yn orchestion artistig unigryw oherwydd y ffordd y maent yn cyfuno nodweddion strwythurau muriau dwbl yn dyddio o'r drydedd ganrif ar ddeg â chynllun canolog, ac oherwydd harddwch eu mesuriadau a'u gwaith maen.

*Mae'r cofnodion dogfennol ar gyfer gwaith adeiladu cestyll a muriau tref Safle Treftadaeth y Byd yn rhoi cyfrif clir o bwy gafodd dâl am ba waith, ble a phryd. Mae'r ddogfen a ddangosir yma yn cyfeirio at waith yng Nghastell Biwmares (Yr Archifau Cenedlaethol: E 372/158).*



### 2.2.2 Meini Prawf ar gyfer Arysgrifo ¬

**Maen prawf (i) cynrychioli camwaith athrylith creadigol**

Mae Biwmares a Harlech yn orchestion unigryw am eu bod yn cyfuno'r strwythur mur dwbl consentrig sy'n nodweddiadol o bensaernïaeth filwrol diwedd y drydedd ganrif ar ddeg â chynllun canolog tra phendant ac o ran harddwch eu mesuriadau a'u gwaith maen. Dyma gampweithiau James o St George a fu'n gweithredu fel cwnstabl Harlech rhwng 1290 a 1293, yn ogystal â bod yn brif bensaer i'r brenin.

**Maen prawf iii) bod yn dystiolaeth unigryw neu eithriadol o leiaf o draddodiad diwylliannol neu wareiddiad sy'n byw neu sydd wedi diflannu**

Mae cestyll brenhinol tywysogaeth hynafol Gwynedd yn dystiolaeth unigryw o ddulliau adeiladu yn y Canol Oesoedd i'r graddau bod y comisiwn brenhinol hwn wedi'i ddogfennu'n llawn. Mae'r adroddiadau gan Taylor yn Colvin (gol), *The History of the King's Works*, Llundain (1963),[18] yn nodi o ba rannau o Loegr yr oedd y gweithwyr wedi dod i weithio ar y cestyll, ac yn disgrifio'r defnydd a wnaed o gerrig wedi'u cloddio ar y safle. Maent yn amlinellu'r modd yr ariannwyd y gwaith adeiladu ac yn rhoi cipolwg i ni ar fywyd beunyddiol y gweithwyr a'r boblogaeth ac felly maent yn un o brif gyfeiriadau hanes y canoloesoedd.

**Maen Prawf (iv) bod yn enghraifft eithriadol o fath o adeilad, ensemble pensaernïol neu dechnolegol neu dirwedd sy'n dangos (a) cyfnod(au) pwysig yn ystod hanes dynolryw**

Cestyll a threfi caerog Gwynedd yw'r enghreifftiau gorau o bensaernïaeth filwrol yn dyddio o ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg a dechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn Ewrop. Parhaodd y gwaith o'u hadeiladu, a ddechreuodd yn 1283 ac a rwystrwyd o bryd i'w gilydd gan wrthryfeloedd Madog ap Llewelyn yn 1294, tan 1330 yng Nghaernarfon a 1331 ym Miwmares. Prin iawn yw'r gwaith adfer sydd wedi'i wneud arnynt ac yn eu cyflwr gwreiddiol maent yn darparu ystod o ffurfiau pensaernïol canoloesol: barbicanau, pontydd codi, pyrth caerog, rhwystrau, rhag-gaerau, daeargelloedd, tyrau a llenfuriau.

*Y cestyll yw'r enghreifftiau gorau o bensaernïaeth filwrol sy'n dyddio o ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg a dechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn Ewrop. Mae'r olygfa hon o'r awyr yn dangos cynllun muriau o fewn muriau Castell Harlech ((Skyscan Balloon Photography ar ran Cadw).*



### 2.2.3 Cyfanrwydd ¬

Mae'r cestyll unigol yn gyfan i raddau helaeth ac nid yw eu cynllun cydlynol, eu dyluniad nac ansawdd y gwaith adeiladu wedi pylu.

Mae'r pedwar castell yn cynnwys yr holl strwythurau amddiffynnol canoloesol o fewn ffin yr eiddo, ond nid yr aneddiadau cynlluniedig na'r glannau. Lleolir yr holl nodweddion amddiffynnol o fewn ffin y Safle, ond gan fod y trefi yn rhan annatod o'u trefniadau amddiffynnol, gweinyddol ac economaidd, a'u safle ar lan y dŵr yn cyfrannu at eu hamddiffynfa a'u masnach, gellid gweld yr ystod lawn o nodweddion yn ymestyn y tu hwnt i'r ffiniau cul.

Erys y gydberthynas hanfodol rhwng pob castell a'i dirwedd arfordirol ac, mewn dau achos, mae'r gydberthynas agos rhwng y castell a'r dref yn nodwedd drawiadol o'r dirwedd drefol o hyd. Er nad oes unrhyw glustogfa, mae gwerth y treflun ehangach y lleoliad hanfodol a'r golygfeydd pwysig o bob castell wedi'u hymgorffori yn y cynllun rheoli.

Gallai bygythiadau posibl i gyfanrwydd y safle gynnwys datblygiad nad yw'n cydweddu ar ochr y dref/y tir o'r cestyll, ond gallai hefyd gynnwys datblygiad arfordirol neu ddatblygiad ar y môr o fewn lleoliad y cestyll. Mae angen diogelu lleoliad y cestyll er mwyn sicrhau nad yw eu cydberthynas â'u cefnwlad a'u harfordir yn pylu.

*Roedd y berthynas rhwng Castell Biwmares ac Afon Menai yn hollbwysig o ran y ffordd y câi'r castell, a'r dref a adeiladwyd wrth ei ymyl, eu cyflenwi a'u gweithredu (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*




Proof

### 2.2.4 Dilysrwydd ¬

Mae dilysrwydd pob un o'r pedwar castell canoloesol a'r ddau gylched o furiau tref wedi'i gynnal er gwaethaf rhywfaint o waith ailadeiladu ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghaernarfon. Yn ystod y 100 mlynedd diwethaf, ymgymerwyd â'r gwaith o warchod y cestyll a muriau'r trefi yn seiliedig ar athroniaeth 'cadw fel y'i darganfuwyd', gyda chyn lleied o ymyrraeth neu waith addasu ymwthiol â phosibl. Mae cynlluniau, ffurf, deunyddiau a nodweddion y cestyll fwy neu lai'n ddigyfnewid o'u ffurf canoloesol. Mae'n amlwg eu bod yn dal i ddangos yr amrywiaeth eang o ffurfiau pensaernïol canoloesol, yn cynnwys barbicanau, pontydd codi, pyrth caerog, rhwystrau, rhag-gaerau, daeargelloedd, tyrau a llenfuriau.

Erys muriau'r dref yng Nghaernarfon a Chonwy yn ddigyfnewid i raddau helaeth, ac maent yn darparu clostir sydd bron yn gyflawn o'u trefluniau cysylltiedig, sy'n eithriadol o brin.

Mae lleoliad cyffredinol y pedwar castell yn gyflawn fwy neu lai — ac eithrio'r datblygiad ar y Morfa yn Harlech a rhywfaint o waith datblygu newydd yn Noc Fictoria yng Nghaernarfon — ac felly dangosir eu graddfa, eu grym amddiffynnol a'u presenoldeb bygythiol yn glir iawn o hyd, yn ogystal â'u harddwch a'u hamlygrwydd yn y dirwedd arfordirol.

*Mae cylchlin muriau'r dref, yn ogystal â'r castell yng Nghonwy yn hynod o gyflawn a heb eu newid (© Hawlfraint y Goron (2017) Croeso Cymru).*



## 2.2.5 Gofynion Diogelu a Rheoli ¬

Mae Llywodraeth y DU yn gwarchod Safleoedd Treftadaeth y Byd drwy warchodaeth statudol safleoedd ac adeiladau unigol a thrwy gynllunio gofodol a chanllawiau. Diogelir y pedwar castell a'r ddau gylched o furiau tref drwy broses gofrestru statudol fel henebion o bwysigrwydd cenedlaethol a thrwy fod yng ngofal y Wladwriaeth, maent fel y cyfryw yn cael eu cynnal gan gorff cadwraeth perthnasol y llywodraeth yn unol ag egwyddorion cadwraeth cyfredol. Caiff y pedwar ohonynt eu gwarchod gan gynlluniau lleol, canllawiau cynllunio a'u cynlluniau rheoli Treftadaeth y Byd a adolygir yn rheolaidd. Lleolir Harlech ym Mharc Cenedlaethol Eryri tra bod y pedwar ohonynt wedi'u lleoli mewn ardaloedd cadwraeth sy'n cwmpasu lleoliad uniongyrchol y cestyll a muriau trefi. Diffiniwyd eu lleoliad ehangach fel 'lleoliadau hanfodol' a chaiff golygfeydd allweddol eu diogelu. Cynhelir gwerthusiad o'u ffiniau fel rhan o'r broses o adolygu'r Cynlluniau Rheoli.

Mae'r mesurau hyn gyda'i gilydd yn sicrhau bod y Cestyll yn destun rheolaethau cadarn o ran gwaith datblygu a allai effeithio arnynt hwy neu eu lleoliad. Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin ac Asesiadau Perygl Llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn helpu i ddiogelu'r safleoedd rhag erydu arfordirol neu ddatblygiad arfordirol nad yw'n cydweddu, gan sicrhau bod y golygfeydd pwysig o'r arfordir i'w gweld o hyd.[19]

Caiff twristiaeth a gweithgarwch rheoli ymwelwyr eu cyfarwyddo gan Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru a'u gweithredu drwy gynllun rheoli Safle Treftadaeth y Byd sy'n cynnwys polisïau'n ymwneud â hyrwyddo, mynediad, dehongli a rheoli ymwelwyr.

Mae Grŵp Llywio Treftadaeth y Byd, sy'n cynnwys perchenogion safleoedd, awdurdodau lleol, y llywodraeth a'r cyhoedd, yn gyfrifol am roi'r cynllun rheoli ar waith, gan sicrhau y caiff gweithgarwch cadwraeth, rheoli datblygu, defnydd addysgol a mynediad cyhoeddus eu cynnal.

*Mae gwaith rheoli twristiaeth a weithredir drwy gynllun rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yn amrywio o ofalu am ymwelwyr ar safleoedd unigol i drefniadau teithio i goetsys (© Hawlfraint y Goron (2017) Croeso Cymru).*





## 2.3 Nodweddion Allweddol

Mae UNESCO yn argymell y dylai pob un o Safleoedd Treftadaeth y Byd nodi'r nodweddion sy'n cyfleu Gwerth Cyffredinol Eithriadol y safle. Yn ogystal â nodweddion ffisegol fel ffurf a dyluniad, deunyddiau a sylweddau, traddodiadau a dulliau, gall y nodweddion hefyd gynnwys elfennau anniriaethol fel defnydd a swyddogaeth, iaith, ysbryd a theimlad.[20] Er na ellir cymhwyso nodweddion fel ysbryd a theimlad yn ymarferol iawn, serch hynny maent yn ddangosyddion pwysig o gymeriad ac ymdeimlad o le; er enghraifft, mewn cymunedau sy'n cynnal traddodiad a pharhad diwylliannol. Caiff nodweddion allweddol Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd eu crynhoi isod a chânt eu disgrifio'n fanylach ym Mhennod 3.

Pedwar castell Biwmares, Caernarfon, Conwy a Harlech a'r trefi caerog cysylltiedig yng Nghaernarfon a Chonwy yw'r enghreifftiau gorau o bensaernïaeth filwrol yn dyddio o ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg a dechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn Ewrop.

Fel grŵp cydlynol o ran arddull, mae'r cestyll yn enghraifft eithriadol o bensaernïaeth filwrol ganoloesol a gynlluniwyd ac a gyfarwyddwyd gan James o St George, prif bensaer Brenin Edward I o Loegr, a phensaer milwrol mwyaf yr oes.

Y gydberthynas rhwng y cestyll a'u lleoliadau, yn cynnwys y pedair tref, a'r arfordir.

Mae'r ddogfennaeth dechnegol, gymdeithasol ac economaidd gyfoes helaeth a manwl am y cestyll yn sicrhau mai nhw yw un o brif gyfeiriadau hanes y canoloesoedd.

Mae cestyll Biwmares a Harlech yn orchestion artistig unigryw oherwydd y ffordd y maent yn cyfuno nodweddion strwythurau consentrig — muriau o fewn muriau — yn dyddio o'r drydedd ganrif ar ddeg â chynllun canolog, ac oherwydd harddwch eu mesuriadau a'u gwaith maen.

Dylanwad y cestyll ar ddiwylliant, iaith a natur unigryw Cymru.

*Un o nodweddion allweddol y cestyll yw eu perthynas agos â'r arfordir fel y dengys yr olygfa hon o Gaernarfon o Afon Menai.*



## 2.4 Lleoliad Safle Treftadaeth y Byd

Lleoliad yw'r ardal o amgylch ased hanesyddol lle mae'n cael ei ddeall, ei brofi a'i werthfawrogi, sy'n ymgorffori cydberthnasau blaenorol a phresennol â'r dirwedd gyfagos.[21] Mae'n aml yn ymestyn y tu hwnt i ffin yr eiddo ac i mewn i'r dirwedd neu'r treflun o'i amgylch. Yn *Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru*, caiff lleoliad ei ddisgrifio fel mwy na dim ond amgylchedd uniongyrchol safle; gall hefyd ymwneud â sut y bwriadwyd i'r safle ymdoddi i'r dirwedd, y golygfeydd oddi yno a sut mae'r safle yn cael ei weld o'r ardal oddi amgylch.[22]

Mae diogelu Gwerth Cyffredinol Eithriadol y Safle yn golygu diffinio a gwarchod ei leoliad. Yn ogystal â'r ystyriaeth gyffredinol a roddir i leoliad sy'n berthnasol i bob ased hanesyddol, mae'r lleoliad ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd hefyd yn cynnwys tair elfen benodol — lleoliad hanfodol, golygfeydd pwysig i mewn i'r Safle ac allan ohono, ac ymdeimlad o gyrraedd. Caiff yr elfennau hyn, yn ogystal â'r dehongliad ehangach o leoliad, eu hegluro a'u disgrifio isod.

Mae lleoliad asedau hanesyddol yn cyfuno elfennau ffisegol ac elfennau llai diriaethol yn cynnwys canfyddiadau swyddogaethol, synhwyraidd neu gysylltiadau hanesyddol, artistig, llenyddol a golygfaol. Gall y rhain newid dros amser wrth i'r ased hanesyddol a'i amgylchedd newid a datblygu. Mae lleoliad y Safle yn cynnwys agweddau sylweddol ar ei dirwedd a threflun sy'n ychwanegu at y ffordd y caiff y safle ei brofi a'i ddeall. Gall hyn gynnwys ardaloedd a mannau sy'n rhan o'r lleoliad hanfodol (gweler adran 2.4.1), ond gallant hefyd ymestyn y tu hwnt iddo. Er enghraifft, gall gynnwys ardaloedd sydd â chydberthynas swyddogaethol â'r Safle (fel y trefi eu hunain, glannau a llwybrau hanesyddol). Gallai gynnwys ardaloedd sy'n gwasanaethu fel paratoad ar gyfer y profiad o Safle Treftadaeth y Byd, neu ardaloedd sy'n pwysleisio'r cysylltiad rhwng y safle a safleoedd hanesyddol hŷn neu fwy diweddar (fel caer Rufeinig Segontium yng Nghaernarfon).

*Mae lleoliad Castell Conwy uwchlaw aber afon Conwy yn bwysig yn hanesyddol ac yn esthetig.*



Mae lleoliad y pedwar castell yn cynnwys trefi Caernarfon, Conwy, Harlech a Biwmares. Ni chafodd y gydberthynas rhwng y cestyll a'r trefi eu nodi'n llawn yn y cynllun rheoli blaenorol; mae gan y trefi nodweddion hanesyddol sy'n adlewyrchu eu tarddiad a'u pwysigrwydd parhaus ymhell ar ôl i rolau'r cestyll leihau. Mae astudiaethau amlinellol o nodweddion, a gynhelir fel rhan o'r gwaith o baratoi'r cynllun rheoli hwn, wedi nodi'r agweddau hynny ar y pedair tref yr ystyrir eu bod yn arbennig o berthnasol i leoliad Safle Treftadaeth y Byd er mwyn helpu i lywio cynigion datblygu a rheoli newidiadau o fewn yr ardaloedd hyn. Caiff y datganiadau amlinellol o nodweddion eu cyflwyno yn Atodiad 2.

Ni ellir mapio pob agwedd ar leoliad, gan ei fod yn cynnwys elfennau anniriaethol a chysylltiadau hanesyddol rhwng llefydd y mae'n bosibl nad ydynt yn gyfagos (er enghraifft mae Llanbeblig, lleoliad eglwys plwyf Caernarfon yn sylfaen ganoloesol gynnar gryn bellter o'r castell a'r dref).

### 2.4.1 Lleoliad Hanfodol


Fel arfer disgwylir i Safleoedd Treftadaeth y Byd a enwebir ar gyfer arysgrifiad heddiw gynnwys clustogfa er mwyn gwarchod y safle a'i leoliad yn effeithiol. Ni chafodd unrhyw glustogfa ei chynnwys ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd ar adeg yr arysgrifiad a oedd yn golygu bod angen rhoi mesurau eraill ar waith er mwyn sicrhau diogelwch digonol. Sefydlodd y cynllun rheoli diwethaf yr egwyddor o ddefnyddio 'lleoliad hanfodol' fel dull o reoli i ddiogelu'r pedair heneb. Mae'r rhain yn ardaloedd y tu hwnt i ffin Safle Treftadaeth y Byd, lle gallai datblygiad neu newid amhriodol gael effaith annerbyniol ar y Gwerth Cyffredinol Eithriadol, er enghraifft, drwy ddifrodi neu rwystro nodweddion penodol neu newid golygfeydd pwysig. Mae'r cynllun rheoli hwn yn cynnal ac yn gwella'r dull gweithredu hwnnw gan ei fod wedi cyflawni ei ddiben yn dda yn lle clustogfa.

Mae'r lleoliad hanfodol yn ardal a ddiffinnir gan ofod y gellir ei fapio a'i ddefnyddio i lywio'r broses o reoli datblygiad. Ym mhob lleoliad, caiff y lleoliad hanfodol ei gyfyngu yn y lle cyntaf i ardaloedd sy'n uniongyrchol gerllaw ffin Safle Treftadaeth y Byd, o fewn golygfeydd arwyddocaol neu olygfeydd cylchran, ac yr ystyrir mai hwn sydd fwyaf sensitif i'r datblygiad, yn weledol ac o safbwynt potensial archaeolegol. Nodir y lleoliad hanfodol ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd ar Fapiau 2.1–2.4. Disgrifir nodweddion allweddol y lleoliad hanfodol yn Nhabl 2.1. Noder mai at ddibenion enghreifftiol yn unig y mae'r golygfeydd a ddangosir yn Nhabl 2.1.

### 2.4.2 Golygfeydd Pwysig

Mae'r golygfeydd i'r Safle ac oddi yno yn bwysig er mwyn gwerthfawrogi'r safle a'i gyfanrwydd a'i ddilysrwydd. Ystyrir mai golygfeydd pwysig yw'r golygfeydd pwysicaf i'r henebion yn y Safle ac oddi yno. Fel arfer, mae'r golygfeydd hyn yn mynd y tu hwnt i ardaloedd y lleoliad hanfodol a gallant gynnwys cydberthnasau gweledol â nodweddion hanesyddol a naturiol allweddol sy'n gysylltiedig â'r Safle. Oherwydd ehangder panoramig rhai golygfeydd, yn enwedig y rhai i'r môr a'r mynyddoedd ac oddi yno, mae rhai golygfeydd pwysig wedi'u disgrifio fel 'golygfeydd cylchran'. Yn yr achosion hyn, ystyrir bod yr olygfa gyfan sydd o fewn y 'cylchran' yn bwysig.

Ystyrir bod datblygiadau neu newidiadau amhriodol yn rhai a fyddai'n rhwystro'r golygfeydd hyn neu'n ymyrryd â nhw neu'n tynnu sylw oddi wrthynt. Dangosir golygfeydd pwysig ym mhob lleoliad ar Fapiau 2.1–2.4 a chânt eu disgrifio'n gryno yn Nhabl 2.1. Noder mai at ddibenion enghreifftiol yn unig y mae'r golygfeydd a ddangosir yn Nhabl 2.1.




Tudalen 79



Proof

## Tabl 2.1 Agweddau Allweddol Lleoliad Hanfodol a Golygfeydd Pwysig

### Biwmares



**Lleoliad Hanfodol**

Er gwaethaf y newidiadau a wnaed ers i'r castell gael ei adeiladu, mae'r dirwedd wledig ac arfordirol i'r gorllewin, y gogledd a'r dwyrain yn cynnal lleoliad hanesyddol. Ceir cyswllt hanesyddol rhwng y castell a'r tŷ a'r parc a elwir yn Baron Hill. Mae'r ddau wedi bod yn rhan o ystâd Bulkeley ers bron i 200 o flynyddoedd; mae'r parc yn benodol bron yn cyrraedd ffos y castell.

Mae ardal y dref ganoloesol yn dangos y gydberthynas rhwng y castell a'r fwrdeistref. Mae'r lleoliad hanfodol yn cynnwys y rhan o'r dref sy'n ffinio â Steeple Lane. Mae hon hefyd yn ffurfio rhan o Ardal Gadwraeth Biwmares, sy'n ymestyn y tu hwnt i leoliad hanfodol y Safle i'r de a'r gorllewin o'r dref.

Mae gan y castell gydberthynas agos â'r môr, gyda'r brif fynedfa ger porthladd llanw'r castell. Byddai'r lleoliad ar y glannau wedi parhau i sicrhau mynediad i gyflenwadau a gwarchodlu.



*Llun o Gastell Biwmares o'r awyr yn dangos rhan o'r lleoliad hanfodol gyda thir agored ar dair ochr a'r dref hanesyddol ar yr ochr arall (llun uchaf).*

*Yr olygfa i lawr prif stryd Biwmares o'r castell. Mae'r brif stryd yn gorwedd o fewn y lleoliad hanfodol ac Ardal Gadwraeth Biwmares (gwaelod).*

## Tabl 2.1 Agweddau Allweddol Lleoliad Hanfodol a Golygfeydd Pwysig

### Biwmares



**Golygfeydd pwysig**

**O'r castell** — mae golygfeydd tua'r môr o Baron Hill yn cysylltu'r castell â'r dirwedd wledig, ond mae'r golygfeydd mwyaf godidog yn gylchran o fwy na 180 gradd o Ynys Seiriol i afon Menai, yn cynnwys Y Gogarth ac Eryri.

**I'r castell** — am na chafodd y muriau a'r tyrau eu codi i'r uchder a fwriadwyd, o olygfannau pell sy'n isel ar yr arfordir neu ar y dŵr y mae'r castell yn creu'r argraff fwyaf. Mae golygfeydd agosach o Baron Hill, strydoedd y dref hanesyddol (yn enwedig Stryd y Castell) a'r Lawnt ar lan y môr yn bwysig.



*Yr olygfa o'r castell o Baron Hill yn edrych ar draws Afon Menai tuag at Eryri (llun uchaf).*

*Yr olygfa o rodfa mur y castell tuag at Afon Menai ac Eryri yn y pellter (gwaelod).*

## Tabl 2.1 Agweddau Allweddol Lleoliad Hanfodol a Golygfeydd Pwysig


### Biwmares

*Y parcdir tua'r gogledd o'r castell, a elwir yn Baron Hill.*





*Mae lleoliad y castell ar dir isel yn amlwg yn yr olygfa o'r Maes.*




Tudalen 83



Proof

## Tabl 2.1 Agweddau Allweddol Lleoliad Hanfodol a Golygfeydd Pwysig

## Caernarfon



**Lleoliad Hanfodol**

Mae Ardal Gadwraeth Caernarfon gyfan wedi'i chynnwys o fewn lleoliad hanfodol y Safle. Mae hyn yn cynnwys y dref furiog gyfan, y Maes a rhan o'r datblygiad trefol sy'n dyddio yn bennaf o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn union y tu hwnt i'r muriau.

Mae Ffordd Santes Helen yn fynedfa gynyddol bwysig i'r dref ac mae'n ardal lle mae rhywfaint o waith adfywio / ailddatblygu eisoes wedi'i wneud a lle gellir disgwyl rhagor o ailddatblygu (er enghraifft, ardal y Cei Llechi yn cynnwys gorsaf Rheilffordd Ucheldir Cymru).





*Llun o Gastell Caernarfon a'r dref o'r awyr yn aber Afon Seiont ac Afon Menai (llun uchaf).*

*Mae'r Maes o flaen Castell Caernarfon yn gorwedd o fewn Ardal Gadwraeth Caernarfon ac mae'n rhan o'r lleoliad hanfodol (canol).*

*Mae'r dref gaerog gyfan yn gorwedd o fewn yr ardal gadwraeth a'r lleoliad hanfodol (gwaelod).*

## Tabl 2.1 Agweddau Allweddol Lleoliad Hanfodol a Golygfeydd Pwysig

### Caernarfon



Ystyrir bod y golygfeydd i fyny ac i lawr afon Seiont yn werth eu diogelu, ynghyd ag ardal amlwg Coed Helen.

Mae Doc Fictoria wedi'i gynnwys o fewn y lleoliad hanfodol. Bellach, mae'n farina ffyniannus sy'n cynnwys gwestai a bwytai ar ei phen gogleddol, yn ogystal â chanolfan ddiwylliannol (Galeri). Mae'r broses o adfywio ardal y doc wedi bod yn ychwanegiad pwysig i economi'r dref, ond mae dyluniad y datblygiad masnachol braidd yn anghydnaws â'r Safle. Gellir disgwyl rhagor o ddatblygiadau yma; mae ei agosrwydd at y Safle ac arwyddocâd hanesyddol y doc mewn perthynas â datblygiad y dref yn golygu bod hon yn ardal arbennig o sensitif.





*Mae Doc Fictoria yn farina ffyniannus bellach (llun uchaf).*

*Y promenâd a muriau'r dref tuag at Afon Menai (canol).*

*Mae'r lleoliad hanfodol yn ymestyn i fyny Afon Seiont am bron cilomedr o'r arfordir (gwaelod).*

## Tabl 2.1 Agweddau Allweddol Lleoliad Hanfodol a Golygfeydd Pwysig

## Caernarfon



### Golygfeydd Pwysig

**O'r castell a muriau'r dref** — yr holl olygfa gylchran forol o afon Menai yn cynnwys arfordir Ynys Môn, yr olygfa o Goed Helen ac yn fewndirol ar hyd afon Seiont. Ceir golygfeydd tebyg wrth gerdded ar hyd muriau a thyrau'r castell ac o furiau'r dref.

**I mewn i'r castell a muriau'r dref** — y golygfeydd o afon Menai ac Ynys Môn, y golygfeydd o Goed Helen ac ar hyd afon Seiont (dyma'r olygfa a baentiwyd gan J. M. W. Turner, 1775–1851); a'r olygfa o Dwtil. Caiff golygfeydd eraill eu fframio gan strydoedd y dref.





*Yr olygfa o Dwtil tuag at y castell a'r dref gaerog (llun uchaf).*

*Yr olygfa o'r castell tuag at Goed Helen (canol)*

*Yr olygfa o'r môr tuag at furiau'r dref a'r castell (gwaelod) (© Hawlfraint y Goron(2017) Croeso Cymru).*

## Tabl 2.1 Agweddau Allweddol Lleoliad Hanfodol a Golygfeydd Pwysig


### Caernarfon

*Llun dyfrlliw J. M. W. Turner o Gastell Caernarfon a beintiwyd oddeutu 1832 (Yr Amgueddfa Brydeinig, Llundain, y DU/Bridgeman Images).*





*Mae golygfa J. M. W. Turner o'r castell o Afon Seiont yn olygfa bwysig o hyd.*


Map 2.3 Conwy Lleoliad Hanfodol a Golygfeydd Pwysig
CONWY

## Tabl 2.1 Agweddau Allweddol Lleoliad Hanfodol a Golygfeydd Pwysig

## Conwy




**Lleoliad Hanfodol**

Er bod lleoliad Castell Conwy wedi'i drawsnewid dros amser, mae'r castell yn dominyddu'r safle o hyd.

Mae'r ardal gaadwraeth gyfan wedi'i chynnwys o fewn y lleoliad hanfodol, gan gynnwys y dref furiog. Y rhannau o'r lleoliad hanfodol sydd y tu hwnt i ddiogelwch Ardal Gadwraeth Conwy yw:

- Parc a choedwig Bodlondeb, ac adeiladau cysylltiedig, sy'n creu ardal agored gyhoeddus fawr ychydig y tu allan i furiau'r dref. Mae'r gwahaniaethau mewn tirwedd yn golygu bod hon yn ardal sensitif ar gyfer datblygiadau newydd a all effeithio ar y golygfeydd i res ogleddol muriau'r dref ac oddi yno



*Mae'r llun hwn o Gonwy o'r awyr yn dangos sut mae'r dref yng nghysgod y castell (llun uchaf).*


*Mae'r dref gaerog a'r castell yn gorwedd o fewn Ardal Gadwraeth Conwy a'r lleoliad hanfodol (gwaelod). (© Hawlfraint y Goron (2017) Croeso Cymru).*

## Tabl 2.1 Agweddau Allweddol Lleoliad Hanfodol a Golygfeydd Pwysig

### Conwy



- ardaloedd agored Dyffryn Gyffin i'r de o furiau'r dref — gallai datblygiadau yma effeithio'n andwyol ar y golygfeydd i res ddeheuol muriau'r dref ac oddi yno
- y tir i fyny'r allt o dŵr gwylio mur y dref (Tŵr 13) — man uchaf y Safle
- Coed Benarth, sy'n fframio'r olygfa tua'r de o'r castell a muriau'r dref
- mae tair pont yn croesi'r afon, pob un o gyfnod a dyluniad gwahanol, a'r rhain yw'r prif lwybrau at y castell a'r dref.



*Yr olygfa o goed Bodlondeb sy'n gorwedd o fewn y lleoliad hanfodol (llun uchaf).*

*Y tair pont sy'n croesi Afon Conwy yw'r prif ffyrdd o gyrraedd y dref ac maent yn gorwedd o fewn y lleoliad hanfodol (gwaelod).*

## Tabl 2.1 Agweddau Allweddol Lleoliad Hanfodol a Golygfeydd Pwysig

## Conwy



### Golygfeydd Pwysig

**O'r castell a muriau'r dref** — afon Conwy, y pontydd, y cob a Chastell Deganwy, yn ogystal â'r olygfa tua'r mynyddoedd i'r gorllewin. Mae uchder tyrau'r castell a maint muriau'r dref yn cynnig sawl golygfan. Mae'r golygfeydd o dŵr mwyaf gorllewinol mur y dref (y tŵr gwylio) yn arbennig o eang ac yn rhoi golygfeydd 360 gradd.

**I mewn i'r castell a muriau'r dref** — sawl golygfa o afon Conwy, Deganwy, yn cynnwys ei chastell a'r mynyddoedd (paentiodd J. M. W. Turner yr olygfa o flaendraeth Benarth), golygfa wych i lawr Dyffryn Gyffin (paentiwyd gan Paul Sandby, 1731–1809) ac amrywiaeth o olygfeydd o'r tu mewn i'r dref furiog.





*Un o'r golygfeydd o'r castell ar hyd Afon Conwy (llun uchaf).*

*Yr olygfa o'r castell yn edrych ar hyd ac ar draws yr aber at ddau fryn Castell Deganwy (canol).*

*Yr olygfa o Ddeganwy tuag at y dref gaerog a'r castell (gwaelod).*

## Tabl 2.1 Agweddau Allweddol Lleoliad Hanfodol a Golygfeydd Pwysig


### Conwy

*Peintiad olew J. M. W. Turner o Gastell Conwy a beintiwyd oddeutu 1803 (Casgliad Preifat/Bridgeman Images).*





*Mae'r olygfan hon a ddefnyddiwyd gan J. M. W. Turner i beintio'r castell o aber Afon Gyffin yn olygfa bwysig o hyd.*




Tudalen 93



Proof

## Tabl 2.1 Agweddau Allweddol Lleoliad Hanfodol a Golygfeydd Pwysig

# Harlech



**Lleoliad Hanfodol**

Mae Castell Harlech i'w weld am gryn bellter mewn golygfa gylchran tua'r môr. Wrth droed y castell, mae ardal y Morfa wedi'i datblygu dros amser ar gyfer defnyddiau yn cynnwys tir pori, parciau carafannau a datblygiadau trefol, ond adeiladau lefel isel a geir yno yn bennaf.

Mae Ardal Gadwraeth Harlech yn amgylchynu'r dref hanesyddol a'r ardal o'i hamgylch ac mae'n ymestyn tua'r de at Goleg Harlech. Ymysg y rhannau o'r lleoliad hanfodol yr ystyrir eu bod yn arbennig o sensitif mae:

- y dref ar y graig, sef y llwybr at borthdy'r castell
- ymylon y dref a'r clogwyni coediog sy'n ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain a'r de
- yr ardal ar y Morfa wrth droed y graig yw'r llwybr at y 'Ffordd o'r Môr'. Mae'r rhan fwyaf o'r ardal hon y tu hwnt i Ardal Hanesyddol Harlech.





*Castell Harlech o'r awyr yn edrych tua'r dwyrain dros y dref (llun uchaf).*

*Mae'r dref i'r dwyrain o'r castell yn gorwedd o fewn Ardal Gadwraeth Harlech (canol).*

*Golygfa yn edrych i'r de tuag at y clogwyni coediog a Choleg Harlech (gwaelod).*

## Tabl 2.1 Agweddau Allweddol Lleoliad Hanfodol a Golygfeydd Pwysig

## Harlech



### Golygfeydd Pwysig

**O'r castell** — yr olygfa gylchran gyfan dros y Morfa tua'r môr ac Eryri. Mae'r olygfa o'r castell tua'r dwyrain yn bwysig gan ei bod yn cwmpasu tirwedd wledig Cromen Harlech (nodwedd ddaearyddol amlwg).

**I mewn i'r castell** — mae dwy olygfa bwysig o bell o wedd ogleddol y castell: yr olygfa a baentiwyd gan J. M. W. Turner a'r olygfa a baentiwyd gan John Varley (1778–1842), er y gall eu golygfannau gwirioneddol fod wedi'u colli drwy newidiadau yn y dirwedd. O'r de, dim ond o rai mannau pell y gellir gweld y castell. O fewn y dref, ceir golygfeydd agosach o nifer o gyfeiriadau, ac mae'r olygfa o hen Westy'r Castell ar draws y ffos yn dangos cadernid y castell a'i hamddiffynfeydd.



*Golygfeydd pwysig o Gastell Harlech ar draws y Morfa (llun uchaf) a thros y dref (gwaelod).*

## Tabl 2.1 Agweddau Allweddol Lleoliad Hanfodol a Golygfeydd Pwysig

### Harlech

*Yr olygfa bwysig o'r castell o'r gogledd-ddwyrain, ger y man lle y peintiodd J. M. W. Turner y castell, ond nid yw'r union olygfan yn bodoli mwyach.*





*Harlech Castle painted from Tygwyn Ferry, Summer's Evening Twilight, a beintiwyd gan Turner oddeutu 1798–99 (Yale Center for British Art, Casgliad Paul Mellon, UDA/Bridgeman Images).*

### 2.4.3 Ymdeimlad o Gyrraedd

Mae ymdeimlad o gyrraedd yn elfen nodedig yn lleoliad y Safle. Gall ategu ei Werth Cyffredinol Eithriadol a chyfrannu at ymdeimlad nodedig o le. Gall adeiladau, safleoedd, nodweddion tirwedd neu olygfeydd ddylanwadu ar ymdeimlad o gyrraedd. Mae nodweddion â chydberthynas uniongyrchol â Gwerth Cyffredinol Eithriadol y Safle yn hynod bwysig, fel golygfeydd o'r cestyll a muriau trefi, neu nodweddion yr aneddiadau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Safle Treftadaeth y Byd. Fodd bynnag, gall hyd yn oed nodweddion y dirwedd neu'r dreflun nad oes ganddynt gysylltiad uniongyrchol â Gwerth Cyffredinol Eithriadol y safle, fel y dreflun fodern wrth agosau at yr aneddiadau hanesyddol, naill ai wella neu leihau'r ymdeimlad o gyrraedd.

Mae'r prif lwybrau mynediad presennol at y safle yn arbennig o sensitif i waith datblygu, ond gallant hefyd gynnig cyfleoedd i wella; er enghraifft, o ran strydlun ac arwyddion.

### 2.4.4 Crynodeb o'r Lleoliad

Felly, mae lleoliad Safle Treftadaeth y Byd yn cwmpasu'r gydberthynas rhwng y cestyll a'u trefluniau a'u tirweddau, ond mae hefyd yn cynnwys tair elfen benodol:

- ardal wedi'i mapio o **leoliad hanfodol** sy'n cyfeirio at ardaloedd lle byddai datblygiad amhriodol yn difrodi lleoliad gweledol neu hanesyddol y Safle
- nodi **golygfeydd pwysig** ym mhob lleoliad
- **ymdeimlad o gyrraedd** ym mhob lleoliad.

Caiff y nodweddion allweddol sy'n gysylltiedig â lleoliad y Safle — y gydberthynas â threfi a'r arfordir yn benodol — eu disgrifio ymhellach ym Mhennod 3. Caiff y fframwaith polisi ar gyfer diogelu'r lleoliad ei ddisgrifio ym Mhennod 4.

*Dylanwedir ar yr ymdeimlad o gyrraedd gan sawl ffactor, gan gynnwys trefluniau modern, megis y datblygiad o'r ugeinfed ganrif ar y Morfa yn Harlech (ochr chwith), a'r strydluniau megis y brif ffordd ddynesu tuag at Gastell Conwy drwy'r dref (ochr dde).*







*Dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu Castell Biwmares yn 1295, sef castell olaf a mwyaf y Brenin Edward I yng ngogledd Cymru.*




*Mae'r cestyll yn enghreifftiau nodedig o bensaernïaeth filwrol ganoloesol. Yn y llawysgrif Ffrengig hon o'r bymthegfed ganrif dangosir llun o frenin yn eistedd gyda'i ben-saer maen yn rhoi adroddiad adeiladu. O amgylch y t□r crwn sy'n cael ei godi y mae sgaffaldau troellog, tystiolaeth sydd wedi goroesi yn nifer o gestyll y Brenin Edward I (Y Llyfrgell Brydeinig, Llundain, y DU © Bwrdd y Llyfrgell Brydeinig. Cedwir Pob Hawl/Bridgeman Images, Llawysgrif Frenhinol 15 D III, f. 15v).*

# 3 Safle Treftadaeth y Byd yn ei Gyd-destun

## 3.1 Un Safle, Pedwar Lleoliad

Mae Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd yn Safle Treftadaeth y Byd sy'n cynnwys pedair rhan sydd ar wahân yn ddaearyddol gyda chysylltiad hanesyddol cyffredin a hunaniaeth. Gyda'i gilydd, mae Biwmares, Caernarfon, Conwy a Harlech yn cynrychioli cyflawniad eithiradol o ran y ffaith yr adeiladwyd pedwar castell a thref o fewn cyfnod byr iawn ac o fewn yr hyn y byddai'r Brenin Edward wedi'i ystyried yn diriogaeth elyniaethus. Ceir llawer o wybodaeth am waith rheoli prosiect yr ymgyrch adeiladu hon, yn cynnwys y ffaith i'r gweithlu ddod o bob cwr o Loegr a thu hwnt, ac mae o ddiddordeb arbennig. Mae'r cestyll, ynghyd â'u trefi caerog, yn enghreifftiau digyffelyb o uchafbwynt pensaernïaeth filwrol ganoloesol ac mae'r amgylchiadau pan gawsant eu hadeiladu yn golygu eu bod o bwys rhyngwladol. Mae'r cyfuniad o dystiolaeth ffisegol ac ysgrifenedig a geir am y cestyll a'r trefi hyn yn dweud llawer wrthym am y frenhiniaeth a'r frwydr pŵer yn y canoloesoedd.

Adeiladwyd y cestyll a muriau trefi yn bennaf rhwng 1283 a 1330, er i'r rhan fwyaf o'r gwaith gael ei gwblhau cyn 1300. Cydnabyddir bod eu cynllun yn waith cnewyllyn o arbenigwyr dan arweiniad James o St George, Meistr Gwaith y Brenin, pen-saer maen a pheiriannydd uchel ei barch a alwyd i Gymru o Safwy gan Frenin Edward I.

Er mwyn deall eu harwyddocâd, mae angen ystyried y cestyll a muriau trefi fel grŵp ac fel y cyfryw cânt eu rheoli fel un Safle Treftadaeth y Byd integredig. Mae hefyd angen eu hystyried yn fwy na dim ond cadarnleoedd gwarchodlu yn ystyr traddodiadol castell, ond hefyd fel canolfannau gwleidyddol.

Er mwyn deall hunaniaeth ddiwylliannol y pedwar lleoliad, mae hefyd angen cydnabod arwyddocâd aneddiadau a fodolai eisoes, yn ogystal â digwyddiadau hanesyddol allweddol diweddarach sydd wedi effeithio ar y cestyll neu eu lleoliad. Er enghraifft, yng Nghaernarfon, caiff treftadaeth Rufeinig bwysig ei dathlu yn Segontium, yn ogystal â threftadaeth ddiwydiannol fwy diweddar sy'n gysylltiedig ag allforio llechi. Dioddefodd Biwmares yn wael yn ystod gwrthryfel Glyndŵr ond ffynnodd eto yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Effeithiodd dyfodiad y rheilffordd yn arbennig ar Gonwy yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Newidiwyd y gydberthynas rhwng y castell a'r arfordir yn sgil cynllun adfer tir sylweddol ar y gwastatir uwchlaw Harlech ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae'r pedwar castell dan ofal Cadw ar ran Gweinidogion Cymru. Maent ar agor i'r cyhoedd a chodir ffi mynediad. Mae muriau trefi canoloesol Caernarfon a Chonwy hefyd dan ofal Cadw. Mae gan drefi muriog Caernarfon a Chonwy nifer o berchnogion, rhai preifat yn bennaf, a chaiff newidiadau i'r adeiladau oddi mewn iddynt eu rheoli gan yr awdurdod cynllunio lleol drwy bolisi cynllunio a fabwysiadwyd.

Y pedwar castell a'r trefi caerog cysylltiedig yng Nghaernarfon a Chonwy yw'r enghreifftiau gorau o bensaernïaeth filwrol yn dyddio o ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg a dechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn Ewrop. Mae hyn i'w briodoli i'r ffaith eu bod wedi goroesi'n gyfan yn eu cyflwr gwreiddiol ac yn cynnwys tystiolaeth o le domestig trefnus a hefyd yr amrywiaeth eithriadol o ffurfiau canoloesol sy'n eu nodweddu. Ymysg y nodweddion gweinyddol a phensaernïol domestig mae cyfres o fflatiau brenhinol (yng Nghonwy yn benodol), sawl cyfres o fflatiau domestig i fodloni gofynion gweinyddol a cheir tystiolaeth ynghylch swyddogaeth ystafelloedd a threfniadau gwasanaeth.

Er mai Meistr Gwaith y Brenin oedd yn gyfrifol am y gwaith o ddylunio ac adeiladu'r cestyll a muriau trefi, roedd y gwaith o ddarparu'r cronfeydd a rheoli'r gwariant yn nwylo Gwardrob y brenin, rhan o osgordd y brenin oedd yn gyfrifol am wariant. Byddai'r grŵp hwn yn teithio gyda'r brenin ac fe'i lleolwyd yng Nghonwy drwy gydol y blynyddoedd pan gafwyd rheolaeth frenhinol uniongyrchol dros Wynedd. Roedd y Gwardrob yn cynnal cofnodion manwl o'r taliadau ar gyfer y gwaith. Er bod rhai wedi'u colli (yn benodol y rhai a gafodd eu dinistrio yn ystod gwrthryfel 1294), cadwyd y gweddill yn yr Archifau Cenedlaethol yn Kew yn Llundain ac maent wedi cael eu hastudio'n fanwl gan haneswyr fel Arnold Taylor (1911–2002) yn *The King's Works in Wales 1277–1330*.[23]

*Y ffos ddofn yw amddiffynfa fwyaf allanol Castell Biwmares.*



*Yr amddiffynfeydd consentrig — muriau o fewn muriau — yng Nghastell Biwmares.*



Mae pob castell ar safleoedd arfordirol amlwg yng ngogledd-orllewin Cymru ac fe'u hadeiladwyd fel rhan o'r un ymgyrch. Mae Biwmares a Chaernarfon yn edrych dros afon Menai, mae Conwy 25 milltir (40km) i'r dwyrain ar hyd arfordir gogledd Cymru ac mae Harlech bellter tebyg i'r de o Benrhyn Llŷn. Maent wedi'u haddasu i gyd-fynd â'u lleoliadau amrywiol o dir gwastad Biwmares i bentir creigiog serth Harlech. Amgylchynwyd pob un ohonynt gan lenfuriau uchel, wedi'u hatgyfnerthu gan gyfres o dyrau bargodol a cheir mynediad iddynt drwy borthdy a amddiffynnwyd yn gadarn. Ymhellach allan, roedd cyfres o amddiffynfeydd allanol yn rhoi diogelwch ychwanegol, fel y ffos ddofn ym Miwmares a'r ffos a dorrwyd mewn craig yn Harlech. Ymysg nodweddion milwrol y cestyll mae cloerdyllau cymhleth (ceir rhai arbennig o addurniadol yng Nghaernarfon), muriau consentrig ym Miwmares a Harlech — ynghyd â chloerdyllau wedi'u dylunio i sicrhau cwmpas saethu eang — a llifddorau amddiffynedig, pontydd codi, rhwystrau, rhag-gaerau, daeargelloedd, a thyrau yn y pedwar lleoliad. Yng Nghaernarfon a Chonwy, adeiladwyd trefi muriog wrth ymyl cestyll gyda phorthdai ger eu prif fynedfeydd.

Ar adeg yr arysgrifiad, yn seiliedig ar waith ymchwil Arnold Taylor, credwyd bod y pedwar castell wedi cael eu dylunio gan Feistr James o St George, a ystyriwyd yn bensaer milwrol gorau ei oes. Yn fwy diweddar, mae'r gwaith ymchwil wedi pwysleisio'r cyfraniad pwysig a wnaed gan gnewyllyn o arbenigwyr dan arweiniad Meistr James, yn ogystal â dylanwad Brenin Edward I. Ymysg y nodweddion pensaernïol Safwyaidd yn y pedwar castell mae drysau gyda bwâu hanner cylch, ffenestri nodedig o lydan gyda bwâu cylchrannol a rhwyllwaith, siafftiau geudai mewn bwtresi bas yn corbelu allan o'r muriau, a'r defnydd o sgaffaldiau troellog ac ar oleddf (a amlygir gan leoliad tyllau pwtlog).

*Gellir adnabod nodweddion Safwyaidd mewn nifer o'r cestyll. Mae'r geudy corbelog hwn yn Harlech (ochr dde) yn debyg iawn i un yng nghastell La Batiaz, Safwy, yn y Swistir fodern (ochr chwith, Peter Humphries).*




Er bod y cestyll yn ffurfio grŵp cydlonol o ran arddull, mae'r gwahaniaethau rhyngddynt cyn bwysiced â'r nodweddion tebyg, gyda phob castell wedi'i ddylunio yn ôl ei safle a'i ddiben. Yng Nghonwy, er enghraifft, roedd natur y brigiad creigiog yn creu amlinelliad hirfain. Mae ymddangosiad allanol Castell Caernarfon yn wahanol i gadarnleoedd eraill Edward I yng Nghymru. Mae'r tyrau yn amlochrog yn hytrach na chrwn a cheir patrymau amlwg ar y muriau gyda bandiau o gerrig o liwiau gwahanol, wedi'u dylunio i adlewyrchu rôl y castell fel palas brenhinol newydd a chanolfan wleidyddol. Disgrifiwyd Castell Biwmares, a adeiladwyd ar dir gwastad, fel y castell consentrig gorau, a adeiladwyd â chymesuredd geometrig bron. Mae lleoliad Castell Harlech ar frigiad creigiog serth yn pwysleisio ei botensial amddiffynnol a'i gryfder milwrol, gyda ffordd fynediad risiog i lawr at y môr. Roedd y gydberthynas rhwng dyluniad a safle yn adlewyrchu'r angen am amddiffynfeydd strategol yng Ngwynedd rhag y boblogaeth o Gymry brodorol.

Ceir gwahaniaethau hefyd yn y gydberthynas ffisegol rhwng y cestyll a'r trefi. Dyluniwyd Caernarfon a Chonwy fel bwrdeistrefi castell, lle cafodd y castell a'r dref eu cynllunio fel uned integredig, fel y dangosir yn y modd yr adeiladwyd muriau'r dref. Ymddengys bod muriau'r dref wedi'u cynllunio o'r cychwyn ym Miwmares, ond ni chawsant eu hadeiladu tan fwy na 100 mlynedd yn ddiweddarach. Er i fwrdeistref gael ei sefydlu ynghyd â'r castell yn Harlech, nid oes unrhyw olion o furiau'r dref wedi goroesi. Roedd lleoliad castell ar anheddiad a fodolai eisoes, fel yng Nghaernarfon neu Gonwy, yn cyfleu arwydd o oresgyniad ac yn cydnabod arwyddocâd y llefydd hyn i'r cymunedau brodorol. Ym Miwmares, dylanwadwyd ar leoliad y castell gan yr awydd i reoli'r llwybr masnach a weithredwyd gan fferi Llanfaes ond roedd angen i anheddiad cyfagos y Cymry gael ei adleoli i'r gorllewin o'r ynys. Mae'r ffaith y sefydlwyd bwrdeistref castell yn awgrymu buddsoddiad ac uchelgais, ac mae'n cydnabod pwysigrwydd economaidd a symbolaidd y lleoliadau hyn.

*Mae'r ffenestri yn y porthdy yn Harlech (ochr chwith), sydd wedi'u hail-greu (canol), yn debyg o ran cynllun a maint i'r rhai yng nghastell Chillon, Safwy, yn y Swistir fodern (ochr dde, Peter Humphries).*








# 3.2 Trosolwg Hanesyddol o'r Pedwar Safle

## 3.2.1 Biwmares

Lleolir y castell ar ben gogleddol tref Biwmares ar Ynys Môn, tua 150m o'r môr. Roedd y castell yn rhan annatod o'r dref, er nad oedd hon yn furiog ar adeg adeiladu'r castell. Fodd bynnag, mae bonyn mur gerllaw doc y castell yn dynodi bwriad posibl i adeiladu mur ar y dechrau. Erys y rhan fwyaf o batrwm strydoedd grid canoloesol y dref. Ar adeg adeiladu Castell Biwmares, tref Gymreig gyfagos Llanfaes oedd y prif borthladd masnachu ar yr ynys ac fe'i hystyriwyd fel y fwrdeistref fwyaf ffyniannus a phoblog yn y Gymru frodorol. Fodd bynnag, er mwyn i fwrdeistref newydd Biwmares ffynnu, cafodd tref Llanfaes ei diboblogi'n fwriadol gan y Goron a symudodd ei thrigolion i Niwbwrch ar ochr arall yr ynys.

Adeiladwyd Castell Biwmares, yr olaf o'r cadarnleoedd brenhinol hyn, rhwng 1295 a 1330 ac nid yw'r strwythur wedi newid rhyw lawer. Fe'i hadeiladwyd ar dir gwastad a ddisgrifiwyd mewn dogfennau cyfoes fel Bellum Marsicum yn Lladin a Beaumarreis yn Ffrangeg — 'y gors brydferth'. Galluogodd ei leoliad — nad oedd yn gorfod delio â chodiad tir nac aneddiadau a fodolai eisoes — i'r Meistr James greu cynllun consentrig gyda chymesuredd na chyflawnwyd yng Nghaernarfon, Conwy na hyd yn oed Harlech. Amgylchynnir prif iard y castell gan ward amgáu gul, a gwarchodwyd y ddau gan ffos allanol eang a oedd yn cynnwys dŵr llanw. Y cyfuniad o waith cynllunio cymesurol a oedd bron yn berffaith a'i amddiffynfeydd dŵr sy'n rhoi ei nodweddion mwyaf trawiadol a hynod i Fiwmares.

*Adluniad dychmygus o Gastell Biwmares fel y gallai fod wedi ymddangos pe bai wedi cael ei gwblhau (Llun gan Chris Jones-Jenkins, 2017).*



I ddechrau, ni arbedwyd unrhyw gostau wrth adeiladu'r castell a gwariwyd tua £6,000 yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 1295, yr oedd traean ohono ar gyfer cario deunyddiau'n unig. Roedd hyn yn llawer mwy na'r gwariant a gofnodwyd ar yr eitem hon yng Nghaernarfon, Conwy a Harlech drwy gydol y 1280au.

Cafodd y gwaith ei oedi yn 1298 pan drodd Edward ei sylw at yr Alban a symudodd Meistr James o St George i wneud gwaith newydd yno. Dychwelodd i Fiwmares yn 1307 ac fe'i holynwyd gan Feistr Nicholas de Derneford cyn 1309 ac roedd Meistr James wedi marw erbyn hynny. Ni chyrhaeddodd y tyrau a phyrth mewnol eu huchder bwriadedig ac nid oedd y gwaith ar y tyredau wedi dechrau erbyn i'r gwaith ddod i ben tua 1330. Er gwaethaf y gost adeiladu, ni chynhaliwyd y castell, ac mae arolwg yn 1343 yn cofnodi bod sawl ardal yn 'dilapidated and ruinous', yn cynnwys siambrau, tyrau a thoeon.

Ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg, gwelwyd tensiwn cynyddol yng Nghymru ac yn 1389, gorchmynnodd y siambrlen i 20 o ddynion gael eu gosod yng Nghastell Biwmares 'because of enemies at sea'. Yn 1403, yn ystod anterth gwrthdaro Glyndŵr, bu'r castell dan warchae ac ni chafodd ei adfeddiannu tan 1405. Yn ystod y blynyddoedd dilynol, cafwyd cyfrifon cyfnodol o gyflwr gwael y castell yn cynnwys llythyr gan Syr Richard Bulkeley i Thomas Cromwell yn 1539 yn lleisio ei bryder. Yn 1609, nodwyd bod y castell yn 'utterlie decayed' ond cafodd ei atgyweirio ar ddechrau'r Rhyfel Cartref pan wasanaethodd fel canolfan y Frenhiniaeth hyd at yr adeg pan orfodwyd Cyrnol Bulkekey i ildio i'r Senedd yn 1646. Mae cyfrifon cyfoes yn awgrymu y cafwyd rhaglen ddatgaeru y credir ei bod wedi cynnwys y gwaith o dynnu adeiladau'r iard i lawr. Yn sicr, dros sawl canrif, cafodd y castell ei ysbeilio am gerrig adeiladu fel y nodir gan ymddangosiad carchar Biwmares ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Yn 1807, trosglwyddwyd y castell i ddwylo'r teulu Bulkeley o Baron Hill gerllaw. Yn 1925, rhoddwyd y castell dan warchodaeth y Wladwriaeth. Mae'r heneb dan ofal Cadw bellach, ar ran Gweinidogion Cymru. Ymysg y gwaith a wnaed roedd ailsefydlu'r ffos a thynnu'r eiddew a arferai orchuddio llawer o'r castell.

*Ar ôl i Gastell Biwmares ddod o dan ofal yn 1925, cafodd y castell ei glirio a dechreuodd y gwaith atgyfnerthu.*



### 3.2.2 Caernarfon

Mae Castell Caernarfon a'r dref furiog wedi'u lleoli ar frigiad creigiog rhwng aberoedd afon Seiont ac afon Cadnant ar lan afon Menai. Sefydlodd Brenin Edward I y castell a'r dref yn 1283 er mwyn cadarnhau ei oresgyniad o Wynedd a daeth yn ganolfan lywodraethu frenhinol ar gyfer gogledd Cymru. Yn draddodiadol, honnir i unfed plentyn ar ddeg Brenin Edward I, Edward (a goronwyd yn Edward II, 1307–27) gael ei eni yma yn 1284. Yn 1301, cafodd y tywysog ifanc ei arwisgo yn dywysog Cymru.

Roedd gwrthglawdd Normanaidd ar y safle hwn eisoes ac mae caer Rufeinig Segontium nepell o'r castell. Hon oedd canolfan filwrol a gweinyddol gogledd-orllewin Cymru drwy gydol cyfnod y Rhufeiniaid a gellir gweld olion y gaer yn glir. Efallai fod Edward I yn ymwybodol bod Segontium yn gysylltiedig â'r ymerawdwr, Magnus Maximus, a oedd wedi'i leoli yno fel cadlywydd rhanbarthol, yn ôl yr hanes. Credir yn gyffredinol bod muriau haenog trawiadol Caernarfon a'i dyrau amlochrog, yn lle'r ffurf gron arferol, yn awgrymu bod y Brenin Edward wedi'i ysbrydoli gan bensaernïaeth Rufeinig ymerodrol. Efallai hefyd fod Edward yn ymwybodol bod Magnus Maximus yn ymddangos fel Macsen Wledig mewn barddoniaeth fytholegol Gymraeg, a gofnodwyd yn ddiweddarach yn *Y Mabinogion*. Yn 'Breuddwyd Macsen', mae'r ymerawdwr yn teithio yn ei gwsg ac yn y pen draw mae'n cyrraedd caer wych, 'y decaf a welodd dyn erioed'. Mae Macsen yn anfon negeswyr i ddod o hyd i'r castell. I ddechrau, maent yn dod at 'ddinas fawr wrth aber yr afon a chaer fawr yn y ddinas, a gwelai ar y gaer lawer o dyrau mawr amryliw'. Oddi yno, maent yn parhau 'oni welent Fôn gyferbyn â hwy… ac fe welent Aber Saint, a'r gaer wrth aber yr afon'.[24] Awgrymwyd y gall hyn fod yn rheswm arall pam y cafodd Caernarfon, yn wahanol i'r cestyll eraill, batrwm amlwg o haenau cerrig o liwiau gwahanol.

*Mae'r llun hwn o Gaernarfon gan artist yn dangos y fwrdeistref, y cei a'r castell fel y gallent fod wedi ymddangos pan roddwyd y gorau i'r gwaith adeiladu ar y castell ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg (Llun gan Ivan Lapper, 1993).*



Er i safle'r castell mwnt a beili Normanaidd, a ddechreuwyd tua 1090, bennu siâp y castell sy'n dyddio o'r drydedd ganrif ar ddeg, ychydig iawn sy'n weladwy bellach (er y gall fod tystiolaeth o dan yr wyneb yn bresennol o hyd). Nid yw'r adeiladau a godwyd gan dywysogion Gwynedd rhwng 1115 a 1283 wedi goroesi ychwaith. Cafodd y mwnt ei ymgorffori yng nghastell Edward ac mae'r beili wedi goroesi yn ardal y Maes fel y'i gelwir bellach. Y cam adeiladu cyntaf, rhwng 1283 a 1292, a luniodd nodweddion y castell a welwn heddiw, gyda rhywfaint o waith atgyweirio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Ar ôl y cam adeiladu cyntaf, symudol Meistr James o St George i weithio mewn mannau eraill a pharhaodd y gwaith adeiladu dilynol dan arweiniad Meistr Walter o Henffordd, a olynwyd yn ddiweddarach gan Feistr Henry o Ellerton.

Sefydlwyd cynllun y dref gyda'i muriau cylchol hefyd yn 1283 a chredir ei bod wedi'i gorffen i raddau helaeth erbyn 1292. Mae'n cynnwys wyth tŵr a dau borth dau dŵr gyda phellter o tua 64m rhyngddynt. Mae cynllun y dref yn dilyn patrwm grid yn debyg iawn i Gonwy ond dros ardal lai. Glannau'r Fenai oedd y cei cyntaf a oedd yn gysylltiedig â'r castell a'r dref sy'n dyddio o'r drydedd ganrif ar ddeg, a olygodd y gellid mewnforio deunyddiau adeiladu ar raddfa fawr. Roedd hefyd yn sicrhau y gellid cyflenwi nwyddau yn ddiogel i'r castell yn y tymor hwy, a thanategai economi'r dref newydd.

Yn 1294, dinistriodd gwrthryfel dan arweiniad Madog ap Llywelyn hanner muriau'r dref gan losgi rhannau helaeth o'r castell. Cyn gynted ag y tawelodd y gwrthryfel, dechreuwyd ar yr ail gam o adeiladu yn 1295. Cafodd muriau'r dref eu hatgyweirio gan Walter o Henffordd a chwblhawyd y gwaith o adeiladu amddiffynfeydd gogleddol y castell. Erbyn 1330, roedd y castell wedi cymryd ei ymddangosiad presennol fwy neu lai. Mae Porth y Frenhines a Phorth y Brenin sy'n anghyflawn yn awgrymu y bwriadwyd gwneud rhagor o waith. Un ychwanegiad pwysig i furiau'r dref oedd capel y

*Ychwanegwyd capel y Santes Fair at furiau'r dref ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg i filwyr yn y garsiwn yng Nghaernarfon.*



Santes Fair sy'n dyddio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg (trwyddedwyd yn 1307), a adeiladwyd i mewn i'r gornel ogledd-orllewinol er mwyn darparu capel i'r milwyr a oedd mewn garsiwn yng Nghaernarfon.

Llwyddodd y castell i wrthsefyll gwarchae gan Owain Glyndŵr a'i gynghreiriaid Ffrengig yn 1403 a 1404. Dangosodd adroddiadau o 1538 a 1620, er bod y gwaith maen yn gadarn, bod y toeon a'r lloriau mewn cyflwr gwael, ac wedi dymchwel mewn rhai achosion. Roedd y castell mewn garsiwn yn ystod y Rhyfel Cartref a newidiodd ddwylo deirgwaith. Yn 1660 rhoddodd y llywodraeth orchymyn i ddymchwel y castell ond, er i'r awdurdod lleol groesawu hyn, ni chafodd ei gyflawni byth.

Mewn canrifoedd olynol, yn ôl yr arfer, adeiladwyd bythynnod fesul tipyn yn erbyn y muriau. Ymysg y diwygiadau diweddarach i'r muriau roedd addasiadau i Borth y Dwyrain, i ddechrau er mwyn darparu llety ac yna, yn 1767, er mwyn ymgorffori neuadd y dref a adeiladwyd drosto, er iddi gael ei thynnu i lawr yn ddiweddarach yng nghanol yr ugeinfed ganrif. Mae'r angen i ddarparu ar gyfer cynnydd mewn traffig wedi arwain at sawl gwaith addasu i byrth y dref a chyflwyno agoriadau ychwanegol.

Syr Llewelyn Turner ac eraill fu'n gyfrifol am nifer o newidiadau ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Roedd Turner, sef dirprwy gwnstabl y castell rhwng 1870 a 1903, yn gyfrifol am amrywiaeth o waith atgyweirio ac adfer i'r castell ei hun, ac hefyd am dynnu datblygiadau a adeiladwyd fesul tipyn yn ffos y castell ac yn erbyn muriau'r castell i lawr.

*Mae Porth y Dwyrain drwy furiau tref Caernarfon wedi cael ei addasu gryn dipyn ers iddo gael ei adeiladu ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg.*



*O dan gyfarwyddyd Syr Llewelyn Turner a fu'n ddirprwy gwnstabl Caernarfon rhwng 1870 a 1903, dechreuwyd adnewyddu'r castell ar ôl canrifoedd o esgeulustod.*



### 3.2.3 Conwy

Cyn adeiladu Conwy, safai Abaty Aberconwy ar safle'r dref, mynachdy Sistersaidd a gefnogwyd gan dywysogion Cymru, yn ogystal ag adeiladau a ddefnyddiwyd gan dywysogion Cymru. Roedd y lleoliad hefyd yn groesfan bwysig dros afon Conwy a oedd wedi'i hamddiffyn ers sawl blwyddyn. Adeiladwyd Castell Conwy ar lan orllewinol afon Conwy a'r dref oedd anheddiad cyntaf Brenin Edward I yng Ngwynedd ar ôl gorchfygiad Llywelyn, tywysog Cymru.

Mae adeiladwaith y castell a welir heddiw fel y'u hadeiladwyd rhwng 1283 a 1287 i bob cyfrif. Mae'r castell yn eithriadol oherwydd ei fod yn gyflawn ac am ysblander ei dyrau a'i lenfuriau. Er bod yr adeiladau o fewn clostir y castell wedi'u colli, mae digon o'u sylfaeni wedi goroesi i roi syniad cymharol glir o gynllun llety'r castell. Gellir gweld y neuadd fawr, siambrau a'r gegin yn y ward allanol. Mae'r siambrau brenhinol a chapel brenhinol wedi goroesi yn y ward fewnol. Ystyrir mai'r rhain yw'r gyfres fwyaf cyflawn o fflatiau brenhinol a adawyd gan deyrn canoloesol yng Nghymru neu Loegr a chreu darlun clir o'r ffordd y byddai'r castell wedi gweithredu pan fyddai'r osgordd frenhinol yn bresennol. Mae tystiolaeth ddarniog o blaster calch allanol hefyd yn dangos y byddai'r castell wedi edrych yn wahanol iawn mewn cyfnodau canoloesol, wedi'i rendro a'i wynnu.

Gan na wnaed digon o waith cynnal a chadw, lluniwyd adroddiad yn y 1330au a nododd nad oedd Conwy, ynghyd â chestyll eraill gogledd Cymru, yn breswyliadwy. Gwnaed gwaith atgyweirio ar y neuadd fawr yn y 1340au, yn ôl cofrestr Edward 'y Tywysog Du' (1330–76), mab hynaf Edward III (1327–77).

*Argraffiad o Gonwy fel y gallai fod wedi ymddangos ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg (Llun gan Ivan Lapper, 1990).*



Fel yng Nghaernarfon, sefydlodd Brenin Edward I hefyd dref gaerog ar gyfer anheddwyr oedd yn symud yno. Er mwyn creu'r dref, roedd angen symud Abaty Aberconwy i safle newydd ym Maenan, ond gan adael eglwys abaty canoloesol Santes Fair i wasanaethu'r plwyf. Yr abaty oedd man claddu Llywelyn ab Iorwerth — Llywelyn Fawr (m. 1240) — felly roedd hon yn weithred symbolaidd arall i briodoli lle â chysylltiadau mor agos â brenhinlin Gwynedd. Mae'r dref wedi'i hamgylchynu gan 1.3km o furiau, gyda thri phorth dau dŵr a 21 o dyrau, yn amgáu ardal o bron naw hectar. Maent yn cynrychioli un o'r enghreifftiau mwyaf trawiadol sydd wedi goroesi orau o furiau trefi canoloesol yn Ewrop.


Cafodd Brenin Edward I loches yma yng Nghonwy yn ystod gwrthryfel 1294–95. Ganrif yn ddiweddarach, roedd y castell yn lleoliad trafodaethau llawn tensiwn rhwng Brenin Richard II (1377–99) a chynrychiolwyr Harri o Bolingbroke, Harri'r IV yn ddiweddarach (1399–1415). Cafodd y castell ei gipio dros dro gan Glyndŵr yn 1401 a gwnaed rhywfaint o waith cynnal a chadw yn ddiweddarach.

Er mai ychydig iawn o bobl a oedd yn byw yn y dref, yn ôl cyfrifon cyfoes, denodd fasnachwyr cefnog, fel y dangosir gan Dŷ Aberconwy o ddechrau'r bymthegfed ganrif, ac uchelwyr lleol fel Robert Wynn (bu farw yn 1598) a adeiladodd y tŷ gwych o oes Elisabeth, Plas Mawr, yn y 1570au a'r 80au.

*Credir bod y pen carreg sydd wedi'i gerfio'n gain yn portreadu'r Tywysog Llywelyn ap Iorwerth, a gladdwyd yn Abaty Aberconwy (Amgueddfa Genedlaethol Cymru).*



*Eglwys Santes Fair, Conwy yw hen eglwys yr abaty a gadwyd at ddefnydd y plwyf.*




Trosglwyddodd y castell o berchenogaeth frenhinol yn 1627 ac fe'i prynwyd, fel adfail yn amlwg, gan Arglwydd cyntaf Conwy (bu farw yn 1631). 1631). Yn ystod y Rhyfel Cartref, cafodd y castell ei amddiffyn a'i atgyweirio ar gyfer y brenin gan John Williams (bu farw yn 1650), archesgob Efrog, a anwyd yng Nghonwy ac a ddychwelodd yno ar ôl ei orseddiad. Er gwaethaf teyrngarwch Williams a'r arian a wariwyd ganddo, sefydlodd y brenin Syr John Owen (bu farw yn 1666) fel llywodraethwr ar Gonwy, ac o ganlyniad, enciliodd Williams at y Seneddwyr. Conwy oedd un o'r cadarnleoedd brenhinol olaf un i ildio a chafodd ei adfeilio'n fwriadol yn fuan wedyn. Fodd bynnag, ymhen amser, ystyriwyd bod y castell adfeiliedig yn bictiwrésg a denodd deithwyr, hynafiaethwyr ac artistiaid o bell ac agos, yn cynnwys Thomas Pennant (bu farw yn 1798) a J. M. W. Turner.

Efallai fod y newidiadau mwyaf sylweddol a wnaed i'r castell a muriau'r dref ers eu hadeiladu wedi deillio o ddyfodiad y ffyrdd a'r rheilffyrdd. I ddechrau, adeiladwyd pont grog Thomas Telford yn 1826 — un o'r cyntaf o'i bath yn y byd. Arweiniodd hyn at dynnu'r llifddor a'r ramp mynediad er mwyn creu ffyrdd newydd i mewn i'r dref. Dilynodd y rheilffordd rhwng Caer a Chaergybi a phont reilffordd Robert Stephenson yn 1849. Y bont oedd yr enghraifft gyntaf o adeiladwaith tiwbaidd yn y wlad a chafodd ei thorri yn agos at ochr ddeheuol y castell. Ychwanegwyd trydedd pont ar gyfer traffig ffordd yn 1958. Adeiladwyd twnel ffordd Conwy ar ôl arysgrifiad Safle Treftadaeth y Byd, mewn ymgais i leddfu tagfeydd traffig. Mae Pont Grog Conwy bellach yng ngofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

*Adeiladwyd y tŷ trefol crand o oes Elisabeth ar Stryd Fawr Conwy gan Robert Wynn yn y 1570au a'r 80au.*



*Pont grog Thomas Telford, a adeiladwyd yn 1826.*



### 3.2.4 Harlech

Saif Castell Harlech yn uchel uwchlaw'r arfordir. Er gwaethaf ei ochr gyfyngedig ac uchel, dyma un o'r cestyll mwyaf cymesur berffaith a adeiladwyd gan Frenin Edward I, a ragorir gan Fiwmares yn unig. Mae wedi'i wahanu oddi wrth y tir gan ffos ddofn a dorrwyd mewn craig.

Mae'r castell yn gynnyrch tair ymgyrch adeiladu. Dechreuodd y cam cyntaf yn 1283 ar ôl i'r Brenin Edward orchfygu Llywelyn, tywysog Cymru, ac roedd yn gysylltiedig â'r broses o amgáu'r castell. Yn yr ail gam, a gwblhawyd yn 1289, cafodd y llenfur mewnol ei atgyfnerthu a chwblhawyd y tyrau a'r porthdy. Ychwanegwyd yr amddiffynfeydd allanol mewn trydydd cam yn 1295, ar ôl gwrthryfel Madog. Fel gyda'r tri chastell arall, Meistr James o St George a oruchwyliodd y gweithrediadau adeiladu yn Harlech. Yn 1290, fe'i penodwyd yn gwnstabl am dair blynedd a bu'n byw yn y castell, yn y porthdy mae'n debyg. Nid oes unrhyw dystiolaeth yma o furiau tref; yn wir, ymddengys mai bach iawn o sylw a gafodd y dref o gymharu â'r castell.

*Adluniad o Gastell Harlech fel y gallai fod wedi ymddangos tua 1325. Erbyn y dyddiad hwn roedd holl brif elfennau'r castell yn gyflawn: yr amddiffynfeydd mewnol ac allanol, y mur o amgylch godre craig y castell a'r bont dros y ffos (Llun gan Terry Ball, 1996).*



Cafodd y bont ei hailwampio ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg o dan Edward II. Yn 1404, yn ystod gwrthryfel Glyndŵr, bu'n rhaid i garsiwn annigonol y castell ildio ar ôl gwarchae hir. O ganlyniad, sefydlodd Owain Glyndŵr ei lys yma, a'r hanes yw iddo gael ei goroni'n dywysog Cymru yn y castell. Yn 1490, ail-gipiwyd y castell gan y darpar Frenin Harri'r V (1413–22), ond ymosodwyd arno unwaith eto yn 1468 yn ystod Rhyfeloedd y Rhosynnau. Parhaodd Harlech i gael ei ddefnyddio yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg fel cartref Brawdlysoedd Meirionnydd, a gyfrannodd heb os at y gwaith parhaus o gynnal a chadw'r castell. Gellir tybio mai yn rhannol oherwydd y gwelliant hwn mewn cyflwr mai Harlech oedd y cadarnle Brenhinol olaf i syrthio i'r Senedd yn ystod y Rhyfel Cartref. Er gwaethaf gorchymyn i dymchwel y castell, nid aeth y gwaith rhagddo a pharhaodd Harlech yn eiddo i'r Goron.

Nid oedd y dref yn Harlech wedi'i chynllunio i'r un graddau â Biwmares, Caernarfon a Chonwy. Dim ond un brif stryd yr oedd ganddi ac nid oedd unrhyw farchnad amlwg. Fodd bynnag, cafodd y dref ei siarter brenhinol yn 1284 ac mae ei masnach a'i breintiau wedi'u modelu ar rai Conwy. Roedd yn un o ddwy dref newydd a sefydlwyd gan Frenin Edward I ym Meirionnydd, a'r llall oedd y Bere, tref a gollwyd bellach.

Chwaraeodd Castell Harlech rôl ddiddorol yn hyfforddi corfflu o filwyr yn ystod y Ail Ryfel Byd. Lleolwyd pencadlys Corfflu Rhif 10 (Rhyng-gynghreiriol) yn London House yn Harlech, dan reolaeth Is-gyrnol Dudley Lister MC. Cynhaliodd yr uned ymdeithiau hyfforddiant yn yr ardal leol yn ogystal â dringo muriau Castell Harlech yn y tywyllwch.

*O ganlyniad i warchae Owain Glyndŵr dinistriwyd y rhan fwyaf o'r llenfur allanol ar hyd ochr ddwyreiniol ac ochr dde Castell Harlech.*



*Bu Castell Harlech yn gartref i lys Owain Glyndŵr yn sgil gwarchae llwyddiannus y Cymry yn 1404. Darganfuwyd yr addurn harnais hwn — wedi'i addurno ag arfbais Glyndŵr — yn y castell yn 1923 (Amgueddfa Genedlaethol Cymru).*



### 3.2.5 Ymchwil a Dealltwriaeth

Mae'r ddogfennaeth dechnegol, gymdeithasol ac economaidd helaeth a manwl am y cestyll yn sicrhau mai hwy yw un o brif gyfeiriadau hanes y canoloesoedd. Ymysg y nodweddion adeiledig y gellir eu cysylltu â'r ddogfennaeth mae tystiolaeth ar gyfer camau adeiladu sy'n gysylltiedig â gwariant/digwyddiadau (er enghraifft, seibiannau rhwng codi cerrig, atgyfnerthu/codi muriau), disdodli cyplau pren cynharach yn neuadd fawr Conwy â bwâu cerrig yn y 1340au a dogfennaeth yn ymwneud ag elfennau pensaernïol anghyflawn (er enghraifft, Porth y Brenin yng Nghaernarfon a lloriau uchaf y porthdai ym Miwmares).

Cyhoeddodd *The Impact of the Edwardian Castles in Wales*[25] weithrediadau'r gynhadledd a gynhaliwyd yn 2007 i nodi saith canrif ers marwolaeth Brenin Edward I. Casglodd y gynhadledd, a gynhaliwyd yng Ngwynedd, waith ymchwil ac ysgolheictod diweddar ynghyd ar yr holl gestyll a threfi a adeiladwyd gan Edward yng ngogledd Cymru. Rhoddodd y cyfle i ailfeddwl yr effaith a gafodd eu hadeiladu ar Gymru yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Dangosodd y papurau a gyflwynwyd yn y gynhadledd ddull gweithredu mwy cyfannol at ddeall y cestyll Edwardaidd a'u cyd-destun, a'u heffaith ar gymdeithas yng Nghymru a'i thywysogion yn y drydedd ganrif ar ddeg, sef Llywelyn ap Iorwerth (Llywelyn Fawr) a'i ŵyr, Llywelyn ap Gruffudd, tywysog Cymru. Caiff symbolaeth ac ystyr y cestyll drwy eiriau beirdd Cymru eu harchwilio (Dylan Foster-Evans) ynghyd â'r symbolaeth y gall Edward fod wedi'i ddefnyddio yng Nghaernarfon (Abigail Wheatley). Caiff rôl y Cymry ym myddinoedd Edward I ei harchwilio (Adam Chapman). Roedd y gynhadledd hefyd yn ystyried y cyd-destun ehangach, gyda phapurau ar y trefi Edwardaidd yng Nghymru (Keith Lilley), y cestyll barwnaidd yng ngogledd Cymru (John Goodall) ac Edward I yn yr Alban a Gasgwyn (Chris Tabraham a Marc Morris). Ymysg y gwaith ymchwil ar elfennau penodol o'r broses o adeiladu castell roedd archwiliad o'r ffynonellau o waith maen a ddefnyddiwyd mewn cestyll Edwardaidd (Graham Lott).

*Cynadleddwyr yng nghynhadledd 'Effaith y Cestyll Edwardaidd yng Nghymru' yn 2007, a ystyriodd ymchwil ddiweddar i'r cestyll a'u cyd-destun.*



Ystyriodd gwaith ymchwil a wnaed ar ffordd o fyw mewn castell y cyflenwad o fwyd a'r gwaith o'i baratoi, yn cynnwys gwerthusiad o'r ceginau yng Nghaernarfon a Harlech (Peter Brears). Mae 'The King's Accommodation at his Castles' (Jeremy Ashbee) yn cyflwyno'r dystiolaeth er mwyn deall y fflatiau brenhinol yng Nghastell Conwy yn well a sut roeddent yn gweithredu. Dengys y papur, er gwaethaf y ffaith bod rhannau o fflatiau brenhinol o'r cyfnod hwn wedi goroesi mewn cestyll eraill yng Nghymru a Lloegr, yn cynnwys Caernarfon, Harlech, Leeds (Caint) a Thŵr Llundain, mai'r adeiladau yng Nghonwy yw'r 'most complete set of royal apartments left by the medieval English monarchy anywhere'. Er nad oes ganddynt doeon a lloriau, fel arall maent yn ddigyfnewid i raddau helaeth o'u dyluniad gwreiddiol. Mae gwaith ymchwil Ashbee hefyd yn cynnwys adolygiad o borthdai brenhinol, gan gymharu'r cynllun a'r gwaith yn Harlech a Biwmares. Mae'r papur yn trafod y defnydd a wnaed o'r ystafelloedd yn y porthdy yn Harlech ac mae'n adolygu'r syniadau ynghylch p'un a ddefnyddiwyd y porthdy ar gyfer llety byw statws uchel.

Mae darn allweddol arall o waith ymchwil, a wnaed ym Mhrifysgol y Frenhines Belfast, wedi edrych ar y gwaith o gynllunio a dylunio trefi newydd Edward, yn cynnwys y rhai ar Safle Treftadaeth y Byd. Fe'i cyhoeddwyd yn 2005 gan Keith Lilley, Chris Lloyd a Steve Trick yn *Mapping the Medieval Townscape: A Digital Atlas of the New Towns of Edward I.* Mae'r atlas yn nodi, erbyn 1295, bod Caernarfon yn dref furiog lwyddiannus, gyda glan cei ar gyfer llongau, siarter bwrdeistref a thua 60 o fwrdeisi. Ar y pryd, roedd y dref tua hanner maint Conwy a Biwmares. Roedd y muriau wedi'u gosod mewn ffordd a oedd yn sbwylio cymesuredd y patrwm strydoedd, gan arwain ymchwilwyr i ofyn y cwestiwn p'un a oedd muriau a chynllun y dref wedi'u llunio gan bobl wahanol. Mae'r atlas yn ailddatgan safbwyntiau a nodiadau Taylor mai Castell Caernarfon oedd 'the most impressive and enduring symbol of Edward's conquest and settlement of north Wales, imbued with an imperial iconography that connected him and his empire with that of ancient Rome and its emperors.'[26]

*Yr ystafelloedd brenhinol yn ward fewnol Castell Conwy yw'r gyfres orau o siambrau brenhinol preifat canoloesol sydd wedi goroesi yng Nghymru a Lloegr.*




*Mae'r llun dychmygus hwn yn dangos cyfarfod rhwng y Brenin Edward I ac archesgob Caergaint yn yr ystafelloedd brenhinol yng Nghonwy ym mis Chwefror 1295 (Llun gan Peter Visscher, 2007).*



Mae'r atlas yn nodi bod Conwy yn dref fwy na Chaernarfon, gan ddyfynnu o arolwg sy'n dyddio o 1295 a gofnododd 112 o fwrdeisi a feddiannwyd gan gyfanswm o 99 o fwrdeisi. Dengys llawer o'r enwau iddynt symud i'r ardal o dde a dwyrain Lloegr. Yn 1312 roedd 124 o fwrdeisi, a olygai mai Biwmares oedd yr unig un a oedd yn fwy o faint na Chonwy. Mae'r atlas yn nodi pa mor debyg oedd dyluniad cynllun Conwy a Biwmares; mae gan y ddau gynllun siâp T gyda'r castell ar un pen o'r stryd sy'n rhedeg yn gyfochrog â'r lan. Mae hefyd yn nodi undod y cynlluniau rhwng y dref a'r castell yn y ddau leoliad hyn.[27] I'r gwrthwyneb, roedd nifer y bwrdeisi yn Harlech yn fach a chwynodd y trigolion wrth y brenin yn 1329 fod eu lleoliad yn golygu eu bod dan anfantais.

Yn olaf, mae gwaith archaeolegol ym Miwmares wedi dangos bod tref amddiffynnol gynharach a mwy yn weladwy a fyddai — pe caiff hynny ei dderbyn — wedi amgylchynu'r holl dref y tu hwnt i amddiffynfeydd y bymthegfed ganrif. Daeth Lilley et al. i'r casgliad 'the evidence at Beaumaris, then, is for a castle and town closely connected in their layout, and seemingly laid out to one overall plan'. Mae'r atlas hefyd yn nodi tebygrwydd allweddol rhwng Biwmares a Chonwy na cheir yn nhrefi eraill Brenin Edward I yng ngogledd Cymru, yn benodol, ar ffurf eu prif strydoedd, lle mae un yn gyfochrog â glan y cei ac mae'r llall yn rhedeg ar ongl sgwâr i fyny o lan y dŵr. Gellid priodoli hyn i Feistr James o St George, a weithiodd yn y ddau le. Felly, gallai Biwmares fod yn achos prin o waith cynllunio trefol canoloesol lle gellir 'pinpoint the author of a town plan'.'[28]

*Mapiau o'r trefi Edwardaidd a baratowyd ar gyfer Mapio'r Dreflun Ganoloesol: Atlas Digidol o Drefi Newydd Edward I gan Keith Lilley, Chris Lloyd, Steve Trick (2005), Caerefrog: Gwasanaeth Data Archaeoleg. https://doi.org/10.5284/1000022. 'Ariannwyd prosiect ymchwil 'Mapping the Medieval Urban Landscape' gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (2003–05).*



Yn 2010, cyhoeddodd Cadw *Glannau Caernarfon: Deall Nodweddion Trefol* hanfodol o leoliad Safle Treftadaeth y Byd.[29] Mae'r astudiaeth yn canolbwyntio ar lannau afon Menai ac afon Seiont, ynghyd â'r ardaloedd trefol cyfagos, ac mae'n rhoi llinell sylfaen ar gyfer cynllunio strategol.

Nid yw canlyniadau gwaith cloddio diweddar a oedd yn gysylltiedig â'r ganolfan newydd i ymwelwyr yn Harlech wedi'u cyhoeddi eto, ond arweiniodd at ddatgelu cyfres o sylfeini adeiladau ac isloriau, y credir bod rhai ohonynt yn dyddio'n ôl i'r bedwaredd ganrif ar ddeg, a mynwent. Bydd dadansoddiad pellach yn rhoi gwybodaeth newydd ar ffurf a datblygiad y dref gynnar sy'n gysylltiedig â'r castell.

*Mae glannau Caernarfon yn rhan hanfodol o leoliad hanfodol Safle Treftadaeth y Byd ac maent yn cyfrannu at gymeriad hanesyddol y dref. Mae'r lithograff hwn yn dangos y Cei Llechi tua 1830 (Gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru).*



# 3.3 Lleoliad y Cestyll

Mae lleoliad y cestyll yn cynnwys tair elfen nodedig:

- y gydberthynas sydd gan bob castell â'i dref
- y gydberthynas rhwng pob castell a'r arfordir
- y gydberthynas rhwng pob castell a'r amgylchedd naturiol.

## 3.3.1 Y Gydberthynas rhwng y Cestyll a'u Trefi

Arweiniodd y gydberthynas symbolaidd rhwng y cestyll a'u trefi at fudd economaidd a gwleidyddol, ac fe'i defnyddiwyd gan Edward I i sefydlu anheddiad Seisnig. Yn y pedwar achos, roedd y trefi wedi'i lleoli ar ochrau'r castell oedd fwyaf agored i niwed a, lle cawsant eu hadeiladu, roedd eu hamddiffynfeydd muriog yn cynnig cefnogaeth ychwanegol i amddiffynfeydd y castell. Ymysg yr elfennau allweddol o'r pedair tref fodern, mae patrwm strydoedd canoloesol a strwythur lleiniau yn seiliedig ar fwrdeisi canoloesol wedi goroesi. Mewn rhai achosion, cafodd adeiladau ôl-ganoloesol eu hadeiladu o waith maen a ysbeiliwyd o adfeilion y cestyll.

Yng Nghonwy a Chaernarfon, caiff y gydberthynas wreiddiol rhwng y cestyll a'u trefi ei harddangos gan gylchedau muriau trefi sydd wedi goroesi gyda nodweddion amddiffynnol fel llwybrau mur, pyrth amddiffynedig, cloerdyllau saethau a thyrau muriog siâp D, sy'n galluogi i rannau o fur gael eu hynysu dan ymosodiad. Ceir hefyd gydberthynas rhwng y cestyll ac eglwysi canoloesol o fewn y trefi (Eglwys Santes Fair yng Nghaernarfon ac Eglwys Santes Fair yng Nghonwy). Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oedd y muriau yn ymgorffori adeiladau cyfoes, ac eithrio Neuadd Llywelyn yng Nghonwy.

Ym Miwmares, nid oedd y dref wreiddiol yn furiog o'r cychwyn cyntaf (er ei bod yn bosibl bod ganddi amddiffynfeydd cloddwaith). Ar ôl gwrthdaro Glyndŵr, rhoddwyd caniatâd i adeiladu muriau tref a dim ond enghreifftiau darniog sydd wedi goroesi. Mae ymddangosiad gweledol llai dominyddol i'r castell oherwydd ei leoliad isel ac am na chafodd ei gwblhau erioed. Gyda gwaith datblygu o ddiwedd y cyfnod Sioraidd gerllaw'r castell, o olygfannau penodol, caiff ei guddio'n rhannol gan adeiladau talach, er enghraifft, Teras Bulkeley. Fodd bynnag, pan edrychir arno o ochr arall afon Menai, mae Castell Biwmares yn safle trawiadol a ysbrydolodd artistiaid fel J. M. W. Turner. Mae'r golygfeydd o'r castell a thuag ato, o'r môr ac o'r tir, yn arbennig o bwysig wrth warchod y Safle.

*Castell Caernarfon yw canolbwynt y dref ganoloesol a'r dref fodern a dyfodd y tu allan i furiau'r dref. Mae'r olygfa hon yn dangos y Maes, sef y farchnad ganoloesol y tu allan i'r dref gaerog a drawsnewidiwyd yn sgwâr trefol ffurfiol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.*



Yn y canoloesoedd, roedd tref Caernarfon yn llai na Biwmares a Chonwy, ond mae wedi tyfu'n sylweddol dros y canrifoedd. Mae amgylchedd y castell wedi newid yn helaeth dros amser drwy waith ailadeiladu graddol o fewn y muriau ac yn enwedig drwy ddatblygu'r dref fel porthladd ar gyfer y diwydiant llechi yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae twf maestrefi yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, y broses o greu ffordd osgoi a'r datblygiad diweddar yn Noc Fictoria i gyd wedi cyfrannu at y newidiadau o amgylch y castell. O fewn muriau'r dref, cafodd bwrdeisi canoloesol eu mabwysiadu drwy adeiladu tai trefol mwy. O ran adeiladau dinesig, roedd y gwaith o adeiladu Pencadlys Cyngor Gwynedd yn y 1980au yn cynnwys ailddatblygu llain fawr yng nganol y dref — a oedd wedi integreiddio â'r treflun hanesyddol i ryw raddau ohrewydd ei gynllun tameidiog. Mae'r Maes y tu hwnt i furiau'r dref, ond yma yr oedd y farchnad wreiddiol ac mae bob amser wedi bod yn lle dinesig pwysig.

Yng Nghonwy, roedd y gwaith datblygu wedi'i gynnwys o fewn muriau'r dref i raddau helaeth hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg; roedd yn seiliedig ar batrwm strydoedd canoloesol a strwythur lleiniau bwrdeisi nad oedd wedi goroesi'n llwyr. Yr effaith fwyaf ar leoliad y castell, yn fwy nac yn unrhyw un o'r tri chastell arall, oedd peirianneg trafnidiaeth gyda'r broses o adeiladu pont grog Telford yn 1826, y rheilffordd rhwng Caer a Chaergybi yn 1849 a phont rheilffordd Stephenson. Arweiniodd mwy o draffig ceir at yr angen am bont ffordd newydd yn 1958 ac, o ganlyniad i broblemau traffig difrifol, adeiladwyd twnel Conwy yn 1991 — y twnel tiwb tanddwr cyntaf ym Mhrydain.

Sefydlwyd tref Harlech ar yr un pryd ag yr adeiladwyd y castell a chafodd ei siarter yn 1284. Hon oedd y lleiaf o fwrdeistrefi cynlluniedig Edward I, gyda dim ond 12 o drethdalwyr wedi'u rhestru yn 1292–93 a 291/4 o fwrdeisi ar rent yn 1312. Ar ôl i Glyndŵr feddiannu'r castell, parhaodd y fwrdeistref ynghwsg i raddau helaeth tan ddyfodiad gwelliannau mewn dulliau cyfathrebu yn sgil y rheilffyrdd yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r cynnydd ym mhoblogrwydd y dref fel cyrchfan twristiaeth. Gwnaed rhai newidiadau i leoliad uniongyrchol y castell yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg er mwyn gwella'r ffordd i fyny'r allt at y dref.

*Cafodd Castell Conwy a muriau'r dref eu cynllunio gyda'i gilydd o'r cychwyn fel y mae'r olygfa hon o'r wylfa — y man uchaf ar furiau'r dref — yn dangos (© Hawlfraint y Goron (2017) Croeso Cymru).*



### 3.3.2 Y Gydberthynas â'r Arfordir

Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r gydberthynas rhwng y cestyll a'r môr wedi chwarae rôl bwysig yn nhwf cynnar aneddiadau, masnach a busnes ar y môr. Lleolwyd y pedwar castell mewn mannau ar hyd arfordir Cymru lle y gallant gael cyflenwadau o'r môr. Ceir llifddorau yn y pedwar safle, wedi'u cynllunio i gael mynediad uniongyrchol o'r arfordir. Yng Nghaernarfon, roedd ymyl cei afon Menai yn rhan o'r ymgyrch adeiladu wreiddiol, a alluogodd symiau mawr o ddeunydd adeiladu i gael ei fewnforio gan gynnal economi'r dref newydd. Mae'r doc ym Miwmares yn fwy coeth na'r rhai a geir yng Nghonwy a Chaernarfon, efallai o ganlyniad i brofiad gwrthryfel 1294 a'r angen i Edward I gadw morlu ar afon Menai er mwyn diogelu'r broses barhaus o gyflenwi carreg, pren a chyflenwadau eraill a oedd yn angenrheidiol i adeiladu'r castell.[30] Daeth y trefi yn aneddiadau soffistigedig yn gyflym iawn gyda chydberthnasau masnachu rhyngwladol.

Yn Harlech, nid oedd yn bosibl cyrraedd y llifddor ar gwch erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg. Newidiodd y gydberthynas rhwng Castell Harlech a'r môr yn llwyr yn sgil erydu arfordirol, croniant tywod ac adfer tir. Cafodd Morfa Harlech, a fyddai wedi meddiannu ardal fawr yn cynnwys y fan lle mae maes parcio isaf y castell, ei adfer yn dilyn Dyfarniad Cau Tir 1806.

*Roedd safle arfordirol y cestyll yn hollbwysig o ran eu hamddiffyn, eu hadeiladu a'u cyflenwi. Bu cei Menai yng Nghaernarfon, a welwyd yn y blaendir yn yr olygfa hon o'r awyr, yn rhan o'r ymgyrch adeiladu wreiddiol.*



*Drwy'r doc yng Nghastell Biwmares bu modd i longau gael mynediad diogel ac uniongyrchol er mwyn dadlwytho'r cyflenwadau yr oedd eu hangen i adeiladu ac amddiffyn y castell.*



Yn ystod y cyfnod ôl-ganoloesol, gwelwyd cynnydd sefydlog mewn gweithgarwch arfordirol a thwf cymesurol mewn cyfleusterau porthladd a harbwr. Er enghraifft, dangos y twf mewn masnach gan bresenoldeb tai masnachwyr cyfoethog yn nhref Conwy; roedd masnach arfordirol rhwng Biwmares a Chaer yn cludo pysgod, gwlân a brethyn. Yn ystod y Chwyldro Diwydiannol, datblygwyd yr harbwr yng Nghaernarfon ymhellach er mwyn gwasanaethu'r diwydiant llechi prysur, a datblygwyd y Cei Llechi yn ffurfiol ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae cydberthynas y pedair tref â'r môr yn parhau i newid, gyda heriau a chyfleoedd presennol yn canolbwyntio ar bosibiliadau porthladdoedd a cheiau i'w hadfywio (yn cynnwys marinas, datblygiadau masnachol a phreswyl), hamdden ac ynni adnewyddadwy.

*Nid oes modd cyrraedd y castell yn Harlech o'r môr mwyach, ond yn wreiddiol gallai cychod hwylio i fyny i'w borth dŵr.*





*Roedd y cei yng Nghonwy yn bwysig o ran adeiladu'r dref a'r castell a'u datblygiad.*

### 3.3.3 Y Gydberthynas â'r Amgylchedd Naturiol

Mae'n bosibl nad oedd gan y safle a ddewiswyd ar gyfer Biwmares ddigon o amddiffynfeydd naturiol, ond yn hytrach roedd ganddo fynediad uniongyrchol a gwastad i'r môr, ac nid oedd unrhyw nodweddion ffisegol yn cyfyngu ar ei ddyluniad. O ran ei thirwedd, mae afon Menai yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) oherwydd ei phlanhigion morol a rhynglanwol, a'i hanifeiliaid. Yn union i'r gogledd-ddwyrain o'r castell, ceir ardal a ddynodwyd yn Safle o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig (SoDdGA) am ei nodweddion rhynglanwol a geomorffolegol. Mae'r parcdir gerllaw yn Baron Hill i'r gogledd o'r castell yn SoDdGA arall. Mae wedi'i dynodi am ei chennau. Mae Castell Biwmares hefyd wedi'i leoli o fewn ardal Penmon ar y gofrestr o dirweddau o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru.

Mae Castell Caernarfon mewn lleoliad amlwg ar lan afon Menai a rhwng aberoedd afon Seiont ac afon Cadnant. Dynodwyd afon Menai ac Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Conwy o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd Ewropeaidd am yr amrywiaeth o gynefinoedd morol. . Dynodwyd afon Seiont yn SoDdGA am ei nodweddion daearegol. Mae'r coed o fewn glan goediog afon Seiont yn ddarosgyntedig i Orchmynion Cadw Coed. Mae'r ardal yn adnabyddus am fod yn gynefin ar gyfer rhywogaethau a ddiogelir yn cynnwys ystlumod, dyfrgwn, eog yr Iwerydd a brithyll môr.

*Mae llawer o barcdir Baron Hill rhwng Castell Biwmares a Llanfaes yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig oherwydd ei gennau (© Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd).*



Mae Conwy wedi'i hadeiladu ar gefnen o raeanfaen neu dywodfaen Silwraidd ger aber afon Conwy. Mae aber afon Conwy yn SoDdGA ac mae'n gynefin pwysig ar gyfer dyfrgwn. Mae SoDdGA Cadnant yn cydffinio â muriau'r dref i'r gogledd ac mae o ddiddordeb daearegol penodol. Mae Conwy o fewn tirwedd gofrestredig Creuddyn a Chonwy sydd o ddiddordeb hanesyddol eithriadol yng Nghymru ac mae Coed Benarth, sydd uwchlaw'r castell i'r de, o fewn y parcdir a gaiff ei gynnwys ar y gofrestr o barciau a gerddi o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru.

Mae Castell Harlech ar frigiad creigiog uwchlaw ardal gorsiog a thwyni, yn ehangu i Fae Tremadog. Mewn cyfnodau canoloesol, roedd y môr yn llawer agosach i'r castell. Mae'r broses o adfer tir yn Harlech wedi newid lleoliad canoloesol y castell yn helaeth. Mae cynefinoedd bywyd gwyllt a rhywogaethau pwysig wedi'u nodi yn yr ardal. Credir bod planhigion sy'n hoffi calchfaen a ganfuwyd yma yn ffynnu ar galchfaen sydd wedi trwytholchi o forter y castell dros y canrifoedd. Mae'r dref a'r castell wedi'u cynnwys o fewn ardal Ardudwy ar y gofrestr o dirweddau o ddiddordeb hanesyddol eithriadol yng Nghymru, sy'n llawn olion archaeolegol sy'n dynodi meddiannaeth ddynol ymhell cyn i'r castell gael ei adeiladu.

*Mae aber afon Conwy yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn gynefin pwysig ar gyfer dyfrgwn.*



## 3.4 Cyd-destun Cymdeithasol a Diwylliannol

Mae'r adran hon yn archwilio elfennau o hanes mwy diweddar sy'n berthnasol i'r pedwar castell a threfi muriog, yn cynnwys:

- eu rôl yn y mudiad adeiladu
- eu trosglwyddo i ofal Cadw ar ran Gweinidogion Cymru
- rôl goffaol Castell Caernarfon
- rôl y cestyll yn yr ugeinfed ganrif
- cenedlaetholdeb a hunaniaeth ddiwylliannol Gymreig
- twf twristiaeth fodern.

### 3.4.1 Y Mudiad Cadwraeth

Dechreuodd y gwaith o adfer ac atgyweirio Castell Caernarfon tua'r un pryd â dechrau'r mudiad diogelu ehangach mewn mannau eraill o'r DU. Nododd gwaith ymchwil a wnaed gan Richard Avent[31] ddylanwad ffurfiannol y gwaith cadwraeth cynnar yng Nghaernarfon i ddatblygu athroniaeth cadwraeth 'cadw fel y'i darganfuwyd'. Er yr ystyriwyd gwerthu'r castell ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, penderfynwyd y dylai barhau dan berchnogaeth y Goron. Yn 1845, gofynnwyd i Anthony Salvin, pensaer amlwg o oes Fictoria, ysgrifennu adroddiad ar gyflwr y castell. Fodd bynnag, roedd y gwaith adfer a wnaed ar y castell yn bennaf o ganlyniad i weledigaeth Syr Llewelyn Turner, sef dirprwy gwnstabl y castell rhwng 1870 a 1903. Cynhaliodd Turner raglen adfer sylweddol yn y castell, a ariannwyd mewn modd arloesol drwy ffi mynediad o bedair ceiniog a godwyd ar ymwelwyr. Erys effaith gwaith Turner yn amlwg yn y castell fel ag y mae heddiw, yn bennaf o ran rhannau uchaf crenelog y muriau, a adferwyd i raddau helaeth dan ei arweinyddiaeth. Yn ffodus, mae ei ddefnydd o waith maen cyferbyniol y nodi'r gwaith adfer modern.

Yng Nghonwy, gwnaeth ymgais i ddiogelu ymddangosiad y castell yn ystod y gwaith o adeiladu pont reilffordd Stephenson yn 1849, drwy ymgorffori porth bwaog ffug Gothig ym mur y dref. Cynhaliwyd ymyriadau sylweddol yn 1876 i'r 'tŵr uchel' yn y mur tref canoloesol. Yn fuan wedi

*Cafodd llawer o furfylchau crenelog Castell Caernarfon eu hadfer gan Syr Llewelyn Turner.*



hynny, cafodd y toriad mawr yn Nhŵr y Popty ei adnewyddu; mae'n debyg bod hyn o ganlyniad i ddifrod bwriadol ar ôl i'r castell gael ei ildio i rymoedd y Frenhiniaeth yn ystod y Rhyfel Cartref. Cafodd y gwaith o adnewyddu Tŵr y Popty ei wneud gan The London and North Western Railway Company yn ystod ymarfer tirweddu sylweddol i osod cilffyrdd rheilffordd ochr yn ochr â'r castell. Yng nghanol yr ugeinfed ganrif, cafodd adeiladau a oedd wedi'u codi yn erbyn muriau'r dref eu tynnu i lawr mewn ymdrech i wella golwg y cylch muriog a chafodd porth o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a ddyluniwyd gan Telford ei ddymchwel yn 1958.

Trosglwyddwyd y cestyll i ofal y Wladwriaeth ar adegau amrywiol yn ystod yr ugeinfed ganrif. Yn 1908, trosglwyddwyd Castell Caernarfon i ofal yr Adran Waith, a gymerodd gyfrifoldeb am y gwaith o'i warchod yn unol â'r brif egwyddor 'cadw fel y'i darganfuwyd'. Mae Castell Harlech wedi'i gynnal fel heneb ers 1914 a Chastell Biwmares ers 1925, pan gynhaliodd y Comisiynwyr Gwaith raglen cadwraeth ar raddfa fawr a oedd yn cynnwys cael gwared ar lystyfiant, cloddio'r ffos ac atgyweirio gwaith maen. Yn 1953, cafodd Castell a Muriau Tref Conwy eu gosod ar brydles gan y Conway Corporation (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy bellach) ar brydles 99 mlynedd o hyd. Heddiw, mae'r pedwar castell a'r muriau trefi dan ofal Cadw ar ran Gweinidogion Cymru yn unol â'r *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*.[32]

*Gwaith adfer yng Nghaernarfon ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Yma, mae trawst derw enfawr yn cael ei gario i mewn i'r castell o'r cei, gan adleisio canrifoedd o arfer adeiladu.*



*Mae'r gwaith atgyweirio ar Dŵr y Popty yng Nghastell Conwy, gan Gwmni Rheilffordd Llundain a'r Gogledd-orllewin, yn amlwg oherwydd y gwaith maen lliw gwahanol yn y tŵr canol.*



### 3.4.2 Rôl Goffaol

Dechreuodd y traddodiad o gynnal arwisgiad tywysogion diweddar Cymru yng Nghastell Caernarfon yn 1911, ar argymhelliad David Lloyd George, Canghellor y Trysorlys ar y pryd. Hyd yma, cafwyd dwy seremoni: Y Tywysog Edward (Brenin Edward VIII yn ddiweddarach) yn 1911 a'r Tywysog Charles, tywysog presennol Cymru, yn 1969.

Roedd pobl Cymru'n rhanedig iawn ynghylch y ddau arwisgiad, fel y crynhoir gan Alun Ffred Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth ar y pryd yn ei bapur 'King Edward I's Castles in North Wales — Now and Tomorrow.'[33] Ceisiodd arwisgiad 1911 ddathlu brwydrau canoloesol ei darddiad, gyda newyddiadurwyr yn portreadu Castell Caernarfon fel 'means of subjugating Wales, but also a tribute to the tenacity of the Welsh.'[34] Ysgrifennodd newyddiadurwr o Gymru ar y pryd 'the old castle of the oppressor is in its ruins: the national spirit is stronger than ever it was before' ac ystyriwyd bod Castell Caernarfon yn brawf o gryfder dycnwch Cymry'r canoloesoedd a hefyd fel y man cymodi.[35]

Cynhaliwyd arwisgiad 1969 mewn hinsawdd wleidyddol wahanol, ar adeg pan roedd pryderon ynghylch dyfodol gwleidyddol Cymru a goroesiad yr iaith Gymraeg. Er bod yr arwisgiad yn boblogaidd ymysg llawer, roedd Castell Caernarfon hefyd yn lleoliad i sawl protest ac yn ffocws i ymgyrch yn erbyn yr arwisgiad.

Mae'r cestyll hefyd wedi cael eu defnyddio fel canolbwynt digwyddiadau coffaol; er enghraifft, mae muriau'r castell wedi'u goleuo yng Nghaernarfon i gofio am y milwyr a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a gwelwyd y cerflun pabi 'Weeping Window' gan yr artist Paul Cummins a'r dylunydd Tom Piper yma yn ystod hydref 2016. Goleuwyd ffagl yng Nghastell Biwmares i gofio Diwrnod VE. Yn 2011, dewiswyd Castell Harlech fel un o'r 26 o leoliadau nodedig eiconig yn y DU i ymddangos ar gyfres o stampiau coffaol gan y Post Brenhinol.

*Baner Owain Glyndŵr yn cyhwfan yng Nghastell Caernarfon ar 16 Medi 2008 i nodi diwrnod ei ddatgan yn dywysog Cymru yn 1400*



*Cerflun pabïau'r 'Weeping Window' yn cael ei arddangos yng Nghastell Caernarfon yn 2016 i gofio am y milwyr a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, 1914-18.*



### 3.4.3 Cenedlaetholdeb a Hunaniaeth Ddiwylliannol Gymreig

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, tyfodd ymwybyddiaeth ymysg y Cymry o'u hunaniaeth genedlaethol. Yn sgil refferendwm datganoli 1997 a Deddf Llywodraeth Cymru 1998 wedyn, cafodd pwerau eu datganoli o'r senedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae hanes wedi trosglwyddo dwy gyfres o werthoedd diwylliannol i gestyll a muriau trefi Brenin Edward I yng Ngwynedd. Ar y naill law, cânt eu hedmygu am eu hysblander ac am eu hansawdd fel gwaith pensaernïol; ar y llaw arall, cânt eu hystyried yn symbolau o ormes a dieithrio. Mae'r ddwy gyfres o werthoedd diwylliannol yn cyfrannu at bwysigrwydd y Safle.


Mae'r papur gan Alun Ffred Jones yn disgrifio teimladau o falchder, edmygedd a chwerwder sy'n 'jostle closely together' mewn perthynas â chestyll y Brenin Edward, gyda theimladau 'naturally strongest in Gwynedd, and most marked in the case of Caernarfon, where one of the most strongly Welsh-speaking towns is watched over by the grandest and most symbolic of King Edward's castles'.[36]

Ymysg y digwyddiadau diwylliannol diweddar a ddathlodd natur nodedig a hunaniaeth y Cymry roedd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, a gynhaliwyd yng Ngwynedd yn 2012, gyda gorymdaith drwy'r dref a seremoni gyhoeddi yng Nghastell Caernarfon a fynychwyd gan fwy na 6,000 o bobl yn 2011.

Mae'r iaith Gymraeg yn ganolog i natur nodedig ddiwylliannol Cymru ac mae wedi bod yn un o brif nodweddion hunaniaeth Gymreig ers canrifoedd. Mae presenoldeb yr iaith Gymraeg yng ngogledd-orllewin Cymru yn arbennig o gryf. Nododd data cyfrifiad 2011 bod 65.4 y cant o bobl Gwynedd a 57.2 y cant o Ynys Môn yn siarad Cymraeg (tua 19 y cant yw'r cyfartaledd ledled Cymru). Ar lefel ward, gall y ffigur hwn fod mor uchel ag 86 y cant yng Nghaernarfon. Mae presenoldeb siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy, ymhellach i'r dwyrain, yn llawer is (27.4 ar gyfer y fwrdeistref sirol yng nghyfrifiad 2011). Mae hyn o ganlyniad i ffactorau sy'n debyg i'r rhai a brofir mewn mannau eraill yng Nghymru, fel mewnfudo o Loegr, siaradwyr Cymraeg yn symud i ffwrdd, ffactorau addysgol a dirywiad yn y ffordd y caiff yr iaith Gymraeg ei throsglwyddo o un genhedlaeth i'r llall. Fodd bynnag, ceir cydnabyddiaeth o'r angen i ddiogelu a meithrin sefyllfa'r iaith Gymraeg yn y gymuned.

*Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd 2012 a gynhaliwyd yng Nghastell Caernarfon yn 2011 (ochr chwith) (© Urdd Gobaith Cymru). Cynhaliwyd disgo distaw yng Nghastell Caernarfon yn 2017 (ochr dde) (© Cyngor Gwynedd).*






### 3.4.4 Twf Twristiaeth

Ar gyfer y rhan fwyaf o hanes a gofnodwyd, roedd teithio yn anodd, anghyfforddus, drud ac yn aml yn beryglus. Dim ond ers canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg y daeth teithio ar gyfer pleser yn fwy fforddiadwy, yn fwy diogel ac yn llai anodd (i ddechrau pan gyflwynwyd y rheilffyrdd, yna ceir a'r cynnydd mewn argaeledd teithio rhyngwladol). Mae cynnydd mewn safonau byw, cyflwyno gwyliau blynyddol ac awydd cynyddol i deithio oll wedi cyfrannu at y twf cyflym ac anferth mewn twristiaeth fodern a welwyd tuag at ddiwedd yr ugeinfed ganrif.

Mae'r pedwar castell wedi bod yn gyrchfannau i ymwelwyr i ogledd Cymru ers amser maith. Ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roeddent yn denu beirdd a phaentwyr, na allent deithio i dir mawr Ewrop oherwydd y rhyfeloedd Napoleonaidd. Yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwnaeth dyfodiad y rheilffordd i ogledd Cymru yr ardal yn fwy hygyrch i dwristiaid. Er enghraifft, arweiniodd dyfodiad y rheilffordd yn Harlech yn 1867 at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr i'r dref dros fisoedd yr haf. Yng nghanol yr ugeinfed ganrif, daeth twristiaeth yn elfen bwysig o adeiladwaith economaidd Cymru gydag arfordir gogledd Cymru, Eryri a'r cestyll yn atyniadau penodol. Yn ystod y 1960au a'r 70au, gwelwyd uchafbwynt yn nifer yr ymwelwyr a thwf twristiaeth: yn 1976, cynhaliwyd mwy na miliwn o ymweliadau â'r pedwar castell. Ers hyn, mae newidiadau yn y farchnad gwyliau wedi cynnwys hediadau rhad a chystadleuaeth gan gyrchfannau tramor. Nododd y cynllun rheoli blaenorol y cafwyd gostyngiad o tua 15 y cant yn nifer yr ymweliadau â'r cestyll rhwng 1986 a 2004. Cafwyd newidiadau yn arferion ymwelwyr hefyd, gyda chynnydd mewn gwyliau byr a theithiau dydd yn hytrach na gwyliau ffurfiol. Mae'r newid hwn yn ymddygiad ymwelwyr wedi parhau ac mae nifer yr ymwelwyr hefyd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf.

*Yn sgil dyfodiad y rheilffyrdd yn y gogledd bu cynnydd cyson yn nifer yr ymwelwyr a gafodd eu denu gan hysbysebion megis y poster hwn sy'n hyrwyddo Castell Harlech (ochr chwith) (Yr Amgueddfa Reilffyrdd Genedlaethol/Llyfrgell Ffotograffig Gwyddoniaeth a Chymdeithas). Mae Gŵyl Gwledd flynyddol Conwy, sy'n dathlu bwyd, cerddoriaeth a chelf, yn annog mwy o ymwelwyr i ddod i'r dref gaerog a'r cei (ochr dde) (Ffotograff drwy garedigrwydd Gŵyl Gwledd Conwy).*






### 3.4.5 Y Cestyll mewn Celf, Cerddoriaeth a Llenyddiaeth

Fel henebion yn nhirwedd Cymru, mae'r cestyll wedi ysbrydoli artistiaid drwy gydol eu hanes hir. Yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif, roeddent yn destun ar gyfer artistiaid topograffaidd. Ymysg yr enghreifftiau o'r genre hwn mae engrafiad John Boydel 'A North West View of Caernarfon Castle' (1749) ac engrafiadau gan y brodyr Samuel a Nathaniel Buck, a ddarluniodd y pedwar castell yn 1742.

Ar ddechrau'r mudiad Rhamantaidd, cafodd artistiaid eu hysbrydoli i baentio'r cestyll mewn tirweddau naturiolaidd er mwyn dangos eu cydberthynas â'u lleoliadau. Er enghraifft, paentiodd Paul Sandby Gastell Conwy a Chastell Harlech yn 1776. Pan roedd yr artistiaid Rhamantaidd yn methu â theithio i dir mawr Ewrop yn ystod y Rhyfeloedd Napoleanaidd, gwnaethant ddarganfod rhannau eraill o Brydain, yn cynnwys Eryri. Cafodd y pedwar castell eu paentio ar sawl achlysur gan artistiaid a'u defnyddiodd i fynegi eu gweledigaethau eu hunain o dirweddau rhamantaidd. Ymysg

*Engrafiad John Boydell o 1749,* **A North West View of Caernarfon Castle** *(llun uchaf) (Gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru). Llun dyfrlliw Paul Sandby o Gastell Harlech oddeutu 1777 (gwaelod) (Amgueddfeydd ac Orielau Leeds (Oriel Gelf Leeds), Y DU/Bridgeman Images).*





*Julius Caesar Ibbetson's* **Conway Castle, Moonlight at the Ferry** *(1794) (llun uchaf) (© Amgueddfa Victoria ac Albert, Llundain). Llun dyfrlliw Beaumaris Castle Isle of Anglesey J. M. W. Turner, a beintiwyd oddeutu 1835 (gwaelod) (© Drwy garedigrwydd Casgliadau Celf Huntington, San Marino, Califfornia).*





yr enghreifftiau mae 'Conway Castle, Moonlight at the Ferry' (1794) gan Julius Caesar Ibbetson (1759–1817) ac, efallai yr enwocaf ohonynt, cyfres o baentiadau gan J. M. W. Turner.

Darganfu Turner ogledd Cymru mewn dwy daith yn 1798–99, gan ddychwelyd gyda chyfres o lyfrau braslunio a ddaeth yn sail i nifer o'i baentiadau gorffenedig gwychaf, yn cynnwys *Harlech Castle from Tygwyn Ferry, Summer's Evening Twilight* (tua 1798–99), *Caernarvon Castle, North Wales* (1799–1800) and *Conway Castle* (tua 1803). Dilynodd dau baentiad diweddarach; 'Caernarvon Castle, Wales' tua 1832 a 'Beaumaris Castle, Isle of Anglesey' tua 1835.

Yn fwy diweddar, mae artistiaid o'r ugeinfed ganrif wedi ceisio ail-greu golygfeydd hanesyddol yng ngoleuni gwybodaeth bresennol. Ymysg yr enghreifftiau mae Alan Sorrell (1904–74), y mae ei baentiad o Gastell Harlech yn dangos yn glir sut y gallai fod wedi cael cyflenwadau o'r môr; Terry Ball (1931–2011) a John Bandbury (1938–97) a luniodd olygfeydd 'o'r awyr' o'r pedwar castell; Ivan Lapper (1939–), y mae ei baentiadau yn dangos y trefi muriog a digwyddiadau penodol yn eu hanes, a Chris Jones-Jenkins (1954–), sy'n arbenigo mewn darluniadau ail-greu.

Mae'r cysylltiadau rhwng y cestyll a llenyddiaeth yn ymwneud yn bennaf â'r *Y Mabinogion*, casgliad o un chwedl ar ddeg o fytholeg ganoloesol Geltaidd. Gwneir cyfeiriadau at Gaernarfon yn 'Breuddwyd Macsen' ac at Harlech yn *Y Mabinogion*.

Macsen Wledig oedd ymerawdwr Rhufain. Un diwrnod aeth i hela gyda'i osgordd a thua hanner dydd, syrthiodd i gysgu yn yr haul. Cafodd freuddwyd â'i cafodd yn teithio ar hyd dyffryn afon hyd nes iddo gyrraedd y mynydd uchaf a welodd erioed a'r tu hwnt iddo roedd 'y gwledydd tecaf a mwyaf gwastad a welsai dyn erioed'. Teithiodd ymlaen at aber afon fawr, a gwelodd 'ddinas fawr wrth aber yr afon a chaer fawr yn y ddinas, a gwelai ar y gaer lawer o dyrau mawr amryliw'. Teithiodd ymhellach hyd nes iddo gyrraedd rhagor o fynyddoedd. 'Ac oddi yno fe welai ynys yn y môr gyferbyn. Ac o'r mynydd hwnnw fel welai afon yn llifo ar draws y wlad yn cyrchu'r môr. Ac wrth aber yr afon fe welai gaer fawr, y decaf a welsai dyn erioed'. Arweiniodd y freuddwyd ef at borth y gaer a oedd yn agored a'r tu mewn canfu neuadd gyda tho o deils aur a muriau wedi'u gorchuddio gan gerrig sgleiniog a lloriau â phalmentydd aur. Eisteddodd mewn cadair euraidd gyda morwyn deg a rhoddodd ei freichiau o'u hamgylch. Ar yr adeg honno, deffrodd o'i freuddwyd ac

*Adluniad dychmygus Ivan Lapper o ymosodiad y Cymry ar Gaernarfon ym mis Medi 1294, a beintiwyd yn 1993.*



*Adluniad Chris Jones-Jenkins o borth allanol Castell Biwmares (2010).*



roedd yn benderfynol o ddod o hyd i'r forwyn hon. Anfonodd negeswyr i deithio'r byd yn chwilio amdani ond roedd eu hymdrechion yn ofer hyd nes i un grŵp gyrraedd ynys Prydain a dod o hyd i Eryri, gan sylweddoli mai hwn oedd y tir a welodd eu harglwydd ac, o'r diwedd, daethant o hyd i'r forwyn yn eistedd ar gadair euraidd yn y gaer.[37]


Mae gan Gastell Harlech gysylltiadau penodol â Bendigeidfran, a oedd yn frenin ar ynys Prydain ac yn frawd i Branwen. Pan oedd yn eistedd ar graig uwchlaw'r môr yn Harlech gyda'i frodyr, gwelsant lynges o 13 o longau yn dod o Iwerddon. Daeth y llongau â Matholwch, brenin Iwerddon, a ofynnodd am law Branwen mewn priodas. Trefnwyd gwledd fawr, ond nid oedd brawd Bendigeidfran, Efnysien, yn hapus a thalodd y pwyth yn ôl drwy anffurfio meirch y brenin, gan achosi i Matholwch adael yn ei ddicter. Er i Bendigeidfran ei ddarbwyllo i ddychwelyd a gwneud iawn iddo, yn ôl yn Iwerddon, roedd anniddigrwydd ynghylch y modd y cafodd y brenin ei drin yng Nghymru; gorfodwyd Branwen i weini. Pan glywodd Bendigeidfran am hyn yng Nghymru, addawodd y byddai'n mynd i Iwerddan i dalu'r pwyth yn ôl. Yn ôl y chwedl, roedd yn ddyn mor fawr fel y llwyddodd i gerdded drwy'r môr a hwyliodd ei fyddin ar longau. Methodd ei ymgyrch, gan arwain at dywallt gwaed ac edifeirwch; teithiodd saith gŵr yn ôl i Harlech gyda phen Bendigeidfran, lle gwnaethant wledda am saith blynedd. Yn y pen draw, claddwyd pen Bendigeidfran yn Llundain, yn wynebu Ffrainc, i gadw gwyliadwriaeth rhag ymosodiad o'r môr. Ceir cerflun o Bendigeidfran gan y cerflunydd Ivor Roberts-Jones (1913–96) y tu allan i Gastell Harlech.

O ran hanes cerddoriaeth, er na chaiff unrhyw gerddoriaeth ei chysylltu'n benodol â chyfnod Brenin Edward I, cred bod y gân werin Gymreig 'rhyfelgyrch Gwŷr Harlech' wedi'i hysbrydoli gan warchae Castell Harlech yn 1468 yn ystod Rhyfeloedd y Rhosynnau. Archwiliwyd symbolaeth ac ystyr y cestyll drwy eiriau beirdd Cymru gan Dylan Foster Evans.[38]

*Mae cerflun Ivor Robert-Jones, Y Ddau Frenin, y tu allan i Gastell Harlech, yn portreadu Branwen yn* **Y Mabinogi** *gyda Bendigeidfran yn dychwelyd â chorff ei nai, Gwern.*



*Mae stori Branwen a ailadroddir ar ffurf llyfr comics yn ceisio ennyn diddordeb darllenwyr newydd ac ifanc.*



## 3.5 Cymunedau Safle Treftadaeth y Byd Heddiw

Heddiw, mae'r pedwar castell yn ganolbwynt i bedair cymuned wahanol. Caernarfon, tref sirol Gwynedd, yw'r fwyaf gyda phoblogaeth o fwy na 9,000 (9,615 yng nghyfrifiad 2011). Mae ganddi isadeiledd prysur ac mae'n cynnwys Llywodraeth Cymru a chanolfannau gweinyddol awdurdod lleol, gwesty cenedlaethol ac archfarchnadoedd cadwyn yn ogystal â busnesau a masnach ranbarthol. Mae gan Gonwy boblogaeth o fwy na 4,000 (4,065 yng nghyfrifiad 2011) a saif gerllaw'r brif reilffordd a ffordd arfordirol yr A55. Mae cyfran fwy o'r gymuned hon wedi'i chyflogi mewn twristiaeth neu yn swyddfeydd y cyngor. Mae Biwmares a Harlech bron yn union yr un maint ac maent yn llawer llai gyda phoblogaeth o tua 2,000 yr un (yng nghyfrifiad 2011, cofnodwyd bod gan Fiwmares 1,938 o drigolion a bod gan Harlech 1,997). Mae lleoliad daearyddol Biwmares yn golygu ei bod yn llai hygyrch na Chonwy, er enghraifft, ac o ganlyniad, mae'n bosibl ei bod yn gymuned fwy clós, ond mae ei ffocws ar dwristiaeth yr un mor gryf.

Mae tref Biwmares wedi datblygu fel cyrchfan i ymwelwyr ac, erbyn hyn, mae'n gyrchfan gwyliau pictiwrésg. Mae'r dref wedi cadw llawer o'i phatrwm strydoedd canoloesol ac mae'r brif stryd yn cynnwys cyfran uchel o fanwerthwyr annibynnol. Denodd y castell 82,103 o ymwelwyr yn 2016–17. Mae buddsoddiad o brosiectau, fel prosiect Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn, wedi gwella'r cyfleusterau yn y dref, yn cynnwys y pier a adnewyddwyd. Canfu astudiaeth annibynnol yn 2013[39] fod Safle Treftadaeth y Byd ym Miwmares wedi cyfrannu £1.2miliwn i'r economi leol (cyfwerth â 60–70 o swyddi). Er yr ystyrir bod y dref a'r ardaloedd gwledig o amgylch yn ffyniannus yn gyffredinol, ceir pocedi o amddifadedd a diweithdra perthynol o hyd.

*Mae Biwmares yn gymuned fach, glòs ar Ynys Môn, sydd â ffocws cryf ar dwristiaeth.*



*Mae Harlech yn gymuned fywiog a gweithredol, sy'n awyddus i ddod o hyd i gyfleoedd posibl i'r dref.*



Denodd Castell Caernarfon 301,567 o ymwelwyr yn 2016–17. Nododd astudiaeth 2013 i'r castell gyfrannu £2.6 miliwn i'r economi leol (cyfwerth â 142 o swyddi).[40] Mae'r castell yn parhau'n ffocws ar gyfer buddsoddiad mewn adfywio, a gyflawnir drwy bartneriaeth aml-asiantaeth sy'n cynnwys Cyngor Gwynedd a Cadw. Ymysg y prosiectau diweddar a'r prosiectau a gynlluniwyd ar gyfer y dyfodol mae parhau i adfywio Glannau Caernarfon (gan ganolbwyntio ar Safle'r Ynys hanesyddol yn y Cei Llechi), yn ogystal â gwella cyfleusterau i ymwelwyr fel terfynfa Rheilffordd Ucheldir Cymru yn y dref. Ceir ardaloedd o amddifadedd difrifol yng Nghaernarfon o hyd. Er enghraifft, mae wardiau Peblig a Chadnant yn cael eu cydnabod yn ardaloedd lle mae tlodi a diweithdra uwchlaw lefelau cyfartalog.

Denodd Castell Conwy 203,122 o ymwelwyr yn 2016–17. Nododd astudiaeth 2013[41] i'r castell gyfrannu tua £3.1 miliwn i'r economi leol (cyfwerth â 178 o swyddi). Yn ogystal â'r castell a muriau'r dref (y mae cryn dipyn yn hygyrch i ymwelwyr), mae Plas Mawr, y tŷ trefol o oes Elisabeth hefyd yn atyniad i ymwelwyr. Mae gan Gonwy graidd manwerthu bywiog gyda manwerthwyr a masnachwyr annibynnol.

Yn olaf, mae tref Harlech hefyd wedi gweld buddsoddiad yn ddiweddar yn yr ardal o amgylch y castell, gyda phont newydd i wella mynediad a chanolfan ymwelwyr a chaffi newydd. O ganlyniad cynyddodd nifer yr ymwelwyr â Harlech yn ddramatig o 77,000 yn 2014–15 i 102,198 yn 2016–17. Cyfrannodd y castell tua £1.15 miliwn i'r economi leol yn 2013 gyda'r disgwyliad y bydd y ffigur hwn yn tyfu yn unol â nifer yr ymwelwyr.[42] Er bod y bont newydd a'r ganolfan i ymwelwyr wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar y dref yn ôl pob tebyg, ac yr ymddengys i hynny esgor ar ailagor nifer o fusnesau, mae'r dref yn dal i fod mewn sefyllfa fregus. Mae gan Harlech gymuned fywiog a gweithredol, gyda grwpiau lleol yn dod ynghŷd i nodi cyfleoedd posibl ar gyfer dyfodol y dref. Gall y rhain gynnwys gwelliannau i ganol y dref lle ceir cyfraddau uchel o swyddi gwag a lle mae angen gwelliant amgylcheddol ar nifer o adeiladau.

*Caernarfon yw tref sirol Gwynedd a'r dref fwyaf o blith y pedair tref. Mae cyfleusterau lleol yn cynnwys y marina yn Noc Fictoria (© Hawlfraint y Goron (2017) Croeso Cymru).*



*Mae Conwy yn dref brysur ar y prif lwybrau (A55 a'r rheilffordd) ar draws gogledd Cymru, sy'n ei gwneud yn hygyrch ac yn atyniadol i ymwelwyr.*





*Mae'r olygfa eiconig hon o Gastell Harlech yn cyfleu mawredd y gaer ganoloesol. Bydd yr egwyddorion cyffredinol a amlinellir yn y cynllun hwn yn helpu i lywio'r ffordd y caiff Safle Treftadaeth y Byd ei reoli.*

# 4 Anghenion Rheoli a Fframwaith Polisi

## 4.1 Cyflwyniad

Mae penodau blaenorol y cynllun rheoli hwn wedi nodi pwysigrwydd a gwerth y Safle. Mae'r bennod hon yn nodi'r weledigaeth a'r egwyddorion cyffredinol, ac amcanion a pholisïau a fydd yn arwain y gwaith parhaus o reoli'r Safle, gan fynd i'r afael ag angheion rheoli a chyfleoedd penodol.

## 4.2 Gweledigaeth ac Egwyddorion Cyfffredinol ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd

Y weledigaeth ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd yw:

**Dathlu a diogelu natur nodedig Safle Treftadaeth y Byd a'i gymunedau cyfagos fel ei fod o fudd cymdeithasol ac economaidd nawr ac yn y dyfodol.**

*Mae twristiaeth yn cynnig manteision economaidd hollbwysig i Safle Treftadaeth y Byd. Yma, mae twristiaid yn mwynhau eu hymweliad â Chastell Conwy.*






Proof

## 4.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[43]

Mae'r ffaith y parheir i reoli'r Safle yn adlewyrchu'r cyd-destun deddfwriaethol nodedig a blaengar yng Nghymru. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf 2015) yn nodi saith nod lleisant sydd, gyda'i gilydd, yn rhoi gweledigaeth a rennir ar gyfer dyfodol Cymru. Bydd polisïau a ddatblygwyd er mwyn rheoli'r Safle yn cyfrannu at un neu fwy o'r nodau hyn, sydd â'r un egwyddor o ddatblygu cynaliadwy yn sail iddynt.

Mae Deddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag at y saith nod.

*The seven goals of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.*




- **Cymru lewyrchus (Nod 1)** — cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur; ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
- **Cymru gydnerth (Nod 2)** — cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
- **Cymru iachach (Nod 3)** — cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
- **Cymru sy'n fwy cyfartal (Nod 4)** — cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.
- **Cymru o gymunedau cydlynol (Nod 5)** — cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu (Nod 6)** — cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang (Nod 7)** — cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Drwy ei gysylltiadau â chymunedau o breswylwyr ac ymwelwyr, a'r economi leol a chenedlaethol, gall y Safle helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni'r nodau hyn.

## 4.4 Prif Egwyddorion

Mae'r pedair thema ganlynol yn cwmpasu'r holl weithgarwch a gyflawnir fel rhan o'r Cynllun Rheoli ac maent yn hanfodol i'w weithredu'n llwyddiannus.

- Diogelu Gwerth Cyffredinol Eithriadol
- Cyfrifoldeb cyffredin
- Ymgysylltu â'r gymuned
- Yr iaith Gymraeg a diwylliant

### 4.4.1 Diogelu Gwerth Cyffredinol Eithriadol

Disgrifir y Datganiad o Werth Cyffredinol Eithriadol a'r prif nodweddion sy'n cyfrannu at Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd ym Mhennod 2. Dywed ICOMOS 'World Heritage Sites need to be seen as single entities that manifest Outstanding Universal Value'.[44] Mynegir Gwerth Cyffredinol Eithriadol mewn amrywiaeth o nodweddion a'r rhain y mae angen eu gwarchod er mwyn cynnal Gwerth Cyffredinol Eithriadol. Felly, bydd angen i benderfynwyr asesu effaith cynigion o fewn Safle Treftadaeth y Byd ar ei brif nodweddion, yn unigol ac ar y cyd. Lle y bo'n briodol, gall awdurdodau cynllunio lleol ofyn am wybodaeth a all gynnwys asesiad effaith ar dreftadaeth gan ddatblygwyr cynigion sy'n debygol o gael effaith ar Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd.

Mae a wnelo mesur diogelu arall â'r gofynion a nodir yn *Operational Guidelines for the Implementation of the World Heritage Convention*.[45] Dywed paragraff 172 y gall fod angen rhoi gwybod am gynigion datblygu a all gael effaith ar Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd (drwy DCMS) i Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO, fel y gall y pwyllgor roi cyngor ar fesurau diogelu priodol.

*Cynlluniwyd y bont fynediad newydd i Gastell Harlech er mwyn lleihau'r effaith ar Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd i'r eithaf.*



### 4.4.2 Cyfrifoldeb cyffredin

Caiff Safleoedd Treftadaeth y Byd eu cydnabod yn fyd-eang fel llefydd o bwys eithriadol. Felly, mae angen arfer cadwraeth rhagorol er mwyn diogelu eu dyfodol. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth eang ymysg mathau gwahanol o sefydliadau (o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol) o werthoedd arbennig Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd a chydnabyddiaeth o gyfrifoldeb cyffredin i ddiogelu'r gwerthoedd hyn. I ddechrau, mae angen cynnwys ystyriaethau rheoli perthnasol sy'n gysylltiedig â'r Safle mewn cynlluniau a strategaethau. Dylai'r rhain gynnwys cynlluniau datblygu lleol, cynlluniau rheoli cyrchfannau, strategaethau economaidd lleol, cynlluniau trafnidiaeth lleol, cynlluniau llefydd, sesiynau brifio datblygu safleoedd, asesiadau risg o lifogydd, cynlluniau rheoli traethlinau, a chynlluniau a strategaethau adrannau priffyrdd a chwmnïau cyfleustodau (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt).

Defnyddir arian y sector cyhoeddus mewn amrywiaeth o ffyrdd er mwyn cyflawni prosiectau naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o fewn y Safle a'r cyffiniau. Gall dibenion uniongyrchol gynnwys gwariant gan yr awdurdod lleol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar brosiectau adfywio, gwaith ar briffyrdd a gwelliannau i'r treflun. Gall gwariant ddigwydd yn anuniongyrchol hefyd drwy ddarparu arian grant i sefydliadau yn y sector preifat neu'r sector gwirfoddol (er enghraifft, grantiau i wella adeiladau rhestredig, grantiau i elusennau neu i fusnesau lleol). Lle y caiff arian o'r sector cyhoeddus ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau a leolir o fewn y Safle, neu ei leoliad hanfodol, mae'n bwysig sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisïau a'r amcanion ehangach a geir yn y cynllun rheoli hwn er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r arfer cadwraeth gorau.

*Bydd safle gorsaf newydd Ffestiniog a Rheilffordd Ucheldir Cymru, sy'n brosiect ar y cyd â nifer o randdeiliaid, o fudd i Safle Treftadaeth y Byd.*



### 4.4.3 Ymgysylltu â'r Gymuned

Mae UNESCO yn annog Safleoedd Treftadaeth y Byd i gydnabod bod angen i gymunedau lleol sydd naill ai o fewn Safle Treftadaeth y Byd neu'n rhan ohono neu gerllaw iddo, chwarae rôl bwysicach yn natblygiad cynaliadwy a rheolaeth hirdymor y llefydd hyn sydd o bwys rhyngwladol. Hefyd, yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, bu cydnabyddiaeth gynyddol o'r buddiannau i wasanaethau a'r cyhoedd pan gymerir camau ymgysylltu cadarnhaol, tryloyw ac adeiladol.

Yn syml, mae 'ymgysylltu â'r gymuned' yn broses systematig a chynlluniedig gyda'r nod penodol o gydweithio â grwpiau penodol ac amrywiol o bobl, p'un a ydynt wedi'u cysylltu drwy leoliad daearyddol, buddiant penodol, neu gysylltiad neu hunaniaeth i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar eu llesiant.'[46] Gall ymgysylltu â'r gymuned fod ar sawl ffurf yn amrywio o hysbysu'r gymuned o gyfeiriadau polisi'r llywodraeth i rymuso'r gymuned i wneud penderfyniadau a gweithredu a rheoli newid ei hun.

Gan gydnabod y pwysigrwydd hwn, caiff Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a'r Gymuned ei chyhoeddi'n ffurfiol gyda'i phrif nodau yn gyson ag amcanion allweddol y cynllun gweithredu. Mae hyn yn tanlinellu'r pwynt y gall ymgysylltu â'r gymuned neu gynnwys y gymuned ddigwydd drwy unrhyw weithgaredd.

*Mae Marchogion Ardudwy sy'n dod o'r ardal leol, yn ail-greu bywyd yn y drydedd ganrif ar ddeg yn rheolaidd yng Nghastell Harlech a Chastell Caernarfon er mwyn hyrwyddo twristiaeth a chodi arian at elusennau lleol.*



### 4.4.4 Y Gymraeg a Diwylliant

Mae’r iaith Gymraeg yn cyfrannu at yr ymdeimlad o le mewn ardal ac mae'n rhan hanfodol o’r cymunedau o fewn y Safle. Mae cyfran y bobl yn wardiau Caernarfon, megis Seiont a Menai, sy'n siarad Cymraeg tua 86 y cant. Er y ceir pryderon ynghylch y ffaith bod cyfran y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng ychydig yn ystod y 10 mlynedd rhwng cyfrifiad 2001 a chyfrifiad 2011, mae diogelu a hyrwyddo’r iaith Gymraeg yn un o ofynion strategol Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol drwy Fesur y Gymraeg 2011, sy'n gofyn am gydymffurfio â nifer o safonau cymeradwy.[47] Cydnabyddir cyfraniad a wna’r iaith Gymraeg i natur nodedig ddiwylliannol ac, yn ei thro, i’r broses o ddatblygu’r economi (er enghraifft, fel nodwedd sy'n golygu bod gogledd-orllewin Cymru yn wahanol i ardaloedd eraill).

Gellir defnyddio statws Safle Treftadaeth y Byd i helpu i hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg a helpu i gynnal ei rôl feunyddiol bwysig yn rôl ddiwylliannol y cymunedau cyfagos. Er mwyn helpu i gadw’r hyn sy'n arbennig am yr ardal, dylid ymgorffori’r gwaith o hyrwyddo’r iaith Gymraeg ym mhob amcan a pholisi cynllun rheoli yn y cynllun gweithredu. Er enghraifft, byddai hyn yn berthnasol i gynigion ar gyfer arwyddion a deunydd dehongli newydd ac i gynigion ar gyfer datblygiadau newydd o fewn pedair tref Biwmares, Caernarfon, Conwy a Harlech. Bydd hefyd ymrwymiad i weithio gyda’r tair Menter Iaith yn y tair ardal awdurdod lleol er mwyn datblygu prosiectau neu drefniadau cydweithredol penodol.

*Rhoddwyd wyneb newydd ar y promenâd yng Nghaernarfon ac fe'i gwnaed yn fwy atyniadol drwy osod gwrthrychau hanesyddol o'r ardal leol fel rhan o gynllun adfywio a arweinir gan dreftadaeth.*



*Mae arwyddlun Safle Treftadaeth y Byd yn ymddangos yn Gymraeg, yn ogystal ag yn Ffrangeg ac yn Saesneg, er mwyn atgoffa ymwelwyr o bell ac agos bod y Gymraeg yn iaith sy'n ffynnu.*



## 4.5 Fframwaith Polisi

Wedi'i ategu gan yr egwyddorion cyffredinol a ddisgrifir yn adran 4.4, mae'r cynllun rheoli hwn yn amlinellu cyfres o amcanion a ategir gan gyfres o bolisïau penodol a ddatblygwyd mewn ymateb i ddadansoddi materion a chyfleoedd a nodwyd wrth baratoi'r cynllun. Bydd cynnal a chadw adeiledd Safle Treftadaeth y Byd i'r safon uchaf yn cael blaenoriaeth bob tro, ond mae sawl thema arall sy'n codi dro ar ôl tro y cynlluniwyd y fframwaith polisi hwn i fynd i'r afael â nhw.

Mae Safle Treftadaeth y Byd yn safle unigol â phedwar lleoliad gwahanol, ac mae ganddo gydberthynas nodedig â'i leoliad ym mhob un o'r pedair tref. Rhaid cydbwyso hyrwyddo'r safle fel un endid yn gryfach â chydnabod nodweddion nodedig pob rhan yn unigol. Ar yr un pryd, mae'n hanfodol gwarchod y lleoliad, nid yn unig i ddiogelu Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd, ond hefyd i achub ar y cyfleoedd a gynigir gan y safle. Felly, mae'r cynllun hwn yn rhoi pwyslais penodol ar ddiogelu a rheoli newid yn y lleoliad, a hefyd ar gynnal a gwella ymdeimlad o le.

Mae rôl treftadaeth fel sbardun economaidd bellach yn hysbys iawn. Mae cyfleoedd amlwg i gydnabod potensial economaidd Safle Treftadaeth y Byd yn llawnach, wrth ymdrin ag angen parhaus i adfywio'r cymysgedd economaidd lleol a rhanbarthol a sicrhau ei fod yn gadarn. Felly, mae'r cynllun yn cynnwys amcanion a pholisïau penodol sy'n canolbwyntio ar yr economi leol ac adfywio. Mae hefyd yn cydnabod bod cyfleoedd i wella profiad ymwelwyr, ac atgyfnerthu'r ffordd y caiff y safle a'i leoliad eu marchnata a'u hyrwyddo.

Mae mater pwysig arall yn ymwneud â'r angen i gydnabod buddiannau cymdeithasol Safle Treftadaeth y Byd a meithrin cydberthynas gref â'i gymunedau lleol er mwyn goresgyn rhwystrau mynediad. Dyma ffocws polisïau addysg a dysgu gydol oes, ond mae hefyd yn elfen bwysig o'r broses reoli ei hun, sy'n ymrwymedig i weithredu mewn dull cynhwysol a chydweithredol.

Rhydd materion rhyngwladol ac amgylcheddol ehangach fel Brexit a newid yn yr hinsawdd rai risgiau pwysig i bob Safle Treftadaeth y Byd, ond maent yn tynnu sylw at yr angen i reoli risg yn rhagweithiol a gweithredu trefniadau llywodraethu da.

Mae angen model cydweithredol cryf er mwyn sicrhau perfformiad effeithiol yn yr holl feysydd thematig hyn, sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth, partneriaeth a chyfathrebu clir.

## 4.6 Amcanion

Yn dilyn proses ymgynghori a dadansoddi helaeth wrth ddatblygu'r cynllun rheoli, nodwyd 12 o themâu er mwyn darparu'r fframwaith cyflawni yn ystod cyfnod 2018–28.

| | |
|---|---|
| 1 | Diogelu Safle Treftadaeth y Byd: gwarchod yr adeiledd hanesyddol |
| 2 | Diogelu Safle Treftadaeth y Byd: treftadaeth archaeolegol |
| 3 | Diogelu lleoliad Safle Treftadaeth y Byd |
| 4 | Ymdeimlad o le |
| 5 | Yr economi leol ac adfywio |
| 6 | Profiad ymwelwyr |
| 7 | Marchnata a hyrwyddo |
| 8 | Teithio cynaliadwy |
| 9 | Addysg a dysgu gydol oes |
| 10 | Ymchwil a dealltwriaeth |
| 11 | Rheoli risg |
| 12 | Proses reoli |

*Mae cynnal a chadw adeiledd hanesyddol Safle Treftadaeth y Byd i'r safonau cadwraeth cenedlaethol a rhyngwladol uchaf yn hanfodol.*




### 4.6.1 Diogelu Safle Treftadaeth y Byd: Gwarchod yr Adeiledd Hanesyddol

Mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd o'r safon uchaf ar y cestyll a muriau trefi gan ddefnyddio deunyddiau a thechnegau priodol. Er gwaethaf y pwysau ariannol, mae'n hanfodol rhoi'r flaenoriaeth uchaf i'r gwaith o warchod a chynnal a chadw'r Safle. Caiff rhanddeiliaid eu hannog i ystyried bod y gwaith o warchod amgylchedd uniongyrchol y cestyll a muriau tref yn haeddu'r safon gofal uchaf yn unol ag arfer gorau presennol.

Nododd canfyddiadau arolygiad pum mlynedd Llywodraeth Cymru yn 2016 i adolygu cyflwr y safle fod sefyllfa bresennol y Safle yn dda, a chymharol brin oedd y gwaith categori 1 a 2 roedd ei angen. Gwaith categori 1 sydd â'r flaenoriaeth uchaf ac mae angen ei wneud ar unwaith; dylai gwaith categori 1 gael ei gyflawni ymhen y flwyddyn yn ddelfrydol. Mae hyn yn adlewyrchiad cadarnhaol ar y rhaglen dreigl cadwraeth a roddwyd ar waith. Bydd gwaith a nodwyd yn yr arolygiad yn ffurfio rhan o'r rhaglen cadwraeth yn y dyfodol ar gyfer y cestyll a muriau trefi. Gwneir gwaith cadwraeth gan Cadwraeth Cymru (tîm mewnol Cadw o grefftwyr) a chontractwyr arbenigol.

#### Castell Biwmares


Mae'r gwaith a nodwyd yng Nghastell Biwmares yn cynnwys mân atgyweiriadau i rai elfennau o waith maen, gan gynnwys pwytho corbeli a phwyntio craciau. Yr atgyweiriadau eraill a argymhellwyd yw gosod grisiau pren newydd mewn mannau, atal dŵr rhag mynd i mewn i Dŵr y Capel a thynnu llystyfiant er mwyn atal dŵr rhag mynd i mewn i'r adeiledd hanesyddol. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatrys to Tŵr y Capel a gwella cyflwyniad y capel.



#### Castell Conwy a Muriau'r Dref


Nodwyd mai'r gwaith â blaenoriaeth yng Nghastell Conwy oedd toriadau i gerrig a chraciau agored mewn sawl man ar draws yr heneb, tynnu tyfiant planhigion a dadflocio rhai cafnau dŵr glaw uchel iawn a fyddai, heb wneud hynny, yn achosi dirywiad i'r gwaith maen cyfagos.

Mae angen gwneud gwaith tebyg iawn i'r gwaith ar y castell ar furiau'r dref, er mai prin yw'r mannau lle ceir llystyfiant gormodol yn y lleoliadau mwy anhygyrch.



*Lluniau o Gastell Biwmares (llun uchaf) a Chastell Caernarfon (gwaelod) gan Kyffin Williams, KBE, RA.*


## Castell Caernarfon a Muriau'r Dref



Yng Nghastell Caernarfon, nodwyd mai'r gwaith â'r flaenoriaeth uchaf oedd atgyweiriadau i Dŵr y Graneri ac ystafell ganol y Tŵr Gogledd-ddwyreiniol lle mae dŵr sy'n dod i mewn yn gwneud i'r pren bydru ar lefelau is. Mae rhwyll adar sydd ar goll yn y Tŵr Gogledd-ddwyreiniol hefyd yn gadael colomennod i mewn ac yn arwain at groniad o giwana.

Nodwyd bod muriau'r dref yng Nghaernarfon mewn cyflwr da ar y cyfan ac eithrio Porth Mawr a Phorth yr Aur, rhan fechan o fur i'r gorllewin o Borth Mawr a rhan ôl y mur sy'n rhedeg rhwng Porth yr Aur a'r castell. Mae prosiectau cadwraeth yn mynd rhagddynt yn y ddau borth ar hyn o bryd, y naill o dan arweiniad Cadw a'r llall o dan arweiniad Clwb Hwylio Brenhinol Cymru.

## Castell Harlech



*Lluniau o Gastell Conwy (llun uchaf) a Chastell Harlech (gwaelod) gan Kyffin Williams, KBE, RA.*

Nodwyd bod adeiledd y castell mewn cyflwr da ar y cyfan; dim ond tynnu llystyfiant a gwaith ailbwyntio cysylltiedig oedd angen ei wneud. Hefyd mae angen gwella hygyrchedd o amgylch y castell, gan gynnwys gwaith i ganllawiau.

Yn ogystal â chadw'r adeiledd hanesyddol, mae'n bwysig cynnal amwynderau, cyfleusterau a gwaith dehongli o ansawdd uchel i ymwelwyr. Mae'r gwelliannau sylweddol diweddar yn y pedwar safle wedi dangos sut y gall gosodiadau sensitif wella mynediad a meithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad ymwelwyr o'r henebion. Mae gan Cadw rôl hanfodol i'w chwarae yn sicrhau bod mentrau cadwraeth a gwella profiadau ymwelwyr yn dilyn yr arfer gorau ac yn bodloni'r holl ofynion statudol a chanllaw. Mae hyn yn cynnwys cael cyngor gan bartneriaid a sefydliadau treftadaeth rhyngwladol fel sy'n briodol.

| **Amcan 1:** | **Sicrhau y caiff y cestyll a muriau trefi eu cynnal i'r safonau cadwraeth cenedlaethol a rhyngwladol uchaf.** ¬ |
|---|---|
| **Polisi 1A** | Caiff yr holl waith i'r cestyll a muriau trefi ei wneud yn unol â'r canllawiau arfer gorau, yn cynnwys cadw at yr *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* gan Cadw.[48] |
| **Polisi 1B** | Caiff gwaith atgyweirio a nodwyd yn yr arolygiad bob pum mlynedd ei flaenoriaethu, ei gyllido a'i weithredu o fewn yr amser angenrheidiol a nodwyd. |
| **Polisi 1C** | Caiff cyfleusterau ymwelwyr eu cynllunio i wella Safle Treftadaeth y Byd a'i leoliad fel na cheir effaith andwyol ar y Gwerth Cyffredinol Eithriadol nac ar leoliad unrhyw ased hanesyddol arall gerllaw. |

### 4.6.2 Diogelu Safle Treftadaeth y Byd: Treftadaeth Archaeolegol

Ers llunio'r cynllun rheoli diwethaf bu sawl darganfyddiad archaeolegol sydd wedi meithrin ein dealltwriaeth o Safle Treftadaeth y Byd. Mae darganfyddiadau archaeolegol yn ystod a chyn prosiectau adeiladu wedi cyflwyno gwybodaeth newydd am y cestyll a'r cyfnodau hanesyddol yn y pedair tref. Ymysg yr enghreifftiau o ganfyddiadau ar y Safle mae cynnwys tomen, pistol plwm a pheli mwsged o'r ail ganrif ar bymtheg, a darn o grochenwaith Rhufeinig yng Nghastell Caernarfon a ganfuwyd yn ystod y gwaith diweddar o adeiladu'r fynedfa tocynnau newydd. Mae asesiadau archaeolegol mewn perthynas â strwythur lliniaru llifogydd posibl ym Miwmares wedi amlygu ardal a allai fod yn sensitif yn archaeolegol yn union i'r gogledd o'r castell, yn cynnwys tystiolaeth o ffos y castell.

Mae darganfyddiadau archaeolegol yn y trefi hefyd wedi cyfrannu at ddealltwriaeth ehangach o gyd-destun a lleoliad y Safle. Canfu gwaith cloddio archaeolegol diweddar yn Harlech, cyn y gwaith adeiladu a wnaed yn y ganolfan ymwelwyr, olion adeilad y credir ei fod yn eglwys, yn ogystal ag olion dynol wedi'u claddu yn wynebu o'r dwyrain i'r gorllewin mewn dull Cristnogol.

Er ei bod yn bwysig rheoli a chyfyngu ar unrhyw amharu archaeolegol lle bynnag y bo modd, gall cynigion ailddatblygu yn y trefi gynnig cyfle i feithrin gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o amodau byw a phrosesau adeiladu yn ystod y cyfnod canoloesol er enghraifft. Gall y cyfleoedd hyn hefyd



*Mae'r amgylchedd hanesyddol morol yn bwysig er mwyn helpu i ddeall y berthynas rhwng Safle Treftadaeth y Byd a'r môr. Daw'r canon hwn o longddrylliad y* **Bronze Bell** *sy'n gorwedd oddi ar y traeth yn Harlech (Hawlfraint y Goron: CBHC).*




*Datgelodd gwaith cloddio yng Nghastell Harlech cyn codi pont fynediad newydd dystiolaeth newydd ynglŷn â'r ardal yn union y tu allan i furiau'r castell (Archaeoleg Cymru).*

feithrin gwell dealltwriaeth o ddyfnder hanesyddol yr ardal cyn neu ar ôl adeiladu'r cestyll a threfi. Bydd y gwaith nodweddu amlinellol a wnaed fel rhan o'r broses o baratoi'r cynllun rheoli, ynghyd â gwaith nodweddu manylach y bwriedir ei wneud yn ystod oes y cynllun, yn helpu i gyfrannu ymhellach at ein dealltwriaeth a'n gwerthfawrogiad o'r Safle a'i leoliad.

Caiff y gydberthynas rhwng y pedwar castell a'r môr ei diffinio ym Mhennod 3. Gall olion archaeolegol morol gynnwys tystiolaeth o lwybrau masnachu a chyflenwi; er enghraifft, mae llong fasnach arfog bwysig o ddechrau'r ddeunawfed ganrif, y *Bronze Bell*, yn gorwedd oddi ar y traeth yn Harlech. Gellir adfer tystiolaeth o adeiladu a darparu ar gyfer y cestyll; er enghraifft, nid yw'r fynedfa i ddoc y castell ym Miwmares yn glir. Mae gwaith ymchwil wedi nodi presenoldeb posibl sianel (naill ai un naturiol neu un artiffisial) yn cysylltu'r môr â'r ffos.

| **Amcan 2:** | **Bydd pob prosiect a allai effeithio ar dreftadaeth archaeolegol gladdedig o fewn Safle Treftadaeth y Byd, neu ei leoliad hanfodol, yn destun gwerthusiad archaeolegol er mwyn llywio unrhybenderfyniadau.** |
|---|---|
| **Polisi 2A** | Bydd pob prosiect a allai effeithio ar dreftadaeth archaeolegol gladdedig o fewn Safle Treftadaeth y Byd, neu ei leoliad hanfodol, yn destun gwerthusiad archaeolegol er mwyn llywio unrhyw benderfyniadau. |
| **Polisi 2B** | Rhagdybir yn erbyn datblygiadau a fyddai'n arwain at golli olion archaeolegol sylweddol. Bydd opsiynau lliniaru yn gymesur ag arwyddocad a lle bo'n briodol yn cynnwys cadw gweddillion ac olion sylweddol yn y fan a'r lle. |
| **Polisi 2C** | Caiff asedau hanesyddol morol eu hasesu, eu cofnodi a'u diogelu yn ôl eu harwyddocad; rhagdybir yn erbyn cynigion a fyddai'n amharu ar asedau hanesyddol sylweddol. |
| **Polisi 2D** | Rhennir canlyniadau yr holl waith archaeolegol a wneir yn Safle Treftadaeth y Byd a'i leoliad. |

*Bydd yr astudiaethau cymeriad rhagarweiniol o bob un o'r pedair tref yn helpu pobl i ddeall Safle Treftadaeth y Byd a'i leoliad yn well a'i werthfawrogi. Mae'r olygfa hon o Fiwmares yn cynnwys yr eglwys ganoloesol yn ogystal â thai trefol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.*



### 4.6.3 Diogelu Lleoliad Safle Treftadaeth y Byd

Mae lleoliad yn disgrifio'r gydberthynas rhwng ased hanesyddol a'r dirwedd neu'r treflun. Mae'n bwysig oherwydd yr hyn y mae'n ei gyfrannu at arwyddocâd ased hanesyddol.

Mae Penodau 2 a 3 wedi disgrifio pwysigrwydd lleoliad y Safle a nodweddion allweddol y lleoliad. Mae lleoliad y Safle yn cynnwys y cydberthnasau rhwng y cestyll, trefi a'r arfordir, a chaiff ei lywio gan ddealltwriaeth o'u nodweddion hanesyddol. Mae hefyd yn cynnwys tair elfen benodol:

- y **lleoliad hanfodol** a fapiwyd yn y pedair tref yn y Safle, gan gyfeirio at ardaloedd y tu allan i ffin y Safle arysgrifedig lle byddai datblygiad amhriodol yn difrodi lleoliad gweledol, synhwyraidd neu hanesyddol y safle. Mae ffiniau'r lleoliadau hanfodol wedi'u hadolygu o ystyried datblygiadau a newidiadau i'r defnydd o dir sydd wedi digwydd ers i'r cynllun rheoli diwethaf gael ei baratoi (gweler Tabl 2.1 a Mapiau 2.1–2.4)
- nodi a diogelu **golygfeydd pwysig** ym mhob lleoliad
- **ymdeimlad o le** ym mhob lleoliad.

*Biwmares o Baron Hill yn dangos lleoliad y castell a'r dref ar dir gwastad wrth ymyl Afon Menai (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



Mae lleoliad Safle Treftadaeth y Byd yn hynod agored i newid ac mae ei warchod yn dibynnu ar ddefnyddio'r holl adnoddau cynllunio a gwarchod treftadaeth sydd ar gael. Rhaid sicrhau bod rheolaethau cynllunio manwl gywir ar waith i'w warchod, a dylai fod proses asesu fanwl o unrhyw gynigion datblygu hefyd, ni wnaeth pa mor fach ydynt, er mwyn sicrhau y deellir eu heffaith bosibl cyn cymeradwyo unrhyw waith.

Mae ystyried lleoliad fel rhan o'r broses o reoli datblygiad yn debygol o gynnwys ffactorau fel:

- cydberthnasau swyddogaethol a ffisegol â strwythurau/asedau hanesyddol eraill a'r ffordd y mae'r rhain wedi newid dros amser; er enghraifft, y glannau dŵr hanesyddol
- nodweddion topograffig sydd wedi dylanwadu ar leoliad y cestyll
- cymeriad ffisegol y dirwedd neu'r treflun o'i amgylch, gan gynnwys unrhyw waith cynllunio ffurfiol neu ddefnydd tir; er enghraifft, gwaith cynllunio ffurfiol y trefi canoloesol
- cynllun gwreiddiol y castell/muriau trefi a sut mae wedi newid
- nodweddion pensaernïol a'r posibilrwydd bod nodweddion cloddedig o amgylch y cestyll a muriau trefi
- cysylltiadau hanesyddol, artistig, llenyddol neu olygfaol neu gysylltiadau ag enwau llefydd
- golygfeydd i'r cestyll a muriau trefi ac oddi wrthynt, yn cynnwys unrhyw olygfeydd wedi'u cynllunio
- amlygrwydd y cestyll a muriau trefi mewn golygfeydd ledled yr ardal o'u hamgylch
- golygfeydd sy'n gysylltiedig â dibenion esthetig, swyddogaethol neu ddefodol
- elfennau synhwyraidd eraill, fel synau neu arogleuon.

*Caernarfon o'r awyr yn dangos lleoliad blaenllaw'r castell a muriau'r dref rhwng Afon Menai ac Afon Seiont.*



Mae newid dros amser wedi bod yn nodwedd o'r pedair tref yn lleoliad y Safle. Mae poblogaethau cynyddol, technolegau newidiol a mwy o amser hamdden i gyd wedi bod yn ffactorau pwysig yn natblygiad y trefi. Ymysg y pwysau datblygu presennol a all fod wedi cael effaith ar leoliad y Safle mae:

- pwysau o ran twf tai i'r gorllewin o Gonwy
- safleoedd yn lleoliad hanfodol neu ehangach Safle Treftadaeth y Byd a all gael eu cyflwyno i'w hailddatblygu; ymysg yr enghreifftiau posibl mae safle'r baddondai Fictoraidd ym Miwmares, safleoedd Coleg Harlech a Gwesty Dewi Sant yn Harlech, cynigion ar gyfer ailddatblygu ar hyd Ffordd Santes Helen yng Nghaernarfon — yn benodol rhwng sied bwiau Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon ac i'r de ar hyd Ffordd Santes Helen — a datblygiad y cei yng Nghonwy)
- y twf mewn technolegau adnewyddadwy, a allai gael effaith gronnol ar leoliad yn benodol. Er enghraifft, mae newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2012 wedi sicrhau ei bod yn haws gosod cyfarpar microgynhygrchu domestig, yn cynnwys paneli solar ar doeon neu furiau a thyrbinau gwynt annibynnol unigol; mae datblygiad a ganiateir yn dibynnu ar amwynder yr ardal ac effaith weledol y cynnig.

*Yn yr olygfa hon o Gonwy o'r awyr, gellir gweld yn glir leoliad y castell ar graig yn edrych dros yr aber ac wedi'i integreiddio â muriau'r dref.*



Caiff asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth eu hyrwyddo gan ICOMOS[49] fel modd o asesu effaith bosibl datblygiad newydd ar Safleoedd Treftadaeth y Byd a'u lleoliadau. Ar gyfer safleoedd hynod sensitif, dylai paratoi briffiau datblygu hefyd gael ei ystyried. Diben briff datblygu yw rhoi gwybodaeth am y cyfyngiadau a'r cyfleoedd a all ddod yn sgil safle penodol, a nodi'n glir y math o ddatblygiad y gellid ei ddisgwyl neu ei annog, a'i gynllun. Gall briffiau datblygu fod yn ystyriaethau perthnasol wrth bennu ceisiadau cynllunio.

Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd eraill yn y DU wedi mabwysiadu canllawiau cynllunio ategol fel modd o ddarparu fframwaith cynllunio manwl ar gyfer datblygu, adfywio a gwarchod Safleoedd Treftadaeth y Byd a'u lleoliadau. Mae *Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru* o blaid awdurdodau cynllunio lleol yn mabwysiadu'r cynllun rheoli fel cymorth ar gyfer canllawiau cynllunio atodol er mwyn sicrhau bod polisïau'r Safle yn rhan annatod o'r sail dystiolaeth a ddefnyddir i asesu ceisiadau a chynigion.[50]

*Mae'r olygfa hon o Harlech o bell yn dangos lleoliad y castell dipyn uwchlaw'r Morfa a bellach wedi'i wahanu oddi wrth y môr (Hawlfraint y Goron: CBHC).*



Caiff Cyfarwyddiadau o dan Erthygl 4 eu llunio gan awdurdodau cynllunio lleol i gyfyngu ar gwmpas yr hawliau datblygu a ganiateir mewn ardal benodol, er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gael ceisiadau cynllunio llawn. Gellir eu defnyddio i reoli gwaith a allai fygwth nodweddion ardal (er enghraifft, ardal gadwraeth) a chynorthwyo â'r gwaith o ddiogelu asedau hanesyddol a'u lleoliadau.[51] Nid yw'r broses o ddynodi ardal gadwraeth ynddi'i hun yn arwain yn awtomatig at greu Cyfarwyddyd o dan Erthygl 4. Ar hyn o bryd, dim ond yr ardaloedd cadwraeth hynny ym Miwmares a Chonwy o fewn y Safle sydd â Chyfarwyddiadau o dan Erthygl 4 ar waith ar eu cyfer. Mae ymgynghoriad â rhanddeiliaid, fel rhan o'r gwaith o baratoi'r cynllun rheoli newydd, wedi nodi y byddai buddiannau o sicrhau dull cyson o ddiogelu'r amgylchedd adeiledig yn y pedwar lleoliad, yn cynnwys defnyddio Cyfarwyddiadau o dan Erthygl 4 yn yr ardaloedd cadwraeth yng Nghaernarfon a Harlech.

Mae gwerth penodol i agweddau ar y lleoliad pan fyddant yn helpu i greu ymdeimlad o gyrraedd y Safle. Gall ansawdd adeiladau, safleoedd neu nodweddion tirwedd sy'n gysylltiedig â phrif lwybrau mynediad ffordd, rheilffordd neu ddŵr i'r Safle gyfrannu at ymdeimlad o gyrraedd i ymwelwyr, gan helpu i baratoi ymateb yr ymwelydd a helpu i ddehongli'r Safle a'i Werth Cyffredinol Eithriadol. Er enghraifft, wrth yrru tuag at Gonwy, ceir golygfeydd o'r amgylchedd ffisegol yr adeiladwyd y Safle ynddo, datgelir pensaernïaeth drawiadol y dref furiog a'r castell, ac mae'r ffordd yn mynd heibio i asedau hanesyddol gyda chysylltiadau â'r Safle. Gall gwerthusiadau o'r llwybr ddatgelu cyfleoedd i agor golygfeydd o'r Safle, adeiladau neu nodweddion, cynorthwyo i bennu cynlluniau datblygu da neu roi ysbrydoliaeth ar gyfer deunyddiau priodol.

*Mae sawl ffordd o gyrraedd Caernarfon, y mae pob un yn dylanwadu ar ymdeimlad ymwelwyr o gyrraedd. Mae'r ffyrdd o'r gorllewin (ochr chwith) a'r de-ddwyrain (ochr dde) yn pwysleisio maint a lleoliad y castell, yn ogystal â'r her o wella'r ymdeimlad o gyrraedd.*





*Mae'r ymdeimlad o gyrraedd ym Miwmares yn dechrau gyda'r ffordd sy'n ymlwybro ar hyd y bae heibio i Gallows Point (llun uchaf) cyn cyrraedd Stryd y Castell (gwaelod), sef y brif ardal siopa.*





*Gellir cyrraedd Conwy o sawl ffordd leol (llun uchaf) ond yr olygfa gyntaf fwyaf trawiadol yw'r un o'r bont dros yr aber (gwaelod).*





*P'un a ydych yn cyrraedd Harlech o'r Morfa (llun uchaf) neu ar hyd y ffordd uchaf (gwaelod), mae'r castell ar ei graig frig yn creu cryn argraff.*





Bydd angen i gynigion datblygu ar hyd y prif lwybrau mynediad i dwristiaid ystyried ymdeimlad o le a sut y gallant gyfrannu ato'n gadarnhaol.

Gallai mân ddatblygiadau (deiliad, newid defnydd) ar hyd y prif lwybrau mynediad gael effaith fwy cyfyngedig. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd angen gwaith cynllunio a thirlunio o ansawdd uchel, a bydd angen sicrhau bod arwyddion yn gydnaws â'r ardal leol. Bydd defnyddio Cyfarwyddiadau o dan Erthygl 4 er mwyn helpu i warchod y Safle, a'i leoliad, o gymorth pellach.

Mae mater pellach yn ymwneud ag ansawdd y treflun; er enghraifft, lle mae adeiladau rhestredig mewn cyflwr gwael sy'n tynnu sylw oddi wrth ansawdd y treflun a lleoliad y Safle. Mae'n bosibl bod gan adeiladau yr ystyrir bod ganddynt ddiddordeb lleol arbennig (rhai nad ydynt yn angenrheidiol yn bodloni'r meini prawf ar gyfer rhestru ond sydd o bosibl, er gwaethaf hynny, yn cael eu gwerthfawrogi gan gymunedau lleol) hefyd rôl i'w chwarae fel rhan o leoliad y Safle. Dylid ceisio cyfleoedd cyllido er mwyn helpu i gyllido adeiladau rhestredig sy'n wynebu risg o fewn lleoliad hanfodol neu ehangach y Safle. Er enghraifft, ceir cyfle i ystyried ac archwilio cynllun strategol yn y pedair cymuned er mwyn sicrhau dull cyson o helpu i wella'r amgylchedd adeiledig a chynnig cyfleoedd i bobl leol ddysgu sgiliau adeiladu traddodiadol.

*Mae'r Stryd Fawr, Conwy yn un o'r ddwy brif ffordd drwy'r dref.*



*Trefluniau Biwmares y tu allan i'r castell (llun uchaf) ac ymhlith tai trefol Stryd Alma o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (gwaelod).*





*Stryd y Plas (llun uchaf) a Phen Deitsh (gwaelod) o fewn tref gaerog Caernarfon.*





Mae gwarchod lleoliad y Safle yn dibynnu ar wneud defnydd llawn o'r holl adnoddau cynllunio sydd ar gael a phrosesau rheoli datblygu cadarn, ond mae hefyd yn dibynnu ar gydweithio, er mwyn sicrhau cysondeb, cyfnewid arfer da a gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau. Mae gan gymdeithasau dinesig a grwpiau buddiant lleol eraill rôl bwysig i'w chwarae, nid yn unig drwy gymryd rhan yn y broses gynllunio, ond hefyd mewn gweithgarwch ehangach i warchod, cadw a chyflwyno'r Safle a'i leoliad.

| **Amcan 3:** | **Diogelu lleoliad y Safle Treftadaeth y Byd er budd cenedlaethau'r dyfodol.** |
|---|---|
| **Polisi 3A** | Bydd partneriaid Safle Treftadaeth y Byd yn cydweithio i wneud defnydd llawn o'r adnoddau cynllunio sydd ar gael er mwyn gwarchod a gwella lleoliad y Safle. |
| **Polisi 3B** | Caiff perfformiad y dull presennol o ddefnyddio lleoliad hanfodol a golygfeydd pwysig fel modd o ddiogelu'r Gwerth Cyffredinol Eithriadol, cyfanrwydd a dilysrwydd y Safle ei fonitro dros oes y cynllun rheoli. |
| **Polisi 3C** | Dylai unrhyw ddatblygiad newydd gael cynllun priodol a fod o'r maint a'r clwstwr priodol fel ei fod yn gwarchod ac yn gwella Safle Treftadaeth y Byd, yn parchu golygfeydd pwysig ac yn atgyfnerthu ymdeimlad o le. |
| **Polisi 3D** | Cymerir camau i wella cyflwr adeiladau rhestredig a henebion sy'n wynebu risg o fewn ffin y Safle a'i leoliad hanfodol. |
| **Polisi 3E** | Bydd Cadw, awdurdodau lleol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a rhanddeiliaid eraill yn cydweithio er mwyn diogelu lleoliad y Safle. |

*Trefluniau Harlech.*







Proof

## 4.6.4 Ymdeimlad o Le

Mae'r term 'ymdeimlad o le' yn cyfleu'r naws unigryw a geir mewn ardal, yr holl bethau sy'n cyfuno i wneud lle yn arbennig ac yn wahanol i lefydd eraill. Mae'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn cyfrannu at ymdeimlad o le, ynghyd â ffactorau amgylcheddol fel golwg lle. Po fwyaf y mae pobl yn cydnabod bod ymdeimlad nodedig o le yn yr ardal maent yn byw ynddi, y mwyaf o falchder dinesig a gaiff ei greu.[52]

Caiff natur nodedig leol y pedair tref, sef Biwmares, Caernarfon, Conwy a Harlech ei hyrwyddo drwy nodweddion ffisegol, fel patrymau strydoedd unigryw ac ansawdd yr amgylchedd adeiledig, yn ogystal â thrwy fathau o fusnesau a gwasanaethau lleol, a chynnyrch a gynigir. Mae diogelu'r elfennau hyn yn ganolog i ddiogelu'r ymdeimlad o le sy'n deillio ohonynt. Mae angen i gymunedau lleol fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n gwneud y lle maent yn byw ynddo yn arbennig, a gwneud y gorau o'i natur unigryw.

*Mae gan bob un o'r pedair tref ei hymdeimlad nodedig o le a grëir gan nifer o ffactorau, gan gynnwys hanes, cynllun a phensaernïaeth - Biwmares (llun uchaf), Caernarfon (gwaelod).*






Ymysg y problemau treflun a all amharu'n andwyol ar ymdeimlad o le mae nifer fawr o unedau siopau gwag a ffryntiadau siop truenus. Mae tua 16 y cant o'r arwynebedd llawr manwerthu yng Nghaernarfon yn wag (dwywaith cyfartaledd Prydain Fawr), gyda llawer o eiddo gwag ar hyd y Stryd Fawr yn hen ran y dref, sy'n tynnu sylw oddi wrth ardal o werth pensaernïol ac amgylcheddol sylweddol fel arall. Nododd Astudiaeth Manwerthu Gwynedd a Môn (2013)[53] y gallai Caernarfon ennill ei le yn yr hierarchaeth manwerthu drwy ddenu manwerthwyr annibynnol o ansawdd gwell, gan fanteisio ar wariant sydd ar gael drwy dwristiaeth. Mae Harlech hefyd wedi gweld nifer gymharol uchel o unedau siopau gwag yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er mai'r gobaith yw y bydd y bont newydd, y ganolfan i ymwelwyr a'r caffi gyferbyn â'r castell yn cyfrannu rywfaint at adfywio'r dref.

*Mae gan bob un o'r pedair tref ei hymdeimlad nodedig o le a grëir gan nifer o ffactorau, gan gynnwys hanes, cynllun a phensaernïaeth - Conwy (llun uchaf), Harlech (gwaelod).*





Ymysg gwaith ymchwil diweddar arall a wnaed mae'r astudiaeth o nodweddion hanesyddol Glannau Caernarfon.[54] Mae'r ymchwil wedi helpu i lunio cynigion ar gyfer adfywio'r ardal, gan ganolbwyntio ar lannau afon Menai ac afon Seiont, ac ardaloedd trefol cyfagos. Yn ogystal ag ardaloedd â nodweddion nodedig (y Promenâd, Cei Banc/Doc Fictoria, y Cei Llechi, y Maes, Teras Segontium a Thre'r Gof, a Choed Helen), disgrifiodd yr astudiaeth hefyd baramedrau dylunio ar gyfer ailddatblygu.

Yn dilyn yr astudiaeth o nodweddion hanesyddol Glannau Caernarfon, byddai rhagor o waith ar nodweddion yn y tair tref castell arall sy'n rhan o' Safle yn rhoi tystiolaeth sylfaenol i lywio mentrau yn y dyfodol. Gallai astudiaethau nodweddion hefyd gynnwys ac ymgysylltu â chymunedau lleol, gan ddefnyddio er enghraifft becyn cymorth Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru, *Archwilio eich Tref*.[55] Mynegwyd rhywfaint o ddiddordeb yn hyn yn Harlech eisoes.

Mae'r Safle yn cwmpasu pedair ardal awdurdod cynllunio lleol, y mae gan bob un flaenoriaethau a chynlluniau cyllido gwahanol. Mae hyn yn golygu y byddai cynllun cyllido strategol o fudd i'r Safle, ei leoliad a'r trigolion er mwyn osgoi gwelliannau tameidiog i'r treflun. Un enghraifft fyddai mabwysiadu dull strategol o gynnal trafodaethau â Chronfa Dreftadaeth y Loteri am gyfleoedd penodol i helpu i wella treflun neu drwy gyfleoedd a all godi gyda chymorth cynyddol Ardaloedd Gwella Busnes.

| **Amcan 4:** | **Cefnogi a hyrwyddo natur nodedig lleol o fewn y Safle, gan gydnabod nodweddion ac amrywiaeth y pedair tref.** |
|---|---|
| **Polisi 4A** | Caiff eglurdeb y patrwm lleiniau yn y pedair tref ei ddiogelu. |
| **Polisi 4B** | Caiff nodweddion hanesyddol eu defnyddio i ddeall yn well y pedair tref a llywio gwaith datblygu yn y dyfodol gan helpu i wella eu natur nodedig a diogelu Safle Treftadaeth y Byd. |
| **Polisi 4C** | Caiff nodweddion a golwg y pedwar canol tref eu diogelu a'u gwella. Caiff cynigion i wneud newidiadau i olwg adeiladau yn y canol trefi, er enghraifft, i flaenau siopau, eu hasesu yn erbyn canllawiau sydd ar gael, fel safonau ardaloedd cadwraeth neu ganllawiau dylunio lleol. |
| **Polisi 4D** | Caiff mentrau sy'n cael budd cymdeithasol neu economaidd o'r Safle ac sy'n gwella natur nodedig leol eu meithrin. |

### 4.6.5 Yr Economi Leol ac Adfywio

Nod y polisïau a geir yn y cynllun rheoli hwn yw meithrin partneriaethau rhwng gwahanol randdeiliaid a wnaiff groesawu treftadaeth a gwella'r Safle yn y dyfodol, ar y sail y bydd hyn hefyd o fudd i fywyd economaidd gogledd Cymru.

Ceir tystiolaeth dda i ddangos bod treftadaeth yn ysgogwr economaidd ac y gall prosesau adfywio a arweinir gan dreftadaeth fod yn hynod fanteisiol. Nododd adroddiad a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Cenedlaethol y DU ar gyfer UNESCO ym mis Chwefror fod manteision ariannol Safleoedd Treftadaeth y Byd i'r DU yn werth £85 miliwn yn 2014–15 yn unig. Cydnabu hefyd effaith buddsoddiad yn Safleoedd Treftadaeth y Byd ledled y DU o ran cefnogi swyddi a chymunedau. Yn ogystal â'r effaith ar yr economi dwristiaeth, ystyrir hefyd fod effeithiau buddiol ar fusnesau a thrigolion lleol o ran:

- ysgogi cynhyrchion a marchnadoedd newydd; er enghraifft drwy ddatblygu brand/hunaniaeth Safle Treftadaeth y Byd a all ddod ag ymwelwyr i fusnesau a leolir o fewn cyrchfannau Safleoedd Treftadaeth y Byd
- cyfrannu at waith datblygu rhanbarthol a gwaith adfywio lleol; gallai enghreifftiau gynnwys sut y gall hunaniaeth Safle Treftadaeth y Byd gael ei defnyddio i 'werthu' buddiannau ardal. Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd eraill yn y DU wedi nodi sut mae'r dynodiad wedi denu busnesau newydd i ardal (yn enwedig ym meysydd y celfyddydau gweledol a dylunio) a sut y gall yr hunaniaeth godi dyheadau ynghylch ansawdd ardal
- denu mewnfuddsoddiad; er enghraifft drwy greu partneriaethau, neu drwy sicrhau bod busnesau a chymunedau yn ymgysylltu â nodau'r prosiect.

Nododd *Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru*[56] fod yr amgylchedd hanesyddol yn gwneud cyfraniad helaeth i economi Cymru, gan gefnogi mwy na 30,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru a chyfrannu tua £840 miliwn at werth ychwanegol gros tybiannol Cymru (cyfwerth i 1.9 y cant o gyfanswm gwerth ychwanegol gros Cymru). Mae amgylchedd hanesyddol Cymru yn cyfrannu at les economaidd pobl a chymunedau drwy gefnogi gweithgareddau adfywio ehangach, mae'n gweithredu fel catalydd ar gyfer buddsoddi ac mae'n gwella sgiliau ar gyfer swyddi.

*Mae'r gwaith adfywio a arweinir gan dreftadaeth ar Lannau Caernarfon, gan gynnwys y promenâd, yn ategu Safle Treftadaeth y Byd ac yn gwella ei ragolygon twristiaeth posibl ac economaidd.*



Dangosodd adroddiad E4G, *The Economic Impact of the Heritage Tourism Environment for Growth (E4G) Project (*2014),[57] sfod cestyll y Safle yn denu mwy na 500,000 o ymwelwyr bob blwyddyn. Mae gan Gastell Conwy yn unig werth ychwanegol gros y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r safle o ychydig mwy na £3 miliwn y flwyddyn ac mae'n cynnal bron i 180 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Mae'r ffigurau cyfatebol ar gyfer Castell Caernarfon yn £2.7 miliwn y flwyddyn (142 o swyddi cyfwerth ag amser llawn) ac ar gyfer Castell Harlech yn £1.1 miliwn (63 o swyddi cyfwerth ag amser llawn). Mae'r lefel hon o weithgarwch economaidd yn ysgogwr pwysig ar gyfer Cymru, gogledd Cymru a'r economi leol. Nod y polisïau yn y cynllun rheoli hwn yw sicrhau y gellir defnyddio hyn cystal ag y gellir ar yr un pryd â diogelu'r Gwerth Cyffredinol Eithriadol yn angerddol, sef *raison d'être* y Safle.

Gall adfywio a arweinir gan dreftadaeth fod yn gatalydd cadarnhaol er mwyn cyflawni newid economaidd mewn ardal, gan greu swydd, sefydlu gwelliannau ehangach a datblygu balchder a hunaniaeth gymunedol ymhellach. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer ardaloedd o fewn y Safle a all fod yn wynebu lefelau uchel o amddifadedd; er enghraifft, rhai wardiau a chymunedau penodol yng Nghaernarfon. Ymysg y cyfleodd adfywio a arweinir gan dreftadaeth, a all godi yn ystod oes y cynllun rheoli, mae ailddatblygu ardal y Cei Llechi a Phorth Mawr yng Nghaernarfon (gyda'r ail yn sicrhau mynediad i ran o furiau'r dref o bosibl), ardal glan y cei yng Nghonwy a safleoedd Gwesty Dewi Sant a Choleg Harlech yn Harlech. Gall y cynigion hyn helpu i greu cyfleoedd masnachol a sicrhau cyflogaeth yn ogystal â chreu ymdeimlad o le a defnyddio treftadaeth er mwyn adfywio cymunedau.

*Arddangos sgiliau saernïaeth traddodiadol yng Nghastell Biwmares. Gall hyfforddiant mewn sgiliau traddodiadol roi hwb i gyfleoedd cyflogaeth lleol.*



Drwy gydol y cyfnod ymgynghori roedd sylwadau cryf am yr angen i roi trefniadau partneriaeth effeithiol ar waith yn y pedair cymuned. Nododd tair o'r trefi yn benodol fod angen ystyried sefydlu fforymau a allai nodi a datblygu cyfleoedd o'r fath. Gallai defnyddio templed digwyddiad *Solving our own problems!* a ddatblygwyd yn effeithiol gan Rwydwaith Trefi Caerog Iwerddon,[58] fod yn un ffordd o gynyddu diddordeb a chamau cymunedol.

Mae gan deulu Treftadaeth y Byd gwmpas byd-eang ac mae'n anelu at hyrwyddo cysylltiadau diwylliannol ac addysgol. Felly, gall meithrin cydberthnasau â gwledydd a rhanbarthau eraill ar faterion adfywio treftadaeth helpu i gynnig rhagor o arfer gorau ar wella dulliau a strategaethau a roddir ar waith yn Safle Treftadaeth y Byd. Datblygwyd cysylltiadau yn barod â Rhwydwaith Trefi Caerog Iwerddon, gan helpu i ddarparu amrywiaeth o syniadau a phrofiadau er mwyn gwneud newid yn y rhwydwaith eang o drefi ledled Iwerddon. Gall ehangu a gwella cyfleoedd i gydweithredu â dynodiadau UNESCO pwysig eraill hefyd arwain at ganlyniadau tebyg. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar wella'r gydberthynas â Geomon, y dynodiad Geobarc ar gyfer Ynys Môn.

Pwysleisir pwysigrwydd treftadaeth i economi a chymunedau gogledd-orllewin Cymru ymhellach yn sgil enwebu'r dirwedd ddiwylliannol sy'n gysylltiedig â'r diwydiant llechi yng Ngwynedd yn Safle Treftadaeth y Byd newydd a chyfleoedd posibl hyn o ran cynigion adfywio cymunedol a marchnata ar y cyd. Mewn cyd-destun tebyg, dylid hefyd ystyried cyfleoedd o'r fath wrth ddatblygu'r cynllun rheoli newydd ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae gwaith i adnewyddu a chynnal a chadw adeiladau hanesyddol (y rhai a adeiladwyd cyn 1919) yn cynnwys elfen bwysig o economi'r amgylchedd hanesyddol. Yng Ngwynedd, mae gwaith adeiladu treftadaeth yn cefnogi 350 o swyddi, mae'n creu trosiant o £32 miliwn a gwerth ychwanegol gros o £16 miliwn.[59] Mae'r rhaglen o waith cadwraeth sy'n ofynnol ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd yn annog y broses o ddatblygu a chynnal sgiliau traddodiadol drwy gontractio â chwmnïau lleol a rhanbarthol arbenigol, ymgysylltu â'r sector addysg a'r sector hyfforddiant a llunio partneriaethau â mentrau cymdeithasol priodol fel CAIS.

| **Amcan 5:** | **Defnyddio statws Safle Treftadaeth y Byd i gefnogi amrywiaeth a thwf economaidd cynaliadwy yn yr economi leol a rhanbarthol.** |
|---|---|
| **Polisi 5A** | Caiff cyfleoedd adfywio sy'n ategu neu'n gwella'r Safle eu cefnogi. |
| **Polisi 5B** | Caiff y rhaglen o waith cadwraeth ei defnyddio fel catalydd er mwyn annog y broses o ddatblygu a chynnal sgiliau traddodiadol a gwaith cadwraeth arbenigol. |
| **Polisi 5C** | Bydd gwell dealltwriaeth o Safle Treftadaeth y Byd yn helpu gwaith partneriaeth a chyfleoedd buddsoddi. |
| **Polisi 5D** | Cydweithir â mentrau perthnasol eraill er mwyn datblygu a gwella amodau economaidd (enwebu'r Diwydiant Llechi yng Ngogledd Cymru ar gyfer statws Safle Treftadaeth y Byd, datblygu cynllun rheoli Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a geobarc Geomon). |

### 4.6.6 Profiad Ymwelwyr

Mae'r pedwar castell yn atyniadau pwysig i ymwelwyr. Mae nifer yr ymwelwyr â phob castell yn amrywio: Conwy a Chaernarfon sy'n cael y niferoedd uchaf o ymwelwyr bob flwyddyn (y naill â 203,122 a'r llall â 310,567 yn 2016–17). Mae hyn yn bennaf oherwydd eu lleoliadau hygyrch, cysylltiadau â theithiau bws a'u henw da yn rhyngwladol. Mae nifer yr ymwelwyr â Harlech a Biwmares yn is, sy'n adlewyrchu eu lleoliadau mwy anghysbell. Denodd Biwmares 82,103 o ymwelwyr yn 2016–17 a denodd Harlech 102,198, sy'n dal i olygu eu bod ymhlith yr atyniadau a ddenodd y nifer fwyaf o ymwelwyr yng ngogledd Cymru. Mae cestyll Caernarfon a Harlech wedi gweld twf sylweddol yn nifer yr ymwelwyr rhwng 2015/16 a 2016–17 yn sgil arddangosfa'r 'Weeping Window' yng Nghaernarfon ac agor y ganolfan newydd i ymwelwyr a'r bont yn Harlech.

Dengys arolygon ymwelwyr cynhwysfawr diweddaraf Cadw yn 2015 beth gwybodaeth a thueddiadau pwysig:[60]

- mae tri o bob pedwar ymwelydd (75 y cant) yn ystod y prif dymor yn dod o'r tu allan i Gymru, o gymharu â chyfran is (57 y cant) yn y tymor tawelach
- mae cyfran yr ymwelwyr tramor â safleoedd Cadw yn arbennig o uchel
- mae'r rhan fwyaf (69%) o ymwelwyr â safleoedd Cadw yn ymweld â'r safle am y tro cyntaf
- mae safleoedd Cadw'n denu llawer o deuluoedd gyda phlant — ymron i hanner pob grŵp o ymwelwyr (44%).

Hefyd, defnyddir sgorau Trip Advisor fel rhan o amrywiaeth o wahanol fesurau i asesu a gwerthuso profiad ar ystad gyfan Cadw. Mae'r canfyddiadau ar gyfer y pedair heneb yn rhoi cadarnhad cadarnhaol o'u harlwy ansawdd uchel; caiff dros 90 y cant o ymweliadau eu disgrifio'n 'dda iawn' neu'n 'ardderchog' yn gyson.

*Bu'r dreigiau teithiol yn atyniad poblogaidd i ymwelwyr yng Nghastell Harlech.*



Nododd gwaith ymchwil i dueddiadau twristiaeth yng Nghymru yn 2016 mai cestyll a safleoedd hanesyddol yw un o'r prif resymau dros ymweld â Chymru o hyd ymhlith ymwelwyr domestig (y DU) a'r rhai o dramor.

Ar gyfer ymwelwyr diwrnod o'r DU hwn oedd yr ymateb ail uchaf ar 22 y cant ar ôl gweld atyniadau cyffredinol, oedd ar 25 y cant, sef yr ymateb uchaf. Dyma oedd y gweithgaredd trydydd mwyaf poblogaidd ar gyfer ymwelwyr o'r DU oedd yn aros dros nos (38 y cant) a'r ymateb mwyaf poblogaidd ar gyfer ymwelwyr pwysig a chynyddol o dramor (43 y cant).[61]

Yn 2015, cafodd safleoedd Cadw gyfran uwch na'r cyfartaledd o ymwelwyr tramor (19 y cant),[62] a adlewyrchir yng nghyfansoddiad ymwelwyr â'r Safle. Mae'r gyfran uchel o ymwelwyr rhyngwladol yn deillio o ddatblygiad Caergybi a Lerpwl fel cyrchfannau ar gyfer llongau mordeithio (sy'n cludo ymwelwyr ar deithiau dydd ar fysiau), ond hefyd o'r ymwybyddiaeth helaeth o Dreftadaeth y Byd mewn gwledydd eraill (er enghraifft, Japan).

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer twristiaeth 2013–20[63] yn canolbwyntio ar bum maes allweddol:

- hyrwyddo'r brand
- datblygu cynnyrch
- datblygu pobl
- perfformiad proffidiol
- meithrin lle.

*Mae adnoddau dehongli newydd wedi gwella profiad ymwelwyr yn Harlech.*



*Mae'r gwaith ailaddurno, gan gynnwys ffenestri lliw modern, yn y capel ym Miwmares wedi helpu ymwelwyr i ddeall y castell yn well — un o nodau Cynllun Dehongli Treftadaeth Cymru Gyfan.*



Ceir pwyslais ar gynnyrch twristiaeth eiconig o ansawdd uchel, lle mae treftadaeth a phrofiadau diwylliannol nodedig yn chwarae rôl bwysig. Mae'r cynlluniau rheoli cyrchfannau a baratowyd gan y tri awdurdod lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn) yn ymwneud â phob agwedd ar brofiad ymwelwyr ac yn ailadrodd pwysigrwydd rheoli a datblygu'r rhan hon o ogledd Cymru fel cyrchfan integredig o'r radd flaenaf i ymwelwyr.

Mae'r Safle yn cynnig amgylchedd adeiledig trawiadol i ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd ei werthfawrogi a'i brofi. Fodd bynnag, nodweddir marchnad twristiaeth gogledd Cymru gan ffactorau fel natur dymhorol a diffyg llety a gwasanaethau o safon i ymwelwyr o gymharu â chyrchfannau eraill i ymwelwyr. Ymysg y materion allweddol a nodir yn y cynlluniau rheoli cyrchfannau y dylid mynd i'r afael â nhw er mwyn gwella profiad ymwelwyr yng ngogledd Cymru mae'r angen am gyfleusterau gwell i ymwelwyr, darpariaeth parcio, mwy o ymgysylltu cyfeillgar â thwristiaid, a siopau a chyfleoedd siopa gwell.

Mae profiad ymwelwyr yn ymwneud â llawer o bethau, yn cynnwys pa mor hawdd ydyw i ddod o hyd i le, argaeledd gwybodaeth, ymdeimlad o gyrraedd ac ansawdd llety; a gall hyd yn oed ansawdd y toiledau cyhoeddus effeithio ar ba mor fodlon y mae ymwelwyr â chyrchfan a ph'un a ydynt yn debygol o ddychwelyd yn y dyfodol ai peidio. Felly, nid yw gwella profiad ymwelwyr yn rhan o gylch gwaith unrhyw awdurdod neu sefydliad unigol, ond yn hytrach mae'n galw am ddull cydweithredol rhwng y rhai sy'n gyfrifol am atyniadau i ymwelwyr, seilwaith, llety i ymwelwyr, busnesau lleol a chynrychiolwyr cymunedol. Er enghraifft, gallai fod cyfle i osod tywyswyr gwirfoddol ym meysydd parcio'r cestyll, i ymgysylltu â'r gymuned yn ogystal â gwella profiad ymwelwyr.

Mae UNESCO wedi datblygu Pecyn Adnoddau Twristiaeth Gynaliadwy Treftadaeth y Byd, canllaw "sut i..." sy'n rhoi gwybodaeth arfer gorau i'r gymuned gyfan sy'n ymwneud â Safleoedd Treftadaeth y Byd, fel bod rheolwyr safle, gweithwyr proffesiynol ym maes twristiaeth a chadwraeth a chymunedau ledled y byd yn deall y posibiliadau sy'n ymwneud â thwristiaeth gynaliadwy a'r materion allweddol yr aed i'r afael â hwy eisoes.[64] Gall adnoddau o'r fath fod yn ased gwerthfawr i reolwyr safle yn benodol, drwy helpu i reoli a sicrhau'r buddiannau twristiaeth gorau posibl tra'n lleihau effeithiau negyddol posibl cymaint â phosibl. Mae'r gyfres o ganllawiau yn amrywio o ddeall twristiaeth ac ychwanegu gwerth drwy gynnyrch, profiadau a gwasanaethau, i reoli ymddygiad ymwelwyr ac ymgysylltu â chymunedau a busnesau lleol.

*Mae adnoddau dehongli arloesol yng Nghastell Caernarfon yn esbonio rolau ffigyrau hanesyddol a'u brwydrau i gipio grym drwy gyfrwng gêm o wyddbwyll.*



## Dehongli

Mae Cynllun Dehongli Treftadaeth Cymru Gyfan yn gynllun cyffredinol sydd â'r nod o ysbrydoli ymwelwyr a phobl Cymru drwy ddehongli straeon unigryw'r wlad a dod â nhw'n fyw.[65] Mae'r dull Cymru gyfan yn unigryw i Gymru ac mae ganddo'r nod o ddarparu fframwaith ar gyfer dehongli drwy naratif cyffredinol cenedlaethol. Ymysg y llinynnau stori mae cestyll a thywysogion Cymru'r oesoedd canol. Paratowyd cynllun dehongli ar gyfer cestyll a muriau trefi Brenin Edward I ar gyfer Cadw yn 2010, sy'n nodi'r cysylltiadau rhwng y safleoedd hyn a llinynau stori eraill, cynulleidfaoedd targed a nodwyd ac yn amlinellu'r cyd-destun ar gyfer dehongli.[66] Nododd y cynllun dehongli y cryfderau a'r gwendidau sy'n gysylltiedig â'r pedwar safle a deunydd dehongli presennol, a'r sail ar gyfer deunydd dehongli newydd a gyflwynwyd. Er bod nifer o'r camau gweithredu byrdymor wedi'u cwblhau yn y cestyll unigol, mae'r cynllun dehongli hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu ar gyfer prosiectau tymor canolig a hirdymor y gellid eu rhoi ar waith.

*Mae un o brif elfennau Cynllun Dehongli Treftadaeth Cymru Gyfan yn hyrwyddo cysylltiadau rhwng safleoedd sy'n gysylltiedig â'r Brenin Edward I a thywysogion Cymru. Yma, mae ymwelwyr yn cael eu tywys o amgylch Castell Deganwy (llun uchaf) a adeiladwyd gan deyrnoedd o Gymru a Lloegr. Gellir gweld Castell Conwy yn y pellter. Mae'r twf diweddar mewn twristiaeth gweithgarwch awyr agored yn y gogledd — megis Zip Velocity Wales — hefyd yn cynnig y potensial i ddenu cynulleidfaoedd newydd i Safle Treftadaeth y Byd (© Hawlfraint y Goron (2017) Croeso Cymru).*





**Cyfleoedd i Ymwelwyr**

Ceir sawl cyfle i ddatblygu profiadau newydd i ymwelwyr ac annog cynulleidfaoedd newydd. Er enghraifft, cafwyd twf mewn twristiaeth gweithgareddau yn y blynyddoedd diwethaf a arweiniodd at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr ag Eryri a rhannau eraill o ogledd Cymru i gymryd rhan yn y llu o weithgareddau awyr agored sydd ar gael. Mae Surf Snowdonia a agorodd yn ddiweddar wedi bod yn bwynt gwerthu unigryw ar gyfer yr ardal fel cyrchfan. Mae'n bosibl gorgyffwrdd rhwng twristiaeth gweithgareddau a thwristiaeth ddiwylliannol: gallai cydweithredu rhwng timau twristiaeth awdurdodau lleol, Cadw a darparwyr eraill gynnig arlwy twristiaeth cydgysylltiedig. Gallai enghreifftiau o hyn gynnwys nodi gweithgareddau a allai fod wedi'u lleoli yn y cestyll ac o'u h amgylch, a sut y gellir datblygu 'profiad' y castell a'i werthu fel rhan o broses y cynllun rheoli cyrchfannau ar gyfer pob awdurdod lleol. Bydd cydweithredu â busnesau a rhanddeiliaid hefyd yn helpu i gysylltu arlwy twristiaeth y trefi, cestyll a'r atyniadau eraill yn yr ardal. Byddai creu a chynnal cysylltiadau â safleoedd eraill sy'n berthnasol i werthoedd y Safle o ddiddordeb penodol (er enghraifft, cestyll a adeiladwyd yn ystod ymgyrch gyntaf Edward I yng Nghymru, yn benodol, Fflint a Rhuddlan; Castell Deganwy a chestyll eraill sy'n gysylltiedig â thywysogion Cymru yng Ngwynedd (Dolbadarn a Dolwyddelan) a chaer Rufeinig Segontium).

Ymysg y cyfleoedd eraill posibl i ymwelwyr mae agor mynediad ehangach i furiau'r dref yng Nghaernarfon. Er bod brwdfrydedd ar gyfer cynnig mynediad ehangach, a allai gynnwys technolegau rhithwir, mae cyfyngiadau sylweddol yn ymwneud â materion perchenogaeth yn bennaf. Er mai ym mherchenogaeth Cadw y mae'r mwyafrif o furiau'r dref, mae rhai rhannau sy'n perthyn i berchenogion preifat, gan gynnwys Yr Eglwys yng Nghymru, Landmark Trust, a Chlwb Hwylio Brenhinol Cymru a rhannau sy'n ffinio â gerddi cefn tai preifat a gwestai.

| **Amcan 6:** | **Cynnig profiad i ymwelwyr sy'n unigryw ac o'r ansawdd uchaf.** |
|---|---|
| **Polisi 6A** | Bydd yr holl arwyddion ar y llwybrau sy'n dynesu at y safle, o fewn y cestyll ac mewn mannau cyhoeddus o'u hamgylch, yn cynnwys dyluniad cyson o ansawdd uchel ac yn cyfrannu at ymdeimlad o gyrraedd a phrofiad o ansawdd uchel i ymwelwyr. |
| **Polisi 6B** | Cynyddir cyfleoedd i wella mynediad ffisegol neu rithwir i'r cyhoedd i furiau'r dref yng Nghonwy a Chaernarfon. |
| **Polisi 6C** | Bydd cyfleusterau i ymwelwyr yn y pedair tref o safon uchel o ran dyluniad ac ansawdd, gan adlewyrchu'r ffaith bod y Safle o'r radd flaenaf. |
| **Polisi 6D** | Darperir deunydd dehongli cyson o'r radd flaenaf ym mhob rhan o'r Safle a'r pedair tref dan arweiniad y cynllun dehongli cyffredinol. |
| **Polisi 6E** | Mabwysiedir dull o weithio mewn partneriaeth â darparwyr cyfleusterau i ymwelwyr eraill ym mhob tref er mwyn creu profiad diwylliannol unigryw ym mhob lleoliad. |

### 4.6.7 Marchnata a Hyrwyddo

Ymysg y gwaith ymchwil i'r ffyrdd y mae Safleoedd eraill wedi gwneud y gorau o effaith economaidd bosibl eu hasedau hanesyddol mae datblygu hunaniaeth a brand treftadaeth pwerus ac effeithiol, a ddefnyddiwyd i gyfleu'r Gwerth Cyffredinol Eithriadol i gynulleidfaoedd gwahanol. Un Safle Treftadaeth y Byd a fu'n arbennig o llwyddiannus yn gwneud hyn yw Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon yn ne Cymru. Gallai'r broses o ddatblygu hunaniaeth brand unigryw sy'n cysylltu ac yn hyrwyddo'r pedwar castell a threfi yn effeithiol mewn ffordd unedig fod yn bwerus iawn. Gallai hyn gael ei ategu gan ganllawiau ar sut y gellir defnyddio'r brand gan wahanol sefydliadau masnachol a chyhoeddus.


Gan adeiladu ar hyn, un o brif amcanion ymdrechion marchnata Cadw yw ehangu mynediad i ddiwylliant a threftadaeth, ac annog mwy o bobl i gymryd rhan. Ceir mwy o bwyslais ar farchnata digidol gan ddefnyddio gwefannau, cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau electronig fel dulliau o hyrwyddo'r Safle. Caiff y pedair tref o fewn y Safle hefyd eu marchnata fel cyrchfannau gan dimau twristiaeth awdurdodau lleol.

Gan gydweithio drwy flaenoriaethau strategol cytûn, ymchwil a rennir ac ymdrechion cyfunol, gellir hyrwyddo'r Safle a chodi ymwybyddiaeth ohono i'r amrywiaeth ehangaf o gynulleidfaoedd, yn y DU a thramor. Mae dulliau ymgynghori â rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd fel rhan o'r gwaith o baratoi'r cynllun rheoli wedi nodi y gellid gwneud mwy i farchnata'r pedwar castell a threfi fel un Safle Treftadaeth y Byd. Drwy wneud hyn, gellid codi ymwybyddiaeth o'u pwysigrwydd ar y cyd yn ogystal ag annog ymwelwyr i fynd i'r pedwar lleoliad.

Gellir hyrwyddo cysylltedd rhwng yr henebion ymhellach drwy sicrhau bod y pedwar prif geidwad yn rhyngweithio'n rheolaidd er mwyn sicrhau gwell synergedd rhwng yr arlwy twristiaeth a chymunedol, a thrwy archwilio digwyddiadau ac atyniadau ar y cyd.

Mae hefyd angen sicrhau cydweithredu gwell rhwng awdurdodau lleol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Cadw wrth gynllunio a marchnata digwyddiadau yn y cestyll. Ceir buddiannau clir o ddull mwy cydlynol. Gall dulliau gwell o weithio mewn partneriaeth helpu i ddatblygu syniadau a dulliau gweithredu newydd ar gyfer gweithgarwch masnachol yn y cestyll.

*Mae angen arwyddion wedi'u brandio'n glir o safon uchel o fewn Safle Treftadaeth y Byd.*





Bydd Croeso Cymru yn datblygu dull gweithredu 'llwybrau' yn debyg i'r enghreifftiau llwyddiannus sydd ar waith mewn gwledydd eraill fel Iwerddon ac UDA. Bydd cyfleoedd i archwilio a chyfrannu at y rhaglen hon sy'n esblygu dros y 10 mlynedd y bydd ar waith gyda'r nod o wella arwyddion neu frandio ar hyd yr A55, yr A478 a'r A470.

Gan adeiladu ar hyn, bydd hefyd angen gwneud rhagor o waith i wella a datblygu dull marchnata Cymru gyfan ar gyfer y Safle presennol.

| **Amcan 7:** | **Marchnata a hyrwyddo'r pedwar lleoliad, sef Biwmares, Caernarfon, Conwy a Harlech eu marchnata a'u hyrwyddo fel un Safle er mwyn sicrhau dull gweithredu cydlynol ac integredig.** |
|---|---|
| **Polisi 7A** | Cymerir camau ar y cyd i roi cyhoeddusrwydd i'r pedwar lleoliad a hyrwyddo'r Safle. |
| **Polisi 7B** | Bydd partneriaid yn mynd ati i wella hunaniaeth a chydnabyddiaeth brand Safle Treftadaeth y Byd. |
| **Polisi 7C** | Bydd Cadw, awdurdodau lleol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a phartneriaid allweddol o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn cydweithio er mwyn cyflwyno rhaglen flynyddol gydlynol o ddigwyddiadau. |
| **Polisi 7D** | Bydd Cadw a'i bartneriaid yn gweithio gyda Croeso Cymru er mwyn archwilio cyfleoedd marchnata perthnasol. |

*Gall cofroddion â thema helpu i greu cysylltiadau rhwng y pedwar safle a gwella dealltwriaeth ymwelwyr o Safle Treftadaeth y Byd yn ei gyfanrwydd.*



*Mae paneli dehongli sy'n defnyddio'r eiconau thematig o Gynllun Gweithredu Treftadaeth Cymru Gyfan yn helpu i gysylltu'r storïau rhwng safleoedd.*



### 4.6.8 Teithio Cynaliadwy

Nodir bod parcio a thagfeydd traffig yn broblemau o raddau amrywiol yn y pedair tref, yn arbennig yn ystod anterth y tymor twristiaeth.

Mae angen cydbwysedd da rhwng parcio i roi hwb i niferoedd ymwelwyr a thwf economaidd, a defnyddio polisi parcio fel dull effeithiol o reoli galw er mwyn annog pobl i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy amgen. Gallai dulliau o archwilio ffyrdd mwy arloesol o gynnig llefydd parcio — er enghraifft, drwy rannu llefydd parcio a gaiff eu tanddefnyddio ar hyn o bryd — neu drwy ddefnyddio cynlluniau parcio a theithio yn ystod misoedd yr haf helpu i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy gyfrifol.

Ym Miwmares, mae llefydd parcio ar gael mewn nifer o leoliadau, yn cynnwys yn y maes parcio ffurfiol i'r gogledd o'r castell, ardal y Lawnt (sy'n eiddo i gyngor y dref) yn ystod misoedd yr haf ac ardal orlif arall wrth gefn y castell. Fodd bynnag, gall yr holl draffig sy'n mynd i'r ardaloedd hyn achosi tagfeydd drwy ganol y dref ac amharu ar amwynder lleoliad y castell.

Yn Harlech, mae'r llefydd parcio wedi'u rhannu rhwng y dref ac ardal y Morfa; mae'n rhaid i ymwelwyr sy'n parcio yn ardal y Morfa ddringo allt serth i gyrraedd mynedfa'r castell. Mae'r maes parcio y tu allan i'r ganolfan newydd i ymwelwyr yn Harlech yn gymharol fach, ac mae'r ymwelwyr yn dibynnu ar lefydd parcio ar y stryd mewn ardaloedd eraill o ganol y dref.

*Mae'r trenau'n stopio yn yr orsaf o fewn tref gaerog Conwy ac yn cynnig golygfa ysblennydd wrth gyrraedd y dref a'r castell. Oherwydd prinder lleoedd parcio a mannau gollwng i goetsys gall teithio ar y trên fod yn ddewis mwy cynaliadwy.*



Yng Nghonwy, mae nifer y bysiau sy'n ymweld â'r dref ynghyd â'r cyfyngiadau oherwydd pyrth a mynedfeydd bwaog wedi golygu bod angen rhoi rhagor o ystyriaeth ar gyfer cyfleusterau parcio penodol i fysiau. Mae nifer y bysiau sy'n ymweld â Chonwy yn arbennig o uchel oherwydd lleoliad y dref mewn perthynas â'r A55 a masnach bysiau o longau mordeithio sy'n ymweld â Chaergybi a Lerpwl. Er bod Conwy wedi ceisio croesawu bysiau — drwy greu cyfleusterau parcio bysiau addas, mannau codi a gollwng teithwyr — cydnabu bod angen maes parcio newydd yn benodol i fysiau a nodwyd bod hyn yn flaenoriaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf yng Nghynllun Trafnidiaeth Lleol Gogledd Cymru. Er nad oes unrhyw gyllid wedi'i nodi eto ar gyfer maes parcio penodol i fysiau, bydd Conwy yn ceisio darparu cyfleusterau gollwng gwell i deithwyr bysiau.

Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol Gogledd Cymru wedi'i lunio ar y cyd gan chwe awdurdod lleol y gogledd. Ymysg canlyniadau allweddol y cynllun mae cysylltiadau rhwng cyrchfannau allweddol a marchnadoedd, lefelau uwch o gerdded a beicio, a chyn lleied â phosibl o effaith ar yr amgylchedd. Ceir cyfleoedd yn y pedair tref i sicrhau cysylltiadau gwell â'r seilwaith trafnidiaeth bresennol (ac felly annog mwy o bobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio), neu i greu ffyrdd newydd o gyrraedd y pedwar safle er mwyn sicrhau eu bod yn rhan o brofiad nodedig i ymwelwyr. Gall enghreifftiau o'r cyntaf gynnwys creu cysylltiadau gwell â'r orsaf rheilffordd yn Harlech, neu sefydlu gwasanaeth bws mini noddedig o faes parcio'r Morfa i ganol y dref. Gall enghreifftiau o'r ail gynnwys y cyfle i ddefnyddio mordeithiau, teithiau a chysylltiadau ar y môr fel ffordd o gyrraedd Biwmares, Caernarfon a Chonwy.

Gall sicrhau cysylltiadau gwell â'r rhwydwaith cerdded a beicio gynnig cyfle arall i annog pobl i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy; er enghraifft, sicrhau bod arwyddion ar gyfer y Safle o Lwybr Arfordir Cymru a llwybrau beicio cenedlaethol.

Er mwyn gwella a hyrwyddo teithio cynaliadwy, mae'n amlwg bod angen buddsoddiad parhaus mewn seilwaith ategol; er enghraifft, pennwyd terfyn pwysau yng Nghonwy yn ddiweddar ar un o'r pontydd mynediad i Morfa Bach, a fydd yn effeithio ar ddulliau teithio. .

| **Amcan 8:** | **Annog mwy o bobl i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy wrth ymweld â phob un o'r cyrchfannau yn y Safle heb effeithio'n andwyol ar y nodweddion sy'n dangos natur unigryw y Safle ar lefel ryngwladol.** |
|---|---|
| **Polisi 8A** | Caiff pobl eu hannog i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy i ymweld â chestyll a threfi'r Safle. |
| **Polisi 8B** | Archwilir ffyrdd arloesol o reoli trefniadau parcio yn ystod y prif dymor ymwelwyr er mwyn lliniaru tagfeydd, gan gynnwys cyfleusterau parcio a theithio, mannau disgyn bysiau a threfniadau parcio a rennir. |

### 4.6.9 Addysg a Dysgu Gydol Oes

Un o brif flaenoriaethau UNESCO ac ICOMOS yw annog budd cymdeithasol Safleoedd Treftadaeth y Byd. Diffinnir budd cymdeithasol fel:

- ymwybyddiaeth y cyhoedd
- cyfranogiad y gymuned
- cydweithrediad rhyngwladol — gan gynnwys twristiaeth ddiwylliannol.

Mae'r weledigaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addysg a dysgu gydol oes er mwyn creu 'system lle mae dysgwyr yn ganolog i bopeth a wnawn, a sicrhau eu bod yn elwa o addysgu a dysgu rhagorol'. Gall Safle Treftadaeth y Byd ychwanegu gwerth at hyn gan ei fod yn cynnig cyfleoedd i bobl o bob oedran, cefndir a gallu ddysgu a chael eu haddysgu. Drwy addysg a dysgu gydol oes, gallwn alluogi cenedlaethau'r dyfodol i gael eu magu yn deall y Safle a'i Werth Cyffredinol Eithriadol, a bod yn awyddus i barhau i ofalu amdano.

Mae'r Safle yn cynnal tua 23,000 o ymweliadau addysgol (2015/16) bob blwyddyn ac fe'i defnyddir fel ffynhonnell profiadau dysgu ar gyfer addysg gynradd, uwchradd, addysg bellach ac addysg uwch. Mae gweithgareddau wedi'u hwyluso a arweinir gan ddehonglwyr mewn gwisgoedd yn egluro agweddau ar hanes ac arwyddocâd y safleoedd. Mewn dau leoliad ceir ystafelloedd addysg penodol ac mae'r pedwar lleoliad yn cynyddu ac yn datblygu eu hadnoddau dysgu ar gyfer gweithgareddau teuluol. Ymysg y prosiectau arbennig mae creu adnoddau digidol ar gyfer plant ysgol, sydd ar gael drwy i-beacon ar y safle. Bydd Castell Caernarfon yn bwnc arholiadau TGAU gan AQA o 2019.

*Un o ddigwyddiadau Fusion yng Nghastell Caernarfon sy'n annog pobl ifanc i ymddiddori yn y castell a dysgu am ei hanes.*



Mae Safle Treftadaeth y Byd yn cynnig amrywiaeth eang o themâu dysgu, yn cynnwys y frenhiniaeth a'r llywodraeth, pensaernïaeth a sgiliau adeiladu, datblygu masnach yng Nghymru, cynllunio trefol, twristiaeth, cadwraeth ac agweddau eraill ar werth diwylliannol. Bydd ymwelwyr o rannau eraill o'r DU a thramor yn gallu uniaethu â rhai o'r themâu hyn y gallant eu cymhwyso i ble maent yn byw a bydd yn golygu bod yr hyn y maent yn ei ddysgu ar y Safle yn berthnasol i'w bywydau.

Ers 2015, mae 'Preserving World Heritage Sites' wedi bod yn un o'r Heriau Dinasyddiaeth Fyd-eang a gymeradwywyd gan Gyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Diben yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yw datblygu sgiliau dysgwyr, tra'n cynnig cyfleoedd i ddeall ac ymateb yn briodol i faterion byd-eang.

Mae Cadw hefyd yn cydweithio â phartneriaid fel rhan o'r Rhaglen Ardal Arloesi Cyfuno y mae'r Safle yn rhan hanfodol ohoni. Mae rhaglen Cyfuno yn cynorthwyo awdurdodau lleol i ddod o hyd i gyfleoedd newydd a chyffrous i fwynhau gweithgareddau diwylliannol a chymryd rhan ynddynt a all roi hwb i sgiliau, ymgysylltiad, hunanhyder a dyhead.

Nod Rhaglen Addysg Treftadaeth y Byd UNESCO i Bobl Ifanc yw annog a galluogi gwneuthurwyr penderfyniadau'r dyfodol i gymryd rhan yn y broses o warchod treftadaeth ac ymateb i fygythiadau sy'n wynebu Treftadaeth y Byd. Bydd yn bwysig i archwilio ffyrdd y gellir ymgysylltu â phobl ifanc yn benodol; ymysg yr enghreifftiau eraill mae Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon sydd, gyda chymorth grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, wedi sefydlu Cenhadol Ieuenctid Treftadaeth y Byd. Grŵp gwirfoddol yw hwn sy'n ymrwymedig i rymuso pobl ifanc i gael llais, dysgu am Dreftadaeth y Byd a chyfrannu at y gwaith o reoli'r Safle.

*Mae'r llwybr i blant yng Nghastell Harlech yn helpu plant i ddarganfod y castell a deall sut y cafodd yr adeiladau sy'n wag bellach eu defnyddio.*



Drwy wirfoddoli, bydd pobl yn cael cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd, cwrdd â phobl ac atgyfnerthu cymunedau, magu profiad ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol, yn ogystal â magu hyder a chael hwyl. Gellir ei gefnogi mewn sawl ffordd, yn cynnwys drwy raglenni bancio amser, sy'n galluogi gwirfoddolwyr i gael eu gwobrwyo drwy fanteisio ar fuddiannau. Er enghraifft, nod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw nodi cyfleoedd i wirfoddoli ym myd twristiaeth drwy rwydwaith o atyniadau a busnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth.

Ymysg y dulliau cyflenwi a all helpu i ymgysylltu â'r gymuned mae rhaglen LEADER (menter yr Undeb Ewropeaidd sy'n cefnogi prosiectau datblygu gwledig yn lleol ac a ddefnyddir i adfywio ardaloedd gwledig), gan ddefnyddio gwaith partneriaeth rhwng y grwpiau LEADER yn Ynys Môn, Conwy a Gwynedd.

| **Amcan 9:** | **Raise awareness and promote understanding of World Heritage amongst a range of audiences, including local communities, engendering pride in their unique culture and heritage.** |
|---|---|
| **Polisi 9A** | Cyflwynir rhaglenni ymgysylltu gweithredol er mwyn codi ymwybyddiaeth a chynnig cyfleoedd dysgu. |
| **Polisi 9B** | Anogir cyfleoedd i ddysgu a datblygu sgiliau drwy wirfoddoli. |
| **Polisi 9C** | Mabwysiedir ymagwedd dysgu gydol oes glir er mwyn helpu i wella dealltwriaeth a mwynhad o'r Safle. |
| **Polisi 9D** | Sefydlir cyfleoedd cydweithredol drwy gysylltiadau â Safleoedd Treftadaeth y Byd eraill (yn enwedig yng Nghymru) a World Heritage UK. |

*Gall dehonglwyr mewn gwisgoedd helpu i esbonio pob agwedd ar hanes.*



### 4.6.10 Ymchwil a Dealltwriaeth


Gellir gwella deallwriaeth o'r Safle a'i amgylchedd drwy wneud gwaith ymchwil newydd. Dangoswyd hyn yn y gynhadledd a gynhaliwyd yn 2007 a'r papurau dilynol a gyhoeddwyd yn 2010 (gweler adran 3.2.5), a arweiniodd at ailystyried rôl y cestyll a'u lle yng ngorffennol, presennol a dyfodol Cymru.[67] Mae gwaith ymchwil gan yr hanesydd adeiladu Jeremy Ashbee wedi cyfrannu at ddealltwriaeth o'r fflatiau brenhinol a llety statws uchel yn y cestyll ym Miwmares, Conwy a Harlech.[68] Mae gwaith ymchwil diweddar arall wedi cyfrannu at wybodaeth am y pedair tref sef Biwmares, Caernarfon, Conwy a Harlech (Lilley et al.).[69] Mae'r ymchwil hon yn werthfawr am ei bod wedi creu darlun gwell o ardaloedd pwysig yn y Safle drwy ddefnyddio systemau gwybodaeth daearyddol ac mae wedi helpu i gymharu'n fwy effeithiol rhwng y pedair tref.

Dylai sicrhau dealltwriaeth archaeolegol well o'r trefi a chydnabod/mapio ardaloedd â llawer o botensial archaeolegol gael blaenoriaeth mewn rhaglen ymchwil newydd. Gallai meysydd ymchwil penodol gynnwys mapio isloriau ac adeiladedd canoloesol mewn adeiladau presennol. Dylai'r holl waith archaeolegol a wneir yn y Safle a'i leoliad gael ei gofnodi a'i adrodd yn briodol.

Mae'r cofnodion dogfennol am adeiladwaith y cestyll yn cynnwys un o gofnodion hanesyddol gorau'r cyfnod canoloesol a dylai fod yn destun gwaith ymchwil parhaus er mwyn gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o adeiladwaith y Safle.

*Gallai ymchwil newydd i archaeoleg y trefi gynnwys mapio'n gywir yr isloriau canoloesol a'r adeiledd canoloesol yn yr adeiladau presennol. Mae ychydig o adeiledd cynharach eisoes wedi cael ei nodi mewn adeiladau yng Nghaernarfon (ochr chwith) a Chonwy (ochr dde).*





Mae denu cyllid ar gyfer prosiectau ymchwil mawr yn broses gystadleuol ac mae'n bosibl na fydd sefydliadau fel Cadw a all fod wedi ariannu rhaglenni ymchwil yn y gorffennol yn gallu gwneud hynny. Fodd bynnag, gall dulliau amgen o wneud gwaith ymchwil fod yn hyfyw a bydd yn fanteisiol gwneud cysylltiadau â sefydliadau academaidd ac adrannau o fewn sefydliadau priodol.

Gallai cynhadledd ar y trefi sy'n gysylltiedig â'r cestyll fod yn ddefnyddiol fel rhan o agenda ymchwil ehangach. Gallai hyn ganolbwyntio'n ehangach ar rôl y trefi nag y bu modd i gynhadledd 2007 ei wneud. Gallai'r rhai sy'n bresennol gynnwys haneswyr, archaeolegwyr, daearyddwyr trefol, cynllunwyr, cymdeithasegwyr ac arbenigwyr twristiaeth.

| **Amcan 10:** | **Meithrin gwell dealltwriaeth o'r Safle a helpu i lywio'r trefniadau rheoli yn y dyfodol yn well.** |
|---|---|
| **Polisi 10A** | Caiff rhaglen ymchwil eang ei pharatoi ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd. |
| **Polisi 10B** | Bydd Cadw yn cydweithio'n agos â sefydliadau perthnasol (er enghraifft Ymddiriedolath Archaelegol Gwynedd, prifysgolion a chymdeithasau dinesig) er mwyn rhannu gwybodaeth ac ymchwilio i ganfyddiadau. |

*Gallai ymchwil ddogfennol i'r trefi wella'r ddealltwriaeth o Safle Treftadaeth y Byd. Cafodd y mapiau hyn o Gaernarfon a Harlech eu tynnu gan John Speed oddeutu 1610 ac maent yn dangos cynllun y trefi ar y pryd (Gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru).*






### 4.6.11 Rheoli Risg

Mae UNESCO yn argymell y dylai risgiau posibl a all fygwth Safle Treftadaeth y Byd gael eu nodi a'u monitro yn y cynllun rheoli, ynghyd â chynlluniau wrth gefn a mesurau lliniaru ar gyfer ymdrin â nhw. Ymhlith y prif risgiau strategol i'r Safle mae nid yn unig risgiau ffisegol i'r henebion eu hunain, fel difrod, fandaliaeth, pwysau ymwelwyr neu newid yn yr hinsawdd, ond hefyd risgiau sefydliadol fel rheolaeth wael, colli staff allweddol neu newidiadau i gyfundrefnau cyllido.

Mae'r model newid yn yr hinsawdd a ddatblywyd gan yr UK Met Office (UKCP09) yn rhagweld cynnydd cyflym mewn tymereddau byd-eang dros y blynyddoedd i ddod, gyda thymereddau cymedrig uwch drwy gydol y flwyddyn, hafau sychach a phoethach neu dywydd gwlypach yn ystod yr haf, gaeafau gwlypach a chynhesach a thywydd eithafol yn amlach; er enghraifft, llifogydd neu sychder. O ganlyniad, mae'r Safle, lle mae mewn lleoliad arfordirol ac isel yn bennaf, fel Biwmares, yn fwy agored i niwed.

Bydd angen monitro ac asesu effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd yn ystod oes y cynllun rheoli a thu hwnt er mwyn sefydlu ymateb polisi a chamau gweithredu priodol. Gall yr effeithiau ar y Safle gynnwys adeiledd yn erydu ac yn dirywio'n gyflymach, problemau strwythurol a deunyddiau'n symud oherwydd effeithiau thermol o ganlyniad i lawiad amlach neu drymach a thymereddau eithafol.

Yn 2011 lluniodd Llywodraeth Cymru strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru[70] sy'n nodi pwysigrwydd gweithio gyda Cadw er mwyn sicrhau bod risgiau i dirweddau hanesyddol a diwylliannol bwysig yn cael eu rheoli.

Ystyriodd adroddiad pellach a baratowyd ar gyfer y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol yn 2012[71] yr angen am ddull strategol o asesu a mynd i'r afael ag effaith bosibl newid yn yr hinsawdd ar amgylchedd hanesyddol Cymru ac mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn helpu i ddatblygu cynlluniau ar gyfer rheoli newid yn y dyfodol. Gall mesurau lliniaru, fel amddiffynfeydd môr, ddifrodi nodweddion yr asedau hanesyddol y maent wedi'u dylunio i'w diogelu, neu effeithio arnynt, felly bydd dal yn bwysig i'r asiantaethau gydweithredu er mwyn nodi mesurau priodol.

Nodi a monitro'r risgiau yw'r cam cyntaf i'w rheoli'n effeithiol; felly eir ati i sefydlu strategaeth rheoli risg a chofretr risg gysylltiedig sy'n nodi'r risgiau i Safle Treftadaeth y Byd fel blaenoriaeth yn ystod dwy flynedd gyntaf y cynllun rheoli.

| **Amcan 11:** | **Nodi, dileu a/neu liniaru risgiau i Werth Cyffredinol Eithriadol y Safle.** |
|---|---|
| **Polisi 11A** | Caiff prosesau rheoli risg cynhwysfawr eu cynnwys yn llawn mewn trefniadau rheoli. |
| **Polisi 11B** | Caiff effaith debygol newid yn yr hinsawdd ar y Safle yn y dyfodol ei hadolygu a'i hasesu'n rheolaidd. |

## 4.6.12 Proses Reoli

Mae Safle a reolir yn well yn fwy cynaliadwy ac yn fwy tebygol o ddiogelu'r Gwerth Cyffredinol Eithriadol. Mae Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd yn cyflwyno problemau rheoli penodol am ei fod yn cynnwys pedwar lleoliad ar wahân sy'n ffurfio un Safle Treftadaeth y Byd. Mae rhai problemau rheoli cyffredin ac mae rhai eraill sy'n safle benodol felly mae'r cynllun rheoli yn mabwysiadu dull cyfannol yn ogystal ag un sy'n diwallu anghenion lleol. Mae'n cefnogi'r rhai sy'n gofalu am y Safle gyda'r nod o gyflawni arfer gorau cenedlaethol a rhyngwladol o ran y dull o'i reoli.

Bydd y safle yn parhau i gael ei reoli gan amrywiaeth o bartneriaid yn cynnwys awdurdodau lleol, cynghorau, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a rhanddeiliaid lleol yn ogystal ag asiantaethau cenedlaethol, Cadw yn benodol. Nod y polisïau canlynol yw sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i'r amcanion partneriaeth hynny sydd o fudd i'r Safle cyfan a sicrhau strategaeth hirdymor ar gyfer ei reoli.

Mae rôl barhaus cydgysylltydd y Safle, ynghyd â chynrychiolydd a grŵp llywio gweithredol yn elfennau hanfodol o'r broses o reoli a diogelu'r Safle. Er mwyn gweithredu'n effeithiol, bydd y grŵp llywio yn cynnal cyfarfodydd strwythuredig yn rheolaidd, gyda grwpiau gorchwyl a gorffen yn cael eu sefydlu yn ôl yr angen ar gyfer materion penodol. Caiff gwaith cydgysylltydd y Safle ei lywio gan yr amcanion a'r polisïau a nodir yn y cynllun hwn a chaiff y broses o'u rhoi ar waith ei monitro a'i hadolygu gan y grŵp llywio.

Bydd ymgysylltiad rheolaidd â chynrychiolwyr o'r ddau Safle arall (a safle posibl) yng Nghymru hefyd yn helpu i wella prosesau rheoli a chyfleoedd i gydweithio.

*Cynadleddwyr yng nghynhadledd Treftadaeth y Byd y DU yn 2016 yng Nghaernarfon, a anogodd gydweithrediad rhwng Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y DU (Chris Mahon, Treftadaeth y Byd y DU).*



| **Amcan 12:** | **Cydnabod pwysigrwydd meithrin partneriaethau sy'n bodoli eisoes a datblygu partneriaethau newydd, fel sy'n briodol er mwyn cefnogi'r broses barhaus o reoli'r Safle.** |
|---|---|
| **Policy 12A** | Caiff effeithiolrwydd strwythur rheoli Safle Treftadaeth y Byd a'i aelodaeth ei adolygu'n rheolaidd. |
| **Policy 12B** | Caiff y cynllun rheoli ei fonitro a'i adolygu'n briodol ac effeithiol er mwyn ategu rhaglen adolygu reolaidd UNESCO. |

## 4.7 Cynllun Gweithredu

Mae'r cynllun gweithredu ar gyfer rheoli'r Safle yn y dyfodol wedi'i gyflwyno mewn dogfen ategol. Mae'n nodi camau gweithredu perthnasol ar gyfer pob polisi, y sefydliadau sy'n gyfrifol am y camau gweithredu hyn a'r amserlen ar gyfer eu rhoi ar waith.

*Machlud haul yng Nghastell Harlech.*





*Mae'r broses o fonitro'r cynllun rheoli a'i rhoi ar waith yn cynnwys arolygiadau blynyddol a phob pum mlynedd Cadw o'r chwe heneb. Nodwyd bod angen gwaith atgyweirio amrywiol ar Gastell Caernarfon yn arolygiad 2016.*

# 5 Monitro

Yn unol ag Erthygl 29 o Gonfensiwn Treftadaeth y Byd, rhaid paratoi adroddiadau cyfnodol ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd bob chwe blynedd. Nodir dangosyddion allweddol ar gyfer mesur y Safle yn ansoddol ac yn feintiol isod, a chânt eu cynnal er mwyn llywio'r broses adrodd gyfnodol bob chwe blynedd.

Y grŵp llywio sy'n gyfrifol am weithredu a monitro'r cynllun rheoli, ynghyd â chyflwyno adroddiadau rheolaidd i UNESCO.

Cynhaliwyd yr arolygiad bob pum mlynedd o Safle Treftadaeth y Byd yn 2016, gan ddefnyddio dulliau archwilio gweledol a dronau awyrol i gael delweddau eglur iawn o ardaloedd na ellir eu cyrraedd. Yn gyffredinol, nodwyd bod cyflwr presennol Safle Treftadaeth y Byd yn dda, o ystyried y niferoedd cymharol isel o waith categori 1 a 2 (blaenoriaeth uchaf) a nodwyd yn yr arolygiad. Dylai hyn gael ei ystyried yn adlewyrchiad cadarnhaol ar yr ymgyrchoedd cadwraeth treigl a gynhaliwyd. Nodwyd blaenoriaethau cadwraeth penodol ar gyfer pob un o'r pedwar lleoliad yn Safle Treftadaeth y Byd.


| Dangosydd | Camau Gweithredu |
|---|---|
| **Diogelu a Gwarchod y Safle** | |
| Cyflwr y chwe heneb gofrestredig. | Archwiliadau Cadw a gynhelir bob blwyddyn a phob pum mlynedd. |
| Nifer yr adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig ar y Safle, a'r lleoliad hanfodol, ym mhob lleoliad, a'u cyflwr. Cynnwys yn benodol nifer yr adeiladau a'r henebion sy'n wynebu risg, a'u cyflwr. | Data sylfaenol a gasglwyd ar gyfer 2017. Adolygiad blynyddol a gynhaliwyd gan Cadw/awdurdod cynllunio lleol. |
| Gwella neu gynnal golygfeydd pwysig i Safle Treftadath y Byd ac oddi yno. | Sefydlu lleoliadau ffotograffiaeth pwynt sefydlog. Camau monitro bob dwy flynedd gan Cadw. |
| Nifer y ceisiadau cynllunio o fewn lleoliad ehangach a hanfodol y Safle. Data i gynnwys nifer y ceisiadau lle mae'r Safle wedi'i nodi fel ystyriaeth berthnasol a chanlyniadau. | Data a gasglwyd gan awdurdodau cynllunio lleol. Cynnwys data ar gyfer nifer o geisiadau a nodwyd gan Cadw. |
| Gwariant ar brosesau cadwraeth ac adnewyddu'r Safle. | Adolygiad blynyddol o'r cynllun ariannol. |

| | |
|---|---|
| **Yr Economi Leol ac Adfywio** | |
| Nifer y grantiau a ddenwyd ar gyfer y Safle a threfi cyfagos a gwerth y grantiau hynny. | Casglwyd o ffynonellau amrywiol bob blwyddyn (er enghraifft, Cadw, awdurdodau cynllunio lleol, Llywodraeth Cymru). |
| **Codi Ymwybyddiaeth** | |
| Nifer yr ymweliadau â phob un o leoliadau'r Safle bob blwyddyn. | Cofnodwyd gan Cadw yn y pedwar lleoliad. |
| Arolwg blynyddol o ymwelwyr ym mhob un o leoliadau'r Safle. | Asesiad ansoddol er mwyn nodi boddhad ymwelwyr ac ymwybyddiaeth o'r Safle. |
| Nifer y digwyddiadau cymunedol a gynhelir yn y pedwar castell bob blwyddyn a'r math o ddigwyddiad. | Ymwybyddiaeth gymunedol o'r Safle/ trosglwyddo gwerth. |
| Nifer y cyhoeddiadau/erthyglau cyhoeddedig a gaiff eu llunio bob blwyddyn. | Cofnodwyd gan Cadw. |
| **Addysg a Dysgu Gydol Oes** | |
| Nifer y digwyddiadau addysg ffurfiol a gynhelir yn y pedwar castell bob blwyddyn a'r amrywiaeth o bynciau a gwmpesir. | Cofnodwyd gan Cadw. |
| Crynodeb o adborth o holiaduron o'r bobl a fynychodd/trefnwyr digwyddiadau addysg. | Cofnodwyd gan Cadw. |
| Nifer y gwirfoddolwyr a gefnogir yn y pedwar castell. | Cofnodwyd gan Cadw. |
| **Proses y Cynllun Rheoli** | |
| Adolygiad blynyddol o'r cynllun gweithredu gan grŵp llywio'r Safle. | Cwblhau'r camau gweithredu a nodwyd; creu camau gweithredu newydd i roi polisïau ar waith/i gyflawni amcanion. |

# Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd

Atodiad 1

Dulliau ar gyfer Diogelu a Gwarchod y Safle





Proof

# Atodiad 1: Dulliau ar gyfer Diogelu a Gwarchod y Safle

Caiff dulliau cenedlaethol a lleol sydd ar waith er mwyn diogelu a gwarchod y Safle, yn cynnwys deddfwriaeth genedlaethol a threfniadau cynllunio lleol, eu crynhoi yn yr atodiad hwn.

## A1.1 Deddfwriaeth Genedlaethol

Mae'r holl henebion yn y Safle yn henebion cofrestredig. Mae Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (Deddf 1979)[72] yn rhoi'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu hanebion yng Nghymru, yn cynnwys eiddo yng ngofal uniongyrchol Gweinidogion Cymru a reolir gan Cadw. Mae Deddf 1979 yn gwneud darpariaeth ar gyfer archwilio henebion yn rheolaidd, yn pennu cosbau am ddifrodi heneb ac yn grymuso Gweinidogion Cymru i gynnig grantiau i berchenogion ar gyfer eu hatgyweirio.

Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (Deddf 2016) yn rhan o gyfres o ddeddfwriaeth, polisi, cyngor a chanllawiau ac yn gwneud cyfraniadau pwysig i'r systemau presennol ar gyfer gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru a'i reoli mewn ffordd gynaliadwy.[73] Ar hyn o bryd, darperir canllawiau cynllunio ar Safleoedd Treftadaeth y Byd ym mharagraffau 6.4.5 a 6.5.2–6.5.4 o *Polisi Cynllunio Cymru* (rhifyn 9, 2016) ac yn *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*.[74] Mae canllawiau cyfredol yn nodi bod yn rhaid i bolisïau cynllun datblygu adlewyrchu'r ffaith bod Safleoedd Treftadaeth y Byd wedi derbyn arysgrifiad gan UNESCO oherwydd eu Gwerth Cyffredinol Eithriadol. Ymhellach, mae Safleoedd Treftadaeth y Byd a'u safleoedd yn ystyriaeth berthnasol a ddylai gael eu hystyried gan awdurdodau cynllunio lleol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio a chan Weinidogion Cymru wrth benderfynu ar achosion yr apeliwyd yn eu herbyn neu geisiadau a alwyd i mewn. Dylai effaith cynigion datblygu ar y safleoedd a'u lleoliadau gael ei hystyried yn ofalus.

Mae *Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru* yn ategu'r adrannau perthnasol o *Polisi Cynllunio Cymru* u (Rhifyn 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol a *Nodyn Cyngor Technegol 24: yr Amgylchedd Hanesyddol*.[75] Mae'n nodi egwyddorion cyffredinol ar gyfer rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru ac yn darparu canllawiau ar gyfer eu cadw, eu gwarchod a'u cyflwyno drwy'r system gynllunio.

## A1.2 System Gynllunio Leol

Caiff y broses o warchod y Safle ei gwarantu hefyd drwy system cynllunio gwlad a thref. Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) baratoi cynllun datblygu lleol ar gyfer eu hardal, sy'n nodi polisïau priodol i reoli datblygiadau newydd.

Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi paratoi cynllun datblygu lleol ar y cyd ar gyfer ardal awdurdod cynllunio lleol Gwynedd ac Ynys Môn, a fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r cynllun yn cynnwys polisïau sy'n diogelu Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd, yn arbennig Polisi PS17: Diogelu a Gwella Asedau Treftadaeth a Pholisi AT1: Ardaloedd Cadwraeth. Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, sy'n diogelu treftadaeth ddiwylliannol, wedi'i fabwysiadu. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn awyddus i sicrhau bod asedau treftadaeth yn cael eu gwarchod rhag gwaith datblygu amhriodol a bydd yn achub ar y cyfle i wella ardaloedd ac adeiladau hanesyddol lle bo angen. Ymysg y polisïau perthnasol mae Polisi Strategol CTH/1: Treftadaeth Ddiwylliannol, Polisi CTH/2 — Datblygu sy'n Effeithio ar Asedau Treftadol, Polisi CTH/3: Adeiladau ac Adeileddau o Bwysigrwydd Lleol a Pholisi CTH/4: Galluogi Datblygu. Yn ogystal, mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy nifer o ddogfennau canllawiau cynllunio ategol sy'n cefnogi polisïau cynllun datblygu lleol. Mae canllaw cynllunio atodol Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Conwy, a fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf 2015, yn hynod berthnasol. Mae'n cynnwys camau a mesurau ar gyfer Castell a Muriau Tref Conwy sy'n adlewyrchu rhai o'r polisïau ehangach ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd yn gyffredinol; er enghraifft, yr angen am gydlynu ar draws gwasanaethau'r cyngor, y dull o reoli datblygu a chamau i hyrwyddo addysg ac ymwybyddiaeth o Safle Treftadaeth y Byd.

Mabwysiadwyd cynllun datblygu lleol Eryri gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn 2011. Mae'r cynllun datblygu lleol yn cynnwys Polisi Strategol Ff: Amgylchedd Hanesyddol, sy'n nodi na chaniateir datblygiad a fydd yn effeithio'n andwyol mewn unrhyw ffordd ar asedau treftadol, yn cynnwys Safleoedd Treftadaeth y Byd. Mae'r cynllun yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, a chaiff drafft adneuo ei gyhoeddi yn ystod 2017.

Mae dau o'r cestyll mewn ardaloedd a gaiff eu diogelu am eu hansawdd amgylcheddol a'u gwerth — Castell Harlech, a leolir ym Mharc Cenedlaethol Eryri, a Chastell Biwmares, a leolir yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn. Polisi CCGA 2.1 Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn (2015–20) yw 'adnabod, amddiffyn a mynd ati i warchod adnoddau hanesyddol, archeolegol a diwylliannol yr AHNE gydag asiantaethau perthnasol'.

Caiff lleoliad hanfodol y Safle ei ddiogelu ymhellach drwy ardaloedd cadwraeth dynoedig. Diffinnir ardaloedd cadwraeth fel ardaloedd 'the character or appearance of which it is desirable to preserve or enhance'; felly, ansawdd lle yw un o'r prif ystyriaethau wrth ei nodi. Mae'r ardaloedd cadwraeth a ddynodir yn y pedair tref castell fel a ganlyn:


**Ardal Gadwraeth Biwmares** (dynodwyd 1968; mabwysiadodd arfarniad o nodweddion 2006).

**Ardal Gadwraeth Caernarfon** (dynodwyd 1968) sy'n amgáu'r dref furiog a'r castell, ac yn ymestyn i gwmpasu prif ffryntiadau stryd canol y dref a Theras Segontium. Nid yw'r ardal gadwraeth yn cynnwys Doc Fictoria a Chei Santes Helen.

**Ardal Gadaraeth Conwy** sy'n cwmpasu'r dref furiog gyfan a'r ardaloedd gerllaw mur y dref (dynodwyd 1975; mabwysiadodd arfarniad o nodweddion).

**Ardal Gadwraeth Harlech** sy'n amgáu'r dref hanesyddol ac yn ymestyn tua'r de i gynnwys Coleg Harlech.

Gall Cyfarwyddiadau o dan Erthygl 4 bennu rheoliadau cynllunio ychwanegol ar ddatblygiadau o fewn ardaloedd cadwraeth ac maent yn bodoli ar hyn o bryd yn ardaloedd cadwraeth Conwy a Biwmares. Nod y Cyfarwyddiadau hyn o dan Erthygl 4 yw annog y broses o gadw nodweddion archaeolegol o ansawdd uchel ar adeiladau a chadw a gwella'r ardal gadwraeth y maent yn rhan ohoni. Anogir gwaith atgyweirio 'tebyg at ei debyg' ac ailosod nodweddion archaeolegol, ynghyd â chael gwared ar newidiadau blaenorol i adeiladau nad ydynt yn gydymdeimladol.



# Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd

## Atodiad 2

## Datganiadau Amlinellol o Nodweddion



Proof

# Atodiad 2: Datganiadau Amlinellol o Nodweddion

## A2.1 Beaumaris

### A2.1.1 Cefndir Hanesyddol

Biwmares oedd yr olaf o drefi castell Edward I. Dechreuodd gwaith ar y castell yn 1295, ar ôl gwrthryfel y Cymry yn 1294, lle cafodd anheddiad porthladd ac anheddiad Cymreig cyfagos Llanfaes ei ddifrodi'n ddifrifol. Symudwyd trigolion Llanfaes i Niwbwrch a chafodd tref newydd Biwmares ei siarter yn 1296. Datblygodd yn gyflym i fod yn un o drefi newydd mwyaf Edward. Roedd gan y dref cynllun penodol ac, er nad oedd ganddi furiau o'r cychwyn, gall fod wedi cynnwys amddiffynfeydd cloddwaith. Ceir tystiolaeth fwy pendant o ffos a mur garreg a adeiladwyd yn 1407–14 yn dilyn gwrthryfel Glyndŵr pan ddioddefodd y dref a'r castell.

Roedd Biwmares yn sefydliad trefol llwyddiannus a ffynnodd fel prif borthladd a chanolfan weinyddol yr ynys yn ddiweddarach yn y canoloesoedd. Hon oedd prif dref Ynys Môn yn yr ail ganrif ar bymtheg, ond dechreuodd ddirywio fel canolfan fasnachol yn ystod y ddeunawfed ganrif. Arferai'r dref redeg gwasanaeth fferi pwysig ar draws afon Menai, ond, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd y ffordd newydd a'r cysylltiadau rheilffordd yn ei hosgoi, ac, yn y pen draw, disodlwyd ei rôl fel porthladd gan Gaergybi. Trosglwyddwyd ei swyddogaethau gweinyddol (a symbylwyd yn benodol gan garchar 1828) i Langefni erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

*Cafodd trigolion anheddiad Cymreig hŷn Llanfaes (ochr dde uchaf) eu symud i Niwbwrch pan adeiladwyd Castell Biwmares (ochr chwith gwaelod) ar safle newydd (© Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd).*



Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cafodd y dref fywyd newydd fel cyrchfan arfordirol ffasiynol, a hyrwyddwyd gan gyngor y dref a theulu Bulkeley o Baron Hill (sefydlwyd fel cartref y teulu yn 1612), a oedd wedi prynu'r castell yn 1807, ac a oedd yn berchen ar sawl eiddo yn y dref. Cyfrannodd y nawdd deuol hwn yn sylweddol at y broses o ddatblygu'r dref yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid dim ond mewn prosiectau adeiladu newydd pwysig fel Green Edge, Victoria Terrace a Gwesty Bulkeley, ond hefyd ar gyfer seilwaith fel ffordd glan y môr, a adeiladwyd gan Is-iarll Bulkeley yn 1804. Yn y cyfamser, roedd y tir i'r gogledd-ddwyrain o'r castell yn rhan o barcdir Baron Hill ac ni chafodd ei ddatblygu erioed. Cafodd Biwmares gyfnod newydd o ffyniant o ganlyniad i'r buddsoddiad hwn, ond ni ehangodd y tu hwnt i'w gyfyngiadau canoloesol tan yr ugeinfed ganrif, pan sefydlodd cymysgedd o ddatblygiad cyhoeddus a phreifat gylchran o faestrefi i'r gogledd-orllewin a'r de-orllewin o'r dref hanesyddol.

*Mae map John Speed o Fiwmares yn 1610 yn dangos prif elfennau cynllun y dref a'r castell (Gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru).*



## A2.1.2 Tirwedd Hanesyddol

Roedd cynllun gwreiddiol y dref ganoloesol yn cynnwys dwy brif stryd ar onglau sgwâr i'w gilydd (Stryd y Castell a Stryd yr Eglwys), ond ceir amheuaeth ynghylch y cynllun a'r maint llawn gwreiddiol. Gall y ddwy brif stryd a'r ardal sydd agosaf at y castell a'r cei gynrychioli maint yr ardal adeiledig wreiddiol, ond ceir rhywfaint o dystiolaeth bod y dref yn ymestyn tua'r gorllewin o'r cychwyn cyntaf, neu'n fuan iawn ar ôl hynny. Gallai llinell Stryd Newydd nodi terfynau allanol clostir amddiffynnol cynnar y canfuwyd tystiolaeth dameidiog ohono. Yr hyn sy'n fwy pendant yw bod mur carreg a ffos wedi'u hadeiladu ar ddechrau'r bymthegfed ganrif, sy'n creu ardal lai, wedi'i ffinio i'r gorllewin gan Steeple Lane bellach (ardal Stryd Newydd). Mae'n bosibl hefyd bod rhwyllwaith o is-lonydd, a gynrychiolir yn y strydlun modern gan Rosemary Lane, Stryd y Capel, Stryd Margaret a Little Lane. Mae Ratings Row yn unigryw mewn patrwm stryd sy'n rheolaidd fel arall, a chaiff ei dehongli fel stryd a allai fod wedi goroesi o ddefnydd tir cynharach fel ffin safle mynachaidd.

Yn wahanol i'r trefi Edwardaidd eraill, nid oes tystiolaeth glir o leoliad marchnad gynnar, a oedd, erbyn dechrau'r ail ganrif ar bymtheg, wedi'i lleoli ar ddarn o dir i'r gogledd-orllewin o'r eglwys. O 1785, lleolwyd y farchnad o dan neuadd y dref ac o 1826 roedd ar Stryd yr Eglwys. Ni cheir tystiolaeth benodol o'r cei canoloesol ychwaith.

*Mae cynllun modern y dref wedi cadw'r trefniant canoloesol. Mae'r brif stryd wedi'i halinio â phorthdy deheuol y castell (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



O fewn y patrwm stryd hwn, roedd patrwm gyda chynllun manwl o leiniau, y mae llawer ohonynt wedi goroesi yn y treflun modern. Parhaodd y lleiniau hyn i bennu patrwm adeilad, gan roi amrywiaeth nodweddiadol, heblaw lle'r oedd lleiniau wedi'u cyfuno yn cynnig cyfleoedd ar gyfer prosiectau adeiladu mwy. Roedd patrwm datblygu tebyg yn nodweddu datblygiad maestrefol cynnar ar hyd Stryd Wexham, a all fod yn tarddu o'r canoloesoedd. I'r gorllewin o'r dref, mae maint mwy mawreddog y datblygiad maes trefol (a oedd yn bodoli erbyn yr ail ganrif ar bymtheg) yn awgrymu statws a phwysigrwydd uwch y glannau.

Sefydlwyd traethlin newydd fel rhan o welliannau o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a oedd yn cynnwys draenio'r lawnt (1823) ac adeiladu morglawdd (1832). Arweiniodd hyn at brosiectau adeiladu newydd i'r de-ddwyrain, y tu hwnt i derfyn canoloesol y dref. Dilynwyd Green Edge a Victoria Terrace gan Stryd Rhaglan, Teras Bulkeley a Stryd Alma.

*Map o Beaumaris.*




© Hawlfraint a hawl cronfa ddata'r Goron 2017. Arolwg Ordnans 100021874.

## A2.1.3 Nodweddion Adeiladu

Ac eithrio'r eglwys, nid oes unrhyw adeiladau canoloesol hysbys o fewn terfynau canoloesol tybiedig y dref, ond mae ffyniant cyson Biwmares wedi arwain at gronoleg hir o waith adeiladu o fewn y terfynau trefol hyn, o ddechrau'r bymthegfed ganrif i ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fframiau pren sydd i'r adeiladau domestig cynharaf sydd wedi goroesi, ac mae eu hansawdd uchel yn awgrymu traddodiad adeiladu lleol soffistigedig a chymdeithas ffyniannus. Fodd bynnag, erbyn y ddeunawfed ganrif, carreg oedd y prif ddeunydd. Cafodd ei rendro hyd nes y dechreuwyd defnyddio carreg goeth Penmon ar gyfer prosiectau adeiladu urddasol gyda'r penseiri Hansom and Welch yn y 1830au. Defnyddiwyd brics a wnaed yn lleol hefyd mewn rhai adeiladau unigol o ddiwedd y ddeunawfed ganrif, ond cawsant eu harddangos yn benodol yn Stryd Stanley yn y 1850au ac yn natblygiad Stryd Margaret ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae Biwmares yn arddangos amrywiaeth wych o bensaernïaeth ddomestig, yn amrywio o Victoria Terrace sy'n hynod soffistigedig i fythynnod unllawr cyffredin Wexham Street. Mae cymeriad Sioraidd cryf a chyson i'r dref, a ddangosir yng nghlasuriaeth gwrtais Victoria Terrace a natur gynhenid y bythynnod. Amherir ar yr harmoni pensaernïol hwn gan gyfres o adeiladau cyhoeddus cain, yn cynnwys neuadd y dref, Gwesty'r Bulkeley a'r carchar.

Y tu hwnt i derfynau cynnar y dref, mae Biwmares hefyd yn nodedig am ansawdd y datblygiad o dai cyhoeddus. Mae ystâd Maes Hyfryd o 1950 yn enghraifft o egwyddorion gorau datblygiad o'r fath, gyda manylion graenus a chytûn.

*Mae eglwys plwyf Santes Fair a Sant Niclas yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar ddeg a hon yw'r unig adeilad canoloesol sydd wedi goroesi ym Miwmares ar wahân i'r castell. (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Fel adeilad prin sydd wedi goroesi, mae 32 Stryd y Castell yn ein hatgoffa bod fframiau pren yn nodweddiadol o adeiladau domestig o ddiwedd yr oesoedd canol ym Miwmares.*



## A2.1.4 Datganiad o Arwyddocâd

Roedd Biwmares yn dref ganoloesol bwysig. Ceidw ei chraidd hanesyddol elfennau hanfodol ei strwythur o'r drydedd ganrif ar ddeg mewn patrwm nodedig o strydoedd a lleiniau. Adlewyrchir ffyniant cyson y dref mewn hanes hir o waith adeiladu, yn cynnwys rhai adeiladau cynnar sydd wedi goroesi a rhai enghreifftiau gwych o adeiladau cynhenid Sioraidd. Arweiniodd y broses o drawsnewid y dref yn gyrchfan arfordirol ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg at enghreifftiau eithriadol o bensaernïaeth ddomestig drefol. Cyfyngodd nawdd a rheolaeth cyngor y dref a'r prif dirfeddiannwr, ynghyd â lleoliad cymharol anghysbell y dref ar ddatblygiadau diweddarach wedi hynny, gan roi cytgord pensaernïol hynod i'r dref ynghyd ag uniondeb ar raddfa fach.

*Mae Teras Victoria wedi'i adeiladu o gerrig cain a ddyluniwyd gan y penseiri Hansom a Welch ac a gwblhawyd yn 1833 (llun uchaf) (© Hawlfraint y Goron: CBHC). Mae Stryd y Carchar yn nodweddiadol o'r bythynnod brodorol ym Miwmares (gwaelod).*





# A2.2 Caernarfon

## A2.2.1 Cefndir Hanesyddol

Lluniwyd a chynlluniwyd castell a thref furiog Caernarfon fel rhan o ymgyrch adeiladu Edward I ar ôl cwymp Llywelyn ap Gruffydd yn 1282. Roedd yn dilyn cynllun pendant, ac fe'i cwblhawyd er gwaethaf y rhwystrau a achoswyd gan wrthryfel Madog ap Llywelyn yn 1294. Erys gwaddol y dref ganoloesol, nid yn unig yn ei muriau sydd wedi goroesi, ond hefyd ym mhatrwm y strydoedd a'r lleiniau adeiladu y maent yn eu hamgylchynu.

Er bod y dref yn sefydliad newydd, roedd aneddiadau Rhufeinig a Chymreig yn y cyffiniau cyn hyn. Tua'r dwyrain roedd Segontium, a sefydlwyd gan y Rhufeiniaid fel caer atodol tua 77 OC. Gerllaw'r gaer, sefydlwyd eglwys Llanbeblig yn y bumed ganrif (mae'r eglwys bresennol yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar ddeg ac yn ddiweddarach). Arweiniodd meddiannaeth fer y Normaniaid at gastell mwnt a beili a ddefnyddiwyd, mae'n debyg, fel canolbwynt anheddiad Cymreig yn y ddeuddegfed ganrif. Ymgorfforwyd y mwnt yn y castell Edwardaidd ac roedd y beili yn rhagflaenu marchnad y dref (y Maes).

*Mae caer Rufeinig Segontium, yn y blaendir yn yr olygfa hon o Gaernarfon o'r awyr, yn rhagddyddio adeiladu'r dref a'r castell ar safle agosach i'r arfordir (Skyscan Balloon Photography ar ran Cadw).*



Un agwedd yn unig ar fywyd economaidd y dref ganoloesol oedd y farchnad. Roedd masnach forol yn bwysig o'r cychwyn cyntaf: roedd un o ddau borth y dref yn arwain yn uniongyrchol at y cei ac afon Cadnant oedd lleoliad melinau'r dref, yn ogystal â phorthladd cynnar bach.

Mae hanes diweddarach y safleoedd hyn yn adlewyrchu'r broses o ddatblygu economi a diwylliant y dref yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg wrth iddi fabwysiadu swyddogaeth newydd fel porthladd allforio llechi mawr a rôl newydd fel canolfan ddiwylliannol, weinyddol a masnachol ranbarthol. O ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd yr hen gei yn rhodfa rhwng y cei llechi ar afon Seiont a'r dociau ger aber afon Cadnant (sianelwyd yr afon ei hun yn bennaf ac adeiladwyd drosti). Roedd y farchnad yn sgwâr trefol trawiadol gydag adeiladau masnachol a phreswyl o statws uchel o'i amgylch. Yn y cyfnod hwn yr adeiladwyd neu yr ailadeiladwyd y rhan fwyaf o'r adeiladau o fewn y muriau a thyfodd y dref yn rhy fawr i'r ardal amgaeedig mewn ton o ehangiad maestrefol.

Er i'r dref barhau i ehangu yn yr ugeinfed ganrif, collodd ei rôl fel tref ddiwydiannol a thref porthladd, a dirywiodd ardaloedd y glannau a ataliwyd gan weithgarwch adfywio diweddar.

*Cafodd datblygiad Caernarfon yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ei lywio gan y diwydiant llechi. Mae'r cerdyn post hwn yn dangos y Cei Llechi a swyddfa'r harbwr a llechi wedi'u pentyrru'n barod i'w cludo mewn llongau (Gwasanaeth Archifau Gwynedd).*



### A2.2.2 Tirwedd Hanesyddol

Mae cynllun gwreiddiol y sefydliad canoloesol wedi goroesi yn rhyfeddol o fewn ardal y muriau. Mae'r patrwm strydoedd, y llinellau adeiladu a'r lleiniau wedi'u cadw, yn arbennig yn hanner gogleddol y cynllun grid canoloesol. Dim ond yn y cwadrant de-orllewinol yr amharwyd yn sylweddol ar y patrwm canoloesol hwn yn ei hanfod — sy'n gysylltiedig â neuadd y sir yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a swyddfeydd y cyngor sir yn yr ugeinfed ganrif.

Un o ganlyniadau economi ffyniannus ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd ehangiad trefol cyflym. Erbyn yr ail ganrif ar bymtheg, gwelwyd datblygiad maestrefol sylweddol eisoes wedi'i glystyru o amgylch y prif borth dwyreiniol i'r dref ac ar hyd rhai o'r ffyrdd a arweiniai ato, ond ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwelwyd twf trefol mwy systemataidd yn datblygu. Daeth y Maes yn sgwâr trefol mawr a datblygwyd maestref gynlluniedig (Tre'r Gof) o 1824. Arweiniodd hyn at gyfnod hir o dwf trefol wrth i'r dref ehangu gyda datblygiad hirfain ar hyd y prif strydoedd a blociau wedi'u gosod ar dir a arferai fod yn dir amaethyddol.

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, creodd pyrth a bylchau newydd ym muriau'r dref gysylltiadau ffisegol rhwng y dref amgaeedig a datblygiadau y tu hwnt iddi. Cadwodd y maestrefi eu hunain eu cyfanrwydd hyd nes yr adeiladwyd y ffordd liniaru fewnol yn 1970, a yrrodd hollt rhyngddynt gan dorri cysylltiadau â'r dref furiog.

*Map o Gaernarfon.*




© Crown Copyright and database right 2017. Ordnance Survey 100021874.

*Roedd y Maes wedi dod yn sgwâr trefol mawr erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fel y dengys yr olygfa hon o 1850 gan W. Wood (llun uchaf) (Gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru). Roedd Tre'r Gof yn un o nifer o faestrefi a gynlluniwyd ac a ddatblygwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (ochr chwith gwaelod) (© Hawlfraint y Goron: CBHC). Mae'r olygfa hon o'r awyr yn dangos sut mae tref gaerog Caernarfon wedi cadw ei chynllun grid canoloesol (ochr dde gwaelod) ((© Hawlfraint y Goron: CBHC).*







## A2.2.3 Nodweddion Adeiladu

Ac eithrio eglwys y Santes Fair, ni wyddys am unrhyw adeiladau cynnar o fewn muriau'r dref, ond mae o leiaf un tŷ o ddiwedd y canoloesoedd wedi goroesi (6 Stryd y Plas) ac mae'n bosibl y gellid darganfod mwy o adeiledd cynnar o fewn adeiladau sy'n ymddangos fel petaent yn dyddio o gyfnod diweddarach.

Mae llawer o gymeriad adeiledig y dref furiog yn adlewyrchu ei ffyniant cynyddol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ceir rhai adeiladau dinesig a gweinyddol pwysig (fel hen neuadd y sir), yn ogystal â chyfres gain o adeiladau masnachol, yn cynnwys neuadd y farchnad, tafarn The Castle Vaults a siopau ar Stryd y Porth Mawr a Stryd Bangor. Caiff statws y dref fel canolfan gymdeithasol o ddiwedd y ddeunawfed ganrif hefyd ei gadarnhau mewn adeiladau preswyl cain, fel Castle House (1768), Tower House (dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg) a 10–12 Stryd y Castell (ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg). Dangosir bywiogrwydd parhaus y dref ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ansawdd llawer o'r adeiladau (gweler, er enghraifft, Y Bont Bridd a Stryd Bangor).

Roedd nodweddion amrywiol i'r adeiladau yn y maestrefi, yn amrywio o filâu dosbarth canol ffyniannus i dai crefftwyr, o siopau a gwestai i ysgolion a sefydliadau eraill, yn arbennig capeli.

*Mae Gwesty'r Castell a'i deras cysylltiedig yn cynnig ffryntiad ffurfiol i'r Maes ((© Hawlfraint y Goron: CBHC).*





*Mae patrwm amrywiol adeiladau ar y Cei Llechi yn adlewyrchu'r mentrau niferus a weithredai yma. Mae swyddfa'r harbwr, wedi'i hadeiladu mewn carreg nadd gain, yn y blaendir (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

Gwnaed yr adeiladau cynharaf sydd wedi goroesi — y castell, muriau'r dref a'r eglwysi — o garreg, a oedd yn ddeunydd statws uchel nad oedd ar gael i adeiladwyr domestig yn y cychwyn mae'n debyg. Mae'r adeiladau domestig cynharaf yn y dref yn dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg, ac roedd ganddynt ffrâm pren yn wreiddiol. Erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif a thrwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, defnyddiwyd carreg yn eang wrth adeiladu, ond anaml y byddai'n cael ei gadael yn foel: rendr oedd y gorffeniad o ddewis, ag amrywiaeth o driniaethau addurniadol. Dyma'r deunydd adeiladu amlycaf yn y dref o bell ffordd. Roedd carreg a orffennwyd yn gain a ddefnyddiwyd i orchestu yn dynodi cyfoeth a statws (er enghraifft, swyddfa'r porthladd, hen neuadd y sir a Phlas Bowman). Roedd cerrig llanw mwy garw yn gysylltiedig ag adeiladau gweithredol (warysau ac adeiladau gwaith eraill ar y ceiau a'r dociau), neu â chefnau adeiladau nad oedd bwriad iddynt gael eu gweld. O ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dan ddylanwad yr adfywiad gothig, defnyddiwyd carreg hefyd i ddynodi gonestrwydd ac uniondeb strwythurol (er enghraifft, estyniadau neuadd y sir a swyddfeydd cyngor y dref). Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn sgil trafnidiaeth well ar reilffyrdd a dŵr, cyflwynwyd deunyddiau dieithr wedi'u gweithgynhyrchu — ymysg noddwyr arwyddocaol deunyddiau o'r fath a fewnforiwyd roedd banciau a chapeli.

Hanes datblygu cymharol fyr sydd i'r adeiladau yng nghraidd hanesyddol Caernarfon (y dref furiog a'i maestrefi cyfagos). Mae'r rhan fwyaf yn deillio o waith adeiladu neu ailadeiladu yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac mae llawer yn cydymffurfio'n eang ag egwyddorion clasurol Sioraidd, gyda geometreg syml heb lawer o addurniadau.

### A2.2.4 Datganiad o Arwyddocâd

Mae Caernarfon yn dref ganoloesol bwysig ac erys llawer o nodweddion gofodol ei sylfaen ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg yn ei chraidd hanesyddol. Er bod mân elfennau o waith adeiladu wedi goroesi o ganrifoedd olynol, datblygiadau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a gafodd y dylanwad mwyaf pendant ar ffurf a manylion y dref. Adeiladwyd neu ailadeiladwyd llawer o'r adeiladau o fewn y muriau yn y degawdau ar ôl tua 1800, wrth i Gaernarfon ennill ei phlwyf eto fel canolfan ranbarthol economaidd, gymdeithasol a diwylliannol. Yn y cyfnod hwn hefyd, tyfodd y dref y tu hwnt i'w muriau mewn cyfres o ddatblygiadau maestrefol, sydd

*Datblygiad ffurfiol o dai trefol mawr yw Teras Segontium, sy'n edrych dros y Cei Llechi. Mae wedi'i rendro yn y tu blaen (ochr chwith), gan na fwriadwyd i'r rwbl na'r brics gael eu gweld felly fe'u gadawyd heb eu gorchuddio (ochr dde) (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*





hefyd yn adlewyrchu economi a chymdeithas amrywiol tref a oedd wrth wraidd y chwyldro diwydiannol yng ngogledd Cymru. O ganlyniad, mae gan y dref nodweddion pensaernïol trefol cryf a chydlynol, o fewn y muriau a thu hwnt.

# A2.3 Conwy

## A2.3.1 Cefndir Hanesyddol

Datblygwyd castell a muriau trefi Conwy ar yr un pryd yn 1283 a chafodd y fwrdeistref ei siarter yn 1284. Erbyn diwedd 1285, roedd amddiffynfeydd cryf y dref yn gyflawn i bob pwrpas. O fewn deng mlynedd, roedd 112 o fwrdeisi a 99 o ddinasyddion — poblogaeth fewnfudol o sawl rhan o Loegr. Roedd y dref yn dilyn cynllun pendant, a sefydlodd fframwaith parhaus sydd wedi goroesi canrifoedd o newid, yn cynnwys difrod sylweddol yn ystod chwyldro Owain Glyndŵr (1401).

Fel trefi newydd eraill yn ystod y cyfnod hwn, nid y fwrdeistref Edwardaidd oedd yr anheddiad cyntaf ar y safle. Adeiladwyd abaty Sistersaidd yma yn 1192 ac fe'i defnyddiwyd fel man claddu tywysogion Cymru yn y drydedd ganrif ar ddeg. Roedd ganddynt eu preswylfa eu hunain yma hefyd, a gadwyd ac a ymgorfforwyd ym muriau'r dref. Symudwyd y mynachdy i Faenan, ond cadwyd eglwys yr abaty ar gyfer y dref.

Roedd y fwrdeistref mewn lleoliad manteisiol ger aber afon Conwy a chafodd gei o'r cychwyn cyntaf, a daeth yn fan masnach pwysig. Ffynnodd am beth amser fel canolfan economaidd a chymdeithasol, er bod ei phwysigrwydd wedi dechrau dirywio erbyn yr ail ganrif ar bymtheg,

*Mae cynllun y castell a'r dref a gafodd eu cynllunio a'u hadeiladu gyda'i gilydd rhwng 1283 a 1287 yn amlwg yn yr olygfa hon o Gonwy o'r awyr.*




a arweiniodd at gyfangu'r ardal adeiledig o fewn y muriau. Mor ddiweddar â'r 1830au, dywedwyd 'a very considerable proportion of the area within the walls is occupied as garden ground, and the houses are comparatively few and in detached situations'. Fodd bynnag, erbyn hyn, roedd prosesau gwella ac ehangu eisoes ar waith. Arweiniodd y broses o ddisodli'r hen fferi gan bont grog newydd Telford, a adeiladwyd yn 1826 fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r ffordd o Lundain i Gaergybi, at gyfnod newydd o weithgarwch economaidd, a gafodd hwb gan ddyfodiad y rheilffordd tua ugain mlynedd yn ddiweddarach. Dechreuodd y dref lenwi ag adeiladau, er ei bod wedi'i chynnwys o fewn ei muriau i raddau helaeth tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Y tu allan i'r muriau, adeiladodd diwydianwyr ac eraill filâu gwyliau sylweddol, gan ffurfio ystadau bach, ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn yr ugeinfed ganrif, lledaenodd datblygiad maestrefol o natur wahanol — yn cynnwys datblygiadau bach dwysedd isel yn bennaf — i'r gogledd o Ddyffryn Gyffin tua mynydd Conwy.

### A2.3.2 Tirwedd Hanesyddol

Lleolir Conwy ar gyflifiad afon Conwy ac afon Gyffin, ar safle dramatig a serth. O fewn y muriau, mae cynllun gwreiddiol y dref wedi goroesi'n dda: roedd yn cynnwys dwy brif stryd sy'n ffurfio siâp T. Rhedai echel Stryd y Castell/Stryd Berry yn gyfochrog â'r cei; rhedai'r Stryd Fawr i fyny'r allt o'r porth isaf ar y cei i'r farchnad ger Sgwâr Lancaster. O'r porth uchaf, rhedai stryd gul i lawr yr allt

*Map o Gonwy.*




© Hawlfraint a hawl cronfa ddata'r Goron 2017. Arolwg Ordnans 100021874.

at Stryd Berry, yn gyfochrog â'r Stryd Fawr. Arweiniai trydydd porth at felin y dref ar afon Gyffin. Mae'n debyg i fwrdeisi gael eu gosod ar hyd y strydoedd hyn, a roddodd strwythur i'r patrwm adeiladu ar ôl hynny ac a ddylanwadodd ar safle strydoedd diweddarach o bosibl, yn arbennig yn yr ardal i'r gogledd-orllewin o'r Stryd Fawr.

Roedd marchnad y dref wedi'i lleoli yn ardal Sgwâr Lancaster, yn ymestyn mor bell â llinellau York Place a Church Street, cyn gwaith mewnlenwi diweddarach.

O'r cychwyn cyntaf, roedd datblygiadau yng nghwadrant deheuol y dref wedi'u cyfyngu oherwydd lleoliad yr eglwys a'i chaeadle a oedd yn waddol o'r abaty gynt. Ger rhan ddeheuol mur y dref, mae'n debyg na chafodd y tir o amgylch Neuadd Llywelyn ei ddatblygu erioed. Ni ddatblygwyd Stryd Rosehill, ardal bendant a oedd yn cynnwys adeiladau barnwrol a gweinyddol mae'n debyg nes i Owain Glyndŵr ymosod ar y dref yn 1401, tan y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

*Mae'r olygfa 'llygad yr aderyn' ysblennydd hon o Gonwy gan artist anhysbys yn dangos cynllun y castell a'r dref oddeutu 1600 (Gyda chaniatâd Ardalydd Salisbury, Tŷ Hatfield, CPM I/62)/*



*Mae Porth y Felin yn un o dri phorth canoloesol Conwy ac arweiniai at felin y dref ar Afon Gyffin.*



Mae'n debyg bod yr ardal rhwng Chapel Street/Upper Gate Street a hyd gogledd-orllewinol mur y dref yn erddi a thir agored erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yma, mae patrwm datblygu nodweddiadol o strydoedd bach o dai teras yn awgrymu patrwm hirfain cynharach, er nad yw'n ei adlewyrchu'n llwyr o bosibl.

Cafodd datblygiadau mewn trafnidiaeth effaith radical ar ffurf a nodweddion y dref. Yn y 1820au, peiriannodd Telford lwybr newydd drwyddi, gyda mynediad yn union i'r gogledd o'r castell, porth newydd drwy'r muriau y tu hwnt i Sgwâr Lancaster, a ffordd newydd y tu hwnt i hynny (Bangor Street). Yn y 1840au, torrodd y rheilffordd ystod drwy'r dref, gan dorri drwy'r muriau i'r gorllewin o'r castell, a thwnelu o dan Upper Gate Street. Yn ddiweddarach fyth, pan grëwyd Porth yr Aden/Town Ditch Road, cyflwynwyd llwybr arall ar gyfer traffig drwodd.

Ni chafwyd datblygiadau helaeth y tu hwnt i'r muriau, er, erbyn diwedd y drydedd ganrif ar ddeg, roedd eiddo ar y cei ac yn Nhwthil i'r gogledd o'r dref. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd y caeau a arferai amgylchynu'r dref yn dechrau cael eu defnyddio ar gyfer datblygiadau maestrefol. Roedd hyn yn amrywio o ystadau boneddigion ar raddfa fach, fel Bodlondeb a Bryn Corach, i filâu a therasau gweithwyr. Yn yr ugeinfed ganrif, y patrwm caeau hwn oedd y sail ar gyfer ehangiad tameidiog, gyda thai unigol i ddechrau, yna ystadau tai bach.

*Mae Sgwâr Lancaster ar safle'r farchnad ganoloesol ((© Hawlfraint y Goron (2017) Croeso Cymru).*



*Mae'n debyg bod y geudai canoloesol sy'n ymestyn dros fur y dref yn gwasanaethu swyddfeydd gweinyddwyr canoloesol a fyddai wedi'u lleoli ar safle yn agos i Stryd Rosehill.*



*Nodir olion Neuadd Llywelyn — yr unig adeilad canoloesol sydd wedi goroesi yng Nghonwy ar wahân i'r castell a'r eglwys — gan y tair ffenestr fach ym mur y dref.*





*Roedd Tŷ Aberconwy, sef tŷ aml-loriog â thrawstiau to yn dyddio o tua 1420, yn gartref i farsiandwr cyfoethog fwy na thebyg.*

## A2.3.3 Nodweddion Adeiladu

Ac eithrio'r castell, yr eglwys ac olion Neuadd Llywelyn, nid oes unrhyw adeiladau canoloesol yng Nghonwy. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod Tŷ Aberconwy (tua 1420) wedi goroesi yn rhoi blas prin o lety masnachwr ar ddiwedd y canoloesoedd. Mae Plas Mawr yn symbol o statws y dref ar ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg a chyfoeth ac uchelgais ei noddwr, Robert Wynn. Ceir olion adeiladau eraill o'r unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg yng nghanol y dref, ac mae'n bosibl bod mwy ohonynt heb eu darganfod eto.

Ffynnodd y dref yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif. Mae'r rhan fwyaf o adeiladau canol y dref yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg pan ddechreuodd y dref adfywio. Maent yn amrywio o ddatblygiadau dinesig a masnachol sylweddol, fel neuadd y dref a'r Castle Hotel, i resi o fythynnod teras cyffredin, fel Erskine Terrace a Seaview Terrace. Mae'r tai teras a welir yn rhan ogledd-orllewinol y dref yn bennaf yn un o nodweddion trefol arbennig Conwy ac yn gwrthgyferbynnu â nodweddion eithaf masnachol y datblygiadau ar hyd y ddwy brif stryd.

Mae'n debyg bod tai cynnar wedi cyfuno pren â charreg (fel yn Nhŷ Aberconwy), ond carreg oedd y prif ddeunydd adeiladu yn fuan wedyn. Carreg leol a ddefnyddiwyd yn bennaf, ond pan ddaeth carreg wedi'i hamlygu yn ffasiynol o ganol i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, defnyddiwyd carreg wedi'i mewnforio weithiau hefyd. Fodd bynnag, roedd defnyddio carreg wedi'i hamlygu yn beth prin o hyd, ac mae'r defnydd o rendr (a ddisodlodd wyngalch o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg) yn gyffredin. Ceir mân wahaniaethau yn y defnydd a wneir o hyn — o orffeniadau syml ar gyfer adeiladau domestig bach i gynlluniau addurniadol mwy coeth ar gyfer adeiladau masnachol. Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, yn aml, câi rendrau esmwyth eu cyfuno â gro chwipio mewn amrywiaeth o driniaethau addurniadol. Yn aml, byddai datblygiadau maestrefol o'r ugeinfed ganrif yn dilyn y traddodiadau hyn, a olygai bod rendr hefyd yn ddeunydd cyffredin.



*Mae Plas Mawr yn dŷ trefol ysblennydd o oes Elisabeth sy'n adlewyrchu cyfoeth a statws ei berchennog Robert Wynn.*



*Daeth tai wedi'u rendro, fel y rhai yn Berry Street, yn gyffredin yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.*

## A2.3.4 Datganiad o Arwyddocâd

Amddiffynnwyd Conwy gan ei chastell a muriau tref cadarn. Mae'r ffaith bod y muriau wedi goroesi'n llwyr bron yn rhoi ymdeimlad eithriadol o gaeadle hyd heddiw i'r dref hanesyddol. Ceir gwahaniaeth amlwg rhwng dwysedd y datblygiadau o fewn y muriau a'r cynlluniau maestrefol mwy eang y tu hwnt iddynt. O fewn y muriau, mae'r dref wedi cadw holl brif elfennau ei chynllun canoloesol — patrwm strydoedd, caeadle'r eglwys a'r farchnad. Gyda rhai eithriadau amlwg, nodweddion o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a welir ar y rhan fwyaf o'r adeiladau ar y prif strydoedd, ond mae eu hamrywiaeth yn adlewyrchu patrwm lleiniau sydd wedi goroesi fel gwaddol o ddyddiau cyntaf y dref. Roedd y gofod o fewn y muriau hefyd yn lleoliad i'r camau cyntaf o dwf trefol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac mae rhesi o fythynnod teras yn rhedeg i fyny at y muriau yn un o nodweddion arbennig canol y dref.

Mae datblygiad maestrefol Conwy yn cynnwys rhai elfennau o waith ehangu o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond tai o'r ugeinfed ganrif a welir yn bennaf, yn cynnwys rhai enghreifftiau nodedig o arddulliau adfywiad cynhenid a chynllun agored nodweddiadol.

*Bythynnod teras gweddol fach o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn Nheras Erskine (llun uchaf) a Stryd Watkin (islaw) (© Hawlfraint Cyngor Bwrdeistref Conwy).*





# A2.4 Harlech

## A2.4.1 Cefndir Hanesyddol

Cafodd tref Harlech ei siarter fel bwrdeistref rydd yn 1284, tra roedd y gwaith ar y castell yn dal i fynd rhagddo. Tref fechan ydoedd, gyda phoblogaeth a gofnodwyd o ddim ond 11 o ddynion, 12 o ferched a 21 o blant yn 1294. Yn 1312, roedd ganddi 291/4 o fwrdeisi. Roedd y dref mewn lleoliad anarferol a heriol 'situated on a rock' ac, er bod ganddi farchnad a dwy ffair flynyddol, nid oedd yn ffynnu oherwydd ei lleoliad anghyfleus ar gyfer masnach a diwydiant. Dioddefodd ymhellach yn ystod gwrthryfel Glyndŵr ac erbyn dechrau'r ail ganrif ar bymtheg, roedd yn 'a very poore towne ... having no trade or traphicke nor other means to live.'

Roedd gan y fwrdeistref ganoloesol farchnad a rhai swyddogaethau gweinyddol (hon oedd tref sirol Meirionydd cyn i Ddolgellau gymryd y rôl honno), ond, yn ôl ysgrifau Richard Fenton ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd yn 'the most forlorn, beggarly place imaginable'.

Dechreuodd Harlech ffynnu yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, wedi'i hysbrydoli'n bennaf gan dwristiaeth ac wedi'i chefnogi i ryw raddau gan ddiwydiant. Dechreuodd teuluoedd tirfeddiannol a fu'n rhentu tiroedd bwrdeistrefol fuddsoddi mewn gwelliannau. Yn y 1830au, darparodd teulu Vaughan o Nannau dafarn goetsh (drwy ailfodelu eu tŷ trefol gynt o bosibl) ynghyd â thir ar gyfer codi eglwys, ac, yn y 1840au, adeiladodd y teulu Ormsby-Gore siopau a thai. Un o'r rhai a wnaeth elwa fwyaf o'r dref ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd Samuel Holland, perchennog chwarel o Flaenau Ffestiniog, a lwyddodd i adeiladu a gwella sawl eiddo, yn cynnwys y Castle Hotel, ynghyd â gwestai eraill, lletyau a filâu.

*Gellir dirnad cynllun y dref ganoloesol o hyd  yn yr olygfa hon o Harlech o'r awyr (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Hen Westy'r Castell, a adeiladwyd gan y perchennog chwareli Samuel Holland, yw'r adeilad mawr yn y blaendir uwchlaw Castell Harlech. Ymhellach draw, mae'r dref fach yn cynnwys llawer o adeiladau o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.*





*Adeiladwyd Wern Fawr yn 1908 yn unol â chynlluniau'r pensaer George Walton o'r Alban, a fu'n rhan o fudiad y Celfyddydau a'r Crefftau. Daeth yn Goleg Harlech yn 1927. Ychwanegwyd y theatr i'r dde o'r llun hwn yn 1973 (© Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd).*

Daeth y datblygiadau hyn ochr yn ochr â chyfres o welliannau i drafnidiaeth: gwnaeth ffyrdd newydd hi'n haws i gael mynediad i'r dref a thrwyddi, ac roedd dyfodiad y rheilffordd yn 1867 yn arwydd o gynnydd dramatig yn ffyniant y dref.

Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd Harlech yn gyrchfan glan y môr a golffio. Roedd hefyd wedi dechrau cael enw da fel canolfan ddiwylliannol a deallusol ymysg cenhedlaeth newydd o ymwelwyr a thrigolion. Mae eu dylanwad yn cynnwys cyfres hyfryd o dai Celf a Chrefft fel craidd datblygiad maestrefol.

Un o gynhyrchion mwyaf hynod y cyfnod hwn oedd Wern Fawr, a adeiladwyd yn 1907 fel cartref preifat George Davison, noddwr y celfyddydau, dyn busnes a radical gwleidyddol, ond a ddaeth yn Goleg Harlech yn 1927.

Yn ystod yr ugeinfed ganrif, lledaenodd yr anheddiad yn raddol dros y llechwedd o amgylch y fwrdeistref ganoloesol. Ar ôl tua 1960, cafodd tir ar y Morfa ei ddatblygu ar gyfer adeiladu tai.

*Mae'r datblygiad tai ar y Morfa yn dyddio o'r 1960au ac yn ddiweddarach na hynny.*




## A2.4.2 Tirwedd Hanesyddol

Nid fu'r fwrdeistref ganoloesol yn furiog erioed, ond er gwaethaf ei lleoliad lletchwith a'i graddfa fach, roedd yn cynnwys llawer o elfennau tref gynlluniedig: strydoedd a lleiniau cynlluniedig, a marchnad. Nid yw'r nodweddion hyn bob amser yn amlwg yn y treflun modern, naill ai am na chawsant eu hatgyfnerthu gan genedlaethau o anheddiad a datblygiad, neu am iddynt gael eu haddasu gan newidiadau i gynllun y dref yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Roedd cynllun grid i'r dref wreiddiol, er mai ar raddfa fach ydoedd, gyda'r brif echel ar y Stryd Fawr a Phenllech, a stryd groes ar hyd Pendref a Maesgwyn. Gall y gyffordd groesgam lle mae'r strydoedd hyn yn cwrdd fod wedi bod yn ardal farchnad, ond mae'r tir yn union i'r dwyrain o'r castell yn fwy tebygol, lle y lleolwyd hen neuadd y dref. Prin oedd y bwrdeisi a phrin iawn yw'r rhai sydd wedi goroesi, ond ceir olion y strwythur lleiniau canoloesol i'r gorllewin o'r Stryd Fawr ac i'r dwyrain o Benllech.

*Map o Harlech.*




© Hawlfraint a hawl cronfa ddata'r Goron 2017. Arolwg Ordnans 100021874.

Y tu hwnt i gyfyngiadau'r fwrdeistref, roedd anheddiad bach yn bodoli ym Mhentre'r Efail erbyn yr ail ganrif ar bymtheg, gyda thoriad llethr serth yn ei wahanu oddi wrth y dref. Fel arall, ni wnaeth y dref ehangu rhyw lawer y tu hwnt i'w chyfyngiadau canoloesol tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan ddechreuwyd gweld datblygiadau o ddifrif ar hyd ffyrdd newydd ac ar hen dir ffermio. Roedd y datblygiad hwn yn eang yn nodweddiadol, ac i ffwrdd oddi wrth ganol y dref; mae Harlech yn dref werdd a deiliog iawn.

Cafodd y newidiadau mewn trafnidiaeth effaith fawr ar siâp a nodweddion y dref. Erbyn 1840, yn sgil ffordd well ar draws y gors (yr A496 bellach), ffordd ddynesu newydd i'r dref o'r de (Ffordd Isaf) a ffordd newydd i'r gogledd o ganol y dref (parhad y Stryd Fawr) llwyddwyd i osgoi llethr serth llwybrau cynharach, a grëodd gyfleoedd ar gyfer datblygiadau newydd. Ar ôl 1867, creodd y rheilffordd gnewyllyn bach ar gyfer anheddiad ger yr orsaf, gan arwain at ddatblygu ac ehangu'r dref fel cyrchfan.

I'r gorllewin, er ei bod yn bosibl bod mynediad uniongyrchol i lifddor y castell o'r môr ers peth amser, mae presenoldeb systemau caeau a oedd yn perthyn i'r trigolion cynnar yn awgrymu na lifodd y Morfa yn llwyr erioed. Cafodd y gors ei draenio ar ôl Deddf Cau Tir 1806.

*Mae'r cysylltiadau ffordd a rheilffordd modern, ynghyd â datblygiad o'r ugeinfed ganrif, yn ymestyn dros dir isel y Morfa. Mae ffiniau'r dref ganoloesol wedi'u pennu gan y llethr creigiog ger y castell, sy'n nodwedd amlwg o hyd yn y dirwedd.*



### A2.4.3 Nodweddion Adeiladu

Fel ei bwrdeistrefi canoloesol cyfoes, mae nodweddion yr adeiladau yn Harlech yn adlewyrchu hanes mwy diweddar; ymysg yr eithriadau mae Tŷ Eiddew, tŷ sy'n dyddio o tua 1500 a sawl tŷ sy'n dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif. Nodweddion cynhenid sydd i'r adeiladau cynharach hyn o ran eu defnydd o ddeunyddiau a chynllun, a chawsant eu hadeiladu fesul un.

Cafodd buddsoddiad yn y dref yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg effaith fawr ar ei nodweddion pensaernïol. Ymysg y datblygiadau a gynlluniwyd roedd tai teras (bythynnod chwarelwyr yn ogystal â lletyau) ac arddulliau adeiladu nodedig, fel y rhai sy'n gysylltiedig â nawdd Samuel Holland. I'r gwrthwyneb, tai unigol a welwyd yn bennaf yn y datblygiadau o ddechrau'r ugeinfed ganrif, y cafodd rhai ohonynt eu dylunio gan benseiri.

Mae nodweddion adeiledig y dref yn ddomestig tu hwnt: ffurf domestig a geir i'r holl adeiladau masnachol bron ac mae'r eglwys a'r capeli niferus yn gymharol fach. Ni cheir unrhyw brif adeiladau cyhoeddus.

Carreg yw'r prif ddeunydd adeiladu, a gafwyd o chwareli yng nghyffiniau'r dref. Mae'n debyg iddi gael ei gwyngalchu ar adeiladau cynharach, ond, o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwelwyd blas am garreg wedi'i hamlygu. Yn yr ugeinfed ganrif, hefyd, roedd penseiri ac adeiladwyr a ysbrydolwyd gan y mudiad Celf a Chrefft yn ffafrio gorffeniad garw.

*Mae Tŷ Eiddew yn dyddio'n ôl i tua 1500 ac mae'n enghraifft brin o adeilad brodorol cynharach yn Harlech (© Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd).*



*Tai teras o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a adeiladwyd ar y clogwyn coediog i'r de o'r castell.*





*Mae gan Crown Lodge, hefyd o waith George Walton, orffeniad garw a ffafriwyd gan benseiri'r Celfyddydau a'r Crefftau (© Hawlfraint: Crown Lodge, Harlech).*

## A2.4.4 Datganiad o Arwyddocâd


Harlech yw'r fwrdeistref ganoloesol leiaf sy'n gysylltiedig â'r Safle. Daw llawer o nodweddion y dref o'i safle dramatig ar deras creigiog rhwng y morfa a'r ucheldir. Mae ei tharddiad canoloesol wedi esgor ar elfennau o batrwm strydoedd a lleiniau y gellir eu holrhain o hyd ac, o'i hanes hir, mae rhai adeiladau wedi goroesi o ddiwedd y cyfnod canoloesol.

Fodd bynnag, mae llawer o'i nodweddion adeiledig yn deillio o'i hanes o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, gyda thri chyfnod penodol o fuddsoddiad yn gysylltiedig ag ail-greu tref a arferai fod yn dlawd fel cyrchfan bictiwrésg. Cyfrannodd teuluoedd tirfeddiannol, diwydiannwr a noddwyr diwylliannol nodweddion pensaernïol trawiadol i'r dref. Mae'r craidd trefol yn gymysgedd amrywiol o adeiladau cynhenid bach ochr yn ochr â filâu bonheddig a therasau o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Caiff ei amgylchynu gan y datblygiadau helaeth o ddechrau'r ugeinfed ganrif, sy'n cynnwys rhai enghreifftiau hynod o bensaernïaeth Celf a Chrefft.


# Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd

Atodiad 3


Mapiau a Chynlluniau o'r Castell a Muriau'r Dref



## A3.1 Beaumaris Castle



# A3.2 Caernarfon Castle




Tudalen 220



Proof

## A3.3 Caernarfon Town Walls






Proof

## A3.4 Conwy Castle







**Enwau Ystafelloedd y Wardiau Mewnol sy'n Deillio o Arolwg 1627**
*(Yr Archifdy Gwladol, SP 16/89/25)*

1 The Great Chamber
2 The Presence Chamber
3 The Privy Chamber
4 A Large Arched Roome used for a Cellar
5 A Like Large Roome used for a Kitchen
6 A Faire Lowe Parlor
7 A Litle Roome used as a Buttery (?)

Muriau sy'n Sefyll/Sylfeini Gweladwy

Muriau Coll/Wedi'u Claddu






Proof

## A3.5 Conwy Town Walls





Tudalen 223



Proof


## A3.6 Harlech Castle








Proof



# Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd

## Atodiad 4

## Cyfeiriadau, Gwybodaeth Bellach a Chysylltiadau



Proof

# A4.1 Cyfeiriadau


1 John R. Kenyon, 'Kyffin Williams and the guidebooks to the four great Edwardian castles of North Wales: a bibliographic essay', *The Castle Studies Group Journal 27* (2013–14) 241–44.

2 UNESCO yw Mudiad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig. http://en.unesco.org/

3 *Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017*. http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/worldheritagesites/?skip=1&lang=cy

4 *Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017*. http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/worldheritagesites/?skip=1&lang=cy

5 A. J. Taylor, *The History of the King's Works in Wales 1277–1330*, (cyhoeddwyd yn wreiddiol yn R. A. Brown, H. M. Colvin and A. J. Taylor, *The History of the King's Works*, Llundain, 1963); a ailgyhoeddwyd fel cyfrol ar wahân yn 1974 ac unwaith eto, fel Arnold Taylor, *The Welsh Castles of Edward I* (Llundain, 1983).

6 *Managing Cultural World Heritage*, UNESCO/ICCROM/ICOMOS/IUCN, 2013. http://whc.unesco.org/document/125839

7 *Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru, Llywodraeth Cymru*, Cadw, 2017. http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/worldheritagesites/?skip=1&lang=cy

8 *Management Plans for World Heritage Sites — A Practical Guide*, UNESCO 2008.

9 *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol, para. 6.5.2, Llywodraeth Cymru, 2016. http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy

10 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/contents

11 *Glannau Caernarfon: Deall Nodweddion Trefol, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru*, 2010. http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Urban_Character_Caernarfon_Waterfront_CY.pdf

12 Diane M. Williams and John R. Kenyon (gol) *The Impact of the Edwardian Castles in Wales* (Rhydychen, 2010).

13 Interpretation Plan for the Castles and Town Walls of Edward I, PLB Consulting, Mai 2010. http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/InterpplanCastlesEdwardI_EN.pdf

14 Jeremy A. Ashbee, *Beaumaris Castle* (Caerdydd, 2017), Jeremy A. Ashbee, *Conwy Castle and Town Walls* (Caerdydd, 2007), Jeremy A. Ashbee, *Harlech Castle* (Caerdydd, 2017).

15 Castles and Town Walls of King Edward in Gwynedd: Periodic Report — Second Cycle, 2013. http://whc.unesco.org/archive/periodicreporting/EUR/cycle02/section2/groupa/374.pdf

16 Cyhoeddir y Datganiad o Werth Cyffredinol gan UNESCO. http://whc.unesco.org/en/list/374

17 *Convention Concerning the Protection of World Cultural and Natural Heritage*, UNESCO, 1972. http://whc.unesco.org/en/conventiontext/

18 A. J. Taylor, *The History of the King's Works in Wales 1277–1330*, (a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn R. A. Brown, H. M. Colvin and A. J. Taylor, *The History of the King's Works*, London, 1963); a ailgyhoeddwyd fel cyfrol ar wahân yn 1974 ac unwaith eto, fel Arnold Taylor, *The Welsh Castles of Edward I* (Llundain, 1983).

19 Ers 2015 Cyfoeth Naturiol Cymru fu'n gyfrifol am hyn.

20 *Operational Guidelines for the Implementation of the World Heritage Convention*, UNESCO. http://whc.unesco.org/en/guidelines/

21 *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017. http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=24&lang=cy
*Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* 1.25, Llywodraeth Cymru, 2017. http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan7/?skip=1&lang=cy

22 *Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017. http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/worldheritagesites/?skip=1&lang=cy

23 A. J. Taylor, *The History of the King's Works in Wales 1277–1330*, (a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn R. A. Brown, H. M. Colvin ac A. J. Taylor, *The History of the King's Works*, Llundain, 1963); a ailgyhoeddwyd fel cyfrol ar wahân yn 1974 ac unwaith eto, fel Arnold Taylor, *The Welsh Castles of Edward I* (Llundain, 1983).

24 The *Mabinogion,* cyfieithwyd gan Sioned Davies (Rhydychen, 2008).

25 Diane M. Williams a John R. Kenyon (gol), *The Impact of the Edwardian Castles in Wales* (Rhydychen, 2010).

26 K. Lilley, C. Lloyd, S. Trick, *Mapping the Medieval Townscape: A Digital Atlas of the New Towns of Edward I* (2005) — Caernarfon, Trafodaeth. http://archaeologydataservice.ac.uk/archives/view/atlas_ahrb_2005/

27 K. Lilley, C. Lloyd, S. Trick, *Mapping the Medieval Townscape: A Digital Atlas of the New Towns of Edward I* (2005) — Trafodaeth Conwy. http://archaeologydataservice.ac.uk/archives/view/atlas_ahrb_2005/

28 K. Lilley, C. Lloyd, S. Trick, *Mapping the Medieval Townscape: A Digital Atlas of the New Towns of Edward I* (2005) — Trafodaeth Biwmares. http://archaeologydataservice.ac.uk/archives/view/atlas_ahrb_2005/

29 *Glannau Caernarfon: Deall Nodweddion Trefol*, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010. http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Urban_Character_Caernarfon_Waterfront_CY.pdf

30 Asesiad Archaeolegol, Cynllun Lliniaru Llifogydd Biwmares, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd 2013. http://www.walesher1974.org/her/groups/GAT/media/GAT_Reports/GATreport_1149_compressed.pdf

31 R. Avent, 'The Conservation and Restoration of Caernarfon Castle 1845–1912' yn Williams D. M. a Kenyon J. R. (gol), *The Impact of the Edwardian Castles in Wales* (Rhydychen, 2010), pp. 140–49.

32 *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy,* Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011. http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Conservation_Principles_CY.pdf

33 Alun Ffred Jones, 'King Edward I's Castles in North Wales — Now and Tomorrow', yn Williams D. M. a Kenyon J. R. (gol), *The Impact of the Edwardian Castles in Wales* (Rhydychen; 2010), pp. 198–202.

34 Ibid.

35 Ibid.

36 Ibid.

37 *The Mabinogion*, cyfieithwyd gan Sioned Davies (Rhydychen, 2008).

38 D. Foster Evans 'Tŵr Dewr Gwncwerwr' ('A Brave Conqueror's Tower'): Welsh Poetic Responses to the Edwardian Castles', yn Williams D. M. a Kenyon J. R. (gol), *The Impact of the Edwardian Castles in Wales* (Rhydychen, 2010), pp. 121–28;. D. Foster Evans, 'Castle and Town in Medieval Wales', yn Fulton, H (gol.), *Urban Culture in Medieval Wales* (Caerdydd, 2012).

39 *The Economic Impact of the Heritage Tourism Environment for Growth (E4G) Project*, Uned Ymchwil Economaidd Cymru, Ysgol Fusnes Caerdydd, 2014. http://e4g.org.uk/files/2013/07/Heritage-Tourism-Project-economic-impact-chapter-30Oct14-Cardiff-Business-School-v11.pdf

40 Ibid.

41 Ibid.

42 Ibid.

43 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted

44 *Guidance on Heritage Impact Assessments for Cultural World Heritage Properties*, ICOMOS 2011. http://www.icomos.org/world_heritage/HIA_20110201.pdf

45 *Operational Guidelines for the Implementation of the World Heritage Convention,* UNESCO.
http://whc.unesco.org/en/guidelines/

46 Charter for community engagement, Community Engagement Unit, Strategic and Executive Services, Queensland Department of Emergency Services, 2001.

47 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted

48 *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy,* Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011.
http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Conservation_Principles_CY.pdf

49 *Guidance on Heritage Impact Assessments for Cultural World Heritage Properties*, ICOMOS, Ionawr 2011.
http://www.icomos.org/world_heritage/HIA_20110201.pdf

50 *Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru,* Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017.
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/worldheritagesites/?skip=1&lang=cy

51 *Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017.
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/worldheritagesites/?skip=1&lang=cy
*Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017.
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/conservationareas/?lang=cy

52 *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017.
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/conservationareas/?lang=cy

53 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn, Astudiaeth Manwerthu Gwynedd ac Ynys Môn, Cyfrol 1, appliedplanning, Rhagfyr 2012.

54 *Glannau Caernarfon: Deall Nodweddion Trefol,* Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010.
http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Urban_Character_Caernarfon_Waterfront_CY.pdf

55 *Exploring your Town: A Manual and Toolkit,* Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru, 2013.

56 *Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru, ECOTEC Research and Consulting Ltd*, 2010.
http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/ValuingWelshHistoricEnvironment_CY.pdf

57 *The Economic Impact of the Heritage Tourism Environment for Growth (E4G) Project,* Uned Ymchwil Economaidd Cymru, Ysgol Fusnes Caerdydd, 2014.
http://e4g.org.uk/files/2013/07/Heritage-Tourism-Project-economic-impact-chapter-30Oct14-Cardiff-Business-School-v11.pdf

58 *Solving our own problems! Summary Report and Event Template,* Rhwydwaith Trefi Caerog Iwerddon, y Cyngor Treftadaeth, 2014. http://www.heritagecouncil.ie/publications/built-urban-heritage-archaeology

59 *An Assessment of the Current and Potential Economic Impact of Heritage,* TBR Economic Research Team and Rebanks Consulting, 2016.

60 http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/151112-summervisitorresearch2015-cym.pdf

61 http://gov.wales/statistics-and-research/wales-visitor-survey/?lang=cy

62 http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/151112-summervisitorresearch2015-cym.pdf

63 *Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth ar gyfer Twristiaeth* 2013-2020, Llywodraeth Cymru.
http://gov.wales/topics/tourism/development1/partnershipforgrowth/?lang=cy

64 World Heritage Sustainable Tourism Toolkit, UNESCO.
http://whc.unesco.org/sustainabletourismtoolkit/

65 Trosolwg o Gynllun Dehongli Cymru Gyfan, Cadw 2012.
http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Pan_Wales_OverviewWELSH.pdf

66 Interpretation Plan for the Castles and Town Walls of Edward I, PLB Consulting, Mai 2010.
http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/InterpplanCastlesEdwardI_EN.pdf

67 Diane M. Williams a John R. Kenyon (gol), *The Impact of the Edwardian Castles in Wales* (Rhydychen, 2010).

68 J. Ashbee, 'The King's Accommodation at his Castles' in Williams, D. M. a Kenyon J. R (gol), *The Impact of the Edwardian Castles in Wales* (Rhydychen, 2010), pp. 72–84.

69 K. Lilley, C. Lloyd, S. Trick, *Mapping the Medieval Townscape: A Digital Atlas of the New Towns of Edward I* (2005). http://archaeologydataservice.ac.uk/archives/view/atlas_ahrb_2005/

70 Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, 2011.
http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/flooding/nationalstrategy/strategy/?lang=cy

71 A Strategic Approach for Assessing and Addressing the Potential Impact of Climate Change on the Historic Environment, The Countryside and Community Research Institute, Dyfed Archeological Trust and and the Centre for Environmental Change and Quaternary Research, University of Gloucestershire for the Historic Environment Group — Climate Change Subgroup, 2012. http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Climate_Change_on_the_Historic_Environment_of_Wales_EN_CY.pdf

72 Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979. http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1979/46

73 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/contents

74 *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol, Llywodraeth Cymru, paragraffau 6.4.5, 6.5.2–6.5.4. http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy
Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, Llywodraeth Cymru, paragraffau 3.1–3.17.
http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?skip=1&lang=cy

75 *Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru,* Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017.
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/worldheritagesites/?skip=1&lang=cy

# A4.2 Rhagor o Wybodaeth

## Polisi a Chanllawiau Cynllunio

*Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9)
http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy

*Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9), Pennod 6:Yr Amgylchedd Hanesyddol
http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy

*Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio*
http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan12/?skip=1&lang=cy

*Nodyn Cyngor Technegol 24:Yr Amgylchedd Hanesyddol*
http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?skip=1&lang=cy

*Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru*
http://gov.wales/topics/planning/policy/?lang=cy

*Llawlyfr Rheoli Datblygu*
http://gov.wales/topics/planning/policy/development-management-manual/development-management-manual-without-annexes/?skip=1&lang=cy

## Canllawiau Arfer Gorau Llywodraeth Cymru

*Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*, Cadw, Llywodraeth Cymru, 2011
http ://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?skip=1&lang=cy

*Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy

*Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru,* Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy

*Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru,* Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy

## Canllawiau UNESCO ac ICOMOS

*Convention Concerning the Protection of the World Cultural and Natural Heritage,* UNESCO
http://whc.unesco.org/en/conventiontext/

*Guidance on Heritage Impact Assessments for Cultural World Heritage Properties*, ICOMOS, 2011
http://www.icomos.org/world_heritage/HIA_20110201.pdf

*Managing Cultural World Heritage,* UNESCO
http://whc.unesco.org/en/managing-cultural-world-heritage/

*Management Plans for World Heritage Sites — A Practical Guide,* UNESCO 2008

*Operational Guidelines for the Implementation of the World Heritage Convention,* UNESCO
http://whc.unesco.org/en/guidelines/

Llawlyfrau adnoddau UNESCO
http://whc.unesco.org/en/resourcemanuals/

## Ffynonellau o Wybodaeth Hanesyddol Gyffredinol

**Archifau Cymru** — catalog ar-lein sy'n eich galluogi i chwilio am wybodaeth mewn mwy na 7,000 o gasgliadau o gofnodion hanesyddol a ddelir gan 21 o archifau yng Nghymru.
https://archifau.cymru/

**Archwilio** — mae'n galluogi'r cyhoedd i weld y cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Caiff Archwilio ei gynnal a'i ategu â rhagor o wybodaeth a gedwir gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru. www.archwilio.org.uk

**Cof Cymru** — Cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, llongddrylliadau a warchodir, Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirweddau hanesyddol cofrestredig. Ychwanegir parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig at Cof Cymru yn ystod 2018.
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/cof-cymru/?skip=1&lang=cy

**Coflein** — y catalog ar-lein ar gyfer Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru.
http://www.coflein.gov.uk/

**Cymru Hanesyddol** — porth ar-lein i gofnodion amgylchedd hanesyddol cenedlaethol a rhanbarthol.
www.historicwales.gov.uk

**Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol yng Nghymru** — mae'n cofnodi'r gwahanol ffurfiau a sillafiadau a ddefnyddir ar gyfer enwau nodweddion topograffig, cymunedau, prif ffyrdd, strwythurau ac agweddau eraill ar y dirwedd a gofnodir mewn ffynonellau sy'n rhagddyddio'r Rhyfel Byd Cyntaf.
https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
https://www.llgc.org.uk/

## Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd (Ffynonellau Hanesyddol Dethol)


J. A. Ashbee, *Conwy Castle and Town Walls* (Caerdydd, 2007).

J. A. Ashbee, *Beaumaris Castle* (Caerdydd, 2017).

J. A. Ashbee, *Harlech Castle* (Caerdydd, 2017).

*Glannau Caernarfon: Deall Nodweddion Trefol,* Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010.
http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Urban_Character_Caernarfon_Waterfront_CY.pdf

N. Coldsteam, 'Architects, Advisers and Deign at Edward I's Castles in Wales' *Architectural History,* 46 (2003), 19–36.

R. R. Davies, *Conquest, Coexistence and Change: Wales* 1063–1415 (Rhydychen 1987); ailargraffwyd fel llyfr clawr papur, sef *The Age of Conquest: Wales* 1063–1415 (Rhydychen 1991).

S. Davies (cyf.), *The Mabinogion* (Rhydychen, 2008).

K. Lilley, C. Lloyd, S. Trick, *Mapping the Medieval Townscape: A Digital Atlas of the New Towns of Edward I* (2005).
http://archaeologydataservice.ac.uk/archives/view/atlas_ahrb_2005/

M. Morris, *A Great and Terrible King: Edward I and the Forging of Britain* (London 2008).

Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales and Monmouthshire, Beaumaris in *An Inventory of the Ancient Monuments in Anglesey* (London, 1937).

Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales and Monmouthshire, Conwy in *An Inventory of the Ancient Monuments in Caernarvonshire, Volume I: East* (London, 1956).

Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales and Monmouthshire, Caernarfon in *An Inventory of the Ancient Monuments in Caernarvonshire, Volume II: Central* (London, 1960).

A. J. Taylor, 'Master James of St George', English Historical Review, 65, (1950), 433–57.

A. J. Taylor, *The History of the King's Works in Wales 1277–1330*, (cyhoeddwyd yn wreiddiol yn R. A. Brown, H. M. Colvin and A. J. Taylor, *The History of the King's Works,* Llundain, 1963); a ailgyhoeddwyd fel cyfrol ar wahân yn 1974 ac unwaith eto, fel, Arnold Taylor, *The Welsh Castles of Edward I* (Llundain, 1983).

A. J. Taylor, *Caernarfon Castle and Town Walls* (Caerdydd, 2004).

Diane M. Williams a John R. Kenyon (gol), *The Impact of the Edwardian Castles in Wales* (Rhydychen, 2010).

## Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru

Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon
http://www.visitblaenavon.co.uk/en/Homepage.aspx

Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/protection/worldheritage/cstlsedward1/?skip=1&lang=cy

Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte
http://www.pontcysyllte-aqueduct.co.uk/cy-gb33

# A4.3 Cysylltiadau

**Llywodraeth Cymru**
Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ
Ffôn. 03000 256000

**Tîm Polisi Treftadaeth y Byd Cadw**
cadw@wales.gsi.gov.uk
http://cadw.gov.wales/?lang=cy

**Awdurdodau Cynllunio Lleol**
Gellir cysylltu â swyddogion cadwraeth a chynllunio awdurdodau cynllunio lleol drwy wefan yr awdurdod lleol perthnasol.

**Yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon**
https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-culture-media-sport

**ICCROM**
http://www.iccrom.org/

**ICOMOS-UK**
http://www.icomos-uk.org/world-heritage/

**ICOMOS**
http://www.icomos.org/en/

**IUCN**
http://www.iucn.org/

**UK National Commission for UNESCO**
http://www.unesco.org.uk/

**UNESCO World Heritage Centre**
http://whc.unesco.org/

**World Heritage UK**
https://worldheritageuk.org/

## Dolenni o'r ddogfen hon

Os yw'r ddogfen hon yn cynnwys dolenni i safleoedd ac adnoddau eraill a ddarperir gan drydydd partïon, darperir y dolenni hyn er gwybodaeth i chi yn unig. Ni ddylid cymryd bod dolennu yn gymeradwyaeth o unrhyw fath. Nid oes gan Cadw reolaeth dros gynnwys nac argaeledd tudalennau â dolenni ac nid yw'n derbyn cyfrifoldeb amdanynt hwy nac am unrhyw golled neu ddifrod a all godi os gwnewch eu defnyddio.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **6 TACHWEDD 2017** |
| **PWNC:** | **CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2018/19** |
| **DEILYDD (ION) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD JOHN GRIFFITH** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>rmjfi@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

Ni fydd y gyllideb derfynol yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn tan 28 Chwefror 2018. Fodd bynnag, argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith, am rŵan, yn cymeradwyo'r canlynol: -

**(i)** Bod swm o £125k yn cael ei gynnwys yn y gyllideb derfynol i gyllido'r Tîm Ynys Ynni a bod y swm yma yn cael ei gadw yn y gyllideb tra bydd angen y Tîm (para 3.2);

**(ii)** Bod y grantiau sydd wedi eu hymgorffori yn y CAC a'r cyllid ychwanegol ar gyfer cyfrifoldebau newydd yn cael eu dyrannu i'r cyllidebau priodol fel y caniatawyd ar gyfer hynny yn y gyllideb ddisymud (para 5.4 a 5.5);

**(iii)** Cadarnhau bod angen cyllideb wrth gefn o £600k i dalu unrhyw gostau tâl ychwanegol (fel y caniatawyd ar ei gyfer yn y gyllideb ddisymud). Adolygu gwerth y gronfa wrth gefn hon cyn penderfynu cynigion ar gyfer y gyllideb derfynol (para 6.1);

**(iv)** I ymgynghori gyda'r cyhoedd fod cynnydd o 1% ychwanegol yn y Dreth Gyngor yn cael ei godi, sef yn uwch na'r cynnydd o 4% sydd wedi ei osod allan yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol a bod y cyllid yn cael ei roi o'r neilltu i gyllido'r pwysau ychwanegol sydd ar y Gwasanaethau Cymdeithasol (para 6.5);

**(v)** Cymeradwyo'r gyllideb ddisymud o £132.337m ar gyfer 2017/18 ac y dylai hyn fod yn sail ar gyfer cyllideb refeniw 2018/19 (para 7.1);

**(vi)** Bod y swm a neilltuwyd i brosiectau tai drwy'r premiwm ar gyfer tai gwag ac ail gartrefi yn aros ar yr un lefel â 2017/18 (para 9.2);

**(vii)** Y dylai'r Pwyllgor Gwaith geisio gwneud digon o arbedion yn 2018/19 i gydbwyso'r gyllideb refeniw heb orfod defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac er mwyn sicrhau bod yr arbedion y mae angen eu gwneud yn 2019/20 yn gyraeddadwy (para 9.6);

**(viii)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn ceisio barn y cyhoedd ar yr arbedion arfaethedig.

Mae'r adroddiad manwl ar y gwaith o baratoi'r gyllideb ddisymud ar gyfer 2018/19, y setliad dros dro ac ariannu'r bwlch yn y gyllideb ynghlwm yn Atodiadau 1 - 4.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

| | | |
|---|---|---|
| Mae'r mater hwn yn un sydd wedi cael ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. | | |
| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| Ydi | | |
| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Ydi | | |
| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd ganddynt i'w ddweud?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Sylwadau gan yr UDA wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | I'w gadarnhau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | I'w gadarnhau |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall / eraill** | |
| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrth-dlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| • Atodiad 1 - Adroddiad ar y Gyllideb Refeniw Ddrafft ar gyfer 2018/19<br>• Atodiad 2 - Dadansoddiad o Symudiadau o'r Gyllideb Refeniw Derfynol ar gyfer 2017/18 i Gyllideb Ddisymud 2018/19<br>• Atodiad 3 - Cyllideb Ddisymud 2018/19 fesul Gwasanaeth<br>• Atodiad 4 - Arbedion Posibl yn y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2018/19 | | |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch â'r awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| • Cynllun Ariannol Tymor Canol 2018/19 – 2020/21 - Gweler Rhaglen Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith 18 Medi, 2017 - Eitem 8 | | |

**ATODIAD 1**

**CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2018/19**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Mae'r adroddiad canlynol yn nodi cyllideb refeniw dros dro y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2018/19. Caiff y gyllideb ei pharatoi yn seiliedig ar dybiaethau a nodir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2017, y setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 10 Hydref 2017 a'r arbedion refeniw arfaethedig a nodwyd gan y gwasanaethau unigol ac a drafodwyd yn y gweithdai amrywiol a gynhaliwyd yn ystod yr haf.

**1.2.** Yna, bydd y gyllideb dros dro a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith yn destun proses ymgynghori cyhoeddus ffurfiol a fydd yn rhedeg o 7 Tachwedd, 2017 i 29 Rhagfyr, 2017.

**1.3.** Ar ôl derbyn ffigyrau'r setliad terfynol ar ddiwedd mis Rhagfyr 2017, bydd y cynnig terfynol ynglŷn â'r gyllideb yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor Sgriwtini ym mis Chwefror 2018, bydd yn cael ei argymell ar gyfer ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 19 Chwefror 2018 a bydd y gyllideb derfynol ar gyfer 2018/19 yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2018.

## 2. PRIF DYBIAETHAU YN CODI O'R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL

**2.1.** Yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol, nodwyd nifer o dybiaethau ac mae'r rhain wedi cael eu cymryd i ystyriaeth wrth weithio allan y gyllideb ddisymud ar gyfer 2018/19. Mae'r gyllideb ddisymud yn gyllideb sy'n darparu adnoddau i weithredu gwasanaethau ar lefel 2017/18 ond wedi ei diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau y gwyddys amdanynt ac sydd y tu allan i reolaeth y gwasanaethau (newidiadau ymrwymedig) ac i adlewyrchu'r costau yn 2018/19.

**2.2.** Dyma'r prif dybiaethau a ddefnyddiwyd i bennu'r gyllideb ddisymud: -

### 2.2.1. Chwyddiant Cyflogau

Cymerwyd yn ganiataol y bydd y dyfarniad cyflog i athrawon a'r dyfarniad cyflog i staff arall yn 1%, sy'n adlewyrchu polisi cyfredol y Llywodraeth o ran codiadau cyflog yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'n glir ar hyn o bryd a fydd Llywodraeth y DU yn codi'r cap ar gyflogau a allai olygu dyfarniad cyflog uwch yn 2018/19. Daw'r sefyllfa'n gliriach efallai ar ôl cyhoeddi cyllideb y DU ar 22 Tachwedd 2017.

### 2.2.2. Chwyddiant Prisiau Cyffredinol

Roedd y Cynllun Ariannol Tymor Canol yn caniatáu ar gyfer lefel chwyddiant prisiau cyffredinol o 2.6%. Ar hyn o bryd, mae'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), sydd bellach yn cael ei gydnabod yn eang fel y ffordd orau o fesur chwyddiant, yn 2.9% (fel ym mis Awst 2017) ond disgwylir iddo ostwng yn raddol dros y misoedd nesaf wrth i effaith Brexit gael ei dynnu o'r swm. Ystyrir, felly, bod cyfradd chwyddiant o 2.6% yn rhesymol ac mae'r gyfradd hon wedi cael ei defnyddio ar gyfer yr holl gyllidebau cyflenwadau a gwasanaethau cyffredinol. Pan fydd contractau penodol â dulliau penodol i benderfynu ar y lefel chwyddiant berthnasol, yna bydd y gyfradd benodol honno wedi cael ei defnyddio yn achos y cyllidebau priodol hynny.

### 2.2.3. Incwm Anstatudol

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, y polisi fu cynnydd o 5% ar gyfartaledd yn y cyllidebau incwm anstatudol ym mhob gwasanaeth. Mater i'r gwasanaethau fu gosod ffioedd a thaliadau o fewn eu gwasanaethau unigol. Yn 2017/18, newidiodd y polisi a phennwyd cynnydd o 3% oherwydd pryderon bod rhai o'r ffioedd a godwyd am rai gwasanaethau'n nesáu at neu'n uwch na'r ffioedd a godwyd gan ddarparwyr sector preifat. Mae'r un ragdybiaeth wedi cael ei defnyddio ar gyfer 2018/19 oherwydd mae'r gwahaniaeth rhwng y cynnydd o 3% a chyfradd chwyddiant bellach yn fychan iawn.

## 3. NEWIDIADAU YMRWYMEDIG

**3.1.** Newidiadau ymrwymedig yw'r diwygiadau sy'n cael eu cymryd i ystyriaeth wrth lunio'r gyllideb ddisymud ac maent yn adlewyrchu cynnydd neu ostyngiad mewn costau sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor neu'r gwasanaeth unigol. Gall y newidiadau hyn gynnwys eitemau o gyllid unwaith ac am byth sydd eu hangen neu sy'n syrthio allan o'r gyllideb, costau sy'n deillio o newidiadau deddfwriaethol, newidiadau mewn costau sy'n codi o ganlyniad i ymarferiad tendro, costau cyllido cyfalaf ac ati. Mae cyfanswm yr addasiadau a wnaed i'r gyllideb yn £621k, a cheir manylion am y prif newidiadau yn y paragraffau isod.

### 3.2. Ynys Ynni

Yn 2013/14, clustnodwyd swm o £900k i gyllido cost y Tîm am gyfnod cychwynnol o 3 blynedd. Roedd hynny'n ddigon tan 2016/17 ac roedd rhywfaint o danwariant ar gael i'w ddefnyddio yn 2017/18. Darparwyd £125k ychwanegol yn 2017/18 i barhau i gyllido'r Tîm, wedi ei ailgyfeirio o weithgareddau eraill yr oedd y Gwasanaeth yn eu cyflawni ond nad oedd ei angen mwyach. Oherwydd nad yw'r Pwyllgor Gwaith wedi rhoi'r awdurdod i barhau i ddarparu'r cyllid hwn, mae swm o £125k wedi cael ei dynnu o'r gyllideb ddisymud. Gofynnir i'r Aelodau ystyried a ddylid cynnwys y cyllid hwn yn y gyllideb er mwyn cydlynu cyfrifoldebau caniatáu statudol CSYM a gweithgareddau anstatudol yn codi o'r prosiectau mawr arfaethedig a hynny am gyn hired ag y bydd angen y Tîm.

### 3.3. Ardoll Prentisiaethau

Cafodd swm o £290k ei gynnwys yng nghyllideb 2017/18 i dalu'r Ardoll Prentisiaethau a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2017. Amcangyfrif oedd y gyllideb hon ac mae'r gost flynyddol wirioneddol oddeutu £330k. O'r herwydd, ychwanegwyd £40k at gyllideb 2018/19.

### 3.4. Trethi Annomestig

Yn dilyn ailbrisio'r holl eiddo busnes, mae'r costau gwirioneddol diwygiedig bellach yn hysbys ac mae'r gyllideb wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau hyn. Yn ogystal, mae cyllid wedi cael ei roi o'r neilltu i dalu costau Ysgol Cybi ac Rhyd y Llan. Unwaith y bydd yr hen ysgolion wedi cael eu gwerthu, bydd y gyllideb yn cael ei haddasu at i lawr i adlewyrchu'r newid. Ar gyfer 2018/19, mae £101k ychwanegol wedi cael ei ychwanegu at y gyllideb er mwyn cwrdd â'r costau ychwanegol.

**3.5. Cyllido Cyfalaf**

Wrth i'r Cyngor fynd i wariant cyfalaf, mae'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP) yn cynyddu ynghyd â chostau llog ychwanegol mewn perthynas â'r benthyciadau ychwanegol a dynnir i lawr i ariannu'r rhaglen gyfalaf. Yn y setliad bob blwyddyn, gwneir darpariaeth ar gyfer elfen o fenthyca drwy ddarparu cyllid ychwanegol (benthyca â chymorth). Amcangyfrifir y bydd costau'r MRP a'r llog ychwanegol ar gyfer 2018/19 yn £362k. Fodd bynnag, bydd y costau benthyca mewn perthynas â phrosiect rheoli nwy Penhesgyn yn gostwng yn 2018/19 ac, ar ôl ail-alinio'r gyllideb incwm i adlewyrchu'r gostyngiad yn y gweithgaredd cynhyrchu nwy, bydd modd lleihau'r gyllideb net gan £100k. Mae hyn yn rhoi cynnydd net o £262k yn y costau cyllido cyfalaf ac yn mynd â'r gyllideb cyllido cyfalaf i £8.51m.

**3.6. Niferoedd disgyblion**

Bob blwyddyn, cymerir effaith y newid mewn niferoedd disgyblion i ystyriaeth fel rhan o'r broses o osod y gyllideb. Yn achos 2018/19, mae hyn wedi arwain at gynnydd o £34k yn y gyllideb ar draws y 3 sector.

**3.7. Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

Hyd at 2013/14, roedd trethdalwyr cymwys yn derbyn gostyngiad yn eu biliau Treth Gyngor drwy'r system fudd-daliadau ar ffurf Budd-dal Treth Gyngor a ariannwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Yn 2013/14, disodlwyd y Budd-dal Treth Gyngor gan y cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, gyda'r cyllid ar gyfer y cynllun yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cymorth Refeniw. Ar y cychwyn, roedd y cynllun yn cael ei ariannu'n llawn ond, gan fod lefel y Dreth Gyngor wedi codi a nifer yr hawlwyr wedi newid ers 2013/14, bu'n rhaid i'r Cyngor ddarparu cyllid ychwanegol i gwrdd â chost y cynllun (yn ychwanegol at y swm a ddarperir yn y Grant Cymorth Refeniw).

Ar gyfer 2017/18, mae'r gofyniad cyllidebol wedi cael ei ailasesu gan gymryd i ystyriaeth lefel bresennol y gwariant a chynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o £76k yn y gyllideb, sy'n dod â'r gyllideb gyffredinol i £5.52m.

**3.8. Ardoll Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Mae'r Gwasanaeth Tân yn codi ardoll bob blwyddyn sy'n cael ei ddyrannu ar draws y chwe Awdurdod yng Ngogledd Cymru yn seiliedig ar nifer y boblogaeth sy'n amrywio bob blwyddyn rhwng y 6 awdurdod. Yn 2017/18, cafwyd cynnydd o 4%yn yr ardoll ar draws Gogledd Cymru gyda chynnydd pellach o 1.3% yn 2018/19, sy'n gynnydd o £44k (yn seiliedig ar yr un dosbarthiad poblogaeth â 2017/18).

**3.9. Contractau a gafodd eu Haildendro**

Yn ystod 2017/18, cafodd y contract Cynnal a Chadw Priffyrdd a'r contract Torri Gwair eu haildendro gyda hynny'n arwain at gynnydd ym mhrisiau'r tendr. O'r herwydd, mae £50k a £37k wedi cael eu hychwanegu at y cyllidebau perthnasol.

**3.10. Ailstrwythuro yn yr Ysgolion Uwchradd**

Ym mis Mawrth 2017, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith dalu o'r gyllideb graidd, gostau diogelwch cyflog i athrawon yn codi o unrhyw ailstrwythuro yn nhrefniadau rheoli Ysgolion Uwchradd y Cyngor. Hyd yma, un ysgol yn unig sydd wedi ailstrwythuro ac roedd cyfanswm cost y diogelwch cyflog yn £67k ac mae'r swm hwnnw wedi ei gynnwys yng nghyllideb 2018/19.

**3.11. Ysgolion Cynradd Newydd**

Arweiniodd y 2 ysgol newydd, sef Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan at arbedion refeniw parhaus o £148k, fodd bynnag, mae £52k wedi cael ei drosglwyddo o'r gyllideb a ddatganolwyd i ysgolion i'r gyllideb Addysg Ganolog er mwyn talu am ymrwymiadau sy'n parhau mewn perthynas â safleoedd yr hen ysgolion. O'r herwydd, mae'r gostyngiad net yn y gyllideb Addysg yn £96k. Bydd y swm hwn yn cyfrannu tuag at y cynnydd o £295k yn y costau cyllido cyfalaf ac mae'r swm wedi ei gynnwys yn y gyllideb cyllido cyfalaf.

**3.12. Eraill**

Mae nifer o gyllidebau eraill wedi cael eu haddasu i adlewyrchu'r newidiadau sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn sydd y tu hwnt i reolaeth y gwasanaeth, mae'r rhain yn cynnwys cyllidebau incwm lle na fedr y Gwasanaeth bellach godi incwm. Effaith net y newidiadau hyn gyda'i gilydd yw £290k.

## 4. CRONFEYDD WRTH GEFN AR GYFER ARGYFYNGAU

**4.1.** Fel rhan o'r broses gyllidebu, caiff nifer o gyllidebau wrth gefn eu hadeiladu i mewn i'r gyllideb i dalu costau tymor penodol, risgiau posibl y bydd, efallai, angen eu cyllido yn ystod y flwyddyn neu fel arian wrth gefn cyffredinol a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn wrth i bwysau ychwanegol gael eu rhoddi ar y gyllideb neu os bydd pethau annisgwyl yn digwydd. Dangosir y newidiadau a wnaed i'r cyllidebau wrth gefn yn Nhabl 1 isod:-

**Tabl 1**
**Symudiadau yng Nghyllidebau Wrth Gefn rhwng 2017/18 a 2018/19**

| | | Dyddiad Gorffen | Cyllideb 2017/18 £'000 | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 £'000 | Newid £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Clustnodwyd | Etholiadau'r Cyngor Sir | 2018/19 | 150 | 0 | (150) |
| Cost Newid | Caffael | 2018/19 | 48 | 0 | (48) |
| Cost Newid | Cefnogaeth TGCh | 2018/19 | 44 | 0 | (44) |
| Clustnodwyd | Cartref Preswyl Haulfre | 2017/18 | 95 | 95 | 0 |
| Clustnodwyd | Costau Gofal Cartref Nyrsio | 2017/18 | 330 | Trosglwyddo i Cyllideb y Gwasanaeth | (330) |
| Cyflogau a Graddfeydd | Costau Diswyddo Gwirfoddol | 2019/20 | 200 | 300 | 100 |
| Rhyddhad trethol Dewisol Trethi Annomestig | | Parhaus | 60 | 60 | 0 |
| Arian Wrth Gefn Cyffredinol | | Parhaus | 284 | 280 | (4) |
| **CYFANSWM** | | | **1,211** | **735** | **(476)** |

## 5. CHWYDDIANT AC ADDASIADAU ERAILL

**5.1.** Y gyllideb ddisymud yw'r gyllideb sydd ei hangen i ddarparu'r un lefel o wasanaeth ag yn 2017/18, ar ôl addasu ar gyfer unrhyw newidiadau y gwyddys amdanynt (fel y nodir ym mharagraffau 3 a 4 uchod) ac ar ôl gwneud addasiad ar gyfer cyflogau a chwyddiant prisiau. Mae'r addasiadau terfynol er mwyn penderfynu ar y gyllideb ddisymud ar gyfer 2018/19 wedi eu nodi isod.

### 5.2. Incrementau Staff a Newidiadau o ran Deilyddion Swyddi

Mae cyllidebau staffio yn seiliedig ar y pwynt cyflog gwirioneddol y bydd aelodau o staff yn cael eu talu arno yn 2018/19. Ers gweithredu'r cytundeb Statws Sengl, mae nifer y pwyntiau ar y golofn ym mhob graddfa wedi gostwng ac, o'r herwydd, mae nifer fawr o staff wedi cyrraedd brig eu graddfa. Bydd y newidiadau o ran deilyddion swyddi yn 2017/18 hefyd yn cael eu hadlewyrchu yng nghyllideb 2018/19. Mae effaith net yr addasiadau hyn yn golygu cynnydd o £65k yn y gyllideb ddisymud.

### 5.3. Chwyddiant

Yn unol â'r rhagdybiaethau yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol, caniatawyd ar gyfer lefel chwyddiant gyffredinol o 1% ar gyfer cyflogau a 2.6% ar gyfer prisiau cyffredinol, oni bai bod cyfradd chwyddiant wahanol yn cael ei diffinio mewn unrhyw gontract y mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddo. Mae cynnydd o 3% ym mhob cyllideb incwm anstatudol. Mae cost net y chwyddiant, felly, yn £2.02m.

### 5.4 Grantiau a Drosglwyddwyd i'r Setliad

Dros nifer o flynyddoedd, mae Llywodraeth Cymru wedi gostwng nifer y grantiau penodol drwy drosglwyddo'r cyllid i'r Setliad. Yn 2018/19, trosglwyddwyd gwerth £91.7m o grantiau refeniw i'r setliad. Yn achos Ynys Môn, roedd gwerth y grantiau a drosglwyddwyd fel a ganlyn yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**

**Cymhariaeth o'r Grantiau a Drosglwyddwyd i'r Setliad gyda'r Grant Cyfatebol a Dderbyniwyd yn 2017/18**

| Grant | Dyraniad yn Setliad 2018/19 £ | Dyraniad Grant Cyfatebol 2017/18 £ |
|---|---|---|
| Grant Byw'n Annibynnol | 778,806 | 837,060 |
| Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol | 427,493 | 427,493 |
| Grant ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal | 148,465 | 82,886 |
| Grant Gofal Seibiant i Ofalwyr | 67,499 | 67,499 |
| Elfen Gwastraff – Grant Refeniw Sengl | 920,990 | 985,459[1] |
| **CYFANSWM Y GRANTIAU A DROSGLWYDDWYD I MEWN** | **2,343,253** | **2,400,397** |

1. *Mae hyn yn tybio gostyngiad dangosol o 7% yn y grant.*

Mae swm llawn y grantiau hyn wedi cael ei gynnwys yn erbyn cyllideb y Gwasanaeth perthnasol.

### 5.5. Cyfrifoldebau Newydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys £6m ychwanegol yn y setliad i ddarparu gwasanaethau lleol sy'n gysylltiedig ag atal digartrefedd. O ganlyniad, ychwanegwyd £119,437 i'r setliad ar gyfer Ynys Môn. Mae'r ffigwr hwn wedi ei gynnwys yn y gyllideb ddisymud fel arian wrth gefn ychwanegol ond nodir y bydd angen i Aelodau gadarnhau eu bwriad i ddefnyddio'r arian ychwanegol yn y modd a bennir yn y setliad.

## 6. RISGIAU I'R GYLLIDEB

### 6.1. Chwyddiant

Mae'r dyfarniad cyflog ar gyfer y sector cyhoeddus wedi cael ei gapio ar 1% ers nifer o flynyddoedd, fodd bynnag, mae'r Llywodraeth dan bwysau cynyddol i wneud i ffwrdd â'r cap. Mae'n ddoeth ar hyn o bryd i gynnwys swm wrth gefn yn y gyllideb ddisymud i gwrdd â'r gost ychwanegol, os bydd hyn yn digwydd, a'r Cyngor yn gorfod ei gyllido. Byddai caniatáu ar gyfer 1% arall ar gyfer y flwyddyn lawn am staff nad ydynt yn dysgu ac o fis Medi 2018 ar gyfer staff dysgu, yn golygu y byddai angen neilltuo £600k yn ychwanegol ac mae hyn wedi ei gynnwys fel darpariaeth wrth gefn ychwanegol yn y gyllideb ddisymud. Gellir adolygu'r angen am yr arian wrth gefn hwn wrth i'r broses gyllidebol gael ei chwblhau.

### 6.2 Cyflog Byw Cenedlaethol

Fel y dywedwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol, bwriedir codi'r Cyflog Byw Cenedlaethol flwyddyn ar ôl blwyddyn i £9 yr awr erbyn 2020. O ganlyniad, bydd y cyflogau sy'n gysylltiedig â'r pwyntiau is ar y graddfeydd cyflog yn dal i fyny gyda'r graddfeydd uwch. Mae Cyflogwyr yn genedlaethol wedi dwyn sylw at y broblem hon ac mae adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd o'r graddfeydd cyflog cenedlaethol. Mae gwaith modelu cynnar yn awgrymu y byddai'r adolygiad yn golygu cynnydd rhwng 5% a 6% dros ddwy flynedd mewn cyllidebau ar gyfer cyflogau (gan gynnwys dyfarniadau cyflog), er y gall hyn fod yn is ar gyfer Ynys Môn oherwydd nad yw'r Cyngor bellach yn talu pwyntiau 6 i 9. Oherwydd y bydd y newid i'r raddfa gyflog newydd yn cynnwys y dyfarniad cyflog, dylai'r swm wrth gefn y manylir arno ym mharagraff 6.1 fod yn ddigon i gwrdd â'r gost ychwanegol yn 2018/19 ond bydd y newidiadau'n rhoi pwysau ychwanegol ar y gyllideb yn 2019/20.

### 6.3. Grantiau Refeniw Penodol

Yn 2017/18, derbyniodd y Cyngor oddeutu £20.9m mewn grantiau refeniw penodol sy'n cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau penodol. Hyd yn hyn, ni chafwyd unrhyw arwydd ynglŷn â lefel y cyllid a fydd ar gael ar ffurf cyllid grant penodol yn 2018/19 ac, o ganlyniad, nid oes unrhyw ostyngiadau wedi cael eu ffactora i mewn i'r gyllideb ddisymud. Bydd unrhyw ostyngiad yn y grantiau hyn yn arwain at doriad uniongyrchol yn y gwasanaethau y maent yn eu hariannu neu bydd raid i'r Cyngor sybsideiddio colli'r grant o'r gyllideb graidd.

### 6.4. Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Mae'r gyllideb ar gyfer y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar y llwyth achosion presennol a'r newidiadau yn y llwyth achosion a ragdybiwyd ar gyfer 2018/19. Ar ôl canlyniadau refferendwm yr UE a'r ansicrwydd y mae wedi ei greu, mae'n anodd rhagweld beth fydd yn digwydd i economi'r DU. Os bydd yr economi'n gwaethygu'n sylweddol a diweithdra'n cynyddu, mae'n naturiol y bydd hyn yn arwain at gynnydd yn y llwyth achosion a chynnydd mewn costau.

### 6.5 Pwysau ar y Gyllideb a Gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw amdanynt

Bydd yr Aelodau'n gwybod y rhagwelir gorwariant oddeutu £2m yn y gyllideb ar gyfer 2017/18, gyda'r pwysau mwyaf yn codi o gynnydd yn y pwysau mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a chostau cysylltiedig o ran lleoliadau all-sirol. Roedd y CATC yn caniatáu ar gyfer cynnydd bychan o £0.4m yn y cyllidebau hyn. Roedd y CATC yn caniatáu ar gyfer cynnydd o 4% yn y Dreth Gyngor ond byddai cynnydd o 5% yn cynhyrchu £338k ychwanegol ac mae'r swm ychwanegol yma wedi ei ganiatáu yn y gyllideb ddisymud gyda'r cyllid ychwanegol wedi ei glustnodi i ymateb i'r galw o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 7. CYLLIDEB DDISYMUD 2018/19

**7.1.** Yn seiliedig ar bob un o'r addasiadau a'r rhagybiaethau y manylir arnynt uchod, cyfanswm y gyllideb ddisymud ar gyfer 2018/19, gan gynnwys cyllideb wrth gefn o £600k a cyllideb ychwanegol i gwrdd a pwysau gwasanaeth yn Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer cyflogau, yw £132.337m, cynnydd o £6.179m o gymharu â chyllideb derfynol 2017/18, er bod £2.462m o hyn o ganlyniad i grantiau'n trosglwyddo i'r setliad a chyfrifoldebau newydd. Mae crynodeb o'r newidiadau a wnaed o gymharu â'r Cynllun Ariannol Tymor Canol ynghlwm fel Atodiad 2. Ceir dadansoddiad o'r gyllideb ddisymud fesul Gwasanaeth yn Atodiad 3.

## 8. SETLIAD DROS DRO

**8.1.** Mae'r setliad dros dro ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru a gyhoeddwyd ar 10 Hydref 2017, yn dangos cynnydd o £72.63m yn lefel gyffredinol y cyllid ar gyfer Cymru sy'n cyfateb i gynnydd o 1.77%. Fodd bynnag, mae £91.72m yn ymwneud â grantiau a drosglwyddwyd i'r setliad a £6m yn gyllid ychwanegol ar gyfer atal digartrefedd. Wedi addasu ar gyfer effaith y newidiadau hyn, mae'r ffigwr gwirioneddol yn dangos gostyngiad o £25m neu 0.6% mewn cyllid. Gweler y manylion yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**
**Setliad Dros Dro 2018/19**

| | Ynys Môn | Cymru |
|---|---|---|
| | **£ 'm** | **£ 'm** |
| **CAC 2018/19** | **92.652** | **4,113.620** |
| **Grantiau Blynyddoedd Blaenorol a Drosglwyddwyd i Mewn / (Allan)** | | |
| Grant Gwastraff | 0.920 | 35.000 |
| Grant Cymru ar gyfer Byw'n Annibynnol | 0.775 | 26.889 |
| Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol | 0.421 | 19.000 |
| Grant ar gyfer Plant syn Derbyn Gofal | 0.144 | 7.415 |
| Grant Gofal Seibiant i Ofalwyr | 0.066 | 3.000 |
| Grant Gofal Cymdeithasol i Garcharorion yn y Stad Ddiogel | 0.000 | 0.412 |
| **CAC wedi ei addasu 2017/18** | **94.978** | **4,205.336** |
| | | |
| **Cyfrifoldebau newydd** | | |
| Atal Digartrefedd | 0.119 | 6.000 |
| | | |
| Cyllid Topio i Fyny – Trothwy Setliad | 0.000 | 1.772 |
| | | |
| Addasiad Ariannol ar gyfer 2018/19 | (0.173) | (26.861) |
| | | |
| **CAC Dros Dro 2017/18** | **94.924** | **4,186.247** |

**8.2.** Mae'r datganiad ysgrifenedig a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn datgan bod y setliad yn cynnwys ychwanegiad o £62m er mwyn cynyddu'r elfen o'r

setliad sy’n ymwneud ag ysgolion a £42m ar gyfer gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, nid oes eglurhad am y modd y cafodd y ffigyrau hyn eu gweithio allan ac mae’n amlwg o’r tabl uchod nad yw’r ffigwr wedi golygu arian ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol.

**8.3.** Er bod y gostyngiad yn y CAC yn llai na’r un y cynlluniwyd ar ei gyfer yn y CATC (0.1% o gymharu â 2%), mae’n ostyngiad o hyd mewn termau gwirioneddol gyda’r Cyngor yn gorfod cyllido oddeutu £2m yn ychwanegol oherwydd dyfarniadau cyflog a chwyddiant cyffredinol.

**8.4.** Nid yw’r setliad dros dro yn darparu unrhyw wybodaeth bellach am y grantiau refeniw penodol y mae’r Cyngor yn eu derbyn.

## 9. Y BWLCH CYLLIDO

**9.1.** Yn 2017/18, cytunodd y Cyngor i osod premiwm o 25% ar ail gartrefi a thai gwag. Oherwydd fod gwaith yn mynd rhagddo i nodi’r eiddo hynny y byddai’r premiwm yn berthnasol iddynt, gwnaed amcangyfrif ceidwadol wrth benderfynu ar y cyllid ychwanegol y byddai’r premiwm yn ei greu er mwyn caniatáu ar gyfer camgymeriadau o ran nodi eiddo a darparu diogelwch petai nifer fawr o drethdalwyr yn cymryd camau er mwyn sicrhau na fyddai’n rhaid iddynt dalu’r premiwm, e.e. gosod eu cartrefi, gwerthu neu fynd ati i werthu eu cartrefi. Gosodwyd cyllideb o £564k ac fel neilltuwyd 30% ohoni i brosiectau tai.

**9.2.** Y ffigwr gwirioneddol a godwyd gan y premiwm oedd £984k ac mae’r ffigwr wedi bod yn weddol gyson ers cychwyn y flwyddyn ariannol. O’r herwydd, bwriedir cynyddu’r gyllideb i 80% o’r ffigwr cyfredol hwn ac, ar ôl caniatáu ar gyfer y cynnydd tybiedig yn y Dreth Gyngor (5%), mae hyn yn codi’r gyllideb i £824k. Bydd angen i’r Aelodau benderfynu ymhellach a ydynt yn dymuno neilltuo mwy o gyllid i brosiectau tai, e.e. 30% o’r ffigwr diwygiedig hwn.

**9.3.** Gan dybio y bydd cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor (yn unol â’r Cynllun Ariannol Tymor Canol), yn ogystal o 1% ychwanegol i gyllido’r pwysau, gweler y bwlch cyllido ar gyfer 2018/19 yn Nhabl 4 isod: -

**Tabl 4**
**Bwlch Cyllido’r Gyllideb 2018/19**

| | £ 'm | £ 'm |
|---|---|---|
| **Cyllideb ddisymud** | | **132.337** |
| **Wedi'i Gyllido gan:** | | |
| Grant Cynnal Refeniw (RSG) | 72.307 | |
| Cyfran o’r Gronfa Trethi Annomestig | 22.617 | |
| Y Dreth Gyngor (yn cynnwys y Premiwm) Nodyn 1 | 35.415 | |
| **Cyfanswm Cyllid** | | **130.339** |
| **Diffyg cyllidol** | | **1.998** |
| Nodyn 1 - Yn rhagdybio cynnydd o 4% yn y Dreth Gyngor | | |

**9.4.** Mae effaith y gwahanol lefelau o gynnydd yn y Dreth Gyngor ac ar y tâl Band D cyfatebol (£1,088.01 ar hyn o bryd yn 2017/18) i’w gweld yn Nhabl 5 isod:-

| **Tabl 5<br>Effaith Lefelau Amrywiol o Gynnydd yn y Dreth y Gyngor ar y Diffyg Cyllido** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **% y Cynnydd** | **Y Dreth Gyngor<br>£ 'm** | **Diffyg Cyllido<br>£ 'm** | **Effaith Wythnosol ar Fand D<br>£** | **Cyfanswm Cynnydd ym Mand D<br>£** |
| 1.0 | 34.066 | 3.010 | 0.21 | 10.88 |
| 1.5 | 34.234 | 2.841 | 0.31 | 16.32 |
| 2.0 | 34.403 | 2.672 | 0.42 | 21.76 |
| 2.5 | 34.572 | 2.504 | 0.52 | 27.20 |
| 3.0 | 34.740 | 2.335 | 0.63 | 32.64 |
| 3.5 | 34.909 | 2.167 | 0.73 | 38.08 |
| 4.0 | 35.077 | 1.998 | 0.84 | 43.52 |
| 4.5 | 35.246 | 1.829 | 0.94 | 48.96 |
| 5.0 | 35.415 | 1.661 | 1.05 | 54.40 |

**9.5.** Roedd y gwaith cychwynnol ar y gyllideb yn amcangyfrif y byddai'r bwlch cyllido yn £4m yn 2018/19 ac, o'r herwydd, gofynnwyd i wasanaethau ganfod arbedion o 4% yn eu cyllidebau a fyddai'n cynhyrchu'r arbedion gofynnol £4m. Cynhaliwyd nifer o weithdai cyllideb dros yr haf a nododd y Penaethiaid Gwasanaeth arbedion posibl o £3.296m ac mae'r manylion ynghlwm yn Atodiad 4. Bydd yr arbedion a gynigiwyd yn destun proses ymgynghori gyhoeddus rhwng 7 Tachwedd, 2017 a 29 Rhagfyr, 2017.

**9.6.** Ar hyn o bryd mae balans cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor yn £8.3m, sef £2.3m yn uwch na'r hyn aseswyd gan Swyddog Adran 151 y Cyngor fel yr isafswm sy'n ofynnol. Fodd bynnag, mae sefyllfa'r gyllidebol bresennol ar gyfer 2017/18 yn rhagweld gorwariant o tua £2m a bydd yn rhaid cyllido hyn o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac mae'n debygol o ddod â'r lefel i lawr yn nes at y balans gofynnol. Mae defnyddio'r cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb yn caniatáu i'r Cyngor ohirio cynigion arbedion cyllideb yn 2018/19 ond os bydd y bwlch ariannol yn parhau yn y blynyddoedd canlynol, yna bydd yn rhaid gweithredu'r arbedion yn y flwyddyn ganlynol, tra bod cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor yn gostwng ymhellach. Y strategaeth gyllideb hyd yn hyn fu defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol i gyllido prosiectau sy'n dod ag arbedion tymor hir i'r Cyngor yn hytrach na'u defnyddio fel cyllid tymor byr. Argymhellir bod y strategaeth hon yn parhau a bod y cronfeydd wrth gefn ddim yn cael eu defnyddio i gydbwyso'r gyllideb os gellir cydbwyso'r gyllideb trwy weithredu arbedion cyllideb parhaol.

## 10. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL DIWYGIEDIG

**10.1.** Cafwyd arwydd yn y setliad dros dro hefyd y byddai gostyngiad pellach o 1.5% yn y setliad posibl ar gyfer 2019/20 i lywodraeth leol, sy'n cyfateb i ostyngiad o £1.4m. Byddai cynnydd o 4% yn y Dreth Gyngor yn cynhyrchu ffigwr tebyg ac, o ganlyniad, byddai'r cyllid a fyddai ar gael ar oddeutu yr un lefel â 2018/19.

**10.2.** O'r herwydd, byddai'n rhaid i'r Cyngor gyllido'r holl godiadau cyllidebol yn sgil dyfarniadau cyflog, chwyddiant, pwysau ar y gyllideb a ffioedd cyllido cyfalaf uwch drwy wneud arbedion pellach.

**10.3.** Ar hyn o bryd, mae Sefydliad y Cyflogwyr wrthi'n llunio cynigion i ailstrwythuro'r graddfeydd cyflog ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon er mwyn cymryd i ystyriaeth effaith y cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol. Byddai'r ailstrwythuriad hwn hefyd yn ymgorffori'r dyfarniad cyflog ac, yn ôl yr arwyddion cynnar, byddai'r newidiadau hyn yn golygu cynnydd oddeutu 5% yn y costau tâl dros ddwy flynedd. Mae cyllideb 2018/19 yn caniatáu ar gyfer 2%, a fyddai'n gadael cynnydd pellach o 3% i'w gyllido yn 2019/20. Mae'r sefyllfa mewn perthynas â chyflogau athrawon yn fwy ansicr ond byddai'n ddoeth cynllunio ar gyfer codiad tebyg.

**10.4.** Byddai cyllido'r dyfarniad cyflog ar 3%, ynghyd a newidiadau eraill i'r gyllideb yn golygu cynnydd oddeutu £3.8m yn y gyllideb ar gyfer 2019/20 a dyma fyddai lefel yr arbedion angenrheidiol. Roedd rhestr gychwynnol o arbedion posibl a luniwyd gan y Gwasanaethau'n dod i gyfanswm o £3.4m ac, oherwydd bod posibilrwydd o ddiffyg o £2m yn y gyllideb ar gyfer 2018/19, mae'n bosibl y byddai arbedion o £1.4m yn cael eu defnyddio a fyddai'n golygu bod y Cyngor gryn bellter o gyflawni'r arbediad angenrheidiol o £3.8m.

**10.5.** Mae'r sefyllfa ar gyfer 2020/21 yn aneglur iawn ond gan dybio y byddai'r setliad ar gyfer 2020/21 yn cyd-fynd â ffigwr 2019/20 a chan dybio y byddai cynnydd pellach o 4% yn y Dreth Gyngor a chwyddiant cyflogau a phrisiau oddeutu 2%, byddai angen gwerth £1m o arbedion pellach yn y flwyddyn honno.

**10.6** O'r herwydd, mae cyfanswm diwygiedig yr arbedion y byddai eu hangen yn y cyfnod 2018/19 i 2020/21 yn £6.8m o gymharu â'r £8.6m a nodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol yr adroddwyd arno i'r Pwyllgor Gwaith ym Medi 2017. Mae'r newid hwn o ganlyniad i'r setliad gwell na'r disgwyl ar gyfer 2018/19.

## 11. MATERION I'W PENDERFYNU

**11.1.** Ni fydd y gyllideb derfynol yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn tan 28 Chwefror 2018. Fodd bynnag, argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith, am rŵan, yn cymeradwyo'r canlynol:-

- **(i)** Bod swm o £125k yn cael ei gynnwys yn y gyllideb derfynol i gyllido'r Tîm Ynys Ynni a bod y swm hwn yn cael ei gadw yn y gyllideb am ba gyfnod bynnag y bydd angen y Tîm (para 3.2);
- **(ii)** Penderfynu a yw'r grantiau sydd wedi eu hymgorffori yn y CAC a'r cyllid ychwanegol ar gyfer cyfrifoldebau newydd yn cael eu dyrannu i'r cyllidebau priodol yn y gyllideb ddisymud (para 5.4 a 5.5);
- **(iii)** Cadarnhau bod angen cyllideb wrth gefn o £600k i gwrdd ag unrhyw gostau tâl ychwanegol (fel y caniatawyd ar ei gyfer yn y gyllideb ddisymud). Gwerth y gronfa wrth gefn yma i gael ei adolygu cyn penderfynu ar y cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb (para 6.1);
- **(iv)** I ymgynghori gyda'r cyhoedd fod cynnydd o 1% yn uwch na'r cynnydd o 4% sydd wedi ei osod allan yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol yn cael ei godi a bod y cyllid yn cael ei roi o'r neilltu i ariannu y pwysau ychwanegol sydd ar y Gwasanaethau Cymdeithasol (para 6.5);
- **(v)** Cymeradwyo'r gyllideb ddisymud o £132.337m ar gyfer 2018/19 ac y dylai hyn fod yn sylfaen ar gyfer cyllideb refeniw 2018/19 (para 7.1);
- **(vi)** Bod y swm sy'n cael ei neilltuo i brosiectau tai drwy'r premiwm ar dai gwag ac ail gartrefi yn aros fel y mae ar lefel 2017/18 (para 9.2);
- **(vii)** Dylai'r Pwyllgor Gwaith geisio gwneud digon o arbedion yn 2018/19 i gydbwyso'r gyllideb refeniw heb orfod defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol a sicrhau bod yr arbedion y mae angen eu gwneud yn 2019/20 yn gyraeddadwy (para 9.6);
- **(viii)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn ceisio barn y cyhoedd ar yr arbedion arfaethedig.

**ATODIAD 2**

**DADANSODDIAD O'R SYMUDIAD O GYLLIDEB DERFYNOL 2017/18 I GYLLIDEB DDISYMUD 2018/19**

| | Cynllun Ariannol Tymor Canol | | Cyllideb Ddisymud | | Cyfeirnod yn yr Adroddiad |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'m | £'m | £'m | £'m | |
| **Cyllideb 2017/18** | | **126.157** | | **126.157** | |
| **Addasiadau Wrth Gefn** | | | | | |
| Etholiadau'r Cyngor Sir | - 0.150 | | - 0.150 | | **Para 4.1**<br>**Para 4.1** |
| Arian Wrth Gefn ar gyfer Cost Newid | - 0.092 | | - 0.092 | | **Para 4.1** |
| Costau Diswyddo | 0.100 | | 0.100 | | **Para 4.1** |
| Arbedion Diswyddiadau Gwirfoddol | 0.300 | | 0.234 | | **Para 4.1** |
| Arian Wrth Gefn Cyffredinol | 0 | | -0.004 | | **Para 4.1** |
| | | **0.158** | | **0.088** | |
| **Newidiadau yr ymrwymwyd iddynt** | | | | | |
| Ardoll y Gwasanaeth Tân | 0.043 | | 0.043 | | **Para 3.8** |
| Niferoedd Disgyblion | 0.132 | | 0.034 | | **Para 3.6** |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 0.160 | | - 0.076 | | **Para 3.7** |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 0.434 | | 0.262 | | **Para 3.5** |
| Cywiriadau Trethi Annomestig | 0.025 | | 0.101 | | **Para 3.4** |
| Contractau gafodd eu Hail-dendro | 0.087 | | 0.087 | | **Para 3.9** |
| Ailstrwythuro yn yr Ysgolion Uwchradd | 0.118 | | 0.062 | | **Para 3.10** |
| Ynys Ynni | 0.000 | | - 0.125 | | **Para 3.2** |
| Ardoll Prentisiaeth | 0.000 | | 0.040 | | **Para 3.3** |
| Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan | 0.000 | | -0.096 | | **Para 3.11** |
| Newidiadau eraill yr ymrwymwyd iddynt | 0.131 | | 0.290 | | **Para 3.12** |
| | | **1.130** | | **0.621** | |
| **Newidiadau i'r Gyllideb Staffio** | | **0.100** | | **0.065** | **Para 5.2** |
| **Pwysau ar Gyllidebau a arweinir gan y Galw** | | **0.399** | | **0.338** | **Para 6.5** |
| **Chwyddiant** | | **1.879** | | **2.023** | **Para 5.3** |
| **Arian wrth Gefn ar gyfer Dyfarniadau Cyflog** | | **0.000** | | **0.600** | |
| **Grantiau a Chyfrifoldebau Newydd** | | **0.000** | | **2.445** | **Para 5.4 / 5.5** |
| **Cyllideb Ddisymydd** | | **129.823** | | **132.337** | |

**ATODIAD 3**

| CYLLIDEB DDISYMUD 2018/19 FESUL GWASANAETH | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb** | **Cyllideb 2017/18** | **Cyllideb Ddisymud 2018/19** | **Symudiad** | **% Newid** |
| | **£ 'm** | **£ 'm** | **£ 'm** | **%** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | |
| Ysgolion | 37.299 | 37.716 | +0.417 | +1.12% |
| Addysg Ganolog | 9.477 | 9.886 | +0.409 | +4.32% |
| Diwylliant | 1.379 | 1.368 | -0.011 | -0.80% |
| **Cyfanswm Dysgu Gydol Oes** | **48.154** | **48.970** | **+0.815** | **+1.69%** |
| | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | |
| Priffyrdd | 6.442 | 6.572 | +0.130 | +2.02% |
| Gwastraff[1] | 6.303 | 7.364 | +1.061 | +16.83% |
| Eiddo | 1.025 | 1.022 | -0.003 | -0.29% |
| **Cyfanswm Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | **13.770** | **14.958** | **+1.188** | **+8.63%** |
| | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | |
| Datblygu Economaidd a Morwrol | 1.167 | 1.065 | -0.102 | -8.74% |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2.174 | 2.158 | -0.016 | -0.74% |
| Hamdden | 0.786 | 0.751 | -0.035 | -4.45% |
| **Cyfanswm Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | **4.127** | **3.974** | **-0.153** | **-3.71%** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion**[2] | **22.814** | **24.962** | **+2.148** | **+9.41%** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** [3] | **7.647** | **8.224** | **+0.577** | **+7.54%** |
| | | | | |
| **Trawsnewid Corfforaethol** | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1.221 | 1.262 | +0.041 | +3.40% |
| TGCh | 1.690 | 1.748 | +0.058 | +3.43% |
| Trawsnewid | 0.833 | 0.911 | +0.078 | +9.36% |
| **Cyfanswm Trawsnewid Corfforaethol** | **3.744** | **3.921** | **+0.177** | **+4.73%** |
| | | | | |
| **Tai** | **1.027** | **1.006** | **-0.021** | **-2.04%** |
| | | | | |
| **Adnoddau** | **2.778** | **2.945** | **+0.167** | **+6.01%** |
| | | | | |
| **Busnes y Cyngor** | **1.517** | **1.547** | **+0.030** | **+1.98%** |
| | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **105.579** | **110.507** | **+4.928** | **+4.67%** |
| **Cyllidebau Corfforaethol** | | | | |
| Rheolaeth gorfforaethol | 0.761 | 0.729 | -0.032 | -4.20% |
| Ardollau | 3.335 | 3.378 | +0.043 | +1.29% |
| Corfforaethol a Democrataidd | 1.915 | 1.946 | +0.031 | +1.62% |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 8.149 | 8.511 | +0.362 | +4.44% |
| Ad-daliadau CRT | -0.622 | -0.622 | 0.000 | 0.00% |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 5.600 | 5.524 | -0.076 | -1.35% |
| Argyfyngau | 1.681 | 2.302 | +0.621 | +36.94% |
| Rhyddhad Dewisol yn y Dreth | 0.060 | 0.060 | 0.000 | 0.00% |
| Arbedion Corfforaethol | -0.300 | 0.000 | -0.300 | - |
| **Cyfanswm Cyllidebau Corfforaethol** | **20.579** | **21.830** | **+1.1251** | **+6.07** |
| | | | | |
| **CYFANSWM Y GYLLIDEB** | **126.158** | **132.337** | **6.179** | **+4.90%** |

[1] Roedd y cynnydd yn cynnwys £920k o grant a drosglwyddwyd i'r setliad
[2] Roedd y cynnydd yn cynnwys £1,262k o grant a drosglwyddwyd i'r setliad
[3] Roedd y cynnydd yn cynnwys £144k o grant a drosglwyddwyd i'r setliad

**ARBEDION CYLLIDEB ARFAETHEDIG 2018/19**

| Arbediad Arfaethedig | Gwasanaeth | Arbediad Tebygol £'000 |
|---|---|---|
| **Arbedion arfaethedig i'w cynnwys yn yr Ymgynghoriad ar y Gyllideb** | | |
| Cynyddu incwm ymwelwyr Oriel Ynys Môn drwy roi mwy o bwyslais ar ei farchnata. | Dysgu Gydol Oes | 15 |
| Lleihau costau staffio canolog yn y Gwasanaeth Dysgu (Addysg a Diwylliant). | Dysgu Gydol Oes | 30 |
| Cwblhau'r broses o drawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar. Bydd lefel yr arbediad yn dibynnu ar benderfyniad y Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd 2017. | Dysgu Gydol Oes | Amcangyrif 50 |
| Cyfuno swyddi o fewn y Gwasanaeth i greu un swydd. | Dysgu Gydol Oes | 25 |
| Toriadau pellach i'r grantiau diwylliant i fudiadau megis Canolfan Ucheldre (Caergybi), papurau bro a Cwmni'r Frân Wen. | Dysgu Gydol Oes | 20 |
| Cynyddu ffioedd Clwb Brecwast Ysgol o 75c i £1 am y cyfnod rhwng 8.00 - 8.25yb. Ni fydd y cynnydd hwn yn gysylltiedig â chostau'r clybiau brecwast. | Dysgu Gydol Oes | 15 |
| Cynyddu'r ffioedd ar gyfer tocynnau bws o dan y cynllun seddi gwag gan 10% (£12) i'r plant hynny sydd yn byw o fewn 3 milltir i Ysgol Uwchradd a 2 filltir i'r ysgol gynradd. | Dysgu Gydol Oes | 10 |
| Lleihau'r costau rheoli ar gyfer y gwasanaeth dysgu cerddoriaeth trwy adolygu'r trefniadau comisiynu mewn cydweithrediad â'r tiwtoriaid presennol tra'n cynnal y gwasanaeth presennol i blant. | Dysgu Gydol Oes | 86 |
| Cynnal cyllidebau'r ysgolion ar yr un lefel a 2017/18. Fodd bynnag, bydd angen i ysgolion gyllido cost dyfarniadau cyflog a chwyddiant o'i cyllidebau presennol. | Dysgu Gydol Oes | 563 |
| Datganoli mwy o gyllidebau cynnal a chadw i'r ysgolion. | Dysgu Gydol Oes | 100 |
| Ail-dendro'r contract torri glaswellt mewn ysgolion yn lotiau llai er mwyn sicrhau prisiau is erbyn Ebrill 2018. | Dysgu Gydol Oes | 50 |
| Gydag agoriad Cynllun Gofal Ychwanegol Hafan Cefni, Llangefni, ym Mai 2018, bydd yn caniatau i ni gau Cartref Preswyl Plas Penlan, Llangefni. | Oedolion | 190 |

| Arbediad Arfaethedig | Gwasanaeth | Arbediad Tebygol £’000 |
|---|---|---|
| Cynyddu taliadau uniongyrchol gan gleientiaid i roi mwy o ddewis i deuluoedd i drefnu eu pecynnau gofal ar gost is. | Oedolion | 30 |
| Newid y ddarpariaeth o’r gwasanaeth gyda’r nod o sicrhau bod mwy o gleientiaid yn gallu aros yn eu cartrefi neu yn cael eu lleoli yn ein tai gofal ychwanegol yn hytrach na’u lleoli mewn cartrefi preswyl. | Oedolion | 92 |
| Rheoli gofyn am wasanaeth gofal cartref drwy hybu mwy o gefnogaeth cymunedau a rhwydweithiau personol i alluogi pobl i barhau i fyw’n annibynnol. | Oedolion | 38 |
| Lleihau swyddi yn y Gwasanaeth Priffyrdd wrth i swyddi ddod yn wag. | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 120 |
| Lleihau costau trafnidiaeth cyhoeddus drwy ddod â’r teithiau defnydd isel, canlynol, i ben –<br>a. 07.13 Amlwch i Langefni (dyddiol)<br>b. 12.34 Llannerch-y-medd i Fangor (pnawn Sadwrn)<br>c. 14.18 Bangor i Carmel (pnawn Sadwrn)<br>d. 15.32 Carmel i Fangor (pnawn Sadwrn)<br>e. 16.40 Bangor i Rhos-y-bol (pnawn Sadwrn) | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 15 |
| Cynyddu ffioedd parcio yn uwch na chwyddiant (3%) tra’n cadw’r ffioedd 50c am hanner awr a £1 am awr. | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 5 |
| Lleihau’r gyllideb ar gyfer costau atgyweiriadau a cynnal a chadw goleuo stryd yn dilyn y buddsoddiad mewn goleuadau LED. | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 20 |
| Gostwng costau cerbydau/teithio drwy gynyddu’r defnydd o gerbydau electric / LPG a thrwy wneud mwy o ddefnydd o gerbydau a logir drwy gontract. | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 40 |
| Cynyddu incwm mân-ddaliadau drwy newid y cytundebau ar gyfer tenantiaid newydd. | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 25 |
| Lleihau costau’r deunyddiau glanhau ar draws adeiladau’r Cyngor. | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 25 |
| Cynyddu incwm a ddaw o stadau diwydiannol y Cyngor pan yn adnewyddu cytundebau contractau a phrydlesau. | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 35 |

| Arbediad Arfaethedig | Gwasanaeth | Arbediad Tebygol £’000 |
|---|---|---|
| Cyflogi plymar mewnol i wneud gwaith cynnal a chadw arferol yn lle defnyddio is-gontractwyr. | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 20 |
| Lleihau’r nifer o swyddi o fewn y Gwasanaeth Eiddo. | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 35 |
| Trosglwyddo toiledau cyhoeddus i sefydliadau eraill. | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 30 |
| Rhesymoli capasiti o fewn y gwasanaeth – Cynllunio / Uned Polisi ar y Cyd / Gwarchod y Cyhoedd / Datblygu Economaidd. | Rheoleiddio ac Economaidd | 92 |
| Cynyddu’r incwm a gynhyrchir gan Gwarchod y Cyhoedd o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd. | Rheoleiddio ac Economaidd | 8 |
| Gwella rheolaeth a defnydd effeithlon o Wardeiniaid Traethau a Chynorthwywyr llithfra. | Rheoleiddio ac Economaidd | 20 |
| Allanoli caffi Canolfan Hamdden Caergybi | Rheoleiddio ac Economaidd | 5 |
| Cynyddu’r incwm a gynhyrchir o ddarparu Tystysgrifau Perfformiad Ynni ac wrth ymgymryd â gwaith i Gymdeithasau Tai arall. | Tai | 23 |
| Dileu swydd Atal Twyll a swyddi gwag arall o fewn y Gwasanaeth Trawsnewid. | Corfforaethol | 45 |
| Creu incwm drwy alluogi busnesau lleol / rhanbarthol i hysbysebu ar wefan y Cyngor. | Trawsnewid | 6 |
| Rhoi’r gorau i fynychu Sioe Môn. | Trawsnewid | 6 |
| Adolygu Polisi DRI y Cyngor er mwyn lleihau’r ddarpariaeth refeniw isaf statudol sydd yn cael ei osod o’r neilltu i gyllido ad-dalu benthyciadau tymor hir. | Corfforaethol | 1,000 |
| **CYFANSWM ARBEDION ARFAETHEIDIG I’W CYNNWYS YN YR YMGYNGHORIAD AR Y GYLLIDEB** | | **2,889** |
| **Arbedion Arfaethedig i’w gwireddu heb fynd i ymgynghori** | | |
| Arbedion cyffredinol o fewn cyllidebau amrywiol o fewn y Gwasanaeth Trawsnewid. | Trawsnewid | 11 |
| Canoli’r ddarpariaeth arlwyo cartrefi preswyl y Cyngor i ddau ganolfan. | Oedolion | 100 |

| Arbediad Arfaethedig | Gwasanaeth | Arbediad Tebygol £’000 |
|---|---|---|
| Dileu’r hyn sydd dros ben o gyllideb y Tîm Rheoli Corfforaethol. | Corfforaethol | 75 |
| Dileu’r cyllideb sydd dros ben o’r Bartneriaeth rhwng Gwynedd a Môn. | Corfforaethol | 80 |
| Dileu cyllideb Rheolaeth Risg sydd heb ei ddefnyddio. | Corfforaethol | 41 |
| Lleihau’r cyllideb Pensiwn hanesyddol. | Corfforaethol | 100 |
| **CYFANSWM ARBEDION ARFAETHEDIG I’W GWIREDDU HEB FYND I YMGYNGHORI** | | **407** |
| | | |
| **CYFANSWM ARBEDION ARFAETHEDIG 2018/19** | | **3,296** |